# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 18 Ionawr 2012
Wednesday, 18 January 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

24 Cwestiynau i’r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

49 Pwynt o Drefn
Point of Order

49 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar
Welsh Conservatives Debate: Early Years Programmes

81 Pwynt o Drefn
Point of Order

81 Dadl Plaid Cymru: Byrddau Iechyd Lleol
Plaid Cymru Debate: Local Health Boards

108 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Band Eang
Welsh Liberal Democrats Debate: Broadband

133 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

141 Dadl Fer: Mae gan Bobl Hŷn Hawliau Hefyd
Short Debate: Older People Have Rights Too


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Prynhawn da. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
## Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

### Gwariant ar Gemau Olympaidd Llundain

***1. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu defnyddio'r £8.9 miliwn ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth y DU i adlewyrchu'r gwariant ar Gemau Olympaidd Llundain. OAQ(4)0072(FIN)*

### Spending on the London Olympics

***1. Nick Ramsay:*** *Will the Minister make a statement on how she intends to make use of the extra £8.9 million received from the UK Government to reflect the spending on the London Olympics. OAQ(4)0072(FIN)*

### Y Gemau Olympaidd

***6. Leanne Wood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y symiau ariannol canlyniadol i Gymru sy'n deillio o'r Gemau Olympaidd yn Llundain eleni. OAQ(4)0073(FIN)*

### The Olympic Games

***6. Leanne Wood:*** *Will the Minister make a statement on the financial consequentials for Wales resulting from the Olympic games in London this year. OAQ(4)0073(FIN)*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** This funding, which is available for use in the current year, has been added to reserves in the normal way and will be allocated in line with Welsh Government priorities at the next supplementary budget.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae'r cyllid hwn, sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y flwyddyn gyfredol, wedi ei ychwanegu i'r cronfeydd wrth gefn yn y ffordd arferol, a bydd yn cael ei ddyrannu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y gyllideb atodol nesaf.

**Nick Ramsay:** I thank the Finance Minister for that answer. I am sure that you will join me in welcoming the fact that the Barnettisation of money for the Olympics has, at long last, been resolved by the UK coalition Government. I am sure that we all welcome that fact. On this extra £8.9 million, I think that I am right in saying that, in London, there was confusion about that money because it was spending on infrastructure. That money was earmarked for regeneration infrastructure. As regards how the money will be spent in Wales, could you tell us if you intend for it to be spent on infrastructure also, bearing in mind that there are big issues with the M4 between the Severn bridge and Newport in particular, or do you intend to see that money being spent on other projects?

**Nick Ramsay:** Diolchaf i'r Gweinidog Cyllid am yr ateb hwnnw. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r ffaith bod Llywodraeth glymblaid y DU, o'r diwedd, wedi sicrhau y bydd fformiwla Barnett yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r arian ar gyfer y Gemau Olympaidd. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn croesawu'r ffaith honno. O ran yr £8.9 miliwn ychwanegol hwn, tybiaf fy mod yn iawn wrth ddweud bod dryswch yn Llundain ynghylch yr arian hwnnw oherwydd mai gwariant ar seilwaith ydoedd. Roedd yr arian hwnnw wedi'i glustnodi ar gyfer seilwaith adfywio. O ran sut y bydd yr arian yn cael ei wario yng Nghymru, a allwch ddweud wrthym a ydych yn bwriadu iddo gael ei wario ar seilwaith hefyd, o gofio bod problemau mawr mewn perthynas â'r M4 rhwng pont Hafren a

Chasnewydd yn arbennig, neu a fydd yr arian hwnnw'n cael ei wario ar brosiectau eraill?

**Jane Hutt:** In line with established practice, any consequentials from the UK Government's announcements are added to our reserves and considered in the context of either our in-year financial management or the budget planning process. Indeed, I will publish the second supplementary budget for 2011-12 shortly, which will set out how the Welsh Government proposes to allocate its remaining reserves, which include this £8.9 million.

**Jane Hutt:** Yn unol â'r arfer sefydledig, caiff unrhyw symiau canlyniadol o gyhoeddiadau Llywodraeth y DU eu hychwanegu at ein cronfeydd wrth gefn a'u hystyried yng nghyd-destun naill ai rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol neu broses cynllunio'r gyllideb. Yn wir, byddaf yn cyhoeddi'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2011-12 yn fuan, a fydd yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu ei chronfeydd wrth gefn sy'n weddill, sy'n cynnwys yr £8.9 miliwn hwn.

**Leanne Wood:** This money relates to money spent since the formation of the Conservative and Liberal Democrat coalition Government in London. What did Wales receive before May 2010 when Labour had the keys to No. 10? The answer to that question is 'nothing'. Just a month ago, you said that lessons needed to be learned. If we ignore the £100 million of lottery funding that was diverted from Wales and to the Olympic games, will you acknowledge that if Labour had stood up for Wales while in power in Westminster, we would have received an additional £320 million?

**Leanne Wood:** Mae'r arian hwn yn ymwneud â'r arian a wariwyd ers ffurfio Llywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain. Beth a gafodd Cymru cyn mis Mai 2010, pan oedd gan Lafur yr allweddi i Rif 10? Yr ateb i'r cwestiwn hwnnw yw 'dim'. Dim ond mis yn ôl, dywedasoch fod angen dysgu gwersi. Os ydym yn anwybyddu'r £100 miliwn o arian loteri a gafodd ei ddargyfeirio o Gymru i'r gemau Olympaidd, a ydych yn derbyn pe byddai Llafur wedi sefyll dros Gymru pan oedd mewn grym yn San Steffan, byddem wedi cael £320 miliwn yn ychwanegol?

**Jane Hutt:** I made a statement on 22 December, when the resolution was agreed, and our stance as Labour Welsh Ministers has been clear since October 2007. We were clear that we were due a consequential and we pressed the case for that. I accept that the resolution does not fully recompense the Welsh Government with the consequential that we should have received, but, since 2010, as Minister for finance, I have been working with my counterparts in the Scotland and Northern Ireland Governments to ensure that we get a resolution to this dispute. I am sure that you welcome this consequential.

**Jane Hutt:** Gwneuthum ddatganiad ar 22 Rhagfyr, pan gytunwyd ar y penderfyniad, a bu ein safbwynt fel Gweinidogion Llafur Cymru yn glir ers mis Hydref 2007. Roeddem yn glir bod swm canlyniadol yn ddyledus inni a phwysleisiwyd yr achos o blaid hynny gennym. Rwyf yn derbyn nad yw'r penderfyniad yn ad-dalu'r swm canlyniadol llawn y dylem fod wedi'i gael i Lywodraeth Cymru, ond, ers 2010, fel y Gweinidog cyllid, bûm yn gweithio gyda fy nghymheiriaid yn Llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod yr anghydfod hwn yn cael ei ddatrys. Rwyf yn siŵr eich bod yn croesawu'r swm canlyniadol hwn.

**Ieuan Wyn Jones:** Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, a ydych yn cydnabod bod yn rhaid newid y ffordd yr ydym yn delio â chwynion ynghylch symiau canlyniadol i sicrhau tegwch i'r gweinyddiaethau datganoledig? Onid yw'n hen bryd felly i'r Trysorlys, pwy bynnag sydd mewn grym yn Llundain, i

**Ieuan Wyn Jones:** In looking to the future, do you recognise that we need to change the way in which we deal with disputes about consequentials in order to ensure fairness for the devolved administrations? Is it not therefore time that the Treasury, regardless of the party in power in London, accepted that

dderbyn y dylid cael person neu gorff annibynol i ddyfarnu lle bo anghydfod yn codi a lle mae'r broses gymodi honno wedi methu?

there should be an independent person or body to make adjudications where a dispute arises and where conciliation has failed?

**Jane Hutt:** It was important that we had a dispute resolution procedure to enable us to get to the point that we have now reached in getting this consequential. This was agreed as a result of the joint ministerial committee that was pressing for a resolution procedure of this kind. It is important—and you make a very fair point as leader of Plaid Cymru—that we look at the ways in which we can ensure that we get consequentials when they are due, and this dispute resolution indicates that devolution does work in delivering that money.

**Jane Hutt:** Roedd yn bwysig bod gennym weithdrefn datrys anghydfod i'n galluogi i gyrraedd y pwynt rydym bellach wedi'i gyrraedd o ran cael y swm canlyniadol hwn. Cytunwyd ar hyn o ganlyniad i'r cydbwyllgor Gweinidogion a oedd yn pwyso am weithdrefn benderfynu o'r fath. Mae'n bwysig—ac rydych yn gwneud pwynt teg iawn fel arweinydd Plaid Cymru—ein bod yn edrych ar y ffyrdd y gallwn sicrhau ein bod yn cael symiau canlyniadol pan fyddant yn ddyledus, ac mae'r datrysiad i'r anghydfod yn dangos bod datganoli yn gweithio wrth ddarparu'r arian hwn.

**Ieuan Wyn Jones:** Ond y realiti, Weinidog, fel yr ydych yn cydnabod, yw bod y Trysorlys yn penderfynu ar y gŵyn a sut i ddelio â honno yn y pen draw. Yr ydym angen corff annibynnol; corff sy'n annibynnol ar y gweinyddiaethau datganoledig a'r Trysorlys i wneud penderfyniad ar gywirdeb, neu fel arall, y cais am yr arian. Felly, a yw'r Gweinidog yn derbyn bod angen i ni edrych ar eiriad datganiad polisi cyllid y Trysorlys, a pha gamau y mae'r Gweinidog a'r Prif Weinidog yn eu cymryd i godi'r mater ymhellach yng nghyd-bwyllgor y Gweinidogion i sicrhau bod Gweinidogion a Phrif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cytuno y dylid gwneud cais arall i'r Trysorlys i sicrhau corff annibynnol i ddelio â chwynion?

**Ieuan Wyn Jones:** The reality, Minister, as you recognise, is that the Treasury determines any dispute and how it will be dealt with. We need an independent body; a body that is independent of the devolved administrations and the Treasury to make decisions on the correctness or otherwise of any bids for money. Therfore, does the Minister accept that we need to look at the wording of the Treasury's finance policy, and what steps are the Minister and the First Minsiter taking to raise this matter further in the joint ministerial committee in order to ensure that the Ministers and First Ministers of Scotland and Northern Ireland agree that another bid should be made to the Treasury to establish an independent body to deal with disputes?

**Jane Hutt:** The statement of funding policy is an agreement that we have been working to improve in order to ensure that we have that independence, as you rightly say. This was also a recommendation made by Gerry Holtham in his independent review of funding in Wales, and he recommended that the Office for National Statistics could be such an independent body and vehicle. I am sure that we will pursue these questions when we have our next quadrilateral meeting, and at the JMC.

**Jane Hutt:** Mae'r datganiad o bolisi cyllid yn gytundeb y buom yn gweithio i'w wella er mwyn sicrhau bod gennym yr annibyniaeth honno, fel y dywedwch yn gywir. Roedd hyn hefyd yn argymhelliad a wnaed gan Gerry Holtham yn ei adolygiad annibynnol o ariannu yng Nghymru, ac argymhellodd y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod yn gorff a chyfrwng annibynnol o'r fath. Rwyf yn siŵr y byddwn yn mynd ar drywydd y cwestiynau hyn pan fyddwn yn cynnal ein cyfarfod pedairochrog nesaf, ac yn y cyd-bwyllgor Gweinidogion.

**Mohammad Asghar:** Minister, now that we have fewer than 200 days until the Olympics

**Mohammad Asghar:** Weinidog, gan fod llai na 200 diwrnod hyd nes y cynhelir y Gemau

and Paralympic Games in London, how will the residents and business people of South Wales East benefit from these consequentials, and what discussions have you had with your fellow Assembly Members to ensure that every region benefits from financial consequentials?

Olympaidd a Pharalympaidd yn Llundain bellach, sut fydd trigolion a phobl busnes Dwyrain De Cymru yn elwa ar y symiau canlyniadol hyn, a pha drafodaethau a gawsoch â'ch cyd-Aelodau Cynulliad i sicrhau y bydd pob rhanbarth yn elwa ar y symiau canlyniadol?

**Jane Hutt:** This is clearly at the forefront of Huw Lewis's role as Minister for Housing, Regeneration and Heritage, where responsibility for sport lies.

**Jane Hutt:** Mae hyn yn amlwg yn flaenoriaeth i Huw Lewis fel y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, sy'n gyfrifol am chwaraeon.

### Cynlluniau Cyllideb

### Budget Plans

***2. Ken Skates:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd cynlluniau cyllideb Llywodraeth Cymru yn helpu De Clwyd dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0065(FIN)*

***2. Ken Skates:*** *Will the Minister outline how the Welsh Government's budget plans will help Clwyd South over the next twelve months. OAQ(4)0065(FIN)*

**Jane Hutt:** The budget plans that were approved last month underpin our ambitions for the whole of Wales as set out in the programme for government. They demonstrate our commitment to support the economy, improve front-line public services and protect the most vulnerable in our society.

**Jane Hutt:** Mae'r cynlluniau cyllidebol a gafodd eu cymeradwyo fis diwethaf yn sail i'n huchelgais ar gyfer Cymru gyfan fel y nodir yn y rhaglen lywodraethu. Maent yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi'r economi, yn gwella gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac yn amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Kenneth Skates:** The results of the Wrexham Year of Culture 2011 highlighted that the festival pulled in an estimated £2 million for local businesses, more than double the original estimate. It is also estimated that about 0.5 million people visited the area over the course of 12 months, and the centrepiece of the year, of course, was the National Eisteddfod, which was visited by 211,000 people, and which helped to bring in a cash boost, in the third quarter alone, of over £1million. Would you agree that, in these difficult times, we need to be creative in how we boost economic growth, and will you ensure that the Welsh Government works closely with local councils and other partners to ensure that we maximise our distinct identities in a way that produces an economic pay-off?

**Kenneth Skates:** Amlygodd canlyniadau Blwyddyn Diwylliant Wrecsam 2011 y ffaith bod yr ŵyl yn dod â thua £2 filiwn i fusnesau lleol, sef mwy na dwbl yr amcangyfrif gwreiddiol. Amcangyfrifir hefyd bod tua 0.5 miliwn o bobl wedi ymweld â'r ardal dros gyfnod o 12 mis, a chanolbwynt y flwyddyn, wrth gwrs, oedd yr Eisteddfod Genedlaethol, a ddenodd 211,000 o bobl, ac a helpodd i ddod â hwb ariannol, yn y trydydd chwarter yn unig, o dros £1 filiwn. Yn y cyfnod anodd hwn, a fyddech yn cytuno bod angen inni fod yn greadigol yn y ffordd rydym yn hybu twf economaidd, ac a fyddwch yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chynghorau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein hunaniaeth arbennig mewn ffordd sy'n sicrhau budd economaidd?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Clwyd South for that question. I agree that these difficult economic times make it vital that we use all the levers available to us to stimulate economic growth. That is why we used the £38.9 million economic stimulus package to

**Jane Hutt:** Rwyf yn diolch i'r Aelod dros Dde Clwyd am y cwestiwn hwnnw. Rwyf yn cytuno bod y cyfnod economaidd anodd hwn yn ei gwneud yn hanfodol ein bod yn defnyddio pob dull sydd ar gael inni i ysgogi twf economaidd. Dyna pam ein bod yn

support the skills and apprenticeship agenda, and the £55 million package to support business growth in Wales.

defnyddio'r £38.9 miliwn yn y pecyn ysgogi economaidd i gefnogi'r agenda sgiliau a phrentisiaeth, a'r pecyn gwerth £55 miliwn i gefnogi twf busnes yng Nghymru.

**Mark Isherwood:** Given the high levels of worklessness and the need for economic regeneration in areas such as the Dee valley, Ceiriog valley and the surrounding areas, what consideration have you given in your budget plans to projects such as the Llangollen rail extension to Corwen, the Dee valley tramway trust, the Cefn Mawr Plas Kynaston Canal Group and the Brymbo Heritage Group as a whole?

**Mark Isherwood:** O ystyried y lefelau uchel o ddiweithdra a'r angen am adfywio economaidd mewn ardaloedd fel dyffryn Dyfrdwy, dyffryn Ceiriog a'r ardaloedd cyfagos, pa ystyriaeth ydych wedi'i rhoi yn eich cynlluniau cyllidebol i brosiectau fel yr estyniad i'r rheilffordd rhwng Llangollen a Chorwen, ymddiriedolaeth dramffordd dyffryn Dyfrdwy, Grŵp Camlas Cefn Mawr Plas Kynaston a Grŵp Treftadaeth Brymbo yn gyffredinol?

**Jane Hutt:** I am sure that those are important schemes that will be progressed via the local authority and the national transport plan.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr bod y cynlluniau hyn yn rhai pwysig a fydd yn cael eu datblygu drwy gyfrwng yr awdurdod lleol a'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae busnesau bach yn Ne Clwyd yn gyson yn codi gyda minnau y ffaith mai un o'r beichiau mwyaf ar hyfywedd eu busnes yw treth busnes. A fyddech yn cytuno ei bod hi'n resyn nad yw'ch Llywodraeth chi wedi gwneud mwy yn ei chyllideb i ddarparu cymorth, yn enwedig yng nghyd-destun estyn cymorth ardrethi busnes i'r busnesau hynny yn Ne Clwyd, ac yn wir yng Nghymru yn ehangach?

**Llyr Huws Gruffydd:** Small businesses in Clwyd South regularly raise the point with me that one of the greatest burdens on the viability of their business are business rates. Would you agree that it is regrettable that your Government did not do more in its budget to provide assistance, particularly in the context of extending business rate relief, to those businesses in Clwyd South and, indeed, in the rest of Wales?

**Jane Hutt:** We, as a Government, and the One Wales Government, were pleased to accept the extension of business rate support, and I am delighted that in the autumn statement we had a further extension of business rate support for businesses, including those in south Clwyd that will benefit from it, and I am sure that you would welcome that.

**Jane Hutt:** Roeddem ni, fel Llywodraeth, a Llywodraeth Cymru'n Un, yn falch o dderbyn yr estyniad i'r cymorth trethi busnes, ac rwyf wrth fy modd y cawsom estyniad pellach yn natganiad yr hydref i'r cymorth ardrethi busnes i fusnesau, gan gynnwys y busnesau yn ne Clwyd a fydd yn elwa arno, ac rwyf yn siŵr y byddech yn croesawu hynny.

### Prosiectau Seilwaith

### Infrastructure Projects

***3. David Melding:*** *Yn ystod y broses cynllunio'r gyllideb ddiweddar, a wnaeth y Gweinidog gyfarfod â Chynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru i drafod sut i gyllido prosiectau seilwaith. OAQ(4)0064(FIN)*

***3. David Melding:*** *During the recent budget planning process did the Minister meet with the Wales Construction Federation Alliance to discuss the financing of infrastructure projects. OAQ(4)0064(FIN)*

**Jane Hutt:** I regularly meet with cross-sectoral organisations to take account of the

**Jane Hutt:** Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd â sefydliadau traws-sector i ystyried y

views expressed when considering budget allocations. As I take forward the work on the Wales infrastructure investment plan, I will continue to consult with key stakeholders, including the newly formed alliance.

sylwadau a wnaethpwyd wrth ystyried dyraniadau cyllideb. Wrth i mi fwrw ymlaen â'r gwaith ar y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, byddaf yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y gynghrair sydd newydd ei ffurfio.

**David Melding:** It is newly formed, although some of the units that form it have been there a long time. I hope that you will be meeting with the construction sector and the alliance that represents them. Do you agree with me that such interaction with the Government and the private sector—indeed, the whole civic sector—is essential if the Wales infrastructure investment plan is to succeed, because levering in as much capital as we can from public spend will be key in the next generation? I welcome the intention to establish an infrastructure plan because that is the sort of vision that we need in order to improve infrastructure so that we achieve profound economic regeneration.

**David Melding:** Mae'r gynghrair newydd ei ffurfio, er y bu rhai o'r unedau sy'n rhan ohoni yno am amser maith. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cyfarfod â'r sector adeiladu a'r gynghrair sy'n ei gynrychioli. A ydych yn cytuno bod y math hwn o ryngweithio rhwng y Llywodraeth a'r sector preifat—yn wir, y sector dinesig cyfan—yn hanfodol os yw'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru yn mynd i lwyddo, oherwydd bydd denu cymaint o gyfalaf ag y gallwn o wariant cyhoeddus yn allweddol yn y genhedlaeth nesaf? Rwyf yn croesawu'r bwriad i sefydlu cynllun seilwaith, oherwydd dyna'r fath o weledigaeth sydd ei hangen arnom i wella seilwaith er mwyn inni sicrhau adfywiad economaidd cryf.

**Jane Hutt:** I thank David Melding for that positive question. The newly established Wales construction federation alliance is represented on the construction strategy steering group, which I set up in December 2010. As regards the Wales infrastructure investment plan, we recognise the importance of developing a national-level, cross-sectoral view of infrastructure planning, which will take a long-term view of our investment priorities. The alliance will feed into the development of that plan.

**Jane Hutt:** Diolchaf i David Melding am y cwestiwn cadarnhaol hwnnw. Mae cynghrair ffederasiwn adeiladu Cymru, sydd newydd ei sefydlu, yn cael ei gynrychioli yn y grŵp llywio ar y strategaeth adeiladu a sefydlwyd gennyf ym mis Rhagfyr 2010. O ran y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu safbwynt ar gynllunio seilwaith ar lefel cenedlaethol a thraws-sector, a fydd yn edrych ar ein blaenoriaethau buddsoddi yn y tymor hir. Bydd y gynghrair yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun hwnnw.

**Alun Ffred Jones:** As a Minister in the One Wales Government, you sent a letter to the Westminster Government, and a meeting was set up between officials, to discuss means of bringing added finance for capital projects, along the lines of the Build for Wales model, suggested by Plaid Cymru. Can you give details of any further meetings or correspondence between the Welsh Government and the Westminster Government on that proposal?

**Alun Ffred Jones:** Fel Gweinidog yn Llywodraeth Cymru'n Un, gwnaethoch anfon llythyr at Lywodraeth San Steffan, a threfnwyd cyfarfod rhwng swyddogion i drafod ffyrdd o ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf, sy'n debyg i'r model Adeiladu dros Gymru a awgrymwyd gan Plaid Cymru. A allwch roi manylion am unrhyw gyfarfodydd neu ohebiaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan ar y cynnig hwnnw?

**Jane Hutt:** I was pleased to meet with Lord Sassoon, the UK Government's infrastructure Minister, last year, not only to ensure that we were well-featured and recognised in UK

**Jane Hutt:** Roeddwn yn falch o gyfarfod â'r Arglwydd Sassoon, Gweinidog Llywodraeth y DU dros seilwaith, y llynedd, nid yn unig er mwyn sicrhau ein bod wedi ein cynnwys a'n

infrastructure programme priorities, but to begin discussions with them about our needs and developments in relation to innovative finance under the Wales infrastructure investment plan. I was also pleased to have a good, helpful meeting in Scotland with the Scottish infrastructure Minister before Christmas, where we learned more about the useful direction that the Scottish futures fund has taken.

cydnabod yn glir ym mlaenoriaethau rhaglen seilwaith y DU, ond er mwyn dechrau trafodaethau â'r Llywodraeth ynghylch ein hanghenion a datblygiadau mewn perthynas â chyllid arloesol o dan y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru. Roeddwn hefyd yn falch o gael cyfarfod da a defnyddiol yn yr Alban â'r Gweinidog dros seilwaith yno cyn y Nadolig, lle gwnaethom ddysgu mwy am gyfeiriad defnyddiol cronfa ddyfodol yr Alban.

**Dyraniad y Gyllideb i'r Portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Budget Allocation to the Local Government and Communities Portfolio**

***4. Llyr Huws Gruffydd:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniad cyffredinol y gyllideb i'r portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau. OAQ(4)0075(FIN) W*

***4. Llyr Huws Gruffydd:*** *Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Local Government and Communities portfolio. OAQ(4)0075(FIN) W*

**Jane Hutt:** Cyfanswm y gyllideb ar gyfer portffolio llywodraeth leol a chymunedau yn 2012-13 yw ychydig dros £5.1 biliwn.

**Jane Hutt:** The total budget for the local government and communities portfolio in 2012-13 is just over £5.1 billion.

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you, Minister, for that answer. Given the number of high-profile missing persons cases that we have experienced in Wales in recent weeks, which saw the bringing together of police, fire and rescue authorities, local authorities and other agencies, what provision is there in the budget to support and strengthen the co-ordination of such multi-agency responses in the future?

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. O ystyried nifer yr achosion uchel eu proffil o bobl sydd ar goll y clywsom amdanynt yng Nghymru dros yr wythnosau diwethaf, a arweiniodd at gydweithio rhwng awdurdodau'r heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, pa ddarpariaeth sydd yn y gyllideb i gefnogi a chryfhau'r broses o gydlynu ymatebion aml-asiantaeth o'r fath yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** These are matters of grave concern to us. I know that the Minister for Local Government and Communities is concerned about that; multi-agency arrangements are vital. However, the final local government settlement approved by the Assembly shows our commitment to local government in helping local authorities to take on their responsibilities in that respect.

**Jane Hutt:** Mae'r materion hyn yn peri pryder difrifol inni. Gwn fod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn pryderu amdanynt; mae trefniadau aml-asiantaeth yn hanfodol. Fodd bynnag, mae'r setliad llywodraeth leol terfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn dangos ein hymrwymiad i lywodraeth leol wrth helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'u cyfrifoldebau yn hynny o beth.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, the structural changes to the local government and communities main expenditure group in the last budget saw four spending programme areas reduced to zero: local taxation policy; inspection, regulation and performance frameworks; local and regional collaboration;

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, arweiniodd y newidiadau strwythurol i'r prif grŵp gwariant llywodraeth leol a chymunedau yn y gyllideb ddiwethaf at ostwng y pedwar maes rhaglen wariant i sero: polisi trethiant lleol, fframweithiau arolygu, rheoleiddio a pherfformiad; cydweithio lleol

and efficiency and innovation. How are you working with the Minister for Local Government and Communities to monitor the outcomes of these structural changes?

a rhanbarthol; ac effeithlonrwydd ac arloesi. Sut ydych chi'n gweithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i fonitro canlyniadau'r newidiadau strwythurol hyn?

1.45 p.m.

**Jane Hutt:** Financial support for the local government budget line increases from £4.209 billion to £4.24 billion in 2011-12, and rises again in 2014-15. I am working closely with the Minister for Local Government and Communities to ensure that needs are recognised and that any changes that need to take place are accepted.

**Jane Hutt:** Mae cymorth ariannol ar gyfer y llinell llywodraeth leol yn y gyllideb yn cynyddu o £4.209 biliwn i £4.24 biliwn yn 2011-12, ac yn codi unwaith eto yn 2014-15. Rwyf yn cydweithio'n agos â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i sicrhau bod anghenion yn cael eu cydnabod a bod unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn cael eu derbyn.

**Mike Hedges:** I am sure that you will remember that the three opposition parties here suggested before Christmas that budgets be increased in every area apart from that of local government and communities. Since the final budget was passed, has that resulted in any difference in the allocation to the local government and communities portfolio? If so, will you outline how the current allocation for local government in Wales compares with that in England?

**Mike Hedges:** Rwyf yn siŵr eich bod yn cofio bod y tair gwrthblaid yma wedi awgrymu cyn y Nadolig y dylid cynyddu cyllidebau ym mhob maes ar wahân i lywodraeth leol a chymunedau. Ers pasio'r gyllideb derfynol, a yw hynny wedi arwain at unrhyw wahaniaeth yn y dyraniad i'r portffolio llywodraeth leol a chymunedau? Os felly, a wnewch amlinellu sut y mae'r dyraniad presennol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn cymharu â hynny yn Lloegr?

**Jane Hutt:** There have been no changes to the allocation for the local government and communities portfolio since we passed the final budget. The settlement that we announced last year is significantly better than that in England, and council tax bills in Wales have been consistently much lower than those in England.

**Jane Hutt:** Ni fu dim newidiadau i'r dyraniad ar gyfer y portffolio llywodraeth leol a chymunedau ers inni basio'r gyllideb derfynol. Mae'r setliad a gyhoeddwyd gennym y llynedd yn sylweddol well nag yn Lloegr, a bu biliau'r dreth gyngor yng Nghymru yn llawer is na'r rheini yn Lloegr yn gyson.

### Dyrannu Grantiau

### Allocation of Grants

***5. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r broses o ddyrannu grantiau. OAQ(4)0070(FIN)*

***5. Julie Morgan:*** *What plans does the Minister have to improve the process of allocating grants. OAQ(4)0070(FIN)*

**Jane Hutt:** The grants management project was set up to improve grant administration across the Welsh Government. Officials are currently benchmarking all grants against minimum standards. A centre of excellence has been set up to provide advice and support.

**Jane Hutt:** Sefydlwyd y prosiect rheoli grantiau i wella'r broses o weinyddu grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion wrthi'n meincnodi'r holl grantiau yn erbyn safonau gofynnol. Mae canolfan ragoriaeth wedi cael ei sefydlu i roi cyngor a chefnogaeth.

**Julie Morgan:** Thank you, Minister, for that response. What support does the Welsh

**Julie Morgan:** Diolch, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Pa gymorth a gynigir gan

Government offer to applicants for Government grants from black and ethnic minority communities who may have English as a second language and may need help with understanding the criteria for the grants and with filling in the forms?

Lywodraeth Cymru i ymgeiswyr am grantiau'r Llywodraeth o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a allai fod yn siarad Saesneg fel ail iaith ac sydd, o bosibl, angen cymorth i ddeall y meini prawf ar gyfer y grantiau ac i lenwi ffurflenni?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Cardiff North for that important question, because it is vital that we ensure that our documentation for grant applications is clear. We ask all grant applicants whether they want further assistance or clarification from officials. However, I believe that we need to do more than that. I will be holding some well-resourced capacity-building workshops to assist organisations, particularly black and minority ethnic organisations, and those who have English as a second language, in making grant applications.

**Jane Hutt:** Rwyf yn diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn pwysig hwnnw, am ei bod yn hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein dogfennau ar gyfer ceisiadau grant yn glir. Rydym yn gofyn i bob un sy'n ymgeisio am grant a ydynt eisiau rhagor o gymorth neu eglurhad gan swyddogion. Fodd bynnag, credaf fod angen inni wneud mwy na hynny. Byddaf yn cynnal gweithdai meithrin gallu gydag adnoddau da i gynorthwyo sefydliadau, yn enwedig sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, a'r rheini y mae Saesneg yn ail iaith iddynt, wrth iddynt wneud ceisiadau am grantiau.

**Darren Millar:** Minister, the Welsh Government and the Welsh Local Government Association gave assurances that hypothecation within the local government funding formula would be cut down in future. However, the Wales Audit Office has found that only a relatively small number of grants had been cut out of hypothecation in the financial year 2009-10. What assurances can you give that, in order to axe some of this ridiculous bureaucracy, which costs Welsh taxpayers tens of millions of pounds every year and which ties the hands of local authorities, you will look again this year at reducing hypothecation in the funding of local government?

**Darren Millar:** Weinidog, rhoddodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sicrwydd y byddai'r arfer o neilltuo arian o fewn y fformiwla gyllido llywodraeth leol yn cael ei leihau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi canfod mai nifer cymharol fach yn unig o grantiau a dynnwyd allan o'r broses neilltuo ym mlwyddyn ariannol 2009-10. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y byddwch yn edrych eto eleni ar leihau'r arfer o neilltuo arian yn y broses o ariannu llywodraeth leol, er mwyn cael gwared ar beth o'r fiwrocratiaeth wirion hon, sy'n costio degau o filiynau o bunnoedd i drethdalwyr Cymru bob blwyddyn ac sy'n clymu dwylo'r awdurdodau lleol?

**Jane Hutt:** Local government has warmly welcomed the steps that the Minister for Local Government and Communities has taken to reducing ring-fenced grants. That is, of course, while also ensuring that Welsh Government priorities are at the forefront of local government spending.

**Jane Hutt:** Mae llywodraeth leol wedi rhoi croeso cynnes i'r camau y mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi'u cymryd i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo. Mae hynny, wrth gwrs, tra eu bod yn sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn rhan flaenllaw o wariant llywodraeth leol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, i ba raddau mae Llywodraeth Cymru yn gallu perswadio cyrff sydd yn derbyn arian ganddi, drwy gymhorthdal neu'n uniongyrchol, i ddilyn polisi dwyieithrwydd Llywodraeth

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, to what extent is the Welsh Government able to persuade the organisations that it funds, directly or by way of subsidy, to comply with the Welsh Government's policy on

Cymru? Yn ddiweddar, derbyniais ohebiaeth—yr wyf yn falch bod y Gweinidog iechyd yn bresennol—oddi wrth Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn uniaith Saesneg. Yr oedd nodyn ar ddiwedd y llythyr yn gofyn imi gysylltu â phrif swyddfa'r bwrdd iechyd lleol os oeddwn yn dymuno cael copi o'r llythyr yn y Gymraeg. Byddwn yn gobeithio y byddai Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gwybod y byddwn yn dymuno cael yr ohebiaeth honno yn y Gymraeg yn y lle cyntaf. A ydych yn derbyn bod hynny'n ymddygiad cwbl annerbyniol gan gorff sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru?

bilingualism? I recently received correspondence—I am pleased that the Minister for health is present—from the Hywel Dda Local Health Board in English only. There was a note at the end of the letter asking me to contact the health board's head office if I wanted a Welsh-medium version of the letter. I would have hoped that the Hywel Dda Local Health Board would have known that I wanted to receive correspondence in Welsh in the first place. Do you accept that such behaviour is completely unacceptable from a body that is funded by the Welsh Government?

**Jane Hutt:** It is not only unacceptable, but a matter that we would wish to be drawn to our attention. I would be grateful if you would write to me about that incident.

**Jane Hutt:** Nid yn unig fod hynny'n annerbyniol, ond byddwn yn dymuno i'r mater gael ei dynnu at ein sylw. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ysgrifennu ataf ynghylch y digwyddiad.

**Peter Black:** Minister, what protocol and processes are in place for when a body that is in receipt of a substantial amount of grant from the Welsh Government is subject to accusations of dishonesty and misappropriation of those funds?

**Peter Black:** Weinidog, pa brotocol a phrosesau sydd ar waith ar gyfer achlysuron pan fydd corff sy'n cael grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn destun cyhuddiadau o anonestrwydd ac o gamddefnyddio'r arian hwnnw?

**Jane Hutt:** That shows the key importance of having this review of grants management. We assist and guide organisations to ensure that applicants are properly supported not only in making applications for grants, but in relation to the governance and delivery of those grants. I will certainly want to come back to the Assembly with an update on developments in relation to our position on grant processes and procedures.

**Jane Hutt:** Mae hynny'n dangos pa mor bwysig yw cynnal yr adolygiad hwn o'r broses reoli grantiau. Rydym yn cynorthwyo sefydliadau ac yn rhoi canllawiau iddynt i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu cefnogi'n briodol, nid yn unig wrth geisio am grantiau, ond mewn perthynas â llywodraethu a darparu'r grantiau hynny. Byddaf yn sicr am ddod yn ôl i'r Cynulliad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau mewn perthynas â'n safbwynt ar brosesau a gweithdrefnau'r grantiau.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. I have a more specific question in relation to the money that the All Wales Ethnic Minority Association receives from the Welsh Government. You know, of course, about the accusations that are being made about that organisation, and I understand that you are investigating them. However, in terms of the money that AWEMA is receiving from the Welsh Government, has any action been taken to secure those funds and to ensure that they are being used properly? What additional monitoring is being put in place to ensure that

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae gennyf gwestiwn mwy penodol mewn perthynas â'r arian y mae Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn ei gael gan Lywodraeth Cymru. Gwyddoch, wrth gwrs, am y cyhuddiadau sy'n cael eu gwneud am y sefydliad hwnnw, a deallaf eich bod yn ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, o ran yr arian y mae AWEMA yn ei gael gan Lywodraeth Cymru, a oes camau wedi'u cymryd i ddiogelu'r arian hwnnw ac i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol? Pa gamau monitro ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr arian

that money is spent correctly?

**Jane Hutt:** Monitoring is key in relation to the allocation and granting of funds, and not just those from the Welsh Government. As you know, with regard to the body that you speak of, there is rigorous monitoring by the Welsh European Funding Office.

hwnnw'n cael ei wario'n gywir?

**Jane Hutt:** Mae monitro yn hanfodol o ran dyrannu a rhoi arian, ac nid o ran yr arian a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn unig. Fel y gwyddoch, o ran y corff rydych yn sôn amdano, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gwneud gwaith monitro trylwyr.

**Polisi Ffioedd Myfyrwyr**

**Student Fees Policy**

***7. Aled Roberts:*** *Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i'r polisi ffioedd myfyrwyr wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Addysg a Sgiliau. OAQ(4)0066(FIN)*

***7. Aled Roberts:*** *What consideration did the Minister give to the student fees policy when allocating funding to the Education and Skills portfolio. OAQ(4)0066(FIN)*

**Jane Hutt:** Cwrddais â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ystod proses y gyllideb er mwyn trafod y polisi hwn.

**Jane Hutt:** I have met the Minister for Education and Skills during the budget process to discuss this policy.

**Aled Roberts:** You will have noted that, quite rightly, the Minister for Education and Skills has indicated, in determining that some £173 million a year is required for current policy, that

'the one thing I'm certain about our forecasts is that they'll be wrong'

and that he has said:

'We've put money in the budget…but our budget only covers the next three years'.

What contingencies have you applied in order to cover any inaccuracies in the forecast that you have been given in relation to this policy?

**Aled Roberts:** Byddwch wedi sylwi bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi nodi, yn gwbl briodol, wrth benderfynu bod angen tua £173 miliwn y flwyddyn ar gyfer polisïau presennol, mai:

yr un peth rwyf yn sicr amdano o ran ein rhagolygon yw y byddant yn anghywir.

Dywedodd hefyd:

Rydym wedi rhoi arian yn y gyllideb...ond mae ein cyllideb yn cwmpasu'r tair blynedd nesaf yn unig.

Pa gynlluniau wrth gefn sydd gennych i dalu am unrhyw wallau yn y rhagolwg a roddwyd ichi mewn perthynas â'r polisi hwn?

**Jane Hutt:** The Minister for Education and Skills and I have repeatedly assured Assembly Members that funding for these policies has been included and taken into account in the budget, and that they are fully funded until 2014-15.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau wedi rhoi sicrwydd i Aelodau'r Cynulliad dro ar ôl tro fod cyllid ar gyfer y polisïau hyn wedi cael ei gynnwys a'i ystyried yn y gyllideb, a'u bod wedi'u hariannu'n llawn tan 2014-15.

**William Graham:** I note that the Universities and Colleges Admissions Service deadline for applications was only last week, but it appears that the basis is 24,000 English students studying in Wales and 16,000 Welsh students studying over the border. The Minister has promised that this policy will be fair, equitable and sustainable.

**William Graham:** Nodaf mai'r wythnos ddiwethaf oedd dyddiad cau Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ar gyfer ceisiadau, ond mae'n ymddangos, yn ôl y ffigurau sylfaenol, y bydd 24,000 o fyfyrwyr o Loegr yn astudio yng Nghymru ac y bydd 16,000 o fyfyrwyr o Gymru yn astudio dros y ffin. Mae'r Gweinidog wedi addo y bydd y

I ask again: will you have to commit extra funds to ensure that your policy can be implemented correctly?

polisi hwn yn deg, yn gyfiawn ac yn gynaliadwy. Rwy'n gofyn eto: a fydd angen ichi roi arian ychwanegol i sicrhau y gallwch weithredu eich polisi'n gywir?

**Jane Hutt:** It is important to recognise that we are at an early stage in terms of figures for UCAS applications. Early stage data can be a poor indicator of the final number of applicants. We expect these figures to fluctuate, but the key point is that we have pledged to ensure that Welsh students do not pay higher fees, wherever they study, and we are confident that we can achieve that.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig cydnabod ein bod yn gynnar yn y broses o ran ffigurau ceisiadau UCAS. Gall data cynnar fod yn ddangosydd gwael o'r nifer terfynol o ymgeiswyr. Rydym yn disgwyl y bydd y ffigurau hyn yn amrywio, ond y prif bwynt yw ein bod wedi ymrwymo i sicrhau nad yw myfyrwyr o Gymru yn talu ffioedd uwch, lle bynnag y maent yn astudio, ac rydym yn hyderus y gallwn gyflawni hynny.

**Simon Thomas:** Serch hynny, mae'n amlwg bod nifer y myfyrwyr sy'n fodlon dod o Loegr a thalu'r ffioedd llawn yng Nghymru yn llai na'r disgwyl gan y Llywodraeth. Mae hefyd yn wir fod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi gorfod rhoi cynllun newydd ar waith yn benodol ar gyfer prifysgolion yng Nghymru sy'n codi ffioedd is, er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o le ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru. A yw'r Gweinidog yn wir wedi ei pherswadio bod digon o strwythur yng nghyllideb y Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod y polisi hwn yn parhau drwy gydol tymor y Llywodraeth bresennol?

**Simon Thomas:** However, it is clear that the number of students from England willing to come to Wales and pay the full fees is lower than the Government anticipated. It is also true that the Higher Education Funding Council for Wales has had to implement a new scheme specifically for Welsh universities that charge lower fees, in order to ensure an adequate supply of places for students in Wales. Is the Minister truly convinced that the Minister for Education and Skills's budget is sufficiently structured to ensure that this policy can continue for the whole term of the current Government?

**Jane Hutt:** I have given assurances already on two points, in being clear about the funding arrangements for our policy, which I know that you have said that you support as the Plaid Cymru education spokesperson, and also in saying that it is early days in relation to assuming that the numbers of students coming to Wales to study will be reduced. I am sure that you recognise that the Minister for Education and Skills and I are working closely with Higher Education Funding Council for Wales to ensure that we can allocate this grant on behalf of students.

**Jane Hutt:** Rwyf wedi rhoi sicrwydd eisoes ynghylch dau bwynt. Rwyf wedi bod yn glir ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer ein polisi, a gwn ichi ddweud eich bod yn cefnogi'r polisi hwnnw fel llefarydd addysg Plaid Cymru. Rwyf hefyd wedi dweud ei bod yn rhy gynnar i gymryd yn ganiataol y bydd nifer y myfyrwyr sy'n dod i Gymru i astudio yn lleihau. Rwyf yn siŵr eich bod yn cydnabod bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau yn gweithio'n agos gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau y gallwn ddosbarthu'r grant hwn ar ran y myfyrwyr.

### Cyfle Cyfartal

### Equality of Opportunity

***8. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hybu cyfle cyfartal ledled Cymru. OAQ(4)0067(FIN)*

***8. Mohammad Asghar:*** *Will the Minister make a statement on how the Welsh Government intends to promote equality of opportunity across Wales. OAQ(4)0067(FIN)*

**Jane Hutt:** Our outcome-focused equality objectives and strategic equality plan, to be published in April 2012, will make a positive difference to the lives of people in Wales.

**Jane Hutt:** Mae ein hamcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'n cynllun cydraddoldeb strategol, a gyhoeddir ym mis Ebrill 2012, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru.

**Mohammad Asghar:** Thank you, Minister, for that reply. Constituents have raised with me the issue that the new service centre, next to Newport railway station, has not provided access for deaf people to use the multi-service option. Given the fact that there are vulnerable members of our community, what facilities will members of the disabled community receive to access the building and the service inside and to use the centre for advice and any other assistance, just like everyone else? Will you do something to improve that service, please?

**Mohammad Asghar:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae etholwyr wedi dwyn i'm sylw y ffaith nad yw'r ganolfan gwasanaeth newydd, ger gorsaf drenau Casnewydd, wedi darparu mynediad ar gyfer pobl fyddar i ddefnyddio'r opsiwn aml-wasanaeth. O ystyried bod pobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned, pa gyfleusterau fydd aelodau o'r gymuned anabl yn eu cael er mwyn cael mynediad i'r adeilad a'r gwasanaeth y tu mewn iddo ac i ddefnyddio'r ganolfan i gael cyngor ac unrhyw gymorth arall, yn union fel pawb arall? A wnewch rywbeth i wella'r gwasanaeth hwnnw, os gwelwch yn dda?

**Jane Hutt:** I am sure that you have raised this issue directly with the centre. It is, of course, important in terms of access and our commitment to equality of opportunity and, in particular, to disabled people. I hope that it will be progressed accordingly.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr eich bod wedi dod â'r mater hwn i sylw'r ganolfan. Wrth gwrs, mae'n bwysig o ran mynediad ac o ran ein hymrwymiad i gyfle cyfartal ac, yn arbennig, i bobl anabl. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd y mater hwn yn symud yn ei flaen.

**Rebecca Evans:** The Equality and Human Rights Commission has shown that, while the gap between the poor and the rich is smaller in Wales than it is in the UK as a whole, there are some entrenched economic inequalities in relation to gender, ethnicity, age and disability. How are you working with colleagues across Government to ensure that everyone has an equal opportunity to succeed and to fulfil their potential?

**Rebecca Evans:** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi dangos, er bod y bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn llai yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol, fod rhai anghydraddoldebau economaidd yn parhau o ran rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd. Sut ydych yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth gyfan i sicrhau bod gan bawb gyfle cyfartal i lwyddo ac i gyflawni eu potensial?

**Jane Hutt:** I thank Rebecca Evans for that question, because it links to the equality objectives that we will be publishing for consultation shortly. You will be able to see from those objectives that the Welsh Government will do everything that it can to help eliminate discrimination, promote equality and foster good relations. However, the key point in relation to economic inequalities is the link between our equality plan and our anti-poverty action plan and, of course, that is working across Government to deliver a positive difference to the lives of people in Wales.

**Jane Hutt:** Rwyf yn diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw, gan ei fod yn cysylltu â'r amcanion cydraddoldeb y byddwn yn eu cyhoeddi er mwyn ymgynghori arnynt maes o law. Byddwch yn gallu gweld o ddarllen yr amcanion hynny y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i helpu i ddileu achosion o wahaniaethu, i hyrwyddo cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da. Fodd bynnag, y prif bwynt mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd yw'r cyswllt rhwng ein cynllun cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu gwrthdlodi ac, wrth gwrs, mae hynny'n gweithio ar draws y

Llywodraeth i gyflawni gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru.

**Lindsay Whittle:** Can you tell us what efforts are being made by public sector bodies, such as local authorities and health boards, to enable young people with disabilities to gain work experience?

**Lindsay Whittle:** A allwch ddweud wrthym pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan gyrff y sector cyhoeddus, fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd, i alluogi pobl ifanc ag anableddau i gael profiad gwaith?

**Jane Hutt:** We are looking at that in relation to the emerging equality objectives, particularly recognising that we have to provide objectives that can accord with the responsibilities of local authorities and of health and other public bodies. I believe that this will result in specific equality objectives and action on that point.

**Jane Hutt:** Rydym yn ystyried hynny mewn perthynas â'r amcanion cydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig gan gydnabod bod yn rhaid inni ddarparu amcanion a all gyd-fynd â chyfrifoldebau awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill. Rwyf yn credu y bydd hyn yn arwain at amcanion cydraddoldeb penodol a chamau gweithredu ar y pwynt hwnnw.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***9. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn 2012. OAQ(4)0076(FIN)*

***9. Lynne Neagle:*** *Will the Minister outline her priorities for Torfaen in 2012. OAQ(4)0076(FIN)*

**Jane Hutt:** In the final budget, we set out our priorities for the people of Wales. We have announced investment in the fabric of Welsh society and the Welsh economy to provide the basis for growing the economy and delivering jobs.

**Jane Hutt:** Yn y gyllideb derfynol, rydym yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer pobl Cymru. Rydym wedi cyhoeddi buddsoddiad yng nghymdeithas ac economi Cymru i ddarparu'r sail ar gyfer tyfu'r economi a darparu swyddi.

**Lynne Neagle:** I recently met a local police constable who was trying to launch a project that uses sport—in particular, football—to promote better relations between the Gypsy/Traveller community and local residents in the Cwmynyscoy area of Pontypool. The scheme hopes to recruit young people from both communities and encourage them to become team players through excursions, exercises and training. It is working with Cardiff City Football Club on that aim. Minister, would you agree that more needs to be done to promote better relations and understanding between the Gypsy/Traveller community and settled communities in Wales, that projects such as this can make a difference in building those links, and will you look at what more can be done, at a Government level, to support such projects?

**Lynne Neagle:** Yn ddiweddar, cefais gyfarfod â chwnstabl heddlu lleol a oedd yn ceisio lansio prosiect sy'n defnyddio chwaraeon, a phêl-droed yn benodol, i hyrwyddo gwell cysylltiadau rhwng y gymuned Sipsiwn/Teithwyr a thrigolion lleol yn ardal Cwmynyscoi ym Mhont-y-pŵl. Mae'r cynllun yn gobeithio recriwtio pobl ifanc o'r ddwy gymuned a'u hannog i fod yn chwaraewyr tîm drwy gymryd rhan mewn gwibdeithiau, ymarferion a hyfforddiant. Mae'r cynllun yn gweithio gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ar y nod hwnnw. Weinidog, a fyddech yn cytuno bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gwell cysylltiadau a dealltwriaeth rhwng y gymuned Sipsiwn/Teithwyr a chymunedau sefydlog yng Nghymru, ac y gall prosiectau fel hyn wneud gwahaniaeth wrth feithrin y cysylltiadau hynny? A fyddwch yn ystyried beth arall y gellir ei wneud, ar lefel y Llywodraeth, i gefnogi prosiectau o'r fath?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Torfaen for that very good example. That is a project that I might like to visit, if an invitation is forthcoming. It fits clearly with 'Travelling to a Better Future', a Gypsy and Traveller framework for action and delivery plan, which I launched in 2011.

**Jane Hutt:** Rwyf yn diolch i'r Aelod dros Dor-faen am yr enghraifft dda iawn honno. Hoffwn ymweld â'r prosiect hwnnw, efallai, os caf wahoddiad. Mae'n cyd-fynd yn glir â'r ddogfen 'Teithio at Ddyfodol Gwell', sef fframwaith gweithredu a chynllun cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a lansiwyd gennyf yn 2011.

**Nick Ramsay:** Minister, may I ask you to change gear from that question and talk about health priorities and health spending in Torfaen? I recently had a meeting with the Aneurin Bevan Local Health Board and we discussed the planned new critical care centre in Llanfrechfa in Torfaen. There is a lot of support for the development in Cwmbran and the wider south-east Wales area, as the Member for Torfaen will know. However, there are still concerns about the availability of funding. Can you update us on discussions that you have had with the Minister for Health and Social Services on the scale of the funding that is available, when it will be available and when it is expected that that project will be complete and up and running?

**Nick Ramsay:** Weinidog, gofynnaf ichi newid gêr o'r cwestiwn hwnnw ac i siarad am flaenoriaethau iechyd a gwariant ar iechyd yn Nhor-faen. Yn ddiweddar, cefais gyfarfod gyda Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a thrafodwyd y ganolfan gofal critigol newydd arfaethedig yn Llanfrechfa yn Nhor-faen. Mae llawer o gefnogaeth ar gyfer y datblygiad yng Nghwmbrân ac yn ardal ehangach y de-ddwyrain, fel y gŵyr yr Aelod dros Dor-faen. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynglŷn ag argaeledd cyllid. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau rydych wedi'u cael â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch faint o gyllid sydd ar gael, pryd fydd ar gael, a phryd y disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ac y bydd yn weithredol?

2.00 p.m.

**Jane Hutt:** The additional funding of £288 million over the next three years, which we have put in, demonstrates our commitment to the NHS and, in particular, to putting it on a sustainable financial footing. Clearly, we are working with the health boards on proposals and important developments of the capital schemes that are needed to deliver that.

**Jane Hutt:** Mae'r cyllid ychwanegol o £288 miliwn dros y tair blynedd nesaf yr ydym wedi'i roi yn dangos ein hymrwymiad i'r GIG ac, yn benodol, i roi sylfaen ariannol gynaliadwy iddo. Yn amlwg, rydym yn gweithio gyda'r byrddau iechyd ar gynigion a datblygiadau pwysig ar y cynlluniau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni hynny.

**Jocelyn Davies:** Minister, there is a great deal of support locally for the electrification of the Valleys lines, including in Torfaen, which, I am sure, is a local authority area that would benefit hugely from that. What are the financial implications for the Assembly Government if the UK Government gives this scheme the go-ahead?

**Jocelyn Davies:** Weinidog, mae llawer iawn o gefnogaeth yn lleol ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys yn Nhor-faen, sydd, rwy'n siŵr, yn ardal awdurdod lleol a fyddai'n elwa'n fawr o wneud hynny. Beth yw'r goblygiadau ariannol i Lywodraeth y Cynulliad os bydd Llywodraeth y DU yn caniatáu i'r cynllun hwn fynd yn ei flaen?

**Jane Hutt:** Clearly, the Minister for Local Government and Communities is progressing this scheme. Of course, it is a scheme for the Department for Transport. Indeed, he met Ministers earlier this week to progress this

**Jane Hutt:** Yn amlwg, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn mynd â'r cynllun hwn yn ei flaen. Wrth gwrs, cynllun ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth ydyw. Yn wir, cafodd gyfarfod â Gweinidogion yn

important project.

gynharach yr wythnos hon i symud y prosiect pwysig hwn ymlaen.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***10. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. OAQ(4)0068(FIN)*

***10. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for the coming year. OAQ(4)0068(FIN)*

**Jane Hutt:** We set out our spending priorities in the final budget for 2012-13. We are committed to supporting the economic recovery and to delivering the high-quality public services that people across Wales deserve.

**Jane Hutt:** Nodwyd ein blaenoriaethau gwario yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2012-13. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi adferiad economaidd ac i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel y mae pobl ledled Cymru yn eu haeddu.

**Jocelyn Davies:** Your budget has also allocated extra resources to our NHS. What is your response to the view of the 23 Welsh Labour MPs who favour bringing in the private sector? Will you reaffirm the 'One Wales' commitment to resist the privatisation of our health service?

**Jocelyn Davies:** Mae eich cyllideb hefyd wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i'n GIG. Beth yw eich ymateb i farn y 23 Aelod Seneddol Llafur Cymru sydd o blaid cynnwys y sector preifat? A wnewch ailddatgan ymrwymiad 'Cymru'n Un' i wrthsefyll preifateiddio ein gwasanaeth iechyd?

**Jane Hutt:** The First Minister answered this question yesterday, and very clearly reaffirmed our commitment to delivering the NHS as the publicly provided national health service of Wales.

**Jane Hutt:** Atebodd y Prif Weinidog y cwestiwn hwn ddoe, gan ailadrodd ein hymrwymiad i gyflenwi'r GIG fel gwasanaeth iechyd cenedlaethol Cymru a ddarperir yn gyhoeddus.

**Mick Antoniw:** Minister, I have in front of me a letter from George Osborne addressed to Jeremy Cope, chair of the pay review body, dated 7 December 2011. He is making clear that he wants research carried out with a view to introducing that body's conclusions to the NHS pay review. He wants the findings by 17 July 2012. He has copied in the Chief Secretary to the Treasury, the Secretary of State for Health and a Minister of the Cabinet Office only. Has the Welsh Government received any communication from George Osborne about the attempt to introduce regional pay to the NHS pay negotiations at that time? Have there been any consultations whatsoever? What are the implications? Will you be making representations to the Chancellor, submitting our view of the disastrous consequences of regional pay in the Welsh NHS and the institutionalised nature of poverty—

**Mick Antoniw:** Weinidog, mae gen i o'm blaen lythyr gan George Osborne at Jeremy Cope, cadeirydd y corff adolygu cyflogau, dyddiedig 7 Rhagfyr 2011. Mae'n gwneud yn glir ei fod am weld gwaith ymchwil yn cael ei wneud gyda'r bwriad o gyflwyno casgliadau'r corff hwnnw i adolygiad tâl y GIG. Mae am weld y canfyddiadau erbyn 17 Gorffennaf 2012. Mae wedi anfon copïau o'r llythyr at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac un o Weinidogion Swyddfa'r Cabinet yn unig. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw ohebiaeth gan George Osborne am yr ymgais i gyflwyno cyflogau rhanbarthol i drafodaethau ar gyflogau'r GIG ar y pryd? A fu unrhyw ymgynghoriadau o gwbl? Beth yw'r goblygiadau? A fyddwch yn gwneud sylwadau i'r Canghellor sy'n mynegi ein barn ar ganlyniadau trychinebus cyflogau rhanbarthol i'r GIG yng Nghymru a natur sefydliadol tlodi—

**The Presiding Officer:** Order. I think that

**Y Llywydd:** Trefn. Rwy'n credu eich bod

you made your point early on. You need answer only one question, Minister.

eisoes wedi gwneud eich pwynt. Dim ond un cwestiwn sydd angen i chi ei ateb, Weinidog.

**Jane Hutt:** I am certainly glad to respond to Mick Antoniw's question. Indeed, the First Minister responded very robustly yesterday. More than 300,000 public sector workers could be affected by this. Following the First Minister's response in Plenary, we should be clear that we are not supporting a race to the bottom on pay. In answer to your specific question, we are seeking to engage with the UK Government to ensure that we exert maximum influence on the UK Government and the pay review bodies, because we see the dangers of regional pay distorting or fracturing long-established pay-bargaining arrangements and relativities.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr yn falch o ymateb i gwestiwn Mick Antoniw. Yn wir, ymatebodd y Prif Weinidog yn gadarn iawn ddoe. Gallai hyn effeithio ar fwy na 300,000 o weithwyr yn y sector cyhoeddus . Yn dilyn ymateb y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn, dylem fod yn glir nad ydym yn cefnogi ras i'r gwaelod mewn perthynas â chyflogau. Mewn ymateb i'ch cwestiwn penodol, rydym yn ceisio ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn cael y dylanwad mwyaf posibl ar Lywodraeth y DU a'r cyrff adolygu cyflogau, oherwydd ein bod yn gweld peryglon cyflogau rhanbarthol o ran newid neu ddryllio'r trefniadau sydd wedi hen sefydledu ynghylch trafodaethau ar gyflog a pherthynoledd y rheini.

**Paul Davies:** With regard to the health service, you have made it clear in the past few months that you expect local health boards to manage within their budgets and meet the standards that have been set. However, it is widely believed that only one local health board will break even. You have told us that there are no contingency plans in place should local health boards not break even. However, what discussions has the Minister had with the Minister for Health and Social Services should there be LHBs that do not break even, and what action will the Welsh Government take?

**Paul Davies:** O ran y gwasanaeth iechyd, rydych wedi gwneud yn glir yn y misoedd diwethaf eich bod yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol ymdopi o fewn eu cyllidebau a chyrraedd y safonau sydd wedi'u pennu. Fodd bynnag, credir yn eang mai dim ond un bwrdd iechyd lleol fydd yn adennill ei gostau. Rydych wedi dweud wrthym nad oes cynlluniau wrth gefn os na fydd byrddau iechyd lleol yn adennill eu costau. Fodd bynnag, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar fyrddau iechyd lleol nad ydynt yn adennill eu costau, a pha gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd?

**Jane Hutt:** I would say to the opposition spokesperson on finance that, as Minister for Finance, I do not take account of issues that are 'widely believed to be the case'. Something being widely believed is not the basis on which the Minister for health and I monitor spend in month nine or 10 of this financial year with regard to the outcome. Yes, of course, as I said, we are working to ensure that we put the NHS on a sustainable financial footing, and the extra £288 million was a key addition to my budget.

**Jane Hutt:** Byddwn yn dweud wrth lefarydd yr wrthblaid ar gyllid nad wyf, fel Gweinidog Cyllid, yn ystyried materion a 'gredir yn eang'. Nid yw rhywbeth sy'n cael ei gredu'n eang yn sylfaen i waith y Gweinidog iechyd a minnau wrth inni fonitro gwariant yn ystod mis naw neu fis 10 y flwyddyn ariannol hon o ran y canlyniadau. Wrth gwrs, fel y dywedais, rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn rhoi sylfaen ariannol gynaliadwy i'r GIG, ac roedd y £288 miliwn ychwanegol yn ychwanegiad allweddol at fy nghyllideb.

**Paul Davies:** Clearly, the Minister is much more confident than everyone else that the NHS is on a sustainable financial footing. You expect LHBs to manage within their

**Paul Davies:** Yn amlwg, mae'r Gweinidog yn llawer mwy hyderus na phawb arall fod gan y GIG sylfaen ariannol gynaliadwy. Rydych yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol

budgets over the full year and to meet the standards that have been set, and we were told by the Minister for Health and Social Services that failure to do so would result in serious consequences. Will the Minister tell us what those consequences are? What action will the Minister take, alongside the Minister for health, to ensure that local health boards are held to account for the financial management of their organisations?

reoli o fewn eu cyllidebau dros y flwyddyn lawn a chyrraedd y safonau a bennwyd, a dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai methu â gwneud hyn yn arwain at ganlyniadau difrifol. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym beth yw'r canlyniadau hyn? Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd, ochr yn ochr â'r Gweinidog iechyd, er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn cael eu dwyn i gyfrif am reolaeth ariannol eu sefydliadau?

**Jane Hutt:** You, your constituents and all Assembly Members need to be reassured that we are working closely with the NHS, as we have done over a number of years, to deliver efficiencies. We are confident that that work will ensure that the increased budget settlement that I have made will place the NHS on a sustainable footing. We are monitoring it carefully over the financial year.

**Jane Hutt:** Dylech chi, eich etholwyr a'r holl Aelodau Cynulliad fod yn dawel eich meddwl ein bod yn gweithio'n agos gyda'r GIG, fel yr ydym wedi gwneud dros nifer o flynyddoedd, i sicrhau effeithlonrwydd. Rydym yn hyderus y bydd y gwaith hwn yn sicrhau y bydd y setliad cyllidebol uwch yr wyf wedi'i wneud yn rhoi sylfaen gynaliadwy i'r GIG. Rydym yn monitro hyn yn ofalus dros y flwyddyn ariannol.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, could you outline where, in your list of priorities, help for first-time buyers may feature in your deliberations? In the budget that has already been announced, some considerable resources have gone into providing additional low-cost and affordable housing. Would you agree that there is also a need to help those who can afford a monthly mortgage repayment but need a little additional help with purchasing to secure a foot on the housing ladder? That would also take pressure off social housing, for which there are long waiting lists at the moment.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, a allwch amlinellu ble, yn eich rhestr o flaenoriaethau, y mae cymorth i brynwyr am y tro cyntaf yn codi yn eich trafodaethau? Yn y gyllideb sydd eisoes wedi ei chyhoeddi, mae rhai adnoddau sylweddol wedi mynd tuag at ddarparu tai cost isel a fforddiadwy ychwanegol. A fyddech hefyd yn cytuno bod angen helpu'r rhai sy'n gallu fforddio ad-daliad morgais misol ond sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol i brynu er mwyn iddynt gael eu tŷ cyntaf? Byddai hynny hefyd yn mynd â phwysau oddi ar dai cymdeithasol, sydd â rhestrau aros hir ar hyn o bryd.

**Jane Hutt:** I certainly agree with the leader of the Welsh Liberal Democrats that we need to look at every avenue to ensure that we can deal with pressing housing need. Investment in social housing has been a priority with regard to the economic stimulus and the centrally retained capital fund announcements. Help for first-time buyers is important, and I congratulate Conwy County Borough Council for its initiative, which I welcome; I am sure that other local authorities are following that initiative.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr yn cytuno ag Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fod angen inni edrych ar bob trywydd i sicrhau ein bod yn gallu delio â'r angen enbyd am dai. Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth o ran yr ysgogiad economaidd a'r cyhoeddiadau ynghylch y gronfa gyfalaf a gedwir yn ganolog. Mae cymorth i brynwyr am y tro cyntaf yn bwysig, ac rwy'n llongyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ei fenter, sydd i'w chroesawu; rwy'n siŵr bod awdurdodau lleol eraill yn dilyn y fenter honno.

**Cyllideb y Portffolio Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

***11. Alun Ffred Jones***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd i'r portffolio Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. OAQ(4)0074(FIN)*

**Jane Hutt:** Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 yn cynnwys dyraniad o dros £272 miliwn ar gyfer y portffolio busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi sefydlu panel i edrych ar ryddhad ardrethi busnes i fusnesau bach. Pe bai'r panel hwnnw, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Brian Morgan, yn argymell ehangu'r cynllun, a fyddech, fel y Gweinidog cyllid, mewn sefyllfa i ymateb yn gadarnhaol? Fel arall, mae'n ymddangos i mi fod gwaith y panel yn ddibwrpas.

**Jane Hutt:** The panel was set up before we had the welcome announcement in the autumn statement that funding would be available to extend the business rate relief scheme. We await the outcome of the panel for further consideration.

**William Graham:** Minister, I am sure that you, like me and many other Members, receive many queries by people asking what grants are available to start up or expand their businesses. The United Kingdom Government is introducing a national loans guarantee scheme. Does this feature at all in your plans?

**Jane Hutt:** This is a question for the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science.

**Eluned Parrott:** I want to ask about the allocation of funding to enterprise zones. The amount that will be spent will depend on the needs of the zones, as the First Minister said yesterday. However, at the moment, as we do not know where the second tranche of enterprise zones will be, we cannot know what their needs will be. Will you tell us what assumptions have been made in

**Business, Enterprise, Technology and Science Portfolio Budget**

***11. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Business, Enterprise, Technology and Science portfolio. OAQ(4)0074(FIN)*

**Jane Hutt:** Included in the Welsh Government's budget for 2012-13 is an allocation of over £272 million for the business, enterprise, technology and science portfolio.

**Alun Ffred Jones:** The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has established a panel to look at business rate relief for small businesses. Were that panel, chaired by Professor Brian Morgan, to recommend extending the scheme, would you, as the Minister for Finance, be in a position to respond positively? Otherwise, it appears to me that the work of the panel is without purpose.

**Jane Hutt:** Cafodd y panel ei sefydlu cyn inni glywed y cyhoeddiad a oedd i'w groesawu yn natganiad yr hydref y byddai arian ar gael i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnes. Rydym yn aros am ganlyniad trafodaethau'r panel i'w ystyried ymhellach.

**William Graham:** Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod, fel fi ac Aelodau eraill, yn cael llawer o ymholiadau gan bobl yn gofyn pa grantiau sydd ar gael i sefydlu neu ehangu eu busnesau. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno cynllun gwarantu benthyciadau cenedlaethol. A yw hyn yn codi o gwbl yn eich cynlluniau?

**Jane Hutt:** Cwestiwn ar gyfer y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yw hwn.

**Eluned Parrott:** Rwyf am ofyn am ddyrannu cyllid i ardaloedd menter. Bydd y swm a fydd yn cael ei wario yn dibynnu ar anghenion yr ardaloedd, fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, gan nad ydym yn gwybod ble y bydd ail gyfran yr ardaloedd menter yn cael ei lleoli, ni allwn wybod beth fydd eu hanghenion. A wnewch ddweud wrthym pa ragdybiaethau sydd wedi

allocating funds to this particular budget line?

cael eu gwneud wrth ddyrannu cyllid i'r llinell gyllidebol arbennig hon?

**Jane Hutt:** You will be aware that we made an allocation in the economic stimulus package for infrastructure needs within one of the enterprise zones already announced. The Minister will come forward with an update on this before the end of the month.

**Jane Hutt:** Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi gwneud dyraniad yn y pecyn ysgogiad economaidd ar gyfer anghenion seilwaith o fewn un o'r ardaloedd menter sydd eisoes wedi'u cyhoeddi. Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn cyn diwedd y mis.

**Blaenoriaethau Portffolio**

**Portfolio Priorities**

***12. Russell George***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau portffolio ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(4)0069(FIN)*

***12. Russell George:*** *Will the Minister make a statement on her portfolio priorities for the next six months. OAQ(4)0069(FIN)*

**Jane Hutt:** We are committed to delivering better outcomes for people and communities across Wales and protect the most vulnerable in our society. We laid out our priorities in the final budget for 2012-13.

**Jane Hutt:** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau gwell i bobl a chymunedau ledled Cymru ac amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Nodwyd ein blaenoriaethau yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2012-13.

**Russell George:** I would like some clarity on the support funding for organisations in Wales that provide advice to the Welsh public, such as the Bro Ddyfi Advice Centre in Montgomeryshire. As you know, the UK Government has allocated £20 million to support free advice centres across the UK in this financial year. I understand that the Welsh consequential is just under £1 million. I also understand that the Welsh Government's decision on the distribution of this money does not always follow the UK Government policy on allocation—it will be added to reserves in the normal way, where it will remain pending any further decision. Can you confirm that you have discussed this with your colleague the Minister for Local Government and Communities? Has any decision been made to earmark this additional UK Government money for help and advice services in Wales?

**Russell George:** Hoffwn gael rhywfaint o eglurder ar y cyllid i gynorthwyo sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu cyngor i'r cyhoedd yng Nghymru, fel Canolfan Cynghori Bro Ddyfi yn sir Drefaldwyn. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu £20 miliwn i gefnogi canolfannau cyngor am ddim ledled y DU yn y flwyddyn ariannol hon. Rwy'n cael ar ddeall mai ychydig o dan £1 miliwn yw'r swm canlyniadol i Gymru. Rwyf hefyd yn deall nad yw penderfyniad Llywodraeth Cymru ar ddosbarthu'r arian hwn bob amser yn dilyn polisi Llywodraeth y DU ar ddyraniadau—caiff yr arian ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn yn y ffordd arferol, lle y bydd yn aros hyd nes y bydd unrhyw benderfyniad pellach yn cael ei wneud. A allwch gadarnhau eich bod wedi trafod hyn gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau? A oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud i glustnodi'r arian ychwanegol hwn gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau cymorth a chynghori yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I thank Russell George for that important question. The cuts in support, particularly financial support, for legal aid are having a major negative impact with regard to access to advice services. The

**Jane Hutt:** Diolch i Russell George am y cwestiwn pwysig hwnnw. Mae'r toriadau i gymorth, yn enwedig cymorth ariannol, ar gyfer cymorth cyfreithiol yn cael effaith negyddol fawr o ran mynediad at

Minister for Local Government and Communities and I have met to discuss this issue, in the context of Welsh needs and circumstances and the best way to progress. I am also consulting with the independent federations and fora of advice givers.

wasanaethau cynghori. Rwyf wedi cyfarfod â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i drafod y mater hwn, yng nghyd-destun anghenion ac amgylchiadau Cymru a'r ffordd orau i symud ymlaen. Rwyf hefyd yn ymgynghori â'r ffederasiynau annibynnol a fforymau'r rhai sy'n rhoi cyngor.

**Portffolio Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

**Environment and Sustainable Development Portfolio**

***13. Antoinette Sandbach:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y cyllid a ddyrannwyd i'r portffolio Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. OAQ(4)0071(FIN)*

***13. Antoinette Sandbach:*** *What discussions has the Minister had concerning the funding allocation to the Environment and Sustainable Development portfolio. OAQ(4)0071(FIN)*

**Jane Hutt:** I have regular discussions with the Minister for Environment and Sustainable Development, in which we discuss a range of financial issues relating to the portfolio.

**Jane Hutt:** Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd â Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ac rydym yn trafod ystod o faterion ariannol mewn perthynas â'r portffolio yn ystod y trafodaethau hyn.

**Antoinette Sandbach:** I am grateful for that answer, Minister. Your Government's proposal to merge the three environmental bodies will have a long-lasting impact on the environment portfolio. Given that achieving better value for money has been one of the key arguments in favour of the merger, can you confirm that both you and the Minister for environment are fully confident of the economic case for including the Forestry Commission in the merger? What discussions have you had over the way in which projected staff savings will occur if the merger goes ahead?

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw, Weinidog. Bydd cynnig eich Llywodraeth i uno'r tri chorff amgylcheddol yn cael effaith hirdymor ar bortffolio'r amgylchedd. O ystyried bod sicrhau gwell gwerth am arian wedi bod yn un o'r dadleuon allweddol o blaid yr uno, a allwch gadarnhau eich bod chi a Gweinidog yr amgylchedd yn gwbl hyderus ynghylch yr achos economaidd o blaid cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth yn yr uno? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ar y ffordd y rhagwelir y bydd arbedion staff yn digwydd os bydd yr uno'n mynd yn ei flaen?

**Jane Hutt:** On the way forward with regard to the single environmental body, we hope that the vesting of the new body will take place next year, in 2013. The consultation starts next month, which will be an opportunity for everyone to bring forward their needs and their concerns and issues about the new body. A single body will provide a more integrated approach to how we manage our environment and its natural resources. We are clearly engaged in this with regard to the financial benefits, and I recently announced an invest-to-save allocation to assist in the planning development for this single environmental body.

**Jane Hutt:** O ran y ffordd ymlaen ar gyfer un corff amgylcheddol, gobeithiwn y bydd breinio'r corff newydd yn digwydd y flwyddyn nesaf, sef 2013. Mae'r ymgynghoriad yn dechrau fis nesaf, a bydd yn gyfle i bawb gyflwyno eu hanghenion a'u pryderon a materion yn ymwneud â'r corff newydd. Bydd un corff yn cynnig dull mwy integredig o ran sut yr ydym yn rheoli ein hamgylchedd a'i adnoddau naturiol. Rydym yn cymryd rhan amlwg yn hyn o ran y buddion ariannol, ac yn ddiweddar cyhoeddais ddyraniad buddsoddi i arbed er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr un corff amgylcheddol hwn.

**Simon Thomas:** If the merger goes ahead to create a single environmental body, which I think will bring potential benefits for the environment in Wales, there may be savings within the portfolio, as a result of cutting down on bureaucracy and red tape—things that the party opposite might like to welcome. If such savings happen, will you be sympathetic to the Minister for environment to allow him to keep some of these savings within his portfolio so that he can direct them into improving Wales's environment for the benefit of our tourists and farmers?

**Simon Thomas:** Os bydd yr uno'n mynd yn ei flaen i greu un corff amgylcheddol, ac rwy'n credu y byddai hynny'n dod â manteision posibl i'r amgylchedd yng Nghymru, efallai y bydd arbedion o fewn y portffolio, o ganlyniad i gwtogi biwrocratiaeth—pethau y byddai'r blaid gyferbyn o bosibl am eu croesawu. Os bydd arbedion o'r fath yn digwydd, a fyddwch yn caniatáu i Weinidog yr amgylchedd gadw rhai o'r arbedion hyn o fewn ei bortffolio fel y gall eu cyfeirio at wella amgylchedd Cymru er budd ein twristiaid a'n ffermwyr?

**Jane Hutt:** I am grateful for your support, in principle, for a single environmental body. It is important that we see that this will become a major public institution created in Wales. Indeed, the work of thinking this through started with predecessors in the One Wales Government. It is important that we look at the priorities of the Minister for Environment and Sustainable Development's budget, but, of course, I must look at the priorities of all Ministers in this Welsh Government.

**Jane Hutt:** Rwyf yn ddiolchgar am eich cefnogaeth, mewn egwyddor, i un corff amgylcheddol. Mae'n bwysig ein bod yn gweld y corff hwn yn dod yn sefydliad cyhoeddus mawr a grëwyd yng Nghymru. Yn wir, dechreuodd y gwaith o feddwl am hyn gyda'n rhagflaenwyr yn Llywodraeth Cymru'n Un. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar flaenoriaethau cyllideb Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ond, wrth gwrs, rhaid i mi edrych ar flaenoriaethau holl Weinidogion Llywodraeth Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
## Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

### Ffatrïoedd Cymru

### Welsh Factories

***1. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a allai helpu ffatrïoedd yng Nghymru i ennill contractau gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. OAQ(4)0082(BET)*

***1. Mick Antoniw:*** *Will the Minister outline the assistance available from the Welsh Government which may help Welsh factories secure contracts with Welsh local authorities and other public bodies in Wales. OAQ(4)0082(BET)*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** We are assisting Welsh businesses to secure public sector contracts through our supplier development service, which offers a range of support for small and medium-sized businesses, including a programme of events, such as how-to-tender and meet-the-buyer workshops. Our Sell2Wales website is also used to advertise procurement opportunities.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rydym yn helpu busnesau Cymru i sicrhau contractau sector cyhoeddus drwy ein gwasanaeth datblygu cyflenwyr, sy'n cynnig ystod o gymorth i fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys rhaglen o ddigwyddiadau, fel gweithdai sut i dendro a chyfarfod â'r prynwr. Mae ein gwefan GwerthwchiGymru hefyd yn cael ei defnyddio i hysbysebu cyfleoedd caffael.

**Mick Antoniw:** I know that Remploy is a particular company that is close to your heart

**Mick Antoniw:** Rwy'n gwybod bod Remploy yn gwmni sy'n agos at eich calon

and that you have been very much engaged with over the past years. Could you give further consideration to ways in which particular public sector procurement can be used and perhaps encouraged by the Welsh Government, to secure that additional support and growth for the Remploy factories in Wales?

a'ch bod wedi bod yn ymwneud yn fawr iawn â'r cwmni hwnnw dros y blynyddoedd diwethaf. A allech roi ystyriaeth bellach i'r ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ac annog caffael sector cyhoeddus, i sicrhau'r cymorth a'r twf ychwanegol hynny ar gyfer ffatrïoedd Remploy yng Nghymru?

2.15 p.m.

**Edwina Hart:** We very much welcome the passionate commitment of Remploy workers and the role that they want to take, because Remploy provides essential services in Wales in terms of employment. As a Welsh Government, we have set up a contract for recycling, and Remploy is one of the two supported businesses on that contract. We are also considering suitable measures to support Remploy factories in Wales, including working on a new engagement strategy to better match up public sector demand with what the supported business sector, including Remploy, has to offer.

**Edwina Hart:** Rydym yn croesawu ymrwymiad angerddol gweithwyr Remploy a'r rôl y maent am ei chwarae, gan fod Remploy yn darparu gwasanaethau hanfodol yng Nghymru o ran cyflogaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu contract ar gyfer ailgylchu, ac mae Remploy yn un o'r ddau fusnes a gefnogir ar y contract hwnnw. Rydym hefyd yn ystyried mesurau addas i gefnogi ffatrïoedd Remploy yng Nghymru, gan gynnwys gweithio ar strategaeth ymgysylltu newydd i sicrhau bod galw yn y sector cyhoeddus yn cyd-fynd yn well â'r hyn sydd gan y sector busnes a gefnogir, gan gynnwys Remploy, i'w gynnig.

**Darren Millar:** It is not only factories that are making bids for local authority and public body contracts. A number of excellent small and specialist companies in Wales can do an excellent job when it comes to providing the public sector with a service, including Waterco Ltd, a business in my constituency of Clwyd West that provides water consultancy. One of the problems that they encounter are the framework contracts, which are often large, and they are often only able to provide a service for part of those contracts, which is a barrier to their being able to access business from the public sector. What are you doing to make it easier for those sorts of smaller, specialist companies to be able to access public sector work?

**Darren Millar:** Nid ffatrïoedd yn unig sy'n gwneud ceisiadau ar gyfer contractau awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus. Gall nifer o gwmnïau bach ac arbenigol rhagorol yng Nghymru wneud gwaith ardderchog o ran darparu gwasanaeth i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Waterco Ltd, busnes yn fy etholaeth yng Ngorllewin Clwyd sy'n darparu gwasanaeth ymgynghori dŵr. Un o'r problemau y maent yn eu hwynebu yw'r contractau fframwaith, sydd yn aml yn fawr. Yn aml, dim ond rhan o'r contractau y gallant ddarparu gwasanaeth ar ei gyfer, sy'n rhwystr i'w gallu i gael busnes gan y sector cyhoeddus. Beth rydych yn ei wneud er mwyn ei gwneud yn haws i'r mathau hynny o gwmnïau arbenigol llai o faint gael gafael ar waith sector cyhoeddus?

**Edwina Hart:** I have been discussing with my colleague the Minister for finance various issues concerning framework contracts. She is undertaking a review in her department of their operation. Julie James and her group are also looking at these issues. In the microbusiness strategy that was published this morning, public sector procurement was a main issue for microbusinesses, and they

**Edwina Hart:** Rwyf wedi bod yn trafod nifer o faterion yn ymwneud â chontractau fframwaith gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyllid. Mae ei hadran yn cynnal adolygiad o'r modd y cânt eu gweithredu. Mae Julie James a'i grŵp hefyd yn edrych ar y materion hyn. Yn y strategaeth microfusnesau a gyhoeddwyd y bore yma, caffael sector cyhoeddus oedd y prif fater ar

are talking about simplifying public sector procurement processes. They are also looking at the potential for having a procurement commission or a commissioner for Wales who could look at things and at specifying local sourcing as part of public sector procurement. As a Government, we will take those recommendations forward.

gyfer microfusnesau, ac maent yn siarad am symleiddio prosesau caffael y sector cyhoeddus. Maent hefyd yn edrych ar y potensial o gael comisiwn caffael neu gomisiynydd i Gymru a allai edrych ar bethau ac ar nodi ffynonellau lleol fel rhan o'r broses gaffael yn y sector cyhoeddus. Fel Llywodraeth, byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhellion.

**Alun Ffred Jones:** A pharhau gyda'r drafodaeth hon ar y cytundebau fframwaith, nid oes dwywaith bod y cytundebau fframwaith hyn yn cau allan cwmnïau rhag tendro neu gymryd rhan yn y broses dendro am gyfnodau hir. Hoffwn sefydlu, i ddechrau, a yw'r Llywodraeth o blaid y cytundebau fframwaith hyn, neu a yw'n amcanu eu newid neu eu dileu.

**Alun Ffred Jones:** To continue this discussion on the framework agreements, there is no doubt that these agreements exclude companies from tendering or participating in the tendering process for long periods of time. I would like to establish, in the first place, whether the Government is in favour of these framework agreements or whether it is aiming to change or abolish them.

**Edwina Hart:** Framework agreements are agreements that we have worked through and have been discussing with Jane Hutt. Jane is obviously open to any suggestions on the future operation of framework contracts, because they can produce economies of scale in terms of public procurement. We are also well aware of some of the problems that companies are experiencing, therefore, we are looking constructively at this issue.

**Edwina Hart:** Rydym wedi gweithio ar gytundebau fframwaith ac rydym wedi'u trafod gyda Jane Hutt. Mae Jane yn amlwg yn agored i unrhyw awgrymiadau am y modd y caiff contractau fframwaith eu gweithredu yn y dyfodol, oherwydd gallant greu arbedion maint o ran caffael cyhoeddus. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o rai o'r problemau y mae cwmnïau'n eu cael, felly rydym yn edrych yn adeiladol ar y mater hwn.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf dal yn ansicr a yw'r Llywodraeth o blaid cytundebau fframwaith ai peidio. Mae'r Llywodraeth wedi annog cynghorau lleol ac eraill i greu'r cytundebau fframwaith hyn gyda'r bwriad, fel roeddech yn dweud, o arbed arian. Yr hyn sydd yn digwydd, yn anffodus, yw, gan eu bod yn cau cwmnïau allan, fod y cwmnïau yn darganfod eu bod mewn sefyllfa lle maent yn colli trosiant ac yn methu mynd am gytundebau mwy. Felly, a gaf i ddatganiad clir a yw'r Llywodraeth bellach yn ailystyried ac yn bwriadu dileu'r cytundebau fframwaith hyn o'r system dendro gyhoeddus?

**Alun Ffred Jones:** I am still not certain as to whether the Government is in favour of framework agreements or not. The Government has encouraged local councils and others to draw up these framework agreements with the intention, as you said, of saving money. Unfortunately, because they exclude companies, those companies find themselves in a situation in which they are losing turnover and, as a result, cannot tender for the larger contracts. Therefore, may I have a clear statement as to whether the Government is now reconsidering and intends to abolish these framework agreements from the public tendering process?

**Edwina Hart:** I think that I have already given a clear statement. The Minister for finance is reviewing all these issues. The jury is out on framework contracts in certain regards, but, on the other hand, framework contracts have also proved useful. We are

**Edwina Hart:** Credaf fy mod eisoes wedi gwneud datganiad clir. Mae'r Gweinidog Cyllid yn adolygu'r holl faterion hyn. Amser a ddengys beth fydd dyfodol contractau fframwaith, ond maent wedi bod yn ddefnyddiol. Rydym yn edrych ar y

looking at the evidence that we are accumulating from various sources before the Minister for finance takes any further decisions in this area.

dystiolaeth rydym yn ei chasglu o wahanol ffynonellau cyn i'r Gweinidog Cyllid wneud rhagor o benderfyniadau yn y maes hwn.

**Creu Swyddi**

**Job Creation**

***2. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am greu swyddi yn y De Ddwyrain. OAQ(4)0076(BET)*

***2. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on job creation in South East Wales. OAQ(4)0076(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out our priorities for growth and sustainable jobs throughout Wales.

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy ledled Cymru.

**Jocelyn Davies:** Recent figures show that, in Blaenau Gwent, there are 17 jobseekers for every single vacancy, and, across Wales, there are 76,000 for just 16,000 vacancies. This is a time for serious action to stimulate the economy. Will you adopt the Build for Wales programme, which could significantly improve these depressing statistics?

**Jocelyn Davies:** Mae ffigurau diweddar yn dangos bod 17 o geiswyr gwaith ar gyfer pob swydd wag ym Mlaenau Gwent. Drwy Gymru, mae 76,000 o bobl yn ceisio am 16,000 o swyddi. Mae angen gweithredu o ddifrif nawr i ysgogi'r economi. A fyddwch yn mabwysiadu'r rhaglen Adeiladu i Gymru, a allai wella'r ystadegau digalon hyn yn sylweddol?

**Edwina Hart:** I will certainly look at the Build for Wales programme, have discussions with my officials and other interested parties, and report back to the Assembly on the outcome of those deliberations.

**Edwina Hart:** Byddaf yn sicr yn edrych ar y rhaglen Adeiladu i Gymru, yn cynnal trafodaethau gyda'm swyddogion a phartïon eraill sydd â diddordeb, ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

**Nick Ramsay:** Minister, will you join me in welcoming the valuable job creation work done by Working Links, which is contracted under the work programme in Wales, which has been a very successful policy? I am sure that you are aware that Working Links has seen some 23,000 people in Wales get back into work, and in relation to the question asked by Jocelyn Davies about south-east Wales, there is a real focus on helping job centres and other providers. How are you working with that company, and what are you doing to get unemployment down?

**Nick Ramsay:** Weinidog, a wnewch ymuno â mi i groesawu'r gwaith creu swyddi gwerthfawr a wneir gan Working Links, sy'n cael ei gontractio o dan y rhaglen waith yng Nghymru, a fu'n bolisi llwyddiannus iawn? Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod bod Working Links wedi helpu tua 23,000 o bobl yng Nghymru i fynd yn ôl i'r gwaith, ac mewn perthynas â'r cwestiwn a ofynnwyd gan Jocelyn Davies am y de-ddwyrain, mae ffocws gwirioneddol ar helpu canolfannau gwaith a darparwyr eraill. Sut rydych yn gweithio gyda'r cwmni hwnnw, a beth rydych yn ei wneud i leihau diweithdra?

**Edwina Hart:** We have a series of measures to look at the issues of unemployment and job retention, which is also important at this time. We have a number of financial schemes that allow companies to borrow money to ensure that they can expand if they so wish, and to get help with that. However, I welcome all the work being undertaken by

**Edwina Hart:** Mae gennym gyfres o fesurau i ystyried materion yn ymwneud â diweithdra a chadw swyddi, sydd hefyd yn bwysig ar hyn o bryd. Mae gennym nifer o gynlluniau ariannol sy'n caniatáu i gwmnïau gael benthyg arian er mwyn sicrhau y gallant ehangu os dymunant wneud hynny, ac i gael cymorth yn hynny o beth. Fodd bynnag, rwyf

organisations that help to get people into employment.

yn croesawu'r holl waith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau sy'n helpu pobl i gael gwaith.

**Nick Ramsay:** I am pleased that the Minister has mentioned job retention, because it is clearly important. If at the same time as jobs are being created, others are being lost, we are not making progress.

**Nick Ramsay:** Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi crybwyll cadw swyddi, oherwydd ei fod yn amlwg yn bwysig. Os bydd swyddi yn cael eu colli ar yr un pryd ag y mae swyddi'n cael eu creu, nid fyddwn yn gwneud cynnydd.

I know that you will be aware of today's figures, which are actually quite good, as they show a drop in unemployment in Wales. However, Minister, set against the background of job losses over the past year, it is clear that more jobs have been lost than have been gained in that time. How are you working with the UK Government—we cannot work alone on this issue—to ensure that jobs are created in Wales and that more private sector jobs are created? I think that you would agree with me that the balance between the public sector and the private sector has not always been as good as it should be.

Gwn y byddwch yn ymwybodol o'r ffigurau a gyhoeddwyd heddiw, sydd mewn gwirionedd yn eithaf da, gan eu bod yn dangos gostyngiad mewn diweithdra yng Nghymru. Fodd bynnag, Weinidog, o ystyried hynny yn erbyn cefndir o golli swyddi dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg bod mwy o swyddi wedi eu colli nag a grëwyd yn y cyfnod hwnnw. Sut ydych yn gweithio gyda Llywodraeth y DU—ni allwn weithio ar y mater hwn ar ein pen ein hunain—er mwyn sicrhau bod swyddi'n cael eu creu yng Nghymru a bod mwy o swyddi'n cael eu creu yn y sector preifat? Credaf y byddech yn cytuno â mi nad yw'r cydbwysedd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat bob amser wedi bod cystal ag y dylai fod.

**Edwina Hart:** It is essential that we work well with the private sector to encourage it to invest in Wales and create more jobs. My report on microbusinesses, which indicates that I have taken advice from the sector on what we can do to attract more microbusinesses, is also important, because it is not just about having large-scale investment, but about encouraging entrepreneurs who may only employ four or five people. However, those are valuable jobs.

**Edwina Hart:** Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio'n dda gyda'r sector preifat er mwyn ei annog i fuddsoddi yng Nghymru ac i greu mwy o swyddi. Mae fy adroddiad ar ficrofusnesau, sy'n dangos fy mod wedi cymryd cyngor gan y sector ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud i ddenu mwy o ficrofusnesau, hefyd yn bwysig, oherwydd nid buddsoddiad ar raddfa fawr yn unig sy'n bwysig, ond hefyd annog entrepreneuriaid sydd ond yn cyflogi pedwar neu bump o bobl. Fodd bynnag, mae'r rheini yn swyddi gwerthfawr.

On the unemployment statistics, I agree with you—they are still disappointing, but we have to be clear that growth in the UK economy is flat-lining, we have problems in the eurozone and there is speculation about a double-dip recession, which does not help with businesses' confidence if they want to make any investments.

O ran yr ystadegau diweithdra, rwyf yn cytuno â chi—maent yn dal i fod yn siomedig, ond rhaid inni fod yn glir bod twf yn economi'r DU yn pylu, bod problemau yn ardal yr ewro a bod damcaniaethu ynghylch ail ddirwasgiad. Nid yw hyn yn helpu hyder busnesau os ydynt am fuddsoddi.

**Twristiaeth**

**Tourism**

***3. William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gydgysylltu cynlluniau i hybu twristiaeth. OAQ(4)0086(BET)*

***3. William Graham:** Will the Minister outline Welsh Government plans to co-ordinate initiatives to promote tourism. OAQ(4)0086(BET)*

**Edwina Hart:** Visit Wales works with a range of delivery partners to co-ordinate tourism promotion. These include local authorities, regional tourism partnerships and work with VisitBritain for international marketing. Specifically for 2012, we are co-ordinating our activity to take maximum advantage of UK Government campaigns designed to promote Britain around the Olympics. Of course, we must not forget Her Majesty’s diamond jubilee, either.

**Edwina Hart:** Mae Croeso Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid cyflenwi i gydlynu’r gwaith o hyrwyddo twristiaeth. Mae’r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, partneriaethau twristiaeth rhanbarthol a gwaith gyda VisitBritain ar farchnata rhyngwladol. Yn benodol ar gyfer 2012, rydym yn cydlynu ein gweithgareddau i fanteisio i’r eithaf ar ymgyrchoedd Llywodraeth y DU sydd wedi’u cynllunio i hyrwyddo Prydain o amgylch y Gemau Olympaidd. Wrth gwrs, rhaid inni beidio ag anghofio jiwbilî diemwnt Ei Mawrhydi ychwaith.

**William Graham:** Thank you very much for your answer, Minister. I pay tribute to the work being done by the Welsh Government team, particularly in respect of the Ryder Cup. Are there plans to enhance that team, to take advantage of the schemes that you have mentioned and the Olympic Games in particular?

**William Graham:** Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Rwyf yn talu teyrnged i’r gwaith a wneir gan dîm Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran Cwpan Ryder. A oes cynlluniau i wella’r tîm hwnnw, er mwyn manteisio ar y cynlluniau rydych wedi sôn amdanynt a’r Gemau Olympaidd yn benodol?

**Edwina Hart:** We are doing substantial work around the Olympic Games, clearly co-ordinated with the UK Government, because we welcome any available resources to encourage tourists into the UK. Not everybody necessarily wants to see Olympic events, but they may want to see the beautiful countryside of Wales during an opportunity to visit.

**Edwina Hart:** Rydym yn gwneud gwaith sylweddol o amgylch y Gemau Olympaidd, sydd wedi’i gydlynu’n glir gyda Llywodraeth y DU, gan ein bod yn croesawu unrhyw adnoddau sydd ar gael i annog twristiaid i ddod i’r DU. Nid yw pawb o reidrwydd am weld digwyddiadau’r Gemau Olympaidd, ond efallai y byddant am weld cefn gwlad hyfryd Cymru yn ystod eu hymweliad.

As for the team, we are content that it is doing an excellent job on major events, and we want it to carry on with the profile of major events coming to Wales.

O ran y tîm, rydym yn fodlon ei fod yn gwneud gwaith ardderchog ar ddigwyddiadau mawr, ac rydym am iddo barhau i ymdrin â phroffil digwyddiadau mawr sy’n dod i Gymru.

**Christine Chapman:** Minister, it seems that one of the challenges facing the tourism industry is to ensure that the people who work in it have the right skills and opportunities for professional development. This is a matter that has been raised by People 1st Cymru, the sector skills council for tourism. What discussions have you had with the Deputy Minister for Skills to address these needs?

**Christine Chapman:** Weinidog, mae’n ymddangos mai un o’r heriau sy’n wynebu’r diwydiant twristiaeth yw sicrhau bod gan y bobl sy’n gweithio ynddo y sgiliau cywir a chyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol. Mae hwn yn fater sydd wedi’i godi gan People 1st Cymru, y cyngor sgiliau sector ar gyfer twristiaeth. Pa drafodaethau ydych wedi’u cael gyda’r Dirprwy Weinidog Sgiliau i fynd i'r afael â’r anghenion hyn?

**Edwina Hart:** The Deputy Minister for Skills is aware of the training requirement plans for all sectors. The tourism sector is, of course, a new sector, and it will be looking at its requirements and have the necessary discussions with the Deputy Minister.

**Edwina Hart:** Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau yn ymwybodol o'r cynlluniau gofynion hyfforddi ar gyfer pob sector. Mae'r sector twristiaeth, wrth gwrs, yn sector newydd, a bydd yn edrych ar ei ofynion ac yn cael y trafodaethau angenrheidiol gyda'r Dirprwy Weinidog.

Tourism is absolutely vital to economic prosperity and job creation. We have to realise that, in parts of Wales, it is significant in terms of employment opportunities, and it is also important that we look at the other issues that will help tourism, particularly with regard to the planning system.

Mae twristiaeth yn gwbl hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi. Rhaid inni sylweddoli ei bod yn arwyddocaol iawn o ran cyfleoedd cyflogaeth mewn rhannau o Gymru, ac mae hefyd yn bwysig ein bod yn edrych ar y materion eraill a fydd yn helpu twristiaeth, yn enwedig o ran y system gynllunio.

**Economi Dwyrain De Cymru**

**The Economy of South Wales East**

***4. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi Dwyrain De Cymru. OAQ(4)0087(BET)*

***4. William Graham:*** *Will the Minister outline Welsh Government plans to develop the economy of South Wales East. OAQ(4)0087(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out our plans for developing the economy in all parts of Wales.

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein cynlluniau ar gyfer datblygu'r economi ym mhob rhan o Gymru.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. Could you again look at the possibility of an enterprise zone? Clearly, I would ask for it to be in Newport. Could you focus particularly on some of the pioneering innovative work done by the University of Wales, particularly its further work, which is almost unique, in respect of the production of films, television programmes and computer animation?

**William Graham:** Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. A allwch ailystyried y posibilrwydd o gael ardal fenter? Yn amlwg, byddwn yn gofyn iddi gael ei lleoli yng Nghasnewydd. A allwch ganolbwyntio'n arbennig ar y gwaith arloesol a wneir gan Brifysgol Cymru, yn enwedig ei gwaith yn y dyfodol, sydd bron yn unigryw, o ran cynhyrchu ffilmiau, rhaglenni teledu ac animeiddio cyfrifiadurol?

**Edwina Hart:** We are currently considering the further bids that have come in for enterprise zones, and I hope to make a statement to the Chamber on the last Tuesday of the month, depending on Government business. It is important to recognise, in terms of enterprise zones, that you should not have too many, because you do not want the jam to be too thinly spread, but I take on board the helpful comments that you have made today.

**Edwina Hart:** Rydym ar hyn o bryd yn ystyried y ceisiadau ychwanegol sydd wedi dod i law ar gyfer ardaloedd menter, ac rwyf yn gobeithio gwneud datganiad i'r Siambr ddydd Mawrth olaf y mis, yn dibynnu ar fusnes y Llywodraeth. O ran ardaloedd menter, mae'n bwysig cydnabod na ddylech gael gormod ohonynt, oherwydd nid ydych am rannu'r adnoddau yn rhy denau. Fodd bynnag, byddaf yn ystyried y sylwadau defnyddiol a wnaed gennych heddiw.

**Lindsay Whittle:** Minister, since Newport, as Bill Graham has just said, is set to be squeezed by surrounding enterprise zones—

**Lindsay Whittle:** Weinidog, gan y bydd Casnewydd, fel y mae Bill Graham newydd ei ddweud, yn cael ei gwasgu gan ardaloedd

they are coming at Newport from all sides at the moment—what alternative action can your Government take to ensure that Newport's competitiveness is sustained and improved? Are there any other exciting alternatives that you can bring to the table? I do trust you.

menter cyfagos—maent yn ymwthio tuag at Gasnewydd o bob ochr—pa gamau gweithredu eraill y gall eich Llywodraeth eu cymryd i sicrhau bod cystadleurwydd Casnewydd yn cael ei gynnal a'i wella? A oes unrhyw ddewisiadau amgen eraill cyffrous y gallwch eu cyflwyno? Rwyf yn ymddiried ynoch.

**Edwina Hart:** Newport is ideally located in many ways. When people look across the border for investment purposes, Newport has the necessary infrastructure in key areas. We very much welcome the decision by Admiral to bring jobs to Newport city centre, so Newport is doing quite well by itself. The challenge for Government is to ensure that prosperity reaches further west and north, and particularly to the north-west. That is also a consideration for me in decisions on enterprise zones and further initiatives.

**Edwina Hart:** Mae Casnewydd mewn lleoliad delfrydol mewn sawl ffordd. Pan fydd pobl yn edrych dros y ffin at ddibenion buddsoddi, mae gan Gasnewydd y seilwaith angenrheidiol mewn meysydd allweddol. Rydym yn croesawu'r penderfyniad gan Admiral i ddod â swyddi i ganol dinas Casnewydd, felly mae Casnewydd yn gwneud yn eithaf da ar ei phen ei hun. Yr her i'r Llywodraeth yw sicrhau bod ffyniant yn cyrraedd ymhellach i'r gorllewin ac i'r gogledd, ac yn enwedig i'r gogledd-orllewin. Mae hynny hefyd yn ystyriaeth wrth imi wneud penderfyniadau ar ardaloedd menter a mentrau eraill.

**Parth Lefel Uchaf**

**Top-level Domain**

***5. Suzy Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses o sicrhau parth lefel uchaf i Gymru. OAQ(4)0074(BET)*

***5. Suzy Davies:*** *Will the Minister make a statement on the process to secure a top level domain for Wales. OAQ(4)0074(BET)*

**Edwina Hart:** The Welsh Government invited proposals to secure a top-level domain name for Wales via a speculative notice published on the buy4wales website on 9 December 2011. One submission was received by the deadline of 6 January, which was from Nominet.

**Edwina Hart:** Gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigion i sicrhau enw parth lefel uchaf ar gyfer Cymru drwy hysbysiad hapfasnachol a gyhoeddwyd ar wefan buy4wales ar 9 Rhagfyr 2011. Daeth un cyflwyniad i law erbyn y dyddiad cau ar 6 Ionawr, a ddaeth gan Nominet.

**Suzy Davies:** On 1 September you wrote to all Members stating that you would be publishing guidelines for bidders for a new top-level domain for Wales. You will remember from correspondence and contributions in the Chamber that the future of a TLD for Wales had caused controversy and excitement, and we were looking forward to seeing those guidelines. On December 9, when Members had left for constituencies for recess, those guidelines appeared on the website, as you say. However, no notice was given to Members. The deadline for bids based on those guidelines was 6 January, also during recess.

**Suzy Davies:** Ar 1 Medi, bu ichi ysgrifennu at yr holl Aelodau yn datgan y byddech yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer cynigwyr ar gyfer parth lefel uchaf newydd i Gymru. Byddwch yn cofio o ddarllen gohebiaeth ac o wrando ar gyfraniadau yn y Siambr bod dyfodol parth o'r fath yng Nghymru wedi achosi dadlau a chynnwrf, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y canllawiau hynny. Ar 9 Rhagfyr, pan roedd yr Aelodau wedi gadael i fynd i'w hetholaethau dros y toriad, ymddangosodd y canllawiau hynny ar y wefan, fel y dywedwyd. Fodd bynnag, ni hysbyswyd yr Aelodau. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn seiliedig ar y canllawiau hynny oedd 6 Ionawr, a oedd hefyd yn ystod

y toriad.

**The Presiding Officer:** Are you coming to the question?

**Y Llywydd:** A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Suzy Davies:** Yes, I am.

**Suzy Davies:** Ydw.

**The Presiding Officer:** Good.

**Y Llywydd:** Da iawn.

**Suzy Davies:** The date of the guidelines is not shaped by the Internet Corporation for Assigned Names and Numbers application window, Minister, because we have known about that for many months. Do you think that slipping out potentially controversial information during recess without notice to Members constitutes transparent Government?

**Suzy Davies:** Nid yw ffenestr ceisiadau Corfforaeth y Rhyngrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir yn effeithio ar ddyddiad y canllawiau, Weinidog, oherwydd rydym wedi cael gwybod am hynny ers misoedd. A ydych yn credu bod cyhoeddi gwybodaeth a allai fod yn ddadleuol yn ystod y toriad heb roi gwybod i'r Aelodau yn dangos Llywodraeth dryloyw?

**Edwina Hart:** I am an Assembly Member and Minister 365 days a year, 24 hours a day.

**Edwina Hart:** Rwyf yn Aelod Cynulliad ac yn Weinidog 365 diwrnod y flwyddyn a 24 awr y dydd.

**David Rees:** Minister, the usage of top-level domains identifies the need for fast broadband services across Wales. There is currently much focus on broadband speed in rural areas, but the large Valley areas, including the Afan valley and the Goytre valley in my constituency, also suffer poor broadband speeds. Will the Government ensure that these areas are not forgotten or left behind when the proposed investment in broadband services is rolled out?

**David Rees:** Weinidog, mae'r defnydd o barthau lefel uchaf yn nodi'r angen am wasanaethau band eang cyflym ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae llawer o ffocws ar gyflymder band eang mewn ardaloedd gwledig, ond mae ardaloedd mawr yn y Cymoedd, gan gynnwys cwm Afan a chwm Goetre yn fy etholaeth, hefyd yn dioddef o ganlyniad i gyflymder band eang gwael. A fydd y Llywodraeth yn sicrhau nad yw'r ardaloedd hyn yn cael eu hanghofio neu eu gadael ar ôl pan fydd y buddsoddiad arfaethedig mewn gwasanaethau band eang yn cael ei gyflwyno?

**Edwina Hart:** I obviously cannot discuss the nature of the contractual discussions that we are currently having about the project, but I hear what you are saying. It is important to get the right balance so that all citizens have equity in terms of their access to fast broadband.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, ni allaf drafod natur y trafodaethau cytundebol rydym yn eu cael ar hyn o bryd ynghylch y prosiect, ond rwyf yn clywed yr hyn rydych yn ei ddweud. Mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir fel bod pob dinesydd yn gyfartal o ran ei fynediad at fand eang cyflym.

**Bethan Jenkins:** Minister, I have had some correspondence from people who are quite unhappy that, for example, London, Scotland, Brittany, the Basque Country, Quebec, New York, Bavaria and many other geographical areas will be running their own top-level domain registries, but Wales will not because of your decision to remain neutral. There are concerns that there will not therefore be a

**Bethan Jenkins:** Weinidog, rwyf wedi cael gohebiaeth oddi wrth bobl sy'n anfodlon y bydd, er enghraifft, Llundain, yr Alban, Llydaw, Gwlad y Basg, Quebec, Efrog Newydd, Bafaria a nifer o ardaloedd daearyddol eraill yn cynnal eu cofrestrfeydd parth lefel uchaf eu hunain, ond na fydd Cymru yn gwneud hynny oherwydd eich penderfyniad i aros yn niwtral. Felly, mae

developmental market within Wales with regard to this agenda. Can you assure me that that will happen under the current process, and would you endorse the development of a '.cymru' domain name as well as a '.wales' domain name for the future?

pryderon na fydd marchnad ddatblygiadol yng Nghymru o ran yr agenda hwn. A allwch fy sicrhau y bydd hynny'n digwydd yn y broses bresennol, ac a fyddech yn cefnogi datblygu enw parth '.cymru' yn ogystal â'r enw '.wales' yn y dyfodol?

**Edwina Hart:** I am aware of the views that have been expressed about this issue. Obviously, the successful bidder will have to submit a full application to ICANN. The proposals for both 'Cymru' and 'Wales' were given priority in the scoring process. Matters will proceed and I will update Members accordingly.

**Edwina Hart:** Rwyf yn ymwybodol o'r sylwadau a fynegwyd ynghylch y mater hwn. Yn amlwg, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflwyno cais llawn i Gorfforaeth y Rhyngrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r cynigion ar gyfer 'Cymru' a 'Wales' yn y broses sgorio. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r materion hyn a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

**Aled Roberts:** A allwch chi gadarnhau bod cais Nominet yn cynnwys '.cymru'? Fe fyddwch chi'n ymwybodol bod ICANN yn gofyn am ddwywaith y ffi gan wledydd dwyieithog. A ydych yn barod i ddweud wrth ICANN mai dim nd un ffi y dylid ei thalu?

**Aled Roberts:** Could you confirm that the Nominet application includes '.cymru'? You will be aware that ICANN asks for double the fee from bilingual nations. Are you willing to make representations to ICANN that only one fee should be paid?

**Edwina Hart:** I have had no representations about the nature or the costs of the applications from any party.

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw sylwadau am natur neu gostau'r ceisiadau gan unrhyw barti.

2.30 p.m.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***6. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y Gorllewin. OAQ(4)0072(BET)*

***6. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for West Wales. OAQ(4)0072(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out our priorities for developing the economy in all parts of Wales, which includes plans for investing in infrastructure, skills, innovation and improving the business environment.

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn pennu ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi ym mhob rhan o Gymru, sy'n cynnwys cynlluniau i fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, arloesedd a gwella'r amgylchedd busnes.

**Paul Davies:** I am grateful to the Minister for that answer. One of the business priorities for west Wales, and, indeed, Pembrokeshire, is its energy sector. The Minister will be well aware that Pembrokeshire has become the energy hub of not only Wales, but the UK, given that it includes two oil refineries and two liquefied natural gas terminals. Its importance cannot be ignored. The Welsh Government needs to support this sector by encouraging business investment in the area.

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Un o'r blaenoriaethau busnes i orllewin Cymru, ac, yn wir, sir Benfro, yw ei sector ynni. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn bod sir Benfro wedi dod yn ganolfan ynni nid yn unig i Gymru, ond y DU, o ystyried ei bod yn cynnwys dwy burfa olew a dwy derfynell nwy naturiol hylifedig. Ni ellir anwybyddu ei phwysigrwydd. Mae angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r sector hwn drwy annog

One way of doing that—as you will have guessed, Minister—would be to create an enterprise zone to further support the sector. Will the Minister therefore give favourable consideration to making the area surrounding the haven a secondary enterprise zone, given its strategic importance to Wales and, indeed, to the rest of the UK?

buddsoddiad gan fusnesau yn yr ardal. Un ffordd o wneud hynny—fel y byddwch wedi dyfalu, Weinidog—fyddai creu ardal fenter i gefnogi'r sector ymhellach. A wnaiff y Gweinidog, felly, roi ystyriaeth ffafriol i wneud yr ardal o gwmpas yr aber yn ardal fenter eilaidd, o gofio ei phwysigrwydd strategol i Gymru ac, yn wir, i weddill y DU?

**Edwina Hart:** We have received proposals to create an enterprise zone in the area that you have mentioned. There has been support from business there and from the local authority and I will make my decision shortly.

**Edwina Hart:** Rydym wedi cael cynigion i greu ardal fenter yn yr ardal yr ydych wedi ei chrybwyll. Cafwyd cefnogaeth gan fusnesau yno ac oddi wrth yr awdurdod lleol, a byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad yn fuan.

**Rebecca Evans:** The seasonal nature of the tourism industry on the west Wales coast, together with the small-scale nature of many tourism businesses, pose real challenges in terms of retaining and equipping staff with the appropriate skills. What assessment have you made of the success of the coastal tourism strategy in terms of prioritising and stimulating entrepreneurship among the local population?

**Rebecca Evans:** Mae natur dymhorol y diwydiant twristiaeth ar arfordir gorllewin Cymru, ynghyd â maint bach llawer o fusnesau twristiaeth, yn achosi heriau gwirioneddol o ran cadw staff a sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol. Pa asesiad yr ydych wedi ei wneud o lwyddiant y strategaeth twristiaeth arfordirol o ran blaenoriaethu ac ysgogi entrepreneuriaeth ymhlith y boblogaeth leol?

**Edwina Hart:** The coastal tourism strategy has been very successful. If I am correct, the Pembrokeshire Marine Group has received money for a new facility and service centre in Milford Haven. The Grove in Narberth received a grant for eight additional bedrooms and additional facilities and Brown's Hotel has received investment and support. Therefore, we continue to support many initiatives through the coastal tourism support scheme, coastal centres of excellence and the green sea programme, and we are very pleased with the success so far.

**Edwina Hart:** Mae'r strategaeth twristiaeth arfordirol wedi bod yn llwyddiannus iawn. Os wyf yn gywir, mae Grŵp Morol Sir Benfro wedi cael arian ar gyfer canolfan cyfleuster a gwasanaeth newydd yn Aberdaugleddau. Cafodd The Grove yn Arberth grant ar gyfer wyth ystafell wely a chyfleusterau ychwanegol ac mae gwesty Brown's wedi cael buddsoddiad a chymorth. Felly, rydym yn parhau i gefnogi nifer o fentrau drwy'r cynllun cefnogi twristiaeth arfordirol, canolfannau rhagoriaeth arfordirol a'r rhaglen môr gwyrdd, ac rydym yn falch iawn o'r llwyddiant hyd yn hyn.

**Simon Thomas:** What flexibility can you build into your current Wales economic growth fund for businesses in west Wales? There is a welcome level of support, at 40%, for businesses applying for the funding in Ceredigion and Gwynedd, but western Powys has a lower level of support, at 10%. Dulas Engineering, which is key to the development of renewable energies in Wales, which is forging ahead with a major investment and a research facility, and which employs people from Ceredigion and Gwynedd, and not just from Powys, is trapped by its geographical

**Simon Thomas:** Pa hyblygrwydd y gallwch ei gynnwys yn eich cronfa twf economaidd gyfredol i Gymru ar gyfer busnesau yng ngorllewin Cymru? Mae lefel y cymorth, sef 40%, i'w groesawu ar gyfer busnesau sy'n gwneud cais am yr arian yng Ngheredigion a Gwynedd, ond mae lefel y cymorth i orllewin Powys yn is , sef 10%. Mae Dulas Engineering, sy'n allweddol i ddatblygiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru, sy'n bwrw ati gyda buddsoddiad mawr a chyfleuster ymchwil, ac sy'n cyflogi pobl o Geredigion a Gwynedd, ac nid dim ond o

location and by the rules in relation to this fund. Given that people are employed across a wide area in west Wales and that people in rural areas travel a great deal, could there be any flexibility in this fund to help businesses such as Dulas Engineering?

Bowys, yn cael ei rwystro gan ei leoliad daearyddol a chan y rheolau mewn perthynas â'r gronfa hon. O ystyried bod pobl yn cael eu cyflogi ledled ardal eang yng ngorllewin Cymru a bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn teithio llawer iawn, a allai'r gronfa hon gynnwys unrhyw hyblygrwydd i helpu busnesau fel Dulas Engineering?

**Edwina Hart:** I am more than happy to take up this point with my officials to see whether any degree of flexibility is allowed in connection with the fund.

**Edwina Hart:** Rwyf yn fwy na bodlon codi'r pwynt hwn gyda fy swyddogion i weld a ganiateir unrhyw elfen o hyblygrwydd mewn perthynas â'r gronfa.

**Ardaloedd Menter**

**Enterprise Zones**

***7. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter. OAQ(4)0070(BET)*

***7. Janet Finch-Saunders:*** *Will the Minister give an update on Enterprise Zones. OAQ(4)0070(BET)*

**Edwina Hart:** I will make a statement at the end of January.

**Edwina Hart:** Byddaf yn gwneud datganiad ar ddiwedd mis Ionawr.

**Janet Finch-Saunders:** When the UK Government announced the enterprise zone for England plan, within 24 hours a timetable for implementation had been devised. That included a deadline of April 2012, by which time local authorities would have the power to discount business rates for specific businesses—in some cases, £275,000 per business over five years. What provisions are in place to bring a similar rate of relief on stream as soon as possible, and by a specific deadline, for the enterprise zones that you have announced in Wales?

**Janet Finch-Saunders:** Pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU y cynllun ardaloedd menter i Loegr, roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun wedi cael ei dyfeisio o fewn 24 awr. Roedd hynny'n cynnwys terfyn amser, sef Ebrill 2012, ac erbyn hynny byddai gan awdurdodau lleol y pŵer i ostwng ardrethi busnes ar gyfer busnesau penodol—mewn rhai achosion, £275,000 y busnes dros bum mlynedd. Pa ddarpariaethau sydd i sicrhau bod cyfradd debyg o ryddhad ar gael cyn gynted â phosibl, ac erbyn dyddiad cau penodol, ar gyfer yr ardaloedd menter yng Nghymru yr ydych wedi eu cyhoeddi?

**Edwina Hart:** The enterprise zones that I have already agreed in Wales should be well established by April 2012. I currently have a business rates review under way and I will make all the appropriate announcements that I am able to make at the end of the month. I was grateful for Kirsty Williams's comments yesterday about capital allowances, and her saying that if I could not make the full detail of those available, then I should make the full detail of these schemes available.

**Edwina Hart:** Dylai'r ardaloedd menter yng Nghymru yr wyf wedi cytuno arnynt fod wedi eu hen sefydlu erbyn mis Ebrill 2012. Mae adolygiad o drethi busnes ar y gweill ar hyn o bryd, a byddaf yn gwneud yr holl gyhoeddiadau priodol y gallaf eu gwneud ar ddiwedd y mis. Roeddwn yn ddiolchgar am sylwadau Kirsty Williams ddoe ar lwfansau cyfalaf, a'r ffaith ei bod wedi dweud os na allwn wneud manylion llawn y lwfansau hynny'n hysbys, yna dylwn i wneud manylion llawn y cynlluniau hyn yn hysbys.

**Jenny Rathbone:** I am extremely excited about the possibility of the UK's green investment bank coming to Cardiff, as it would strongly complement the enterprise

**Jenny Rathbone:** Rwyf wedi fy nghyffroi oherwydd y posibilrwydd y bydd banc buddsoddi gwyrdd y DU yn dod i Gaerdydd, gan y byddai'n gweddu'n dda i'r ardal fenter

zone for Cardiff that you have already announced, which is for financial and professional services. The skills and expertise that we already have in Cardiff in green technologies and investment would make it a real centre for excellence. Could you give us an update on how and when the announcement will be made?

ar gyfer Caerdydd yr ydych eisoes wedi ei chyhoeddi, sydd ar gyfer gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Byddai'r sgiliau a'r arbenigedd sydd gennym eisoes yng Nghaerdydd mewn technolegau a buddsoddi gwyrdd yn ei gwneud yn ganolfan ragoriaeth go iawn. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut a phryd y bydd y cyhoeddiad yn cael ei wneud?

**Edwina Hart:** I understand from Vince Cable that it is hoped that all bids will be in by 30 January and the announcement of the successful bid will be made by the middle of February. We are very pleased to put Cardiff forward, because Cardiff has a highly-qualified workforce, as is indicated by Deloitte's decision to locate within Cardiff, which will present new opportunities. The work that our financial and professional services sector team is doing will, hopefully, enhance our bid.

**Edwina Hart:** Rwyf yn cael ar ddeall gan Vince Cable mai'r gobaith yw y bydd pob cais yn cyrraedd erbyn 30 Ionawr a bydd y cyhoeddiad am y cais llwyddiannus yn cael ei wneud erbyn canol mis Chwefror. Rydym yn falch iawn o gynnig Caerdydd, am fod gan Gaerdydd weithlu sydd â chymwysterau uchel, fel y dangoswyd gan benderfyniad Deloitte i leoli yng Nghaerdydd, a bydd y cynllun hwn yn cynnig cyfleoedd newydd. Gobeithiwn y bydd y gwaith y mae ein tîm sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yn ei wneud yn gwella ein cais.

**Eluned Parrott:** Minister, thank you for those comments about Cardiff, which I share, and will certainly take to colleagues in Westminster when I am able to do so. Turning again to enterprise zones, I understand that applications for the second tranche of enterprise zones have now closed. What process and criteria will be used to assess those applications and select the successful candidates?

**Eluned Parrott:** Weinidog, rwyf yn ddiolchgar am eich sylwadau ar Gaerdydd, ac yn eu hategu, a byddaf yn sicr yn eu rhannu â'm cydweithwyr yn San Steffan pan fyddaf yn gallu gwneud hynny. Gan droi unwaith eto at ardaloedd menter, deallaf fod ceisiadau ar gyfer yr ail gyfran o ardaloedd menter bellach wedi cau. Pa broses a meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu'r ceisiadau hynny a dewis yr ymgeiswyr llwyddiannus?

**Edwina Hart:** We had a set of criteria for the first ones, and we will be using the same criteria for the second.

**Edwina Hart:** Roedd gennym set o feini prawf ar gyfer y rhai cyntaf, a byddwn yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer yr ail.

**Eluned Parrott:** Thank you for that, Minister. However, it appears that the process is certainly different this time, as the first round of applications were not subject to a bidding process. In fact, it is my understanding that some local authorities did not know that there would be an enterprise zone until after you had announced it. How will you assure new applicants that the selection of these flagship zones has been fair, transparent and open?

**Eluned Parrott:** Diolch am hynny, Weinidog. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y broses yn sicr yn wahanol y tro hwn, gan nad oedd proses ymgeisio ynghlwm wrth y rownd gyntaf o geisiadau . Yn wir, deallaf nad oedd rhai awdurdodau lleol yn gwybod y byddai ardal fenter yn bodoli tan ar ôl i chi ei chyhoeddi. Sut y byddwch yn tawelu meddyliau ymgeiswyr newydd fod dewis y prif ardaloedd hyn wedi bod yn deg, yn dryloyw ac yn agored?

**Edwina Hart:** It will be fair, transparent and open, because that is what I am like as a Minister.

**Edwina Hart:** Bydd y broses yn deg, yn dryloyw ac yn agored, oherwydd dyna fy nod fel Gweinidog.

**Julie James:** I, for one, have been very grateful for your guidance in this Chamber regarding the potential for further enterprise zones in Wales, in particular in Swansea. I am delighted that stakeholders in my city have risen to that challenge and have approached you with a submission, a copy of which I am holding in my hand, regarding an enterprise zone. Minister, have you and your officials received that report and have you been able to add Swansea into your deliberations and announcements?

**Julie James:** Rwyf wedi bod yn ddiolchgar iawn am eich arweiniad yn y Siambr hon o ran y potensial ar gyfer rhagor o ardaloedd menter yng Nghymru, yn arbennig yn Abertawe. Rwyf wrth fy modd bod rhanddeiliaid yn fy ninas wedi ymateb i'r her honno ac wedi cyflwyno cais ichi, ac mae gen i gopi o'r cais hwnnw yn fy llaw, ynglŷn ag ardal fenter. Weinidog, a ydych chi a'ch swyddogion wedi cael yr adroddiad hwnnw ac a ydych wedi llwyddo i ychwanegu Abertawe at eich trafodaethau a'ch cyhoeddiadau?

**Edwina Hart:** Yes, we have received the report and it is currently being considered.

**Edwina Hart:** Ydym, rydym wedi cael yr adroddiad ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***8. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn newydd. OAQ(4)0077(BET)*

***8. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the Minister outline her priorities for the new year. OAQ(4)0077(BET)*

***12. Elin Jones:*** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(4)0080(BET)*

***12. Elin Jones:*** *What are the Minister's priorities for the next six months. OAQ(4)0080(BET)*

**Edwina Hart:** My priorities are set out in the programme for government to strengthen the conditions for job creation and retention and for sustainable economic growth.

**Edwina Hart:** Mae fy mlaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu i gryfhau'r amodau ar gyfer creu a chadw swyddi ac ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwyf yn siŵr y byddech y cytuno bod cwmnïau cynhyrchu yn eithriadol o bwysig y dyddiau hyn o ran cynnal swyddi a chreu swyddi newydd. Wrth ymdrin â'r cwestiwn cyntaf, fe wnaethoch sôn am dendro a'r ffaith bod cynifer o gwmnïau cymharol fach yng Nghymru yn methu â thendro. A wnewch chi ystyried gyda'ch cyd-Weinidogion y posibilrwydd o rannu tendrau sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, fel eu bod o dan y trothwy sy'n golygu bod rhaid troi at gwmnïau ar restr dendro arbennig, sydd, gan amlaf, yn gwmnïau o'r tu allan i Gymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I am sure that you would agree that manufacturing companies are extremely important these days in terms of maintaining jobs and creating new jobs. In answering the first question, you mentioned tendering and the fact that so many relatively small companies in Wales are unable to tender. Will you and your ministerial colleagues consider the possibility of splitting tenders offered by the Welsh Government, so that they are under the threshold at which you have to turn to companies on particular tender lists, which are mainly companies from outside Wales?

**Edwina Hart:** Thank you very much for raising that point. This is a matter on which Jane Hutt, the appropriate Minister, and I have already been having discussions, as a result of the representations that have been

**Edwina Hart:** Diolch yn fawr iawn am godi'r pwynt hwnnw. Mae Jane Hutt, y Gweinidog priodol, a minnau eisoes wedi bod yn trafod y mater hwn, yn sgîl y sylwadau a wnaed i mi gan y sector.

made to me by the sector.

**Elin Jones:** Minister, Ed Miliband and Ed Balls have now committed the Labour Party to not reversing the Tory spending cuts after 2015. In the next six months, do you, Minister, intend to make an assessment of the impact on the Welsh economy of there now being little difference in the amount of public spending in Wales after 2015, whether it is a Tory or a Labour election win?

**Elin Jones:** Weinidog, mae Ed Miliband ac Ed Balls bellach wedi ymrwymo na fydd y Blaid Lafur yn gwrthdroi toriadau gwariant y Torïaid ar ôl 2015. Yn y chwe mis nesaf, a ydych, Weinidog, yn bwriadu gwneud asesiad o'r effaith ar economi Cymru oherwydd nad oes bellach fawr o wahaniaeth yn swm y gwariant cyhoeddus yng Nghymru ar ôl 2015, boed y Torïaid neu Lafur yn ennill yr etholiad?

**Edwina Hart:** I tend to work with the money that is available to me, put it to best use and concern myself with my role as a Government Minister doing the best for Wales.

**Edwina Hart:** Rwyf yn tueddu i weithio gyda'r arian sydd ar gael imi, ei ddefnyddio yn y ffordd orau a chanolbwyntio ar fy rôl fel un o Weinidogion y Llywodraeth sy'n gwneud y gorau dros Gymru.

**Kenneth Skates:** A recent report by the Wales Co-operative Centre and the Bevan Foundation highlights that co-operatives employ more than 7,000 people across the country and generate £1 billion-worth of business for the Welsh economy every year. The report also highlights some tried and tested ways of developing a more sustainable economy, and, in total, co-operatives generated a pre-tax profit of £19 million in 2010. Will you outline how co-operatives and businesses run with social purpose in areas such as retail and financial services can benefit the economy and how they are now being used by the Welsh Government to drive economic growth?

**Kenneth Skates:** Mae adroddiad diweddar gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at y ffaith bod cwmnïau cydweithredol yn cyflogi mwy na 7,000 o bobl ledled y wlad ac yn cynhyrchu gwerth £1 biliwn o fusnes ar gyfer economi Cymru bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai ffyrdd sydd wedi hen ennill eu plwyf o ddatblygu economi fwy cynaliadwy, a chynhyrchodd mentrau cydweithredol elw cyn treth o £19 miliwn, yn gyfan gwbl, yn 2010. A allwch amlinellu sut y gall cwmnïau cydweithredol a busnesau sydd â phwrpas cymdeithasol mewn meysydd fel manwerthu a gwasanaethau ariannol fod o fudd i'r economi a sut y maent yn awr yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ysgogi twf economaidd?

**Edwina Hart:** I attended the launch of the report, and I am old enough to remember the establishment of the Wales Co-operative Centre and all of its original directors. We regard the co-operatives and that sector as extremely important. The retail and financial services area is also extremely important, and we must also look at the role that credit unions can play in these developments. I had a meeting with the Wales Co-operative Centre earlier this week to discuss further work and priorities on which it can work with us in Government.

**Edwina Hart:** Roeddwn yn bresennol pan lansiwyd yr adroddiad, ac rwyf yn ddigon hen i gofio pan sefydlwyd Canolfan Cydweithredol Cymru a phob un o'i gyfarwyddwyr gwreiddiol. Rydym yn ystyried y cydweithfeydd a'r sector hwnnw yn rhai hynod o bwysig. Mae'r maes manwerthu a gwasanaethau ariannol hefyd yn hynod o bwysig, a rhaid inni hefyd edrych ar y rôl y gall undebau credyd ei chwarae yn y datblygiadau hyn. Cefais gyfarfod â Chanolfan Cydweithredol Cymru yn gynharach yr wythnos hon i drafod gwaith pellach a blaenoriaethau y gall weithio arnynt gyda ni yn y Llywodraeth.

2.40 p.m.

**Russell George:** On Monday evening, I attended the Welshpool business forum, and one of its main issues of concern was the fairness of the business rates being levied in high streets on new and existing businesses compared to those levied on charity shops, which receive 80% rate relief. I am a big supporter of social enterprises and charity shops. They play a vital role on the high street, as I am sure that you will agree, Minister. However, the business rate discounts that charity shops enjoy—particularly given that some sell new items; that is the important point here—has built a disadvantage into the system that is causing a big problem. There are traders in Welshpool two doors up from a charity shop that sells exactly the same new items that they sell. Can you confirm, Minister, that Professor Brian Morgan will examine this issue in his review?

**Russell George:** Nos Lun, bûm yn ymweld â fforwm busnes y Trallwng, ac un o'r prif faterion a oedd yn peri pryder oedd tegwch yr ardrethi busnes sy'n cael eu codi yn y stryd fawr ar fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes o'i gymharu â'r ardrethi a godir ar siopau elusen, sy'n cael rhyddhad ardrethi o 80%. Rwyf yn gefnogwr brwd i fentrau cymdeithasol a siopau elusen. Mae ganddynt rôl hanfodol ar y stryd fawr, ac rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â hynny, Weinidog. Fodd bynnag, mae'r gostyngiadau mewn ardrethi busnes y mae siopau elusen yn eu cael—yn enwedig o ystyried bod rhai ohonynt yn gwerthu eitemau newydd; dyna'r pwynt pwysig yma—wedi creu anfantais yn y system sy'n achosi problem fawr. Mae masnachwyr yn y Trallwng sydd y drws nesaf ond un i siop elusen sy'n gwerthu yn union yr un eitemau newydd ag y maent hwy'n eu gwerthu. A allwch gadarnhau, Weinidog, y bydd yr Athro Brian Morgan yn edrych ar y mater hwn yn ei adolygiad?

**Edwina Hart:** I have heard the same complaints as you have when I have been out and about. I will certainly ensure that Brian Morgan undertakes a wide review of business rates. I draw to his attention any questions asked and comments made by Members in the Chamber, and I will do so on this occasion.

**Edwina Hart:** Rwyf wedi clywed yr un cwynion â chi o gwmpas y lle. Yn sicr, byddaf yn sicrhau bod Brian Morgan yn cynnal adolygiad eang o ardrethi busnes. Rwyf yn tynnu ei sylw at unrhyw gwestiynau a sylwadau a wneir gan Aelodau yn y Siambr, a byddaf yn gwneud hynny y tro hwn.

**Peter Black:** Minister, I understand that you are developing an alternative scheme to the Prince of Wales Innovation Scholarships. Can you give an indication as to the timescale for the development of that scheme and when will you be making an announcement?

**Peter Black:** Weinidog, yr wyf yn deall eich bod yn datblygu cynllun amgen yn lle Ysgoloriaethau Arloesi Tywysog Cymru. A allwch roi unrhyw wybodaeth am yr amserlen ar gyfer datblygu'r cynllun hwnnw a phryd y byddwch yn gwneud cyhoeddiad arno?

**Edwina Hart:** I hope to have all of the work completed on the submission for the alternative scheme by the end of this week. I hope that I will then be able to make an announcement at the end of January or the beginning of February.

**Edwina Hart:** Rwyf yn gobeithio y cwblheir yr holl waith ar y cyflwyniad ar gyfer y cynllun amgen erbyn diwedd yr wythnos hon. Rwy'n gobeithio y byddaf wedyn yn gallu gwneud cyhoeddiad ar ddiwedd mis Ionawr neu ddechrau mis Chwefror.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, on 8 November 2011, the Labour peer, Baroness Morgan, delivered the inaugural Patrick Hannan lecture at the national library. She said that the answer to job creation has to be the private sector and, ultimately, the Labour

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, ar 8 Tachwedd 2011, traddododd yr Arglwyddes Lafur, y Farwnes Morgan, ddarlith agoriadol Patrick Hannan yn y llyfrgell genedlaethol. Dywedodd ei bod yn anorfod mai'r ateb i greu swyddi yw'r sector preifat ac, yn y pen

Party will need to change its attitudes and rethink its relationship with the private sector in Wales. She also said that, even if some individuals in the Labour Party in Wales understood and were interested in the private sector, in some quarters there is still enormous distrust of this sector.

draw, bydd angen i'r Blaid Lafur newid ei safbwyntiau ac ailfeddwl ei pherthynas â'r sector preifat yng Nghymru. Dywedodd hefyd, hyd yn oed os yw rhai unigolion yn y Blaid Lafur yng Nghymru yn deall y sector preifat, a bod ganddynt ddiddordeb yn y sector hwnnw, fod diffyg ymddiriedaeth enfawr o hyd mewn rhai cylchoedd yn y sector hwn.

**The Presiding Officer:** Are you coming to a question?

**Y Llywydd:** A ydych ar fin gofyn cwestiwn?

**Janet Finch-Saunders:** Yes. Minister, will you promise the people of Wales that you will work more closely with the business community and the private sector over the next six months?

**Janet Finch-Saunders:** Ydw. Weinidog, a wnewch addo i bobl Cymru y byddwch yn gweithio'n agosach â'r gymuned fusnes a'r sector preifat yn ystod y chwe mis nesaf?

**Edwina Hart:** Actions speak louder than words. We have had a microbusiness report produced by people from the private sector; we have sector panels that are led by the private sector—an excellent policy that was started by my predecessor, Ieuan Wyn Jones, the leader of Plaid Cymru, and which is working well and effectively—and David Rosser has been seconded from the Confederation of British Industry. I could go on with that list about our involvement with the private sector and our understanding. I do not intend to be lectured by the party opposite on our relationship with the private sector and our commitment to ensure that there are good job opportunities in Wales.

**Edwina Hart:** Gwell gwneud na dweud. Rydym wedi cael adroddiad meicrobusnes a gynhyrchwyd gan bobl o'r sector preifat; mae gennym baneli sectorau sy'n cael eu harwain gan y sector preifat—polisi rhagorol a ddechreuwyd gan fy rhagflaenydd, Ieuan Wyn Jones, arweinydd Plaid Cymru, ac un sy'n gweithio'n dda ac yn effeithiol—ac mae David Rosser wedi dod ar secondiad o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain. Gallwn fynd ymlaen â'r rhestr honno am ein cysylltiadau â'r sector preifat a'n dealltwriaeth ohono. Nid wyf yn bwriadu gwrando ar bregeth gan y blaid gyferbyn am ein perthynas â'r sector preifat a'n hymrwymiad i sicrhau bod cyfleoedd swyddi da yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** Does the Minister agree that a lack of clarity on capital allowances need not delay the Welsh Government's announcement of the boundaries and the interventions that are devolved matters with regard to enterprise zones? With regard to a replacement for POWIS, would the Minister agree that, while a great deal of value has been achieved by the knowledge transfer partnership programme, POWIS operated at a higher PhD level and any replacement scheme should operate at the same level?

**Kirsty Williams:** A yw'r Gweinidog yn cytuno nad yw'n anorfod bod diffyg eglurder ynghylch lwfansau cyfalaf yn gohirio cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y ffiniau a'r ymyriadau sydd wedi'u datganoli o ran ardaloedd menter? O ran cynllun i gymryd lle POWIS, a fyddai'r Gweinidog yn cytuno, er bod llawer iawn o werth wedi cael ei gyflawni gan y rhaglen bartneriaeth trosglwyddo gwybodaeth, fod POWIS yn gweithredu ar lefel PhD uwch, a dylai unrhyw gynllun newydd weithredu ar yr un lefel?

**Edwina Hart:** I hope that the Member will be pleased when I make the announcement on the replacement, or what we are going to do with regard to POWIS, because I think

**Edwina Hart:** Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelod yn falch pan fyddaf yn gwneud y cyhoeddiad ar y cynllun newydd, neu'r hyn yr ydym yn mynd i'w wneud o ran POWIS,

that it will address the issues that you have raised quite positively. With regard to the boundaries, there have been many discussions with local authorities on the boundaries and what areas they might want to be included, and so on. However, even if I have not totally resolved the capital allowances issue, I will be in a position to make an announcement by the end of January. On the issue of capital allowances, my colleague, the Minister for Finance, had an exceptionally good meeting with the Chief Secretary to the Treasury last week, which has clarified many issues for us. That will help us to make the right decisions. Not every enterprise zone in England has capital allowances attracted to it, so it is very important that I know that all of the applications are in before I make a decision regarding where we wish to put the capital allowances.

**The Presiding Officer:** Order. There is a lot of background noise, as well as front-bench noise. I would appreciate it if Members would listen to the questions and the answers.

### Cymorth Ariannol ar gyfer Busnesau yn y Gogledd Orllewin

***9. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol ar gyfer busnesau yn y Gogledd Orllewin. OAQ(4)0085(BET)*

**Edwina Hart:** We have several funding support streams available for businesses across all parts of Wales. I wrote to you and other Members on 7 December regarding the £15 million Wales economic growth fund. I have since launched the £40 million Wales small and medium-sized enterprise investment fund and the digital development fund.

**Antoinette Sandbach:** I have recently been contacted by a constituent in the region who runs an online professional development business for the legal profession. The business is hoping to expand, but its bank is unwilling to lend it the small amount needed to offer additional courses—£10,000—because it was a new start-up company, and despite the fact that it has offered 10 times that amount as collateral. In light of your

gan fy mod yn credu y bydd yn mynd i'r afael mewn modd eithaf cadarnhaol â'r materion a godwyd gennych. Bu llawer o drafod ag awdurdodau lleol ar y ffiniau, ac ynglŷn â pha ardaloedd y byddent o bosibl am iddynt gael eu cynnwys ac yn y blaen. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad wyf wedi datrys mater y lwfansau cyfalaf yn llwyr, byddaf mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad erbyn diwedd mis Ionawr. O ran mater y lwfansau cyfalaf, cafodd fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Cyllid, gyfarfod arbennig o dda â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yr wythnos diwethaf, sydd wedi egluro llawer o faterion inni. Bydd hynny'n ein helpu i wneud y penderfyniadau cywir. Nid yw pob ardal fenter yn Lloegr yn denu lwfansau cyfalaf iddi, felly mae'n bwysig iawn fy mod yn gwybod bod yr holl geisiadau wedi cyrraedd cyn imi wneud penderfyniad ynghylch ble yr ydym am roi'r lwfansau cyfalaf.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae llawer o sŵn cefndir yn ogystal â sŵn o'r meinciau blaen. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Aelodau yn gwrando ar y cwestiynau a'r atebion.

### Financial Support for Businesses in North West Wales

***9. Antoinette Sandbach****: Will the Minister make a statement on the financial support for businesses in North West Wales. OAQ(4)0085(BET)*

**Edwina Hart:** Mae gennym nifer o ffrydiau cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau ym mhob cwr o Gymru. Ysgrifennais atoch ac at Aelodau eraill ar 7 Rhagfyr mewn perthynas â chronfa twf economaidd Cymru, sy'n werth £15 miliwn. Ers hynny, rwyf wedi lansio cronfa fuddsoddi Cymru mewn mentrau bach a chanolig, gwerth £40 miliwn, a'r gronfa datblygu digidol.

**Antoinette Sandbach:** Clywais gan etholwr yn y rhanbarth yn ddiweddar a oedd yn rhedeg busnes datblygu proffesiynol ar-lein ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol. Mae'r busnes yn gobeithio ehangu, ond mae ei fanc yn amharod i roi benthyg y swm bach sydd ei angen i gynnig cyrsiau ychwanegol—£10,000—oherwydd ei fod yn gwmni newydd, ac er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cynnig 10 gwaith y swm hwnnw fel sicrwydd

announcement of prioritising access to funding of between £1,000 and £20,000 for microbusinesses, which I support, can you confirm that it will be available for businesses such as my constituent's, and can you outline how this will work in practice?

cyfochrog. Yn sgîl eich cyhoeddiad ynghylch blaenoriaethu mynediad at gyllid rhwng £1,000 a £20,000 ar gyfer microfusnesau—ac rwyf yn cefnogi hynny—a allwch gadarnhau y bydd ar gael i fusnesau, fel busnes fy etholwr, ac a allwch amlinellu sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol?

2.45 p.m.

**Edwina Hart:** The microbusiness report was launched today, and I have indicated that I will be working through its recommendations. So, no final decision has been taken about how we will deal with those recommendations. However, the point that you raised with me is particularly interesting. I get this from companies all the time: their order books are quite full, but they might be relatively new businesses so their banks are not prepared to do anything to enable them to take up what is on their order books. I have been discussing with officials whether there are any suitable mechanisms in place that we could use to provide assistance. If businesses have those orders and that is all that they require, we are going to have to do something. The microbusiness report has indicated the finance difficulties in the operations of banks on the ground, never mind what they say in their public relations statements.

**Edwina Hart:** Cafodd yr adroddiad microfusnesau ei lansio heddiw, ac rwyf wedi nodi y byddaf yn ystyried ei argymhellion. Felly, nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch sut y byddwn yn ymdrin â'r argymhellion hynny. Fodd bynnag, mae'r pwynt a godwyd gennych yn arbennig o ddiddorol. Rwyf yn clywed hyn gan gwmnïau drwy'r amser: mae ganddynt lawer o archebion, ond mae'n bosibl eu bod yn fusnesau cymharol newydd felly nid yw eu banciau yn barod i wneud dim i'w galluogi i wneud y gwaith ar gyfer yr archebion hynny. Rwyf wedi bod yn trafod gyda swyddogion a oes unrhyw fecanweithiau addas ar gael y gallem eu defnyddio i roi cymorth. Os oes gan fusnesau yr archebion hynny ac os mai dyna'r cyfan sydd ei angen arnynt, bydd yn rhaid inni wneud rhywbeth. Mae'r adroddiad microfusnesau wedi nodi'r anawsterau cyllidol yng ngwaith y banciau ar lawr gwlad, heb sôn am yr hyn y maent yn ei ddweud yn eu datganiadau cysylltiadau cyhoeddus.

**Llyr Huws Gruffydd:** Un rhwystredigaeth mae rhai busnesau bach yn y gogledd orllewin wedi ei godi gyda mi yw'r ffaith nad oes ganddynt y capasiti i neilltuo'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gael mynediad i'r ffynonellau cyllid ariannol hyn. Sut y byddwch yn mynd ati i sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu a datblygu?

**Llyr Huws Gruffydd:** One frustration that some small businesses in north-west Wales have raised with me is the fact that they do not have the capacity to allocate the time and resources necessary to access these funding sources. How will you set about ensuring that they are able to access the funding that they need to grow and develop?

**Edwina Hart:** There is an issue about the size of your business and whether you are able to set aside any time to do the applications that are sometimes required. The microbusiness strategy is looking at how we can streamline more help, and the way in which we take forward that recommendation will be important, as it might assist the businesses to whom you have been speaking.

**Edwina Hart:** Mae problem ynghylch maint eich busnes ac a ydych yn gallu neilltuo unrhyw amser i wneud y ceisiadau sydd weithiau'n ofynnol. Mae'r strategaeth microfusnesau yn edrych ar sut y gallwn symleiddio'r broses o roi mwy o gymorth. Bydd y modd yr ydym yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwnnw'n bwysig, oherwydd mae'n bosibl y gallai fod o gymorth i'r busnesau yr ydych wedi bod yn siarad â hwy.

**Cefnogi Busnesau yn y Gorllewin**

***10. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau yn y Gorllewin. OAQ(4)0073(BET)*

**Edwina Hart:** I refer you to my answer to question 6.

**Paul Davies:** I am sure that the Minister will agree that local pubs have an important role to play at the heart of our communities, especially in areas such as Preseli Pembrokeshire, because they also play a key role in supporting the tourism industry. Unfortunately, more and more pubs are closing in my constituency, so it is clear that more needs to be done to support pubs and breweries across Wales and to protect smaller, independent pubs. Will the Minister outline what the Welsh Government is specifically doing to support rural village pubs in areas like mine, and across Wales?

**Edwina Hart:** We can certainly do something in terms of tourism, because there is a tourism issue here that is quite important when people are staying in self-catering accommodation and so on. They like to be able to walk to a pub to have a meal and a glass of something. I will refer this issue to my tourism sector panel, to see if it can make any innovative suggestions.

**Simon Thomas:** Weinidog, mae gorllewin Cymru yn un o'r ardaloedd hynny lle mae'r nifer fwyaf o fusnesau bach iawn wedi'u lleoli, fel sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad ar feicrobusnesau a gyhoeddwyd heddiw. Mae'r adroddiad yn dweud yn glir bod mynediad i gyllid yn un o'r problemau sy'n wynebu busnesau bach fel hyn. Rydych wedi dweud nad ydych wedi penderfynu beth i'w wneud eto, felly dyma gyfle ichi ystyried rhai opsiynau amgen ar gyfer cyllid, megis cael busnesau i gydweithio i sefydlu banciau cydweithredol er mwyn benthyca rhwng busnesau bach. A fyddech yn ystyried syniadau felly, yn ogystal â'r syniadau yn yr adroddiad?

**Edwina Hart:** Yes, I will be considering all

**Support Businesses in West Wales**

***10. Paul Davies:*** *Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to support businesses in West Wales. OAQ(4)0073(BET)*

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn 6.

**Paul Davies:** Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno bod gan dafarndai lleol ran bwysig i'w chwarae wrth galon ein cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd fel Preseli Sir Benfro, gan eu bod hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi'r diwydiant twristiaeth. Yn anffodus, mae nifer cynyddol o dafarndai'n cau yn fy etholaeth, felly mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i gefnogi tafarndai a bragdai ledled Cymru ac i warchod tafarndai llai o faint ac annibynnol. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn benodol i gefnogi tafarndai mewn pentrefi gwledig mewn ardaloedd fel fy ardal i, a ledled Cymru?

**Edwina Hart:** Yn sicr, gallwn wneud rhywbeth o ran twristiaeth, gan fod twristiaeth yn bwysig iawn o ran pobl yn aros mewn llety hunanarlwyo ac yn y blaen. Maent yn hoffi gallu cerdded i'r dafarn i gael pryd o fwyd a llymaid o rywbeth. Byddaf yn cyfeirio'r mater hwn at fy mhanel sector twristiaeth, i weld a oes modd iddo wneud unrhyw awgrymiadau arloesol.

**Simon Thomas:** Minister, west Wales is one of the areas where the largest number of very small businesses is to be found, as is mentioned in the report on microbusinesses published today. The report clearly states that access to funding is one of the problems facing such businesses. You have said that you are yet to decide what steps to take, so here is an opportunity for you to consider some alternatives for funding, such as encouraging businesses to co-operate in setting up co-operative banks in order to lend to other small businesses. Would you consider such options, in addition to the ideas floated in the report?

**Edwina Hart:** Byddaf yn ystyried yr holl

approaches. In fact, I have spoken to the Wales Co-operative Centre and others about the use of credit unions in this regard, and whether we should look at establishing an all-Wales credit union that could be used for business purposes. So, these are ongoing discussions.

opsiynau. Yn wir, rwyf wedi siarad â Chanolfan Cydweithredol Cymru ac eraill ynglŷn â defnyddio undebau credyd yn hynny o beth, ac a ddylid ystyried sefydlu undeb credyd ar gyfer Cymru gyfan y gellid ei ddefnyddio at ddibenion busnes. Felly, mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

**William Powell:** Minister, many residents, pubs and other microbusinesses across west Wales rely on septic tanks and private supplies of water because of their remote location. In recent months, i have received an increasing number of referrals concerning problems with regulations, registration charges and the cost of the future testing regime that will apply. What support can your Government commit to assist those individuals and businesses in addressing the difficulties that they face?

**William Powell:** Weinidog, mae llawer o drigolion, tafarndai a microfusnesau eraill yn y gorllewin yn dibynnu ar danciau septig ac ar gyflenwadau dŵr preifat oherwydd eu lleoliad anghysbell. Yn y misoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o bobl wedi cysylltu â mi ynghylch problemau gyda rheoliadau, taliadau cofrestru a chost y gyfundrefn brofi a fydd yn weithredol yn y dyfodol. Pa gefnogaeth y gall eich Llywodraeth ei rhoi i helpu'r unigolion a'r busnesau hynny i fynd i'r afael â'r anawsterau y maent yn eu hwynebu?

**Edwina Hart:** I do not want to not answer the question, but it is not my area of expertise. I would be grateful if the Member would write to me so that I could transfer the question for the appropriate Minister or officials to respond.

**Edwina Hart:** Nid wyf am beidio ag ateb y cwestiwn, ond nid fy maes arbenigedd yw hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Aelod yn ysgrifennu ataf fel y gallaf drosglwyddo'r cwestiwn er mwyn i'r Gweinidog neu'r swyddogion priodol ymateb.

**Maes Awyr Caerdydd**

**Cardiff Airport**

***11. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau diweddar am swyddogaeth Maes Awyr Caerdydd o fewn economi Cymru. OAQ(4)0081(BET)*

***11. Mick Antoniw:*** *Will the Minister provide an update on recent discussions regarding the role of Cardiff Airport within the Welsh economy. OAQ(4)0081(BET)*

**Edwina Hart:** We continue to review all options available to help the airport to grow and to provide opportunities for Welsh businesses, and recognise the airport's important role in supporting the Welsh economy.

**Edwina Hart:** Rydym yn parhau i adolygu'r holl opsiynau sydd ar gael i helpu'r maes awyr i dyfu ac i ddarparu cyfleoedd i fusnesau Cymru, ac rydym yn cydnabod rôl bwysig y maes awyr o ran cefnogi economi Cymru.

**Mick Antoniw:** Minister, I was pleased to read certain reports and announcements that you made in respect of flight improvements and links with airlines with regard to Cardiff Airport. Do you agree that the airport is an important feature in the economic regeneration of south Wales, so ongoing discussions with the airport as to how that role may be developed are important?

**Mick Antoniw:** Weinidog, roeddwn yn falch o ddarllen adroddiadau a chyhoeddiadau a wnaethoch o ran gwelliannau i deithiau mewn awyrennau a chysylltiadau â chwmnïau awyrennau mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd. A ydych yn cytuno bod y maes awyr yn rhan bwysig o adfywiad economaidd y de, ac felly y bydd trafodaethau parhaus gyda'r maes awyr o ran sut y gellid datblygu'r rôl honno'n bwysig?

**Edwina Hart:** I could not agree more. It is important that we continue the discussions with the airport. It is important that Wales has a national airport that attracts passengers and companies to use it. We also need to look at the facilities that are available at the airport. I assure you that the First Minister and I are interested in securing improvements at the airport.

**Edwina Hart:** Rwyf yn cytuno’n llwyr. Mae’n bwysig ein bod yn parhau â’r trafodaethau gyda’r maes awyr. Mae’n bwysig bod gan Gymru faes awyr cenedlaethol sy’n denu teithwyr a chwmnïau i’w ddefnyddio. Hefyd mae angen inni edrych ar y cyfleusterau sydd ar gael yn y maes awyr. Gallaf eich sicrhau bod gan y Prif Weinidog a minnau ddiddordeb mewn sicrhau gwelliannau i’r maes awyr.

**Byron Davies:** I was interested in the answer that you gave to Mick Antoniw, when you said that you are considering all options. Accepting that the ways in which the Labour Government can assist Cardiff Airport are many and varied, will you work with the private consortium that is preparing plans for the new Severn barrage project, to ensure that the airport is linked to any infrastructure improvements, both in terms of rail and road, in order to improve its business opportunities?

**Byron Davies:** Roedd gennyf ddiddordeb yn yr ateb a roddwyd gennych i Mick Antoniw, pan wnaethoch ddweud eich bod yn ystyried pob opsiwn. Gan dderbyn bod y ffyrdd y gall y Llywodraeth Lafur gynorthwyo Maes Awyr Caerdydd yn niferus ac yn amrywiol, a fyddwch yn gweithio gyda’r consortiwm preifat sy’n paratoi cynlluniau ar gyfer prosiect newydd morglawdd Hafren, i sicrhau bod y maes awyr yn cael ei gysylltu ag unrhyw welliannau i’r seilwaith, o ran y ffyrdd a’r rheilffyrdd, er mwyn gwella ei gyfleoedd busnes?

**Edwina Hart:** The Severn barrage project has been a subject of discussion with my officials. The First Minister takes the primary lead on energy issues, but we will do anything, as a Government, to assist the airport. One opportunity for the airport is the metro that has been discussed, and the transport proposal to electrify the Valleys line, which would be important for public access to the airport. Along with Carl Sargeant’s officials, my officials are actively looking at all those issues.

**Edwina Hart:** Mae prosiect morglawdd Hafren wedi bod yn destun trafodaeth gyda fy swyddogion. Y Prif Weinidog sy’n arwain o ran materion ynni, ond fel Llywodraeth gwnawn unrhyw beth i gynorthwyo’r maes awyr. Un o’r cyfleoedd i’r maes awyr yw’r metro a drafodwyd, yn ogystal â’r cynnig i drydaneiddio rheilffordd y Cymoedd, a fyddai’n bwysig o ran mynediad cyhoeddus i’r maes awyr. Ynghyd â swyddogion Carl Sargeant, mae fy swyddogion wrthi’n ystyried yr holl faterion hynny.

## Selonda UK

## Selonda UK

***13. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol a roddwyd i Selonda UK gan Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0084(BET)*

***13. Antoinette Sandbach:*** *Will the Minister make a statement on the financial support given to Selonda UK by the Welsh Government. OAQ(4)0084(BET)*

**Edwina Hart:** I have written to you today on this matter and I have placed a copy of the correspondence in the Library for the benefit of all Members.

**Edwina Hart:** Rwyf wedi ysgrifennu atoch heddiw ar y mater hwn ac rwyf wedi rhoi copi o’r ohebiaeth yn y Llyfrgell er budd yr holl Aelodau.

**Antoinette Sandbach:** It is welcome news that the fish farm at Penmon is now under new management, that the animal welfare and pollution risks have been avoided and

**Antoinette Sandbach:** Mae’n newyddion da bod y fferm bysgod ym Mhenmon bellach o dan reolaeth newydd, bod y peryglon o ran lles anifeiliaid a llygredd wedi cael eu hosgoi

that 32 jobs have been secured. I know that the Minister recognises public concern when a business runs into financial difficulty after receiving millions of pounds of public funding from the Welsh Government. I look forward to reading your letter. On separate matters, can you confirm how long you and your officials were aware that the business was in difficulty? Are you fully confident that all the funding given to Selonda UK since 2002 was spent on its intended purposes?

a bod 32 o swyddi wedi'u diogelu. Gwn fod y Gweinidog yn cydnabod pryder y cyhoedd pan fydd busnes yn mynd i drafferthion ariannol ar ôl cael miliynau o bunnau o arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at ddarllen eich llythyr. O ran materion eraill, a allwch gadarnhau ers faint o amser yr oeddech chi a'ch swyddogion yn ymwybodol bod y busnes mewn trafferthion? A ydych yn gwbl hyderus bod yr holl arian a roddwyd i Selonda UK ers 2002 wedi'i wario ar y dibenion a fwriadwyd?

**Edwina Hart:** It will be helpful for you to read the correspondence that I have sent you. The long-term future of the site has now been secured by the new owners, which is the important point. There is a viable future for the site, which I think will protect our investment. That is the key message that I have for Members today.

**Edwina Hart:** Byddai'n ddefnyddiol ichi ddarllen yr ohebiaeth yr wyf wedi'i hanfon atoch. Mae dyfodol hirdymor y safle bellach wedi ei sicrhau gan y perchnogion newydd, sef y pwynt pwysig. Mae gan y safle ddyfodol hyfyw, a chredaf y bydd hyn yn diogelu ein buddsoddiad. Dyna'r brif neges sydd gennyf ar gyfer yr Aelodau heddiw.

**Ieuan Wyn Jones:** Hoffwn ddiolch yn gynnes i'r Gweinidog a'i dirprwy am gadw mewn cysylltiad ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf ar ddyfodol Selonda UK. Bu'n fater o bryder enfawr i etholwyr Môn ac i'r gweithwyr. Rwyf am gofnodi ein diolch i'r Gweinidog am ei gwaith hi, ei swyddogion a'i Dirprwy Weinidog i sicrhau dyfodol y safle.

**Ieuan Wyn Jones:** I would like to warmly thank the Minister and her deputy for keeping in touch with us on the latest developments for the future of Selonda UK. It was a matter of great concern for electors in Anglesey and for the workers. I want to record our thanks to the Minister, her officials and her Deputy Minister for their work on securing the future of the site.

**Edwina Hart:** I thank the Member for those comments. He is fully aware of the difficult position that the Government and the company were in. Hopefully, we have secured a brighter future.

**Edwina Hart:** Rwyf yn diolch i'r Aelod am y sylwadau hynny. Mae'n gwbl ymwybodol o'r sefyllfa anodd yr oedd y Llywodraeth a'r cwmni ynddi. Gobeithio ein bod wedi sicrhau dyfodol gwell.

**Creu Swyddi**

**Job Creation**

***14. Angela Burns:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog creu swyddi drwy gefnogi busnesau bach a chanolig. OAQ(4)0075(BET)*

***14. Angela Burns:*** *Will the Minister outline what steps the Welsh Government is taking to encourage job creation through support for SMEs. OAQ(4)0075(BET)*

**Edwina Hart:** We have made clear commitments, and our plans are set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Rydym wedi gwneud ymrwymiadau clir, ac mae ein cynlluniau wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu.

**Angela Burns:** Small and medium-sized businesses support their local communities by providing employment opportunities, whether they are full time or part time. The retail sector is a large part of the business

**Angela Burns:** Mae busnesau bach a chanolig yn cefnogi eu cymunedau lleol drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, p'un a ydynt yn amser llawn neu'n rhan amser. Mae'r sector manwerthu'n rhan fawr o'r gymuned

community and can provide opportunities that inject growth. I acknowledge that there is some support for SMEs through the Welsh Government's economic growth fund, but retail businesses are excluded at present. I have a couple of cases that I can send on to you that demonstrate how difficult it is for small businesses to get funding. Are you able to identify specific strands of support available to retail businesses that wish to expand?

fusnes a gall ddarparu cyfleoedd sy'n ysgogi twf. Rwyf yn cydnabod bod rhywfaint o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig drwy gronfa twf economaidd Llywodraeth Cymru, ond nid yw busnesau manwerthu'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd. Mae gennyf ychydig o achosion y gallaf eu hanfon ymlaen atoch sy'n dangos mor anodd yw i fusnesau bach gael cyllid. A allwch nodi'r mathau penodol o gymorth sydd ar gael i fusnesau manwerthu sy'n dymuno ehangu?

**Edwina Hart:** I thank the Member for that question. Retail is a sector that worries individual Members in the Chamber, who are worried about the lack of support available for retail. I will consider looking at the retail sector, as part of a strand of work with my ministerial advisory board, and will be more than happy to report back to Members in due course. If the Member sends me the details of the firms concerned, I will consider them; as I will those from other Members.

**Edwina Hart:** Rwy'n diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae manwerthu'n sector sy'n peri pryder i Aelodau yn y Siambr, sy'n poeni am y diffyg cymorth sydd ar gael ar gyfer y sector. Byddaf yn ystyried edrych ar y sector manwerthu fel rhan o waith fy mwrdd cynghori, ac rwyf yn fwy na pharod i adrodd yn ôl i'r Aelodau maes o law. Os bydd yr Aelod yn anfon manylion y cwmnïau dan sylw ataf, byddaf yn eu hystyried; a byddaf hefyd yn ystyried manylion gan Aelodau eraill.

**Alun Ffred Jones:** Yn adroddiad eich grŵp gorchwyl a gorffen, rydych yn sôn am greu Bil caffael sector cyhoeddus. Yn y Bil hwnnw, rydych yn gobeithio annog rhagor o gaffael lleol, ond sut y byddai Bil o'r fath yn gallu sicrhau bod tendrau yn y sector cyhoeddus yn mynd fwyfwy i gwmnïau lleol?

**Alun Ffred Jones:** In your task and finish group report, you talk about having a public sector procurement Bill. In that Bill, you hope to encourage more local procurement, but how would such a Bill be able to ensure that more public sector tenders went to local companies?

**Edwina Hart:** My independent task and finish group has advised me on this matter, and one of the things that it has suggested is a procurement Bill. It is now up to me to look at the issues that the group has raised with me. There are probably alternatives to a Bill that we might need to look at, in terms of how we can deal with the issues. My colleague Jane Hutt is already looking at all of the issues that have been raised with regard to procurement, and we will continue to do so.

**Edwina Hart:** Mae fy ngrŵp gorchwyl a gorffen annibynnol wedi rhoi cyngor imi ar y mater hwn, ac un o'r pethau a awgrymwyd ganddo yw Bil caffael. Nawr rhaid imi ystyried y materion y mae'r grŵp wedi'u dwyn i'm sylw. Mae'n debyg bod dewisiadau eraill y bydd angen inni eu hystyried, yn lle Bil, o ran sut y gallwn ymdrin â'r materion hyn. Mae fy nghyd-Weinidog, Jane Hutt, eisoes yn ystyried yr holl faterion a godwyd mewn perthynas â chaffael, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

### Ardaloedd Menter

### Enterprise Zones

***15. Eluned Parrott:*** *Beth oedd yr amserlen ar gyfer penderfynu natur ardaloedd menter yng Nghymru. OAQ(4)0079(BET)*

***15. Eluned Parrott:*** *What has been the timeline in determining the nature of Enterprise Zones in Wales. OAQ(4)0079(BET)*

**Edwina Hart:** I have answered this in response to other questions. I announced on

**Edwina Hart:** Rwyf wedi ateb y cwestiwn hwn wrth ymateb i gwestiynau eraill.

September 20 that we would be having enterprise zones and that they would be operational in April 2012.

Cyhoeddais ar 20 Medi y byddwn yn cael ardaloedd menter ac y byddant yn weithredol ym mis Ebrill 2012.

**Eluned Parrott:** You may have read in the press that Wayne Rooney, Florent Malouda and Arsène Wenger have recently invested in the enterprise zone in Newcastle. This goes to show that enterprise zones in England are now so advanced that not only are they attracting investment from traditional industries, but from completely new sources of investment as well. It is hard to escape the impression, Minister, that they are forging ahead and leaving us trailing in the dust. Do you accept that the Welsh Government's lack of urgency in defining its own enterprise zones means that vital investment is being sucked into the up and running ones in England?

**Eluned Parrott:** Efallai eich bod wedi darllen yn y wasg fod Wayne Rooney, Florent Malouda ac Arsène Wenger wedi buddsoddi yn yr ardal fenter yn Newcastle yn ddiweddar. Mae hyn yn dangos bod ardaloedd menter yn Lloegr bellach wedi datblygu cymaint nes eu bod nid yn unig yn denu buddsoddiad gan ddiwydiannau traddodiadol, ond gan ffynonellau buddsoddi newydd yn ogystal. Mae'n anodd osgoi'r argraff, Weinidog, eu bod yn bwrw ymlaen ac yn ein gadael ni ar ôl. A ydych yn derbyn bod diffyg brys Llywodraeth Cymru o ran diffinio ei hardaloedd menter yn golygu bod buddsoddiad hanfodol yn cael ei sugno i'r ardaloedd yn Lloegr sydd eisoes yn weithredol?

**Edwina Hart:** I think that Arsène Wenger very much enjoyed his trip to the Liberty Stadium on Sunday afternoon, so perhaps he should consider his investment options in Wales. [*Laughter.*] Enterprise zones do not exist even in England until April 2012. There are people interested in investing in the ones that have already been identified in Wales, but they may not be the types of personalities that the media would pick up and comment on.

**Edwina Hart:** Credaf fod Arsène Wenger wedi mwynhau ei daith i Stadiwm Liberty brynhawn Sul yn fawr iawn, felly efallai y dylai ystyried ei opsiynau o ran buddsoddi yng Nghymru. [*Chwerthin.*] Ni fydd ardaloedd menter yn bodoli yn Lloegr hyd yn oed tan fis Ebrill 2012. Mae gan bobl ddiddordeb mewn buddsoddi yn yr ardaloedd menter sydd eisoes wedi'u pennu yng Nghymru, ond efallai nad ydynt y mathau o bersonoliaethau y byddai'r cyfryngau yn sylwi arnynt.

**William Graham:** Minister, would you not agree that it is important that we should talk up enterprise zones, that they should be a major source of new finance, perhaps if more capital allowances are available, and that we should ensure that when they do exist—I hope that there will be some announcement at the end of this month—they put Wales on an equal footing with England, and that investors in Wales will be equally forthcoming?

**William Graham:** Weinidog, oni fyddech yn cytuno ei bod yn bwysig inni siarad o blaid ardaloedd menter ac y dylent fod yn brif ffynhonnell cyllid newydd, os bydd mwy o lwfansau cyfalaf ar gael, efallai? A ydych yn cytuno hefyd y dylem sicrhau, pan fyddant yn bodoli—rwyf yn gobeithio y bydd cyhoeddiad ddiwedd y mis hwn—y byddant yn sicrhau bod Cymru yn gyfartal â Lloegr ac y bydd buddsoddwyr yn dod i Gymru yn yr un modd?

**Edwina Hart:** Once we have finalised the arrangements, it is a question of having a publicity scheme on what we need to attract and what we are able to offer. I concur with that comment, but not necessarily with the comment about being equal to England; we should try to establish enterprise zones that are superior.

**Edwina Hart:** Wedi inni gwblhau'r trefniadau, bydd rhaid cael cynllun cyhoeddusrwydd ynglŷn â'r hyn y mae angen inni ei ddenu a'r hyn y gallwn ei gynnig. Rwyf yn cytuno â'r sylw hwnnw, ond nid o reidrwydd â'r sylwadau am fod yn gyfartal â Lloegr; dylem geisio sefydlu ardaloedd menter gwell.

## Pwynt o Drefn
## Point of Order

**Jocelyn Davies:** Will you confirm, Presiding Officer, that my question about the current Government's commitment to resisting privatisation of the NHS was, in fact, in order, despite Alun Davies's loud objections from a sedentary position to it being asked? Will you confirm that Mick Antoniw's question about the impact of UK Government policy on regional pay was also in order, and that opposition and backbench Members are entitled to put these questions to Welsh Ministers?

**Jocelyn Davies:** A wnewch gadarnhau, Lywydd, fod fy nghwestiwn am ymrwymiad y Llywodraeth bresennol i wrthsefyll preifateiddio'r GIG, mewn gwirionedd, yn dderbyniol, er gwaethaf gwrthwynebiad swnllyd Alun Davies o'i sedd? A wnewch gadarnhau bod cwestiwn Mick Antoniw ynghylch effaith polisi Llywodraeth y DU ar gyflog rhanbarthol hefyd yn dderbyniol, a bod gan Aelodau'r gwrthbleidiau ac Aelodau'r meinciau cefn yr hawl i ofyn y cwestiynau hyn i Weinidogion Cymru?

**The Presiding Officer:** I do not think that that is a point of order, but the point has been well made.

**Y Llywydd:** Nid wyf yn credu mai pwynt o drefn yw hynny, ond rydych wedi gwneud y pwynt.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar
### Early Years Programmes

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Peter Black, and amendment 4 in the name of Jocelyn Davies.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Peter Black, a gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies.

*Cynnig NDM4892 William Graham*

*Motion NDM4892 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfres ragorol o raglenni wedi'u hanelu'n benodol at y blynyddoedd cynnar er mwyn galluogi plant i ffynnu'n addysgol ac yn gymdeithasol;*

*1. Recognises the importance of delivering an outstanding suite of programmes aimed specifically at early years to enable children to thrive both educationally and socially;*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*2. Calls on the Welsh Government to:*

*a) rhoi sylw i ganfyddiadau Gwerthusiad o Dechrau'n Deg 2011 sy'n dweud mai cyrraedd teuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sydd leiaf llwyddiannus; ac*

*a) address findings in the 2011 Evaluation of Flying Start that it is 'having least success in reaching socio-economically disadvantaged families'; and*

*b) adolygu'r amrywiadau presennol ar draws y Cyfnod Sylfaen, yn benodol o ran cysondeb ac ansawdd yr hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr.*

*b) review the current variability across the Foundation Phase, specifically relating to consistency and quality of training for practitioners.*

**Angela Burns:** I move the motion in the name of William Graham.

**Angela Burns:** Cynigiaf y cynnig yn enw William Graham.

I am sure that all parties in the Assembly recognise the huge importance of delivering the best array of programmes to help the development of the youngest children in our society. We must aim to place children in Wales in the best position to succeed in their future, in both education and social development. Progress during the early years of a child's life can have a huge impact on their general wellbeing, their emotional and social development and physical and intellectual ability. According to an independent report on early intervention, entitled 'The Next Steps', appropriate intervention can forestall many persistent social problems and end their transmission from one generation to the next. The Joseph Rowntree Foundation stated in its literature review that

Rwy'n siŵr bod pob plaid yn y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd darparu'r amrywiaeth gorau o raglenni i helpu datblygiad y plant ieuengaf yn ein cymdeithas. Rhaid inni anelu at sicrhau bod plant yng Nghymru yn y sefyllfa orau i lwyddo yn eu dyfodol, o ran datblygiad addysgol a chymdeithasol. Gall cynnydd yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn gael effaith enfawr ar eu lles cyffredinol, eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol a'u gallu corfforol a deallusol. Yn ôl adroddiad annibynnol ar ymyrraeth gynnar, 'The Next Steps', gall ymyrraeth briodol rwystro llawer o broblemau cymdeithasol parhaus a'u hatal rhag cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Yn ei arolwg llenyddiaeth, dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree fod

'youngsters from low-income households end up leaving school earlier and are around six times more likely to leave without qualifications than those from higher-income households'.

pobl ifanc o gartrefi incwm isel, yn y pen draw, yn gadael yr ysgol yn gynt a'u bod tua chwe gwaith yn fwy tebygol o adael heb gymwysterau na'r rhai o gartrefi incwm uwch.

3.00 p.m.

**Angela Burns:** Amendment 2 in the name of Peter Black highlights that just 21% of pupils entitled to free school meals achieved five good GCSEs at grades A to C. The Welsh Conservatives strongly believe that it is important to give children the best start from their early years to the start of formal education, and we will support policies that aim to do this. The Welsh Labour Government has implemented programmes concerned with early years development, such as the Flying Start and foundation phase programmes. Although I wish to reiterate our strategic support for those, we should also recognise that neither of these programmes has existed long enough to provide data sets that demonstrate empirical evidence of their efficacy. This is why the Welsh Government must continually seek to review and evaluate Flying Start and the foundation phase, in order to understand what additional developments may be necessary to ensure that funding is targeted at the most effective

**Angela Burns:** Mae gwelliant 2 yn enw Peter Black yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond 21% o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a gafodd bum TGAU da gradd A i C. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu'n gryf ei bod yn bwysig rhoi'r cychwyn gorau i blant o'u mebyd hyd ddechrau addysg ffurfiol, a byddwn yn cefnogi polisïau sydd â'r nod o wneud hyn. Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi gweithredu rhaglenni sy'n ymwneud â datblygiad y blynyddoedd cynnar, megis rhaglenni Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen. Er fy mod yn dymuno ailadrodd ein cefnogaeth strategol i'r rheini, dylem hefyd gydnabod nad yw'r un o'r rhaglenni hyn wedi bodoli yn ddigon hir i ddarparu setiau data sy'n dangos tystiolaeth empirig o'u heffeithiolrwydd. Dyma pam mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru geisio adolygu a gwerthuso Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen yn barhaus, er mwyn deall pa ddatblygiadau ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol i

activities.

sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu at y gweithgareddau mwyaf effeithiol.

However, these programmes are quite different in terms of the responses to any review and evaluation the Government may undertake. Flying Start is a prescriptive intervention in a child's family in order to enhance their experiences in the early years. The foundation phase is a pedagogy, and, therefore, I wish to address my remarks to them in the order in which these programmes appear in the motion and to be clear in the separation of my comments on each.

Fodd bynnag, mae'r rhaglenni hyn yn wahanol iawn o ran yr ymatebion i unrhyw adolygiad a gwerthusiad y bydd y Llywodraeth o bosibl yn ymgymryd â nhw. Ymyrraeth benodol yn nheuluoedd plant er mwyn gwella eu profiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg, ac addysgeg yw'r cyfnod sylfaen . Felly, rwyf yn dymuno eu trafod yn y drefn yr ymddengys y rhaglenni hyn yn y cynnig a gwahanu'n bendant rhwng fy sylwadau ar bob un.

The short to medium-term aims of Flying Start are not only to ensure the earlier identification of needs, but to avoid children and young people being admitted to the care system and to avoid those children and young people ending up in other remedial systems, such as services provided by youth offending teams and substance misuse services. In the long term, we all hope that an effective Flying Start programme that can touch the lives of the most chaotic families will help to reduce the rate of criminal activity and behaviours, truancy and drug use. We hope to keep those children and young people in education, thereby helping to reduce the number of people with very poor skills and to foster higher employment opportunities, increased earnings and better qualifications at the end of their schooling. However, the findings in the 2011 evaluation of Flying Start state that it is having the least success in reaching socioeconomically disadvantaged families, which is surely the raison d'être of the programme for all the short, medium and long-term aims I have just mentioned.

Amcanion Dechrau'n Deg yn y tymor byr i'r tymor canolig yw nid yn unig sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynharach, ond osgoi bod plant a phobl ifanc yn mynd i'r system ofal ac osgoi bod y plant a'r bobl ifanc hynny yn mynd i systemau adferol eraill, megis y gwasanaethau timau troseddau ieuenctid a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn y tymor hir, rydym i gyd yn gobeithio y bydd rhaglen Dechrau'n Deg effeithiol sy'n gallu cyffwrdd â bywydau'r teuluoedd mwyaf di-drefn yn helpu i leihau cyfradd gweithgarwch ac ymddygiad troseddol, triwantiaeth a defnyddio cyffuriau. Rydym yn gobeithio cadw'r plant a'r bobl ifanc hynny mewn addysg, a thrwy hynny helpu i leihau nifer y bobl â sgiliau gwael iawn a meithrin cyfleoedd cyflogaeth uwch, mwy o enillion a chymwysterau gwell ar ddiwedd eu haddysg. Fodd bynnag, mae canfyddiadau gwerthusiad 2011 o Dechrau'n Deg yn dweud mai'r maes y mae'n cael lleiaf o lwyddiant ynddo yw o ran cyrraedd teuluoedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, sef y rheswm dros fodolaeth y rhaglen ar gyfer yr holl amcanion tymor byr, canolig a hir yr wyf newydd eu crybwyll.

This programme, which is geographically targeted at some of the most deprived areas of Wales is universally available to families with children aged 0 to 3 in those areas. Without doubt, the scheme has achieved partial success in certain areas, such as home visits and making families who have started Flying Start feel well supported. Participating families receive higher levels of support from health visitors and have access to parenting programmes, and they are able to participate

Mae'r rhaglen hon, a dargedir yn ddaearyddol at rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ar gael i'r holl deuluoedd sydd â phlant rhwng 0 a 3 oed yn yr ardaloedd hynny. Heb amheuaeth, mae'r cynllun wedi llwyddo'n rhannol mewn rhai meysydd, fel ymweliadau cartref a gwneud i deuluoedd sydd wedi dechrau Dechrau'n Deg deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae teuluoedd sy'n cymryd rhan yn cael lefelau uwch o gefnogaeth gan ymwelwyr iechyd ac

in far more language and play initiatives than families in comparison areas. However, we have concerns about some weaknesses in the programme and about its continued funding.

maent yn gallu cymryd rhan mewn rhaglenni magu plant ac mewn llawer mwy o fentrau iaith a chwarae na theuluoedd mewn ardaloedd cymharol. Fodd bynnag, mae gennym bryderon am rai gwendidau yn y rhaglen ac am ei chyllid yn y dyfodol.

According to the evaluation of Flying Start released last month, the take-up of language and play courses is much lower among families who have multiple socioeconomic disadvantages compared with the most advantaged and educated families in those areas. Language and play courses have many advantages. According to the Government's own report, 80% of parents found them helpful not just for their child or children, but because of aspects such as greater socialisation between peer groups, as well as finding them helpful for themselves. They saw positive outcomes from attending the courses.

Yn ôl y gwerthusiad o Dechrau'n Deg a ryddhawyd fis diwethaf, mae nifer y teuluoedd sydd ag anfanteision economaidd-gymdeithasol lluosog sy'n manteisio ar gyrsiau iaith a chwarae yn llawer is na nifer y teuluoedd mwyaf breintiedig ac addysgedig yn yr ardaloedd hynny sy'n manteisio arnynt. Mae llawer o fanteision i gyrsiau iaith a chwarae. Yn ôl adroddiad y Llywodraeth ei hun, roedd 80% o rieni yn dweud eu bod yn ddefnyddiol, nid yn unig ar gyfer eu plentyn neu eu plant, ond oherwydd agweddau megis mwy o gymdeithasoli rhwng grwpiau cyfoedion, yn ogystal ag ar gyfer y rhieni eu hunain. Roeddent yn gweld canlyniadau cadarnhaol i fynychu'r cyrsiau.

This type of success should be built on, and more families with multiple socioeconomic disadvantages should be encouraged to participate. The Ipsos MORI report on Flying Start in 2009 stated that the common theme running through areas that have Flying Start schemes is that there is a lack of parental awareness of the scheme. It is likely that the families that this scheme can support most often do not know of its existence. More crucially, recent research has shown that, if they are aware of it, some might be reluctant to step forward to ask for help from agencies they find hard to trust. According to the Government's report, only 30% of parents are aware of parenting courses, with a very small proportion taking them up.

Dylid adeiladu ar y math hwn o lwyddiant, a dylid annog rhagor o deuluoedd sydd ag anfanteision economaidd-gymdeithasol lluosog i gymryd rhan. Nododd adroddiad Ipsos MORI ar Dechrau'n Deg yn 2009 mai'r thema gyffredin a oedd yn nodwedd ar ardaloedd oedd â chynlluniau Dechrau'n Deg oedd diffyg ymwybyddiaeth rhieni o'r cynllun. Mae'n debygol nad yw'r teuluoedd y gall y cynllun hwn eu cefnogi fwyaf yn gwybod am ei fodolaeth yn aml. Yn bwysicach, mae ymchwil ddiweddar wedi dangos, os ydynt yn ymwybodol ohono, y gall rhai ohonynt fod yn gyndyn o gamu ymlaen a gofyn am gymorth gan asiantaethau y maent yn ei chael yn anodd ymddiried ynddynt. Yn ôl adroddiad y Llywodraeth, dim ond 30% o rieni sy'n ymwybodol o gyrsiau rhianta, a chyfran fach iawn ohonynt sy'n manteisio arnynt.

Save the Children has also raised concerns about rising childcare costs in Wales. These rising costs are significant for disadvantaged families, and the Flying Start initiative could be of benefit, although the amount of childcare is, admittedly, very limited. It also states that parents have raised concerns about the facility and venue choices of Flying Start projects. Flying Start co-ordinators themselves have raised several concerns

Mae Achub y Plant hefyd wedi codi pryderon am y ffordd y mae costau gofal plant yng Nghymru yn codi. Mae'r costau cynyddol hyn yn sylweddol i deuluoedd o dan anfantais, a gallai Dechrau'n Deg fod yn fuddiol, er mai ychydig iawn o ofal plant sydd, mae'n rhaid cyfaddef. Mae'n datgan hefyd fod rhieni wedi mynegi pryderon am y cyfleusterau a'r lleoliadau a ddewisir ar gyfer prosiectau Dechrau'n Deg. Mae

about the challenges they face with regard to funding and the system of allocation. They have raised concerns about the recruitment and retention of health visitors, leaving gaps in service. They also have concerns that newly qualified health visitors do not have the required knowledge, skill and experience base to manage the complex caseloads that Flying Start areas require, despite investment in training.

cydgysylltwyr Dechrau'n Deg eu hunain wedi codi nifer o bryderon ynglŷn â'r heriau a wynebant o ran ariannu a'r system ddyrannu. Maent wedi codi pryderon ynghylch recriwtio a chadw ymwelwyr iechyd, a hynny'n gadael bylchau yn y gwasanaeth. Maent yn pryderu hefyd nad oes gan ymwelwyr iechyd sydd newydd gymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r sylfaen o brofiad sydd eu hangen i reoli'r baich achosion cymhleth a geir mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, er gwaethaf buddsoddiad mewn hyfforddiant.

These questions will be further exacerbated by the much welcomed roll-out of Flying Start. The Government has said that it will double the number of children benefiting from Flying Start and that it will prioritise the needs of the poorest and protect the most vulnerable. Yet, there are concerns over funding and the recruitment and retention of enough staff to resource the increase in the programme.

Bydd y cwestiynau hyn yn dwysáu ymhellach wrth i Dechrau'n Deg gael ei ymestyn, rhywbeth a groesewir yn fawr. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn dyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg ac y bydd yn rhoi blaenoriaeth i anghenion y bobl dlotaf ac y bydd yn amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, mae pryderon ynglŷn â chyllid a recriwtio a chadw digon o staff i fod yn adnoddau ar gyfer y cynnydd yn y rhaglen.

These all show that there are weaknesses in the Flying Start scheme, which will consequently affect families from poorer socioeconomic groups. These weaknesses will need to be addressed by the Welsh Government in order to provide the best support for the most disadvantaged families in Wales. I call upon the Minister to address the findings in the evaluation released last month of Flying Start that states that the scheme is having the least success in reaching the most deprived families in Wales.

Dengys y rhain i gyd fod gwendidau yn y cynllun Dechrau'n Deg, a fydd o ganlyniad yn effeithio ar deuluoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol tlotach. Bydd angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r gwendidau hyn er mwyn darparu'r cymorth gorau ar gyfer y teuluoedd o dan yr anfantais fwyaf yng Nghymru. Rwyf yn galw ar y Gweinidog i fynd i'r afael â'r canfyddiadau yn y gwerthusiad o Dechrau'n Deg a ryddhawyd fis diwethaf sy'n nodi bod mai o ran cyrraedd y teuluoedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru y mae'r cynllun yn lleiaf llwyddiannus.

Given that the full impact of Flying Start will not be fully realised for years to come, and with the Welsh Government's plan to expand it, we really must ensure that the evaluation is open and transparent and conducted as quickly as possible, because we sincerely feel that we are wasting targeted money at a time when we have very little money in our public coffers.

O gofio na fydd effaith lawn Dechrau'n Deg yn cael ei gwireddu'n llwyr am flynyddoedd i ddod, a chyda chynllun Llywodraeth Cymru i'w ymestyn, mae'n rhaid inni sicrhau bod y gwerthusiad yn agored ac yn dryloyw a'i fod yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, oherwydd ein bod yn teimlo o ddifrif ein bod yn gwastraffu arian wedi ei dargedu ar adeg pan yw'r arian yn ein coffrau cyhoeddus yn brin iawn.

**Simon Thomas:** It also seems to me that the Government is moving rather quickly to double Flying Start without taking into

**Simon Thomas:** Ymddengys i mi hefyd fod y Llywodraeth yn symud braidd yn gyflym i ddyblu Dechrau'n Deg heb ystyried gwersi

account the full lessons of the evaluation, especially in rolling out best practice. We could be seeing more money going to ways of working that are not the most beneficial or effective. Does she share my concerns on that?

llawn y gwerthusiad, yn enwedig o ran cyflwyno arferion gorau. Gallem fod yn gweld mwy o arian yn mynd at ffyrdd o weithio llai buddiol ac effeithiol. A yw hi'n pryderu, fel yr wyf fi, ynghylch hynny?

**Angela Burns:** I absolutely share your concerns. We must make it clear that we all welcome the initiative, but we must ensure that we do it properly, that it is implemented properly and that the processes are in place.

**Angela Burns:** Rwyf finnau'n pryderu ynghylch hynny. Mae'n rhaid inni ei gwneud yn glir ein bod i gyd yn croesawu'r fenter, ond mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn iawn, ei fod yn cael ei weithredu'n iawn a bod y prosesau ar waith.

I would now like to address my concerns with regard to the variability of delivery across the foundation phase, specifically relating to the consistency and quality of training for practitioners. The foundation phase is an entirely new pedagogy that has proven incredibly successful in various iterations in a number of European, predominantly Scandinavian, countries. These countries tend to have a stable society with mature cultural norms. Research has shown that children do not benefit from extensive formal education until they are six or seven years of age, and that the way schools had changed, where children were being taught to read at five, was often detrimental to their long-term engagement with education.

Yn awr, hoffwn drafod fy mhryderon o ran yr amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar draws y cyfnod sylfaen, yn benodol ynglŷn â chysondeb ac ansawdd yr hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr. Mae'r cyfnod sylfaen yn addysgeg hollol newydd sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus mewn fersiynau gwahanol mewn nifer o wledydd Ewrop, yn bennaf y gwledydd Sgandinafaidd. Mae'r gwledydd hyn yn tueddu i fod yn gymdeithasau sefydlog gyda normau diwylliannol aeddfed. Mae ymchwil wedi dangos nad yw plant yn elwa o addysg ffurfiol helaeth nes eu bod yn chwech neu saith mlwydd oed, a bod y ffordd yr oedd ysgolion wedi newid, lle y cafodd plant eu haddysgu i ddarllen yn bum mlwydd oed, yn aml yn niweidiol i'w hymgysylltiad tymor hir ag addysg.

Since last September, the foundation phase programme has been fully in place for children from the ages of three to seven, and while it is far too early to see the full impact of the initiative, given that the first complete cohort will not emerge from the foundation phase until September 2012, now it is fully operational, it is important, through a process of evaluation, that the Government allows the year 2s of 2012 to complete their primary schooling before judgments are made on their development. I share the concerns of Estyn and a number of other educationalists over the delivery of the foundation phase. I am concerned that the holistic nature of the foundation phase may become skewed towards a narrow focus on literacy and numeracy.

Ers mis Medi diwethaf, mae'r rhaglen y cyfnod sylfaen wedi bod ar waith yn llawn ar gyfer plant o dair i saith mlwydd oed, ac er ei bod yn llawer rhy gynnar i weld effaith lawn y fenter, o gofio na fydd y garfan gyflawn gyntaf yn gadael y cyfnod sylfaen hyd fis Medi 2012, gan ei fod bellach yn gwbl weithredol, mae'n bwysig bod y Llywodraeth, drwy broses o werthuso, yn caniatáu i aelodau blwyddyn 2 2012 gwblhau eu haddysg gynradd cyn pwyso a mesur eu datblygiad. Rwyf finnau, yr un fath ag Estyn a nifer o addysgwyr eraill, yn pryderu am y ffordd y mae'r cyfnod sylfaen yn cael ei ddarparu. Rwyf yn pryderu y gallai natur gyfannol y cyfnod sylfaen wyro tuag at ffocws cul ar lythrennedd a rhifedd.

We need our children to be able to read, write, comprehend and add up, and it is vital

Mae angen i'n plant fod yn gallu darllen, ysgrifennu, deall ac adio, ac mae'n hanfodol

that they should enter secondary school with exactly those abilities. However, that requirement does not preclude the imaginative and controlled deployment of foundation phase learning. We have accepted the pedagogy as iterated so well in Scandinavia, but are we in danger of tinkering with a system that has not yet had the opportunity to show what it can or ought to deliver? At the ages of six, seven or eight, reading, writing and numeracy are only part of the story. For example, the average boy is less mature than the average girl when he starts school. Young boys are not as verbally skilled as young girls and are slower in the areas of reading and writing. There is much research that shows that we ask too much of boys developmentally in the early years. The foundation phase ethos enables a boy to enjoy far more hands-on learning opportunities, which are vital for keeping them engaged. Research has even shown that boys learn to read better when lying on their stomachs, book in hand, legs drumming the air. They are simply more active than many girls and they have trouble sitting still for long periods.

eu bod yn mynd i'r ysgol uwchradd gyda'r union alluoedd hynny. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad hwnnw'n atal defnydd dychmygus ac wedi ei reoli o ddysgu'r cyfnod sylfaen. Rydym wedi derbyn yr addysgeg sydd wedi cael ei defnyddio cystal yn Sgandinafia, ond a oes perygl inni botsian â system sydd heb gael cyfle eto i ddangos yr hyn y gall neu y dylai ei ddarparu? Pan fo plant yn chwech, saith neu wyth mlwydd oed, rhan o'r stori yn unig yw darllen, ysgrifennu a rhifedd. Er enghraifft, mae bechgyn ar gyfartaledd yn llai aeddfed na merched pan ydynt yn dechrau yn yr ysgol. Nid yw bechgyn ifanc mor fedrus ar lafar â merched ifanc ac maent yn arafach ym meysydd darllen ac ysgrifennu. Mae llawer o ymchwil sy'n dangos ein bod yn gofyn gormod gan fechgyn o ran eu datblygiad yn y blynyddoedd cynnar. Mae ethos y cyfnod sylfaen yn galluogi bechgyn i fwynhau llawer mwy o gyfleoedd dysgu ymarferol, sy'n hanfodol ar gyfer cadw eu diddordeb. Mae ymchwil hyd yn oed wedi dangos bod bechgyn yn dysgu darllen yn well pan fyddant yn gorwedd ar eu stumogau, gyda llyfr yn eu dwylo, a'u coesau yn chwifio yn yr awyr. Yn syml, maent yn fwy egnïol na llawer o ferched ac maent yn cael trafferth eistedd yn llonydd am gyfnodau hir.

Research also shows that the difficulties boys can experience in a more structured environment in their early years can breed frustration and disengagement. For a significant minority, they think that they are not good at the kind of literacy school requires. They carry that belief forward, and when they reach secondary education, they lack fluency, they expect failure, and they do not know how to be successful.

Dengys ymchwil hefyd fod yr anawsterau y gall bechgyn eu profi mewn amgylchedd mwy strwythuredig yn eu blynyddoedd cynnar yn gallu meithrin rhwystredigaeth ac ymddieithriad. Mae lleiafrif sylweddol yn credu nad ydynt yn rhai da yn y math o lythrennedd sydd ei angen yn yr ysgol. Maent yn parhau i gredu hynny, a phan fyddant yn cyrraedd addysg uwchradd, nid ydynt yn rhugl, maent yn disgwyl methiant ac nid ydynt yn gwybod sut y mae llwyddo.

There are many other examples that reinforce the holistic benefits of the foundation phase learning programme. These examples show that the foundation phase is having a very positive impact with regard to attendance, behaviour and in developing self-confidence. These objectives must be as important at this stage in a child's life as getting them to be able to read a page. We can all see that a person who has confidence and who has good sense of self-esteem will have the best chance of becoming socially engaged, skilled and

Ceir nifer o enghreifftiau eraill sy'n atgyfnerthu manteision cyfannol rhaglen ddysgu'r cyfnod sylfaen. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod y cyfnod sylfaen yn cael effaith gadarnhaol iawn o ran presenoldeb ac ymddygiad ac o ran datblygu hunanhyder. Rhaid bod yr amcanion hyn yr un mor bwysig yn y cyfnod hwn ym mywyd plentyn â sicrhau eu bod yn gallu darllen tudalen. Gall pob un ohonom weld y bydd rhywun sydd â hyder ac sydd ag ymwybyddiaeth dda o hunan-barch yn cael y cyfle gorau i

independent.

ddatblygu'n rhywun sy'n cymryd rhan yn gymdeithasol, sy'n fedrus ac sy'n annibynnol.

Therefore, what is the problem with the foundation phase? A recent Estyn report on the foundation phase found that many children are not learning as much as they could under the initiative, and that children are not realising their full potential because they are not being challenged enough by activities planned. This is mainly down to poor teacher training and teachers who do not fully grasp the principles of the foundation phase.

Felly, beth yw'r broblem gyda'r cyfnod sylfaen? Daeth adroddiad diweddar gan Estyn ar y cyfnod sylfaen i'r casgliad nad oedd llawer o blant yn dysgu cymaint ag y gallent o dan y fenter, ac nad yw plant yn gwireddu eu potensial llawn oherwydd nad ydynt yn cael eu herio'n ddigonol gan y gweithgareddau a gynllunnir. Mae hyn yn bennaf oherwydd hyfforddiant gwael i athrawon ac athrawon nad ydynt yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llawn.

When it was first launched, teachers were offered five days of training—a mere five days in which to absorb a new system that has taken the Scandinavians years to perfect. Of course we can learn it, and, of course, it should not take years. However, five days of training has led to the inconsistent application of the foundation phase. Some of the training has not been of good quality, and many of the people who should attend the course, such as headteachers, have not. They are then unable to reflect or support, as best they could, their early-years teacher. That is why, in some schools, the foundation phase has become synonymous with a play agenda. However, that is not what the holistic principles of the programme are about.

Pan gafodd ei lansio gyntaf, cynigiwyd pum diwrnod o hyfforddiant i athrawon—pum diwrnod yn unig i amsugno system newydd sydd wedi cymryd blynyddoedd i'r Sgandinafiaid ei pherffeithio. Wrth gwrs, gallwn ei dysgu, ac, wrth gwrs, ni ddylai gymryd blynyddoedd. Fodd bynnag, mae pum diwrnod o hyfforddiant wedi arwain at weithredu'r cyfnod sylfaen yn anghyson. Nid oedd peth o'r hyfforddiant o ansawdd da, ac nid yw llawer o'r bobl a ddylai fynychu'r cwrs, fel penaethiaid, wedi gwneud hynny. Maent wedyn yn methu adlewyrchu neu gefnogi, hyd eithaf eu gallu, eu hathro blynyddoedd cynnar. Dyna pam, mewn rhai ysgolion, mae'r cyfnod sylfaen wedi dod yn gyfystyr ag agenda chwarae. Fodd bynnag, nid hynny yw pwrpas egwyddorion cyfannol y rhaglen.

There is much to be said about this issue, but what we are basically asking this Minister is to ensure that when he reviews the foundation phase, with regard to introducing more literacy and numeracy, he should bear in mind the holistic point of the foundation phase and ensure that that is not swept out in the drive to ensure those standards.

Mae llawer i'w ddweud am y mater hwn, ond yn y bôn rydym yn gofyn i'r Gweinidog sicrhau, pan fydd yn adolygu'r cyfnod sylfaen, o ran cyflwyno mwy o lythrennedd a rhifedd, ei fod yn cadw pwrpas cyfannol y cyfnod sylfaen mewn cof a sicrhau nad yw'n cael ei sgubo allan yn yr ymgyrch i sicrhau'r safonau hynny.

*Gwelliant 1 Peter Black*

*Amendment 1 Peter Black*

*Mewnosod fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1:*

*Insert as new point after point 1:*

*Yn croesawu'r £20 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol ym mis Rhagfyr, a fydd yn helpu plant i ffynnu'n addysgol.*

*Welcomes the additional £20 million funding for pupils from deprived backgrounds announced in the Final Budget in December, which will help children to thrive educationally.*

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Mewnosod fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1:*

*Yn nodi mai dim ond 21% o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n cael pump TGAU da gradd A* i C.*

*Amendment 2 Peter Black*

*Insert as new point after point 1:*

*Notes that just 21% of pupils entitled to free school meals achieve five good GCSEs grade A* to C.*

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Mewnosod fel is-bwynt newydd ar ôl pwynt 2a:*

*sefydlu'r arfer gorau yn y rhaglen Dechrau'n Deg bresennol er mwyn llywio'r gwaith o ymestyn y rhaglen.*

*Amendment 3 Peter Black*

*Insert as new sub point after point 2a:*

*establish best practice within the current Flying Start programme in order to inform the expansion of the programme.*

**Aled Roberts:** I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Peter Black.

I will confine my remarks this afternoon to the aspects of Flying Start that we have been discussing in the Children and Young People Committee in some detail. I agree with much of what Angela Burns said with regard to the foundation phase programme, but the reality is that the success of this programme, where it has been properly developed, will show, in any review, that best practice needs to be rolled out. It could be that some of Estyn's comments relate to where that best practice has not been rolled out or where the sharing of best practice has not been undertaken forcefully enough by the local authorities concerned.

There is a real issue for many of us with regard to Flying Start. All of us, from parties across the Chamber, support Flying Start and see its benefit in the areas we represent. The programme is certainly part of a suite of schemes that were undertaken to tackle child poverty and low educational attainment, which we have discussed here on many occasions. It is clear that we now have the will, and the funding as far as Flying Start is concerned as a result of the budget that was passed before Christmas, however we know from experience that throwing money at a project is no guarantee of success. When we hear from the Minister this afternoon with regard to the expansion of the programme, which I recognise was a commitment in the Labour manifesto, I certainly hope that we will be given some reassurance as to the

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Peter Black.

Cyfyngaf fy sylwadau'r prynhawn yma i'r agweddau ar Dechrau'n Deg yr ydym wedi bod yn eu trafod yn eithaf manwl yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Rwyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd Angela Burns o ran rhaglen y cyfnod sylfaen, ond, mewn gwirionedd, bydd llwyddiant y rhaglen hon, lle y mae wedi cael ei datblygu'n briodol, yn dangos, mewn unrhyw adolygiad, fod angen cyflwyno'r arferion gorau. Gallai rhai o sylwadau Estyn fod yn ymwneud â lle nad yw'r arferion gorau hynny wedi cael eu cyflwyno, neu lle nad yw'r arferion gorau wedi cael eu rhannu'n ddigon grymus gan yr awdurdodau lleol dan sylw.

Mae problem go iawn i nifer ohonom o ran Dechrau'n Deg. Mae pob un ohonom, o bleidiau ar draws y Siambr, yn cefnogi Dechrau'n Deg a gwelwn y budd sy'n deillio ohono yn yr ardaloedd yr ydym yn eu cynrychioli. Mae'r rhaglen yn sicr yn rhan o gyfres o gynlluniau yr ymgymerwyd â nhw i fynd i'r afael â thlodi plant a chyrhaeddiad addysgol isel, yr ydym wedi eu trafod yma droeon. Mae'n amlwg bod gennym bellach yr ewyllys, a'r arian cyn belled ag y bo Dechrau'n Deg yn y cwestiwn, o ganlyniad i'r gyllideb a basiwyd cyn y Nadolig. Fodd bynnag, gwyddom o brofiad nad yw taflu arian at brosiect yn gwneud llwyddiant yn anochel. Pan fyddwn yn clywed gan y Gweinidog y prynhawn yma am ymestyn y rhaglen—rwyf yn cydnabod bod hynny'n ymrwymiad ym maniffesto Llafur—rwyf i'n

outcomes that we seek to achieve through the expansion of the programme.

bendant yn gobeithio y byddwn yn cael rhywfaint o sicrwydd o ran y canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni drwy ymestyn y rhaglen.

There were particular issues with regard to whether enough practitioners have been trained in specific aspects of the Flying Start programme. The Children and Young People Committee has heard about the number of health visitors required in relation to the expansion. However, when the Government published its evaluation on 14 December, that came a whole month after the Deputy Minister had committed to expending £55 million on the project.

Roedd problemau arbennig o ran a gafodd digon o ymarferwyr eu hyfforddi mewn agweddau penodol ar y rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi clywed am nifer yr ymwelwyr iechyd sydd eu hangen ar gyfer yr ymestyn. Fodd bynnag, pan gyhoeddodd y Llywodraeth ei gwerthusiad ar 14 Rhagfyr, roedd hynny fis cyfan ar ôl i'r Dirprwy Weinidog ymrwymo i wario £55 miliwn ar y prosiect.

There are clear successes under the scheme and we welcome those. However, the interim evaluation recognises that there are a number of fundamental issues that need further assessment in order to ensure the scheme's success. It is also indicated that there is a variation in the delivery of entitlements across partnerships and tensions between nationally prescribed entitlements and their application at a local level. I look forward to receiving the Deputy Minister's thoughts on how best outcomes at a local level can be achieved.

Mae llwyddiannau amlwg o dan y cynllun ac rydym yn eu croesawu. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad interim yn cydnabod bod nifer o faterion sylfaenol y mae angen eu hasesu ymhellach er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun. Nodir hefyd fod amrywiaeth o ran darparu hawliau ar draws partneriaethau a bod tensiynau rhwng hawliau a bennir yn genedlaethol a rhoi'r rheini ar waith ar lefel leol. Edrychaf ymlaen at glywed barn y Dirprwy Weinidog ar sut y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau ar lefel leol.

3.15 p.m.

From the evidence put before the committee in September, we found that 92% of health visitors held case loads of between 200 and 300 families each, with 26% of health visitors being responsible for the casework of over 400 families each. Clearly, there is a concern that, if the number of health visitors within the system is not sufficient to meet the demands of expansion, case loads will expand further.

Ar sail y dystiolaeth a roddwyd gerbron y pwyllgor ym mis Medi, canfuom fod gan 92% o ymwelwyr iechyd lwyth achosion o rhwng 200 a 300 o deuluoedd yr un, gyda 26% o ymwelwyr iechyd yn gyfrifol am dros 400 o deuluoedd yr un. Yn amlwg, mae yna bryder, os nad yw nifer yr ymwelwyr iechyd o fewn y system yn ddigonol i fodloni gofynion ehangu, y bydd llwyth achosion yn ehangu ymhellach.

In the same committee, in July last year, concerns were expressed about the ability of Flying Start to be effective in engaging the most disadvantaged groups, to which Angela Burns referred earlier. I hope, therefore, that the announcement regarding the expansion will ensure that the children who are clearly identified within the evaluation as having been excluded from the programme are addressed. There are also issues, which I know that the Deputy Minister spoke to us in

Yn yr un pwyllgor, ym mis Gorffennaf y llynedd, mynegwyd pryderon ynghylch gallu Dechrau'n Deg i fod yn effeithiol wrth ymgysylltu â'r grwpiau mwyaf difreintiedig, y cyfeiriodd Angela Burns atynt yn gynharach. Gobeithio, felly, y bydd y cyhoeddiad ynghylch ehangu yn sicrhau y rhoddir sylw i'r plant y mae'r gwerthusiad yn nodi'n glir eu bod wedi'u heithrio o'r rhaglen. Hefyd, mae materion, fel y cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog atynt yn y

the committee about, with regard to the use of designated geographical areas of deprivation, which means that children outside those geographical areas, perhaps the most deprived children, are not brought into the scheme.

pwyllgor, o ran defnyddio ardaloedd daearyddol penodol o amddifadedd, sy'n golygu nad yw plant y tu allan i'r ardaloedd daearyddol hynny, sef y plant mwyaf difreintiedig, efallai, yn cael eu cynnwys yn y cynllun.

In September, as Angela Burns mentioned, the Flying Start co-ordinators network prepared a report for the Children and Young People Committee. It clearly identified problems with regard to the registration process and the bureaucracy involved in the scheme. Its report contained eight recommendations for the expansion of the scheme, and I would welcome the Deputy Minister's comments on how she has progressed the scheme to accommodate the co-ordinators' views, particularly regarding the need for clear and revised guidance from the Government, which would improve the current system before it is rolled out fully. I am also particularly keen to know what the Deputy Minister has done to address the shortage of Welsh-speaking childcare workers and what she proposes to do to meet the requirements of expansion. We can only hope that the investment in the pupil premium, Flying Start and the foundation phase is directed properly so that we bring about real change in the life chances of our most disadvantaged children.

Ym mis Medi, fel y dywedodd Angela Burns, paratôdd rhwydwaith cydlynwyr Dechrau'n Deg adroddiad i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Nododd yn glir broblemau o ran y broses gofrestru a'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Roedd ei adroddiad yn cynnwys wyth argymhelliad ar gyfer ehangu'r cynllun, a byddwn yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog ar sut mae hi wedi cynnwys barn y cydlynwyr wrth symud y cynllun yn ei flaen, yn enwedig o ran yr angen am arweiniad clir a diwygiedig gan y Llywodraeth, a fyddai'n gwella'r system bresennol cyn iddo gael ei gyflwyno yn llawn. Rwyf hefyd yn arbennig o awyddus i wybod beth mae'r Dirprwy Weinidog wedi ei wneud i fynd i'r afael â'r prinder gweithwyr gofal plant Cymraeg eu hiaith a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i fodloni gofynion ehangu. Ni allwn ond gobeithio y bydd y buddsoddiad yn y premiwm disgyblion, Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen yn cael ei gyfeirio yn briodol fel y gallwn sicrhau newid gwirioneddol yng nghyfleoedd bywyd ein plant mwyaf difreintiedig.

*Gwelliant 4 Jocelyn Davies*

*Amendment 4 Jocelyn Davies*

*Mewnosod fel pwynt 2b newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Insert as new point 2b and renumber accordingly:*

*sicrhau, wrth gyflwyno Dechrau'n Deg, fod yr arfer gorau a ganfuwyd yn ystod y cynllun peilot yn cael ei ledaenu'n effeithiol.*

*ensure that, during the rollout of Flying Start, best practice identified in the pilot scheme is effectively disseminated.*

**Simon Thomas:** Rwyf yn cynnig gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies.

**Simon Thomas:** I move amendment 4 in the name of Jocelyn Davies.

Ni wn a fyddai mewn trefn, fel dyn, pe bawn yn ei gynnig yn gorwedd ar fy mol ac yn cicio fy nghoesau yn yr awyr. Efallai na fyddai, felly fe'i cynigiaf mewn ffordd fwy traddodiadol.

I do not know whether it would be in order, as a man, for me to move it lying on my stomach and kicking my legs in the air. Perhaps not, so I will move it in the more traditional way.

**The Presiding Officer:** You could try.

**Y Llywydd:** Gallech roi cynnig arni.

**Simon Thomas:** Ni fyddwn yn gallu gweld fy nodiadau pe bawn yn ceisio gwneud

**Simon Thomas:** I would not be able to see my notes if I tried to do that.

hynny.

Hoffwn ddweud ar y cychwyn ein bod yn cefnogi'r cynnig yn fras, ond ein bod eisiau ei wella ychydig, a dyna'r rheswm dros ddod â'r gwelliant gerbron. Rwy'n cefnogi'r hyn a ddywedodd llefarydd y Ceidwadwyr; nid ydym yn tanseilio'r ddau gynllun hyn. Mae Plaid Cymru yn eu cefnogi 100% ac, yn wir, roedd ein maniffesto fis Mai diwethaf hefyd yn sôn am ehangu Dechrau'n Deg yn sylweddol. Rwy'n croesawu bwriad ac amcan y Llywodraeth i wneud hynny.

I would like to say at the outset that we broadly support the motion, but that we want to amend it a little, which is why we tabled this amendment. I support what the Conservative spokesperson said: we are not undermining these two schemes. Plaid Cymru supports these two schemes 100%, and, indeed, our manifesto last May also mentioned significantly expanding Flying Start. I welcome the Government's intention to do that.

Mae gennyf ddau brif gonsýrn ynglŷn â Dechrau'n Deg. Mae'r un cyntaf wedi ei amlinellu gan Angela ac Aled, sef y syniad ein bod yn bwrw ymlaen i ehangu'r cynllun heb inni ddysgu gwersi o'r cynllun fel y mae ar hyn o bryd yn llwyr. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, rwyf i ac Aled yn aelodau ohono, yn edrych ar y cynllun hwn ar hyn o bryd ac mae'n siŵr gennyf, o'r hyn rydym wedi'i glywed hyd yn hyn, y bydd gwersi y byddem yn gobeithio y byddai'r Llywodraeth am wrando arnynt cyn symud ymlaen.

I have two main concerns about Flying Start. The first has been reflected in the comments made by Angela and Aled, namely the idea that we are continuing to expand the scheme without having fully evaluated the lessons learned from the scheme as it currently stands. The Children and Young People Committee, of which Aled and I are members, is looking into this programme, and I am sure, from what we have heard to date, that there will be lessons from which we would hope that the Government will learn before progressing.

Rhoddaf enghraifft o le rwy'n gweld bod angen inni gryfhau'r cynllun. Fel mae Aelodau'n gwybod, mae rhyw bedair prif ran i Dechrau'n Deg, sydd yn ymwneud ag ymwelwyr iechyd, sydd yn bwysig iawn—rydym wedi clywed amdanynt heddiw; rhaglenni sgiliau rhianta; rhaglenni sgiliau sylfaenol, er enghraifft, y rhaglen arbennig o bwysig ynglŷn â chwarae ac iaith; a'r rhaglen gofal plant. Os edrychwch ar y gwerthusiad a'r gwersi sy'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor, ymddengys bod mwy o ymwneud â gofal plant gan deuluoedd nag â'r tri maes arall yn Dechrau'n Deg. Dyna le mae tipyn bach o wendid, achos os yw Dechrau'n Deg yn mynd i weithio fel rhaglen lawn, mae'n rhaid i'r teuluoedd hyn rydym yn ceisio gweithio â nhw, eu cefnogi a'u helpu, ymwneud â'r cynllun i gyd ac nid yn unig o safbwynt gofal plant. Rwyf am i'r Llywodraeth ddysgu gwersi am hynny, ac, rwyf yn gobeithio, ddod yn ôl â chynlluniau.

I will give an example of where I believe we need to make the programme more robust. As Members know, there are four main parts to Flying Start, dealing with health visitors, who are very important—as we have already heard today; parenting skills programmes; basic skills programmes, such as the very important programme on language and play; and the childcare programme. If you look at the evaluation and the lessons being presented to the committee, it appears to me that there is more involvement with childcare than with any of the other three areas of Flying Start. That is where there is a little weakness, because if Flying Start is to work as a comprehensive programme, these families that we are trying to work with, and assist and support, must be involved with the scheme as a whole and not with childcare alone. That is where I want the Government to learn lessons and, hopefully, come back with some plans.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** A ydych yn derbyn mai cipolwg yn unig yw'r gwerthusiad cyntaf hwn a'i fod

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** Do you accept that the first evaluation is just an overview and that it looks at a period of

yn edrych ar ryw saith mis o fywydau plant o fewn y cynllun hwn, felly cawn lawer mwy o wybodaeth yn y gwerthusiad nesaf?

around seven months in the lives of children within this scheme, so there will be much more information in the next evaluation?

**Simon Thomas:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am y cyfraniad hwnnw. Derbyniaf y pwynt hwnnw, ond rwyf hefyd yn dweud bod hyn yn dangos y tueddiadau yn y cynllun presennol. Mae gan y Llywodraeth gyfle yn awr i wyro rhai o'r tueddiadau hynny i wella canlyniadau yn y pen draw. Gobeithio y bydd modd inni wneud hynny, a gwrando ar yr hyn sydd gan y pwyllgor i'w ddweud am y peth.

**Simon Thomas:** I thank the Deputy Minister for that contribution. I do accept that, but I am also saying that this identifies trends within the current scheme. The Government now has an opportunity to deal with some of those trends in order to improve outcomes at the end of the day. I hope that we will be able to do that, and listen to what the committee has to say about it.

Trof yn awr at ail ran y cynnig, sef y cyfnod sylfaen. Mae Plaid Cymru yn ei gefnogi 100% hefyd. Fodd bynnag, dyma gyfle i godi dau fater sy'n achosi pryder inni. Mae adroddiad Estyn-adroddiad dros dro, mae'n wir-ar hyfforddiant yn y cyfnod sylfaen a'i effaith ar ddysgu, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill y llynedd, yn dweud yn glir bod diffyg hyfforddiant wedi bod i brifathrawon ac athrawon yn y cyswllt hwn. Efallai fod hyn yn bwynt i'r Gweinidog addysg feddwl amdano o ran yr hyn y mae'n dweud ei fod am ei wneud yn ehangach o ran datblygu proffesiynol parhaus, gan fod hynny, yn amlwg, yn rhan o'r broses i sicrhau bod athrawon yn dysgu wrth i'r cyfnod sylfaen fynd rhagddo.

I now turn to the second part of the motion, and the foundation phase, which Plaid Cymru supports 100%. However, this is an opportunity to raise two concerns. The Estyn report—it is true that it is a provisional report—on training in the foundation phase and its impact on teaching, published last April, makes it clear that there has been a lack of training for headteachers and teachers in this context. This is, perhaps, a point that the Minister for education should consider in the context of what he says he wants to achieve more broadly in terms of continuing professional development, because that is obviously part of the process of ensuring that teachers learn as the foundation phase progresses.

Y pwynt arall ynglŷn â'r cyfnod sylfaen yr wyf am ei godi yw'r problemau gyda'r asesiadau wrth i blant ddod i mewn i'r cyfnod sylfaen. A bod yn deg, mae'r Llywodraeth, a'r Gweinidog, wedi cydnabod y problemau hynny ac wedi dweud bod anghysondeb yn yr asesiadau. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn adolygu hynny. Yr hyn sydd yn achosi pryder i mi yw, lle mae anghysonderau, mae hynny'n bwydo i mewn yn y pen draw i asesiad y plentyn, sydd yn ei dro'n bwydo i mewn i'r bandio.

The other point that I want to raise on the foundation phase is the problems with assessments as children enter into the foundation phase. To be fair, the Government and the Minister have recognised those problems and have stated that there have been inconsistencies in those assessments. The Minister has said that he will review that. What concerns me is that, where there are inconsistencies, that feeds into the child's assessment, which, in turn, feeds into the banding.

Dyma gyfle i ddatgan o'r newydd nad ydym yn meddwl ar hyn o bryd bod y system fandio arfaethedig ar gyfer ysgolion cynradd yn gwneud synnwyr. Nid yw'n system genedlaethol, ac nid yw'n system ddigon cadarn, ar seiliau digon cadarn, gan mai un o'r seiliau yw'r asesiadau hyn y mae'r Gweinidog yn cydnabod eu bod yn anghyson. Felly, gobeithiaf yn fawr y gall y Gweinidog edrych ar yr asesiadau hyn eto i sicrhau bod

This is another opportunity to state anew that we do not feel that the proposed banding system for primary schools makes sense. It is not a national system, and it is not a robust enough system, based on strong foundations, because these assessments, which the Minister has recognised as being inconsistent, form one of those foundations. Therefore, I sincerely hope that the Minister will be able to reconsider these assessments, so that

popeth yn ei le i wella hynny a bod gennym ffigurau cadarn ar gyfer datblygiadau polisi pellach.

everything is in place to ensure that that can be improved and that we have solid figures for further policy developments.

**Suzy Davies:** As a Welsh Conservative, I recognise the will behind Flying Start and the foundation phase to improve children’s chances of thriving educationally and socially. The targeting involved in Flying Start may be a little crude. As Aled Roberts said, it misses families in great need who live outside the Flying Start areas. Also, there are families in Flying Start areas that perhaps make the maximum use of services that they may not need. Nevertheless, the principles that inspired Flying Start are to be embraced, and I hope that this debate will help to address the shortcomings that were identified in last month’s evaluation document and help to ensure that best practice informs the forthcoming expansion of the programme, as reflected in two of the amendments.

**Suzy Davies:** Fel Ceidwadwr Cymreig, rwy’n cydnabod yr ewyllys sydd wrth wraidd Dechrau’n Deg a’r Cyfnod Sylfaen i wella cyfleoedd plant i ffynnu yn addysgol ac yn gymdeithasol. Efallai fod y targedu sy’n gysylltiedig â Dechrau’n Deg ychydig yn amrwd. Fel y dywedodd Aled Roberts, mae’n hepgor teuluoedd mewn angen mawr sy’n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau’n Deg. Hefyd, mae teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau’n Deg sydd efallai’n gwneud y defnydd mwyaf posibl o wasanaethau nad oes eu hangen arnynt. Serch hynny, mae’r egwyddorion a ysbrydolodd Dechrau’n Deg i’w croesawu, ac rwy’n gobeithio y bydd y ddadl hon yn helpu i fynd i’r afael â’r diffygion a nodwyd yn y ddogfen werthuso fis diwethaf ac yn helpu i sicrhau bod arfer gorau yn hwyluso ehangiad arfaethedig y rhaglen, fel yr adlewyrchir mewn dau o’r gwelliannau.

I will focus on the language and play element of the evaluation document. This provision, readily available throughout Flying Start areas, is designed to improve children’s language and communication—and, I would say, their memory—through play, song, stories and rhymes. The evaluation shows that the option of language and play sessions was not taken up by huge numbers of families, and that they tended to be attended by families from relatively more advantaged groups. However, as Angela Burns said, the families with the most complex socioeconomic problems said that the value of language and play sessions to their households had been significant. The groups with the greatest need reported the most positive impact, as the evaluation puts it. How sad, then, that the take-up rate was lowest among those families. Many of them literally do not know what they are missing. The evaluation recommends the

Byddaf yn canolbwyntio ar yr elfen iaith a chwarae yn y ddogfen werthuso. Mae’r ddarpariaeth hon, sydd ar gael drwy holl ardaloedd Dechrau’n Deg, wedi’i chynllunio i wella iaith a sgiliau cyfathrebu plant—ac, yn fy marn i, eu cof—drwy ganeuon, chwarae, storïau a rhigymau. Mae’r gwerthusiad yn dangos na wnaeth niferoedd enfawr o deuluoedd fanteisio ar yr opsiwn o sesiynau iaith a chwarae, a’u bod yn tueddu i gael eu mynychu gan deuluoedd o grwpiau sy’n gymharol fwy breintiedig. Fodd bynnag, fel y dywedodd Angela Burns, mae’r teuluoedd sydd â’r problemau economaidd-gymdeithasol mwyaf cymhleth yn dweud bod y sesiynau iaith a chwarae wedi bod yn werthfawr iawn. Y grwpiau sydd â’r angen mwyaf a nododd yr effaith fwyaf cadarnhaol, fel y mae’r gwerthusiad yn ei nodi. Mae’n drist, felly, fod y niferoedd sy’n manteisio ar y sesiynau ar eu hisaf ymhlith y teuluoedd hynny. Nid yw llawer ohonynt yn gwybod beth maent yn ei golli. Mae’r gwerthusiad yn argymell

‘embedding of a strong focus on early language development throughout the programme’.

‘rhoi ffocws cryf ar ddatblygiad iaith cynnar drwy gydol y rhaglen’.

In wave 2,

Yn nhon 2,

‘children’s language abilities are assessed to see if Flying Start has resulted in improvements.’

‘asesu galluoedd iaith plant i weld a yw Dechrau’n Deg wedi arwain at welliannau.’

I hope that wave 2 does reveal improvements. I also hope that it will consider something that this report does not, namely, how exposure to more than one language at such an early age can further develop language skills. I would therefore like wave 2 to address the effect of attendance at the Amser Twf sessions that have been running in some non-Welsh-speaking areas in my region and, presumably, in the rest of Wales.

Rwy’n gobeithio y bydd ton 2 yn dangos gwelliannau. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd yn ystyried rhywbeth nad yw’r adroddiad hwn yn ei ystyried, sef, sut y gall ddod i gysylltiad â mwy nag un iaith pan fo plant yn ifanc iawn ddatblygu sgiliau iaith ymhellach. Hoffwn, felly, weld ton 2 yn mynd i’r afael ag effaith lefelau presenoldeb yn y sesiynau Amser Twf sydd wedi cael eu cynnal mewn rhai ardaloedd di-Gymraeg yn fy rhanbarth i ac, yn ôl pob tebyg, yng ngweddill Cymru.

It is a shame that the report does not look at how Flying Start functions where it is delivered bilingually, whatever the languages used. Language and play sessions offer an ideal setting to introduce families from non-Welsh-speaking backgrounds to the benefits of bilingualism, or even trilingualism.

Mae’n drueni nad yw’r adroddiad yn edrych ar sut mae Dechrau’n Deg yn gweithio mewn llefydd lle caiff ei gyflwyno yn ddwyieithog, beth bynnag yw’r ieithoedd hynny. Mae sesiynau iaith a chwarae yn cynnig cyd-destun delfrydol i gyflwyno teuluoedd o gefndiroedd di-Gymraeg i fanteision dwyieithrwydd, neu hyd yn oed teirieithrwydd.

If we believe in a truly bilingual Wales—*os credwn mewn Cymru ddwyieithog go iawn*—we need to make a bilingual environment a natural experience for everyone. Getting children accustomed to the sound of Welsh before they are even conscious of the concept of language, before it becomes something that only other people speak, will be a step forward. If you believe that the ability to speak Welsh is a distinct social and economic advantage if you live and work in Wales, then surely you would want children from the most disadvantaged families to be given the earliest chance to acquire that key to the door of social mobility.

Os credwn mewn Cymru ddwyieithog go iawn, mae angen inni sicrhau bod amgylchedd dwyieithog yn brofiad naturiol i bawb. Bydd yn gam ymlaen i helpu plant i ddod yn gyfarwydd â sut mae’r Gymraeg yn swnio cyn eu bod hyd yn oed yn ymwybodol o’r cysyniad o iaith, cyn iddi ddod yn rhywbeth y mae pobl eraill yn ei siarad yn unig. Os ydych yn credu bod y gallu i siarad Cymraeg yn fantais gymdeithasol ac economaidd amlwg os ydych yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, oni fyddech eisiau i blant o’r teuluoedd mwyaf difreintiedig gael y cyfle cynharaf posibl i gael mynediad at yr allwedd honno i ddrws symudedd cymdeithasol?

Flying Start can also be the means of delivering elements of parenting skills that are currently missing from the mix. I hope that the Deputy Minister will pay special attention to a new parenting programme being launched by the National Deaf Children’s Society in April, which will help families with a deaf child across Wales, including in Flying Start areas.

Gall Dechrau’n Deg hefyd fod yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o sgiliau magu plant sydd ar hyn o bryd yn absennol. Rwy’n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn rhoi sylw arbennig i raglen magu plant newydd sy’n cael ei lansio gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ym mis Ebrill, a fydd yn helpu teuluoedd ledled Cymru sydd â phlentyn byddar, gan gynnwys mewn

ardaloedd Dechrau'n Deg.

Turning briefly to the foundation phase, I welcome the Minister's review and endorse Angela Burns's comments, but I just want to mention two points that have been brought to my attention specifically. The first concerns the assessment of children and the robustness of child development assessment plans. Clarity is needed as to how these base assessments are to be carried out. Do the relevant observations need to be made by teachers, or can the evidence of classroom assistants be taken into account? How many times does a pupil have to exhibit a particular behaviour or achievement for it to be recorded as such? It has also been suggested to me that, without further guidance, it might be possible to set the baseline below a pupil's actual ability, and, in that way, the value-added element of a pupil's progress through the school could be deliberately inflated to reflect well on the school's performance. No school should be put in a position where they could be open to that accusation.

I droi'n fyr at y cyfnod sylfaen, ac rwy'n croesawu adolygiad y Gweinidog ac yn ategu sylwadau Angela Burns, ond rwyf i am sôn am ddau bwynt penodol sydd wedi cael eu dwyn at fy sylw. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag asesu plant a chadernid cynlluniau asesu datblygu plant. Mae angen eglurder o ran sut yr ymgymerir â'r asesiadau sylfaenol hyn. A oes angen i'r sylwadau perthnasol gael eu gwneud gan athrawon, neu a ellir ystyried tystiolaeth cynorthwywyr dosbarth? Sawl gwaith y mae'n rhaid i ddisgybl arddangos ymddygiad penodol neu gyflawniad er mwyn cofnodi hynny? Awgrymwyd i mi hefyd, heb arweiniad pellach, y gellir gosod y llinell sylfaen islaw gallu gwirioneddol y disgybl, ac, yn sgîl hynny, gallai gwerth ychwanegol cynnydd y disgybl drwy'r ysgol gael ei chwyddo'n fwriadol i adlewyrchu'n dda ar berfformiad yr ysgol. Ni ddylai unrhyw ysgol gael ei rhoi mewn sefyllfa lle gallai fod yn agored i'r cyhuddiad hwnnw.

The second concern is that, because only Welsh universities teach the foundation phase in their teaching courses, the pool of potential teachers is already smaller than it might be were the requirements also covered in other UK universities. Furthermore, the primary school teaching course is not available in as many places in Wales as it used to be—Aberystwyth University no longer teaches it, for example. With fewer students willing to stray far from home, for financial or family reasons, we may end up with a less diverse pool of foundation phase teachers.

Yr ail bryder yw, oherwydd mai dim ond prifysgolion Cymru sy'n dysgu'r cyfnod sylfaen fel rhan o'u cyrsiau addysgu, bod y gronfa o ddarpar athrawon eisoes yn llai nag y byddai pe bai'r gofynion yn cael eu bodloni mewn prifysgolion eraill yn y DU. At hynny, nid yw'r cwrs addysgu ysgol gynradd ar gael mewn cymaint o fannau yng Nghymru ag oedd yn y gorffenol—nid yw Prifysgol Aberystwyth yn ei gynnig bellach, er enghraifft. Gyda llai o fyfyrwyr yn barod i grwydro ymhell o gartref, am resymau ariannol neu deuluol, efallai y bydd gennym gronfa lai amrywiol o athrawon cyfnod sylfaen yn y pen draw.

Quality training will not just improve the performance of the foundation phase, but is the sort of key to social mobility that would be so welcome to graduates of Flying Start. I would not like to think that geography would deprive them of access to that opportunity.

Bydd hyfforddiant o ansawdd nid yn unig yn gwella perfformiad y cyfnod sylfaen, ond dyna'r fath o allwedd i symudedd cymdeithasol y byddai graddedigion Dechrau'n Deg yn ei groesawu. Ni fyddwn yn hoffi meddwl y byddai daearyddiaeth yn eu hamddifadu rhag cael mynediad at y cyfle hwnnw.

**Julie Morgan:** I am pleased to speak in this debate. As others have said, the early years are the key to the success of our Welsh children, so these subjects are vital. The fact

**Julie Morgan:** Rwy'n falch o siarad yn y ddadl hon. Fel y mae eraill wedi dweud, mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i lwyddiant plant Cymru, felly mae'r materion

that the Welsh Government has put such effort and financial resources into the foundation phase and Flying Start is a great tribute. Most of my remarks will be about the foundation phase, because it is such a big change in education provision—probably the biggest thing in terms of education that this Government has done. I think that we can say that, so far, the foundation phase has been a big success. The Estyn report on the foundation phase in September of last year found that the majority of primary schools in Wales provide a varied, productive and motivating environment in which children can thrive and develop their skills in reading and writing. From my own experience of visiting schools in my constituency, I have been struck by the enthusiasm of the teachers, learning support assistants and pupils, and it seems to me that, if I were a child going in to the foundation phase, it would be almost like paradise, when I see the wonderful way in which the classrooms are laid out, the outdoor classrooms, and so on. There are huge opportunities for children in the foundation phase. I visited Denmark some years ago to look at its education system, and I went to a kindergarten. I went out into the country, into the woods, and there were these tiny children dressed in little red suits that covered them completely. They were playing in the snow and scrambling over a great old fallen tree. I thought that it was absolutely wonderful, and I never believed that we would start doing that in Wales—we do not have such freezing temperatures most of the time, but there are now opportunities for the children to explore in a way that I do not think that they have done before. I therefore pay tribute to what the Government has done with the foundation phase.

hyn yn hanfodol. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymaint o ymdrech ac wedi buddsoddi cymaint o adnoddau ariannol yn y cyfnod sylfaen a Dechrau'n Deg yn deyrnged wych. Bydd y rhan fwyaf o fy sylwadau am y cyfnod sylfaen, am ei fod yn newid mor fawr i ddarpariaeth addysg—mae'n debyg mai hwn yw'r peth mwyaf i'r Llywodraeth hon ei wneud mewn perthynas ag addysg. Rwy'n credu y gallwn ddweud, hyd yma, fod y cyfnod sylfaen wedi bod yn llwyddiant mawr. Canfu adroddiad Estyn ar y cyfnod sylfaen ym mis Medi'r llynedd fod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yng Nghymru yn darparu amgylchedd amrywiol, cynhyrchiol ac ysgogol lle gall plant ffynnu a datblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Wrth ymweld ag ysgolion yn fy etholaeth, cefais fy nharo gan frwdfrydedd yr athrawon, y cynorthwywyr cymorth dysgu a'r disgyblion, ac mae'n ymddangos i mi, pe bawn i'n blentyn yn dechrau ar y cyfnod sylfaen, byddai bron fel paradwys, o weld y ffordd ardderchog y mae'r ystafelloedd dosbarth wedi cael eu trefnu, yr ystafelloedd dosbarth awyr agored, ac yn y blaen. Mae cyfleoedd enfawr i blant yn y cyfnod sylfaen. Ymwelais â Denmarc rai blynyddoedd yn ôl i edrych ar ei system addysg, ac ymwelais ag ysgol feithrin. Allan mewn coedwig yn y wlad, dyna lle'r oedd y plant bach wedi'u gwisgo mewn siwtiau bach coch a oedd yn eu gorchuddio'n llwyr. Roeddent yn chwarae yn yr eira ac yn dringo dros hen goeden fawr a oedd wedi cwympo. Roeddwn i'n meddwl bod hynny'n gwbl wych, ac nid oeddwn erioed wedi credu y byddem yn dechrau gwneud hynny yng Nghymru—nid ydym yn profi tymheredd mor rhewllyd y rhan fwyaf o'r amser, ond erbyn hyn mae cyfleoedd i blant chwilota mewn ffordd nad wyf yn credu eu bod wedi'i wneud o'r blaen. Felly, rwy'n talu teyrnged i'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud gyda'r cyfnod sylfaen.

The Conservative motion refers to problems with access to training, and it is important not to be overprotective about such a groundbreaking scheme, because naturally you want to defend it against such a big change.

Mae cynnig y Ceidwadwyr yn cyfeirio at broblemau o ran mynediad i hyfforddiant, ac mae'n bwysig peidio â bod yn rhy amddiffynnol am gynllun mor arloesol oherwydd yn naturiol rydych am ei amddiffyn yn erbyn newid mawr o'r fath.

3.30 p.m.

However, my experience is that there has not been a problem in accessing training for the teachers to whom I have spoken in my Cardiff North constituency. I know that in Wales, over the last four years, almost £11 million has been invested in local authority training programmes, based on national training practice and that in many local authorities, training is provided by a link advisory teacher. That is what is done in Cardiff, and they know well the needs of the foundation phase training. That is an ongoing process. There are specific modules on how you lay out a classroom attractively to tempt children to do different activities, for example, and on outdoor play. So, I have been impressed by the training that is available. As I say, in my constituency, there does not seem to have been a problem.

Fodd bynnag, fy mhrofiad i yw nad oes problem wedi bod o ran cael mynediad at hyfforddiant i'r athrawon rwyf wedi siarad â hwy yn fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd. Gwn fod bron £11 miliwn wedi'i fuddsoddi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru mewn rhaglenni hyfforddi awdurdodau lleol, yn seiliedig ar arferion hyfforddi cenedlaethol a'r ffaith y darperir hyfforddiant gan athro cyswllt ymgynghorol mewn llawer o awdurdodau lleol. Dyna'r hyn a wneir yng Nghaerdydd, ac mae'r awdurdod hwnnw'n gyfarwydd iawn ag anghenion hyfforddiant y cyfnod sylfaen. Mae honno'n broses barhaus. Mae modiwlau penodol ar sut y dylid cynllunio'r ystafell ddosbarth yn ddeniadol i ddenu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol, er enghraifft, ac ar chwarae yn yr awyr agored. Felly, mae'r hyfforddiant sydd ar gael wedi gwneud argraff dda arnaf Fel y dywedais, nid yw'n ymddangos bod problemau wedi codi yn fy etholaeth i.

It is important, when you look at primary education and the changes that we have brought about in Wales, to consider why we have done it. It is obvious that Wales has had a long tail of underachievers, and there have been situations where children at the age of nine or 10 have not been reading or writing. We have followed the model of Scandinavian countries because they have half the level of underachievement and, as Angela Burns said, they start their formal education much later. In this way, we avoid the overstigmatisation of children who come from homes where reading does not automatically happen and where they do not have access to lots of materials. So, we have to wait until this cohort has passed through the foundation phase to analyse what effect it has had. That will be when these children are nine and 10 years old and they will have been in the foundation phase from the beginning.

Pan fyddwch yn edrych ar addysg gynradd a'r newidiadau rydym wedi eu rhoi ar waith yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried pam rydym wedi gwneud y newidiadau hynny. Mae'n amlwg bod Cymru wedi cael hanes hir o dangyflawni, a bu sefyllfaoedd lle nad oedd plant naw neu 10 oed yn darllen neu ysgrifennu. Rydym wedi dilyn model y gwledydd Llychlynnaidd oherwydd bod y lefel tangyflawni yno yn hanner ein lefel ni, ac, fel y dywedodd Angela Burns, maent yn dechrau eu haddysg ffurfiol yn llawer hwyrach. Yn y modd hwn, byddem yn osgoi gorwarthnodi plant sy'n dod o gartrefi lle nad yw darllen yn digwydd yn awtomatig a lle nad oes ganddynt fynediad at lawer o ddeunyddiau. Felly, mae'n rhaid inni aros tan y bydd y cohort hwn wedi mynd drwy'r cyfnod sylfaen i ddadansoddi pa effaith a gafodd y cynllun. Bydd hynny'n digwydd pan fydd y plant yn naw a 10 oed a byddant wedi bod yn y cyfnod sylfaen o'r cychwyn.

The foundation phase benefits everyone, particularly the underachievers. From everything that I have seen, the children and the whole community seem to be enthusiastically enjoying it. One thing that I worried about was that there might be some concern in some households that standards would drop because of this move from the

Mae pawb yn elwa ar y cyfnod sylfaen, yn enwedig y rheini sy'n tangyflawni. O bopeth yr wyf wedi ei weld, mae'n ymddangos bod y plant a'r gymuned gyfan yn mwynhau'r cyfnod sylfaen yn fawr. Un peth a oedd yn peri pryder i mi oedd y gallai fod rhywfaint o bryder mewn rhai cartrefi y byddai safonau'n gostwng oherwydd y newid o'r ffordd fwy

more academic way of teaching. However, I have been reassured by the enthusiasm of the parents, as long as the work is done with them and with the governing body to explain what can be achieved by the foundation phase; that seems to have been done.

academaidd o ddysgu. Fodd bynnag, mae brwdfrydedd y rhieni wedi fy nghalonogi, cyn belled â bod y gwaith yn cael ei wneud gyda nhw a chyda'r corff llywodraethu i egluro'r hyn y gall y cyfnod sylfaen ei gyflawni; mae'n ymddangos bod hynny wedi digwydd.

So, not only in the foundation phase, but also with Flying Start—

Felly, nid yn unig yn ystod y cyfnod sylfaen, ond hefyd gyda Dechrau'n Deg—

**The Presiding Officer:** Order. Could you wind up please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch ddirwyn eich cyfraniad i ben, os gwelwch yn dda?

**Julie Morgan:** We clearly see the Welsh Government's commitment to children. I will end with what the great North American social reformer and former slave, Frederick Douglass, said:

**Julie Morgan:** Gwelwn yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i blant. Byddaf yn cloi gyda'r hyn a ddywedodd Frederick Douglass, y diwygiwr cymdeithasol hybarch o Ogledd America, a oedd yn cyn-gaethwas:

'It is easier to build strong children than to repair broken men'

Mae'n haws creu plant cryf na thrwsio dynion wedi torri

—and women, of course. [*Laughter.*]

—a menywod, wrth gwrs. [*Chwerthin.*]

**Antoinette Sandbach:** I too welcome this opportunity to debate children's early years development in Wales. A good start in life is vital for any child, but it is especially important for children from more disadvantaged backgrounds if we are to make any sort of headway in breaking the intergenerational cycle of low achievement and poverty that blights too many communities in north Wales.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod datblygiad plant yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae dechrau da mewn bywyd yn hanfodol i unrhyw blentyn, ond mae'n arbennig o bwysig i blant o gefndiroedd mwy difreintiedig os ydym am weld unrhyw fath o gynnydd wrth dorri'r cylch o gyrhaeddiad isel a thlodi rhwng y cenedlaethau sy'n difetha gormod o gymunedau yng ngogledd Cymru.

I too will concentrate on the foundation phase. The end of this academic year will see the first cohort of children complete the foundation phase. It is, therefore, essential that it is properly evaluated so that Wales can tackle the problems that it has had with attainment and standards. While I acknowledge that there are many successes, there are also serious problems in relation to attainment and standards. I am sure that no Member would agree that it is acceptable to have 40% of Welsh children entering secondary school with a reading age below their chronological age.

Byddaf innau'n canolbwyntio ar y cyfnod sylfaen. Bydd y cohort cyntaf o blant yn cwblhau'r cyfnod sylfaen ddiwedd y flwyddyn academaidd hon. Mae'n hanfodol, felly, ei fod yn cael ei werthuso'n gywir fel y gall Cymru fynd i'r afael â'r problemau y mae wedi'u cael o ran cyrhaeddiad a safonau. Er fy mod yn cydnabod bod nifer o lwyddiannau, mae hefyd broblemau difrifol o ran cyrhaeddiad a safonau. Rwyf yn siŵr na fyddai unrhyw Aelod yn cytuno ei bod yn dderbyniol bod 40% o blant Cymru yn dechrau'r ysgol uwchradd ag oedran darllen sy'n is na'u hoedran cronolegol.

The foundation phase must address these shortcomings if it is to be successful in the long term. The Estyn report into literacy from

Mae'n rhaid i'r cyfnod sylfaen fynd i'r afael â'r diffygion hyn os yw am fod yn llwyddiannus yn y tymor hir. Mae adroddiad

September last year has already highlighted some areas of concern. It says that, although many schools continue to provide opportunities for children to develop their literacy skills, in a significant minority of schools, children do not practice and develop their reading and writing skills enough.

Estyn ar lythrennedd, a gyhoeddwyd ym mis Medi y llynedd, eisoes wedi tynnu sylw at rai meysydd sy'n peri pryder. Dywed yr adroddiad er bod llawer o ysgolion yn parhau i roi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion nid yw plant yn cael digon o gyfle i ymarfer ac i ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu.

The core skills of literacy and numeracy cannot be downplayed—they are absolutely key to success later in a child's life. If shortcomings in those areas are found, then alarm bells should be ringing in the Welsh Labour Government. How does the Minister intend to respond to Estyn's findings and how will this impact, in his view, on literacy levels in the long term?

Ni ellir tanbrisio'r sgiliau craidd, sef llythrennedd a rhifedd—maent yn gwbl allweddol i lwyddiant yn ddiweddarach ym mywyd plentyn. Dylai fod yn destun pryder mawr i Lywodraeth Lafur Cymru os canfyddir diffygion yn y meysydd hynny. Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymateb i ganfyddiadau Estyn a sut y mae'n credu y bydd hyn yn effeithio ar lefelau llythrennedd yn y tymor hir?

Estyn has also noted the link between poorer literacy standards and those schools that are unconvinced of the educational value of the foundation phase and are unfamiliar with the principles behind it. To that end—I know that Angela Burns raised this in her speech—I would encourage further teacher training. I know that the programme for government said that the Welsh Government will continue to develop and enhance practitioners' skills in delivering the foundation phase, but it has been found that, in a majority of schools, practitioners still do not focus enough on developing children's thinking, communication, numeracy and ICT skills across all areas of learning. Estyn again expressed concern that senior school leaders often do not know enough after the foundation phase or are unconvinced of its educational value. Where professional teaching staff are identifying that they do not know enough or where they seek more training in order to implement the foundation phase, I would ask that the Welsh Labour Government investigates this, as well as concerns from the sector that teacher training in the foundation phase is inconsistent.

Mae Estyn hefyd wedi nodi'r cysylltiad rhwng safonau llythrennedd gwael a'r ysgolion hynny nad ydynt wedi'u hargyhoeddi ynghylch gwerth addysgol y cyfnod sylfaen ac sy'n anghyfarwydd â'r egwyddorion y tu ôl iddo. I'r perwyl hwnnw—rwyf yn gwybod bod Angela Burns wedi codi hyn yn ei haraith—byddwn yn argymell cynnig rhagor o hyfforddiant i athrawon. Rwyf yn gwybod bod y rhaglen lywodraethu yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a gwella sgiliau addysgwyr wrth gyflwyno'r cyfnod sylfaen, ond canfuwyd nad yw ymarferwyr yn y mwyafrif o ysgolion yn canolbwyntio digon ar sgiliau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh plant ar draws pob maes dysgu. Mynegodd Estyn bryder unwaith eto nad yw arweinwyr profiadol mewn ysgolion yn aml yn gwybod digon ar ôl y cyfnod sylfaen neu nad ydynt wedi'u hargyhoeddi ynghylch ei werth addysgol. Lle y bo staff addysgu proffesiynol yn nodi nad ydynt yn gwybod digon neu lle y bônt yn ceisio mwy o hyfforddiant er mwyn gweithredu'r cyfnod sylfaen, byddwn yn gofyn i Lywodraeth Lafur Cymru'n ymchwilio i hynny, yn ogystal â phryderon y sector bod yr hyfforddiant a roddir i athrawon ar gyfer y cyfnod sylfaen yn anghyson.

The foundation phase is in need of a thorough evaluation, and as the first cohort of students completes the scheme, this will be a natural

Mae angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r cyfnod sylfaen, ac wrth i gohort cyntaf y myfyrwyr gwblhau'r cynllun, bydd hyn yn

opportunity to do so. Data on the scheme are scarce and urgently needed if shortcomings already identified in quality and consistency between different schools, and in literacy, are going to be addressed, and if Welsh children are to be given the best start possible in education.

gyfle naturiol i wneud hynny. Mae data ar y cynllun yn brin ac mae angen y wybodaeth honno ar frys os yw'r diffygion a nodwyd eisoes o ran ansawdd a chysondeb rhwng gwahanol ysgolion, ac mewn llythrennedd, yn mynd i gael sylw, ac os yw plant Cymru yn mynd i gael y dechrau gorau posibl mewn addysg.

Turning briefly to Flying Start, I also ask the Minister to confirm whether his Government is willing to look at how the scheme can work better in rural areas, where individual families not areas suffer deprivation. In rural Wales, these are often hidden in small pockets of poverty that are, to all intents and purposes, invisible when deprivation is measured and mapped. To that extent, I also invite the Minister to look at the role of child minders within the Flying Start programme, and where there is the evaluation of Flying Start, that rural proofing is clearly considered in those matters.

Gan droi yn fyr at Dechrau'n Deg, rwyf hefyd yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau a yw ei Lywodraeth yn barod i edrych ar sut y gall y cynllun weithio'n well mewn ardaloedd gwledig, lle teuluoedd unigol ac nid ardaloedd sy'n dioddef o amddifadedd. Yng nghefn gwlad Cymru, mae'r teuluoedd hyn yn aml yn gudd mewn pocedi bach o dlodi sydd, i bob pwrpas, yn anweledig pan fydd amddifadedd yn cael ei fesur a'i fapio. I'r graddau hynny, rwyf hefyd yn gwahodd y Gweinidog i edrych ar rôl gwarchodwyr plant o fewn rhaglen Dechrau'n Deg, a lle y bo gwerthusiad o Dechrau'n Deg yn cael ei gynnal, gofynnaf fod prawfesur gwledig yn cael ei ystyried yn glir yn y materion hynny.

**Lindsay Whittle:** When we discuss early years education, we are talking about probably the most important period in a child's life. That is why we must be absolutely sure that we offer children an education that develops their skills across a wide range of activities, while making that learning really enjoyable and fun. There comes a time during school life, for those of you who remember, when some form of assessment will have to be applied. However, tests of a very formal kind are not awfully welcome by teachers who are doing their best to try to encourage very young children to learn through play and social interaction.

**Lindsay Whittle:** Pan fyddwn yn trafod addysg y blynyddoedd cynnar, rydym fwy na thebyg yn sôn am y cyfnod pwysicaf ym mywyd plentyn. Dyna pam y mae'n rhaid inni fod yn hollol siŵr ein bod yn cynnig addysg i blant sy'n datblygu eu sgiliau ar draws ystod eang o weithgareddau, wrth wneud yr addysg honno'n ddiddorol ac yn hwyl. Bydd y rhai ohonoch sy'n cofio yn gwybod bod amser yn dod yn eich bywyd yn yr ysgol pan fo raid cynnal rhyw fath o asesiad. Fodd bynnag, nid yw profion ffurfiol iawn yn cael fawr o groeso gan athrawon sy'n gwneud eu gorau i geisio annog plant ifanc iawn i ddysgu drwy chwarae a rhyngweithio cymdeithasol.

On the question of tests, Minister, you—like the tests—have been a little inconsistent. On the one hand, you advocated giving children the opportunity to gain first-hand experience through play and creative involvement rather than by completing exercises in books. I thought that that was a first-class statement. On the other hand, you said that you were going to introduce a national reading test. Why make this statement, when you had already announced that the assessments were going to be reviewed?

Ar fater prrofion, Weinidog, rydych chi—fel y profion—wedi bod ychydig yn anghyson. Ar yr un llaw, roeddech yn annog rhoi cyfle i blant gael profiad uniongyrchol drwy chwarae a rhyngweithio creadigol yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau. Roeddwn i'n meddwl bod y datganiad hwnnw'n rhagorol. Ar y llaw arall, dywedasoch y byddech yn cyflwyno prawf darllen cenedlaethol. Pam y gwnaethoch y datganiad hwnnw, pan oeddech eisoes wedi cyhoeddi y byddai'r asesiadau'n cael eu

hadolygu?

**Leighton Andrews:** Perhaps I can remind the Member that I made that statement as a member of the One Wales Government, with the support of his party.

**Leighton Andrews:** Hoffwn atgoffa'r Aelod fy mod wedi gwneud y datganiad hwnnw fel aelod o Lywodraeth Cymru'n Un, gyda chefnogaeth ei blaid.

**Lindsay Whittle:** It still does not alter the statement, does it? Is not the imposition of tests, Minister, just jumping the gun? The same could be said of your intervention, in fact. [*Laughter*.]

**Lindsay Whittle:** Oni fyddech yn cytuno nad yw hynny'n newid y datganiad? Ai achub y blaen yn ddiangen yw gosod profion, Weinidog? Yn wir, gallai'r un peth fod yn wir am eich ymyriad. [*Chwerthin*.]

The priority action for early years education should not be a barrage of assessments; the emphasis should be on making sure that those who have to deliver the relevant and absorbing education for three to seven-year-olds should be adequately trained in new teaching approaches to develop children's learning, as stated in the Estyn report.

Ni ddylai'r blaenoriaethau ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar gynnwys llwyth o asesiadau; dylai'r pwyslais fod ar sicrhau bod y rheini sy'n gorfod darparu'r addysg berthnasol a diddorol i blant rhwng tair a saith oed yn cael eu hyfforddi'n ddigonol mewn dulliau addysgu newydd i ddatblygu dealltwriaeth plant, fel y nodwyd yn adroddiad Estyn.

We in Plaid Cymru believe that we need two levels of training. First, there needs to be more investment in classrooms and in classroom-based training. Secondly, there need to be more post-qualification courses, such as those offered by the University of Wales Trinity Saint David, for teachers who want to become leaders in early years education. These two levels of training should, of course, draw on best practice in order to make it clear to the Minister how schools can best provide a learning environment that will develop knowledge and skills.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu bod angen dwy lefel o hyfforddiant. Yn gyntaf, mae angen mwy o fuddsoddiad mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth. Yn ail, mae angen mwy o gyrsiau ar ôl cymhwyso, fel y rhai a gynigir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i athrawon sydd am fod yn arweinwyr ym maes addysg blynyddoedd cynnar. Dylai'r ddwy lefel o hyfforddiant, wrth gwrs, fod yn seiliedig ar arferion gorau er mwyn ei gwneud yn glir i'r Gweinidog sut y gall ysgolion ddarparu amgylchedd dysgu a fydd yn datblygu gwybodaeth a sgiliau.

We talk about skills, but we rarely talk about knowledge. Education should be tailor-made to keep children motivated throughout their entire educational career. If implemented well, Flying Start, especially language through play courses—which Suzy Davies referred to earlier—does valuable work in helping young children in deprived areas to develop their language skills through working with parents in particular. I would like to see more parents, grandparents and volunteers going into our schools to assist teachers to create good citizens for the future. It is the responsibility of us all to create good citizens for the future. As the chair of the board of governors at my old primary school prior to being elected, I used to volunteer to

Rydym yn siarad am sgiliau, ond anaml y caiff gwybodaeth ei thrafod. Dylai addysg fod wedi'i theilwra i ysgogi plant drwy gydol eu gyrfa addysgol. Os yw'n cael ei weithredu'n dda, mae Dechrau'n Deg, yn enwedig cyrsiau i ddysgu iaith drwy chwarae—y cyfeiriodd Suzy Davies atynt yn gynharach—yn gwneud gwaith gwerthfawr wrth helpu plant ifanc mewn ardaloedd difreintiedig i ddatblygu eu sgiliau iaith drwy weithio gyda'u rhieni yn arbennig. Hoffwn weld mwy o rieni, neiniau a theidiau a gwirfoddolwyr yn mynd i'n hysgolion i gynorthwyo athrawon i greu dinasyddion da ar gyfer y dyfodol. Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i greu dinasyddion da ar gyfer y dyfodol. Pan oeddwn yn gadeirydd bwrdd

undertake individual reading sessions with young children. You should try it, because it will be the most fascinating experience of your life.

llywodraethwyr fy hen ysgol gynradd, cyn imi gael fy ethol, roeddwn yn arfer gwirfoddoli i gynnal sesiynau darllen unigol gyda phlant ifanc. Dylech roi cynnig arni, oherwydd dyna fydd profiad mwyaf diddorol eich bywyd.

I said yesterday that the window of opportunity for young children opens just once. I will try to repeat that statement as often as I can in the Chamber over the next few years in order to get that point across. Making school fun at a very early age means that we will capture the young creative minds and hold their attention throughout their educational life.

Dywedais ddoe nad yw cyfleoedd i blant ifanc ond yn codi unwaith. Byddaf yn ceisio ailadrodd y datganiad hwnnw mor aml ag y gallaf yn y Siambr yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn gwneud y pwynt. Mae gwneud ysgol yn hwyl i blant ifanc iawn yn golygu y byddwn yn ysbrydoli meddyliau creadigol ifanc ac yn dal eu sylw drwy gydol eu bywydau addysgol.

**Russell George:** I think that we all agree that it is hugely important to give our young children the best start in life—from early years support to the beginning of their formal education. Educational foundation qualifications and attainment are key vehicles to moving children out of the cycle of poverty and leads us further down the road to becoming a fair society. Education, coupled with a good health service and community provision, such as the freedom to play, are all vital to ensuring that a child is able to enjoy good quality of life.

**Russell George:** Credaf ein bod i gyd yn cytuno ei bod yn hynod bwysig rhoi'r dechrau gorau posibl i'n plant—o'r cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar hyd at ddechrau eu haddysg ffurfiol. Mae cymwysterau addysg sylfaenol a chyrhaeddiad yn gamau allweddol i symud plant allan o gylch tlodi, ac maent yn ein tywys yn nes tuag at fod yn gymdeithas deg. Mae addysg, yn ogystal â gwasanaeth iechyd da a darpariaeth gymunedol fel y rhyddid i chwarae, yn hanfodol i sicrhau y gall plentyn gael ansawdd bywyd da.

We all want to see an end to child poverty being achieved as quickly as possible, and the target that the Government has set itself for 2020 is ambitious, but it is a target that we have to fight hard to achieve. The Government has had some early success in reducing the levels of child poverty. However, we are at a crossroads, where levels have flatlined and, in some areas, are deteriorating. I am concerned by the figures published last week by the Campaign to End Child Poverty, which broke down the figures by ward and by percentage for children living in poverty in Powys. The ward that I represent as a county councillor, Newtown Central, has the highest level of child poverty in Powys. While I accept that there is an increasing need to focus interventions on the early years of a child's life and on the role of parents and families, there is concern that, in doing so, the emphasis around solutions is shifting away from the need to tackle low incomes and address income inequality. In Montgomeryshire, there is a desperate need

Rydym oll am weld tlodi plant yn cael ei ddileu cyn gynted â phosibl, ac mae'r targed y mae'r Llywodraeth wedi pennu iddi'i hun ar gyfer 2020 yn un uchelgeisiol, ond mae'n darged y mae'n rhaid inni frwydro'n galed i'w gyflawni. Mae'r Llywodraeth wedi cael rhywfaint o lwyddiant cynnar wrth leihau lefelau tlodi plant. Fodd bynnag, rydym ar groesffordd, lle y mae lefelau'n sefydlog ac, mewn rhai ardaloedd, yn dirywio. Rwyf yn pryderu am y ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan yr Ymgyrch i Ddileu Tlodi Plant, a gyflwynodd y ffigurau fesul ward ac yn ôl canran y plant sy'n byw mewn tlodi ym Mhowys. Y ward rwyf yn ei gynrychioli fel cynghorydd sir, sef Canol y Drenewydd, sydd â'r lefel uchaf o dlodi plant ym Mhowys. Er fy mod yn derbyn bod angen cynyddol i ganolbwyntio ymyriadau ar flynyddoedd cynnar bywyd plentyn ac ar rôl rhieni a theuluoedd, wrth wneud hynny, ceir pryder bod y pwyslais ar atebion yn disodli'r angen i fynd i'r afael ag incwm isel ac anghydraddoldeb incwm. Yn Sir Drefaldwyn,

for economic growth to bring about access to sustainable, well-paid jobs.

mae angen dybryd am dwf economaidd i sicrhau mynediad at swyddi cynaliadwy sy’n talu cyflogau da.

Rural areas have some of the highest levels of fuel poverty in Wales. Therefore, we must ensure that we support children and their families who are struggling now as well as trying to break the cycle through intervention. A comprehensive strategy is required. Such a strategy should include all dimensions of poverty at all relevant levels. I hope that the Minister will take on board the points made in today’s debate and that the Government will work constructively with the UK Government in order to achieve that 2020 goal.

Mae gan ardaloedd gwledig lefelau tlodi tanwydd sydd ymysg y lefelau uchaf yng Nghymru. Felly, mae’n rhaid inni sicrhau ein bod yn cefnogi plant a’u teuluoedd sydd mewn trafferthion yn awr yn ogystal â cheisio torri’r cylch drwy ymyrraeth. Mae angen strategaeth gynhwysfawr. Dylai strategaeth o’r fath gynnwys holl ddimensiynau tlodi ar bob lefel berthnasol. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y pwyntiau a wnaed yn y ddadl heddiw ac y bydd y Llywodraeth yn gweithio’n adeiladol â Llywodraeth y DU i gyflawni nod 2020.

3.45 p.m.

**Jenny Rathbone:** Thank you, Russell George, for reminding us all that we have a target to eliminate child poverty by 2020. I was a little alarmed by some of the comments made by opposition Members, which suggested that we should not be rolling out Flying Start further until we had fully understood and rectified all of the imperfections in the current programme. As the Deputy Minister has already pointed out, the evaluation that was published just before Christmas gives a snapshot of the first seven months of the receipt of that programme. As is inevitable with academic reports, there is a long time between doing the fieldwork and publishing the report. Therefore, to some extent, the Flying Start evaluation states the obvious in that its impact on the most socioeconomically disadvantaged families is limited, but we know that working with disadvantaged families is difficult and challenging. Sometimes, disadvantaged families are their own worst enemies and do things that are harmful, lay themselves open to harm or reject the help that is offered to them. That is why it is extremely skilled and valuable work, and we need to celebrate some of the really complicated work that is being done.

**Jenny Rathbone:** Diolch, Russell George, am ein hatgoffa bod gennym darged i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Roeddwn wedi fy nychryn braidd gan rai o’r sylwadau a wnaed gan Aelodau’r wrthblaid, a oedd yn awgrymu na ddylem fod yn cyflwyno Dechrau’n Deg ymhellach nes y byddwn wedi deall yr holl ddiffygion yn y rhaglen bresennol yn llawn a’u cywiro. Fel y mae’r Dirprwy Weinidog wedi nodi eisoes, mae’r gwerthusiad a gyhoeddwyd ychydig cyn y Nadolig yn rhoi cipolwg o saith mis cyntaf y rhaglen honno. Fel sy’n anochel gydag adroddiadau academaidd, mae amser hir rhwng gwneud y gwaith maes a chyhoeddi’r adroddiad. Felly, i ryw raddau, mae’r gwerthusiad o Dechrau’n Deg yn nodi’r hyn sy’n amlwg pan ddywed bod effaith y rhaglen ar y teuluoedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd yn gyfyngedig, ond rydym yn gwybod bod gweithio gyda theuluoedd difreintiedig yn anodd ac yn heriol. Weithiau, teuluoedd difreintiedig yw eu gelynion pennaf eu hunain ac maent yn gwneud pethau niweidiol, yn gadael eu hunain yn agored i niwed neu’n gwrthod y cymorth a gynigir iddynt. Dyna pam ei fod yn waith hynod o fedrus a gwerthfawr, ac mae angen inni ddathlu’r gwaith gwirioneddol gymhleth sy’n cael ei wneud.

**Angela Burns:** I am grateful to the Member for giving way. I do not think that I have picked up that anyone in any party has said

**Angela Burns:** Rwy’n ddiolchgar i’r Aelod am ildio. Nid wyf yn credu fy mod wedi sylwi bod unrhyw un o unrhyw blaid wedi

that they think that Flying Start should not continue, nor do we object in principle to its roll-out. However, the concern is that we must spend what precious money we have well, so what is the point of rolling out a programme that is missing some of its key objectives? Let us get it right, and then roll it out.

dweud eu bod yn credu na ddylai Dechrau'n Deg barhau, ac nid ydym yn gwrthwynebu rhoi'r rhaglen i gyd ar waith mewn egwyddor. Fodd bynnag, y pryder yw bod rhaid inni wario'r arian gwerthfawr hwn sydd gennym yn iawn, felly beth yw pwrpas cyflwyno rhaglen nad yw'n cynnwys rhai o'i phrif amcanion? Gadewch inni gael y rhaglen yn iawn, ac yna ei rhoi ar waith yn llawn.

**Jenny Rathbone:** I do not think that there is any evidence that we are wasting the money that we are targeting on deprived communities. The whole point of evaluation is to celebrate success and to identify any problems and areas where we need to constantly improve in the services that we fund. From my visit this week to the Adamsdown Flying Start programme, I can tell you that there is some excellent work going on. Based on my hands-on knowledge of this sort of work, I can pinpoint some good practice that is going on with homeless families living in Adams Court in Adamsdown, for example. The outreach work is excellent. The staff go round each room in the morning before the start of the learning and play session so as to encourage families to come along, because it is no use just providing a leaflet—some people cannot read and some people will have lost the leaflet since you handed it to them. That is best practice—to reach out to people and encourage them to get involved, because they could be nervous or depressed. The learning and play sessions that staff hold in the hostel for homeless families are followed up by staff accompanying families to the learning and play session that takes place at the integrated children's centre the following afternoon. It means that those people know how to get there if they have just arrived in the area, and it breaks down those barriers of anxiety and lack of confidence so that families are encouraged to engage in services. So, I think that the service offered in this area is top class, and we should celebrate that. I will come back to what else they offer there in a minute.

**Jenny Rathbone:** Nid wyf yn credu bod unrhyw dystiolaeth ein bod yn gwastraffu'r arian rydym yn ei dargedu at gymunedau difreintiedig. Pwrpas gwerthuso yw dathlu llwyddiant a nodi unrhyw broblemau a meysydd yn y gwasanaethau a ariannwn lle mae angen inni wella yn gyson. Ar ôl ymweld â'r rhaglen Dechrau'n Deg yn Adamsdown yr wythnos hon, gallaf ddweud wrthych fod gwaith rhagorol yn digwydd. Yn seiliedig ar fy ngwybodaeth ymarferol o'r math hwn o waith, gallaf nodi arfer da gyda theuluoedd digartref sy'n byw yn Adams Court yn Adamsdown, er enghraifft. Mae'r gwaith allgymorth yn ardderchog. Mae'r staff yn mynd i bob ystafell yn y bore cyn dechrau'r sesiwn dysgu a chwarae er mwyn annog teuluoedd i ddod, gan nad yw darparu taflen yn ddigon—ni all rai pobl ddarllen a bydd rhai pobl wedi colli'r daflen ers ichi ei rhoi iddynt. Dyna beth yw arfer da—estyn allan at bobl a'u hannog i gymryd rhan, oherwydd mae'n bosibl y gallant fod yn nerfus neu'n isel eu hysbryd. Yn dilyn y sesiynau dysgu a chwarae y mae'r staff yn eu cynnal yn yr hostel i deuluoedd digartref, mae'r staff yn mynd â'r teuluoedd i'r sesiwn dysgu a chwarae a gynhelir y prynhawn canlynol yn y ganolfan blant integredig. Mae'n golygu bod y bobl hynny sy'n newydd i'r ardal yn gwybod sut i gyrraedd yno, ac mae'n dileu rhwystrau pryder a diffyg hyder fel bod teuluoedd yn cael eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau. Felly, credaf fod y gwasanaeth a gynigir yn y maes hwn o'r safon uchaf, a dylem ddathlu hynny. Byddaf yn dychwelyd i sôn am beth arall maent yn ei gynnig yno mewn eiliad.

I would also like some information on the things that are not working so well, such as the link with midwives. I have heard many Flying Start programme leads say that they have insubstantial links with midwives. The

Hoffwn hefyd gael gwybodaeth am y pethau nad ydynt yn gweithio cystal, fel y cyswllt gyda bydwragedd. Rwyf wedi clywed llawer o arweinwyr rhaglenni Dechrau'n Deg yn dweud nad oes ganddynt gysylltiadau

journey to parenthood begins *in utero* and the communications that babies develop start at birth. So, I would be keen to hear what the Deputy Minister thinks we can do to address that.

sylweddol gyda bydwragedd. Mae'r daith at fod yn rhiant yn dechrau yn y groth ac mae'r cysylltiadau y mae babanod yn eu datblygu yn dechrau pan gânt eu geni. Felly, rwy'n awyddus i glywed beth mae'r Dirprwy Weinidog yn credu y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â hynny.

On breastfeeding, the report is disappointing in that it points out that breastfeeding rates have not gone up. However, better links with midwives and developing training programmes for volunteers as breastfeeding support workers would help to deliver that. I also think that transforming the ways of working between different services across the public and voluntary sectors is also work in progress. In Adamsdown, where there is an integrated children's centre on the same site as the primary school, there are fantastic links between the childcare that is offered to two-year-olds and that which is offered to three-year-olds in the next room. The interconnection, joint planning and co-ordination of the curriculum is first class. However, it is disappointing when I hear stories of people who have had a nursery place for a two-year-old, but are then told to go away and wait to be told when there is place for a three-year-old. So, those are some of the things we need to address.

O ran bwydo ar y fron, mae'r adroddiad yn siomedig gan ei fod yn nodi nad yw cyfraddau bwydo ar y fron wedi cynyddu. Fodd bynnag, byddai cysylltiadau gwell gyda bydwragedd a datblygu rhaglenni hyfforddi i wirfoddolwyr fod yn weithwyr cymorth bwydo ar y fron yn helpu i gyflawni hynny. Rwyf hefyd yn meddwl bod angen trawsnewid y ffyrdd o weithio rhwng y gwahanol wasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Yn Adamsdown, lle mae'r canolfan blant integredig ar yr un safle â'r ysgol gynradd, mae cysylltiadau gwych rhwng y gofal plant sy'n cael ei ddarparu i blant dwy flwydd oed a'r hyn a ddarperir i blant tair blwydd oed yn yr ystafell drws nesaf. Mae'r cysylltiadau, y cynllunio ar y cyd a'r cyd-drefniant yn y cwricwlwm o'r safon uchaf. Fodd bynnag, mae'n siomedig clywed straeon am bobl sydd wedi cael lle mewn ysgol feithrin i blentyn dwy oed, ond yna'n gorfod mynd i ffwrdd ac aros i glywed pryd fydd lle ar gael i blentyn tair oed. Felly, dyna rai o'r materion sydd angen inni fynd i'r afael â hwy.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** The Welsh Government has long recognised the benefits of strong early years provision. Our flagship Flying Start and foundation phase programmes amply demonstrate the commitment and investment we are prepared to make to ensure our young people get the best possible start in life. We recognise that the early years of a child's life are fundamental to their development and life chances. This is a critical time in a child's physical, cognitive, language, social and emotional development. Research is beginning to show that what happens to children in the early years can have physiological effects that are lasting.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers tro manteision darpariaeth gref ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae ein rhaglenni arloesol, Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen, yn dangos yn glir yr ymrwymiad a'r buddsoddiad rydym yn barod i'w roi i sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym yn cydnabod bod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad a'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n adeg dyngedfennol yn natblygiad corfforol, gwybyddol, ieithyddol, cymdeithasol ac emosiynol plentyn. Mae gwaith ymchwil yn dechrau dangos y gall yr hyn sy'n digwydd i blant yn ystod y blynyddoedd cynnar gael effeithiau ffisiolegol parhaol.

Research shows that poverty begins to exert its effects from a young age. It shows that at

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod tlodi yn dechrau dangos ei effeithiau o oedran ifanc.

the age of five, children from the most advantaged groups, in some circumstances, were found to be over a year ahead in vocabulary compared with those from disadvantaged backgrounds. We are tackling these challenges head on through Flying Start, childcare and the foundation phase. I welcome the endorsement of the programmes and the thoughtful contributions from all sides in this debate today.

Mae'n dangos bod plant pum mlwydd oed o'r grwpiau mwyaf breintiedig, mewn rhai amgylchiadau, dros flwyddyn ar y blaen i'r rheini o gefndiroedd difreintiedig o ran geirfa. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau hynny drwy Dechrau'n Deg, gofal plant a'r cyfnod sylfaen. Rwy'n croesawu'r gefnogaeth i'r rhaglenni a'r cyfraniadau ystyriol o bob ochr yn y ddadl hon heddiw.

Evidence from the interim evaluation published in July 2010 shows that Flying Start is beginning to make a real and positive impact on children. For many, when they enter the foundation phase, they are ready to learn, are better behaved and more confident at mixing with other children. Currently, there are more than 18,000 children up to the age of three, and their families, who are able to access Flying Start services, capturing approximately 13% of children in this age group. My party's manifesto commitment will double the number of children to 36,000, with a further investment of £61 million, made up of £55 million in revenue and £6 million in capital funding, over the next three financial years, as the Deputy Minister for Children and Social Services announced in the autumn. That investment could not have been made if we had followed the Conservative policy of ring-fencing the health budget, which would have meant a 20% cut in the education and children's budgets.

Mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad interim a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010 yn dangos bod Dechrau'n Deg yn dechrau cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar blant. I lawer o blant, pan fyddant yn dechrau'r cyfnod sylfaen, maent yn barod i ddysgu, maent yn ymddwyn yn well ac maent yn fwy hyderus wrth gymysgu gyda phlant eraill. Ar hyn o bryd, mae mwy na 18,000 o blant hyd at dair oed, a'u teuluoedd, yn gallu cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys tua 13% o blant yn y grŵp oedran hwn. Bydd ymrwymiad maniffesto fy mhlaid yn dyblu nifer y plant i 36,000, gyda buddsoddiad pellach o £61 miliwn, sy'n cynnwys £55 miliwn o arian refeniw a £6 miliwn o arian cyfalaf, dros y tair blynedd ariannol nesaf, fel y cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr hydref. Ni fyddem wedi gallu buddsoddi'r arian hwnnw pe byddem wedi dilyn polisi'r Ceidwadwyr o ddiogelu'r gyllideb iechyd, a fyddai wedi golygu gostyngiad o 20% yn y cyllidebau addysg a phlant.

The recently published second phase of the evaluation of Flying Start has provided us with important information on the needs of families in Flying Start areas and the challenges they face, as well as giving us evidence on the early influence of the programme. The report highlighted that Flying Start has been successful in increasing the levels of support that families have been receiving. Families also feel more positive about the services they receive than those in comparison areas. We will learn from the evaluation and reflect key messages in revised guidance to local authorities.

Mae ail gyfnod y gwerthusiad o Dechrau'n Deg a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi rhoi gwybodaeth bwysig inni am anghenion teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r heriau sy'n eu hwynebu, yn ogystal â rhoi tystiolaeth inni ar ddylanwad cynnar y rhaglen. Nododd yr adroddiad bod Dechrau'n Deg wedi llwyddo i gynyddu'r gefnogaeth y mae teuluoedd wedi bod yn ei derbyn. Mae teuluoedd hefyd yn teimlo'n fwy cadarnhaol am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn na'r rheini mewn ardaloedd cymharol. Byddwn yn dysgu o'r gwerthusiad ac yn adlewyrchu'r prif ganfyddiadau yn y canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol.

**Nick Ramsay:** The Minister is being mischievous in his own unique style. He

**Nick Ramsay:** Mae'r Gweinidog yn bod yn ddireidus yn ei ffordd unigryw ei hun. Mae'n

knows full well that what I am going to say is that, in the draft budget, to which he alluded, we had a 12% cut for education, which was a sizeable cut, but it was nothing like the 20% he mentioned.

gwybod yn iawn fy mod am ddweud ein bod wedi torri’r gyllideb addysg 12% yn y gyllideb ddrafft y cyfeiriodd ato. Roedd hwn yn doriad gweddol fawr, ond yn ddim byd tebyg i’r 20% y soniodd amdano.

**Leighton Andrews:** Any Member can go to YouTube and see the interview with the former Conservative leader, Nick Bourne, in which he refers in an interview with Betsan Powys on *Wales Today* in November 2010 to a 20% cut in education.

**Leighton Andrews:** Gall unrhyw Aelod fynd i YouTube a gweld y cyfweliad gyda chyn arweinydd y Ceidwadwyr, Nick Bourne, mewn cyfweliad gyda Betsan Powys ar *Wales Today* ym mis Tachwedd 2010, lle mae’n cyfeirio at doriad o 20% i’r gyllideb addysg.

It is important to recognise that the motion before us refers to some of the hardest to reach. The Deputy Minister will be giving evidence to the Children and Young People Committee next week, where she will address some of these issues. However, many of us—Jenny Rathbone, the Member for Cardiff Central, and Julie Morgan, the Member for Cardiff North also referred to this—have seen evidence on the ground of schemes that are reaching the most difficult families to reach. I have seen them myself in Rhondda Fach, Barry, Cardiff and in a variety of settings in Wales. The issues are challenging, and these are not easy programmes to put together. We have to recognise that and learn from it. To be fair to Members around the Chamber, they have acknowledged the difficulty of trying to address these issues.

Mae’n bwysig cydnabod bod y cynnig ger ein bron yn cyfeirio at rai o’r bobl anoddaf i’w cyrraedd. Bydd y Dirprwy Weinidog yn rhoi tystiolaeth i’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr wythnos nesaf, pan fydd yn ymdrin â rhai o’r materion hyn. Fodd bynnag, mae llawer ohonom—mae Jenny Rathbone, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, a Julie Morgan, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd hefyd wedi cyfieiro at hyn—wedi gweld tystiolaeth ar lawr gwlad o gynlluniau sy’n cyrraedd y teuluoedd anoddaf i’w cyrraedd. Rwyf wedi eu gweld fy hun yn y Rhondda Fach, yn y Barri, yng Nghaerdydd ac mewn amrywiaeth o leoliadau yng Nghymru. Mae’r materion hyn yn heriol, ac nid yw’n hawdd llunio’r rhaglenni hyn. Rhaid inni gydnabod hynny a dysgu ohono. I fod yn deg i Aelodau yn y Siambr, maent wedi cydnabod pa mor anodd yw ceisio mynd i’r afael â’r materion hyn.

In areas of socioeconomic deprivation, where unemployment levels are high and aspirations low, many parents can be reluctant to engage with support services. Breaking down what can often be a number of different barriers takes time and patience. That is why Flying Start professionals, through the multi-agency support services, continue to work with these families from the earliest possible stage.

Mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol-economaidd, lle mae lefelau diweithdra yn uchel a dyheadau yn isel, gall llawer o rieni fod yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Mae chwalu’r hyn a all fod yn nifer o wahanol rwystrau yn cymryd amser ac amynedd. Dyna pam mae gweithwyr proffesiynol Dechrau’n Deg, drwy’r gwasanaethau cefnogi aml-asiantaeth, yn parhau i weithio gyda’r teuluoedd cyn gynted â phosibl.

At the start of the autumn term 2011, we reached a significant milestone when the foundation phase completed its roll-out. I want to pay tribute to my predecessors, as Ministers for education, particularly Jane Hutt and Jane Davidson, who were the pioneers of this programme. All three to seven-year-olds are now able to experience

Ar ddechrau tymor yr hydref 2011, gwnaethom gyrraedd carreg filltir bwysig pan gwblhawyd cyflwyno’r cyfnod sylfaen. Hoffwn dalu teyrnged i fy rhagflaenwyr fel Gweinidogion addysg, yn enwedig Jane Hutt a Jane Davidson, sef arloeswyr y rhaglen hon. Mae pob plentyn rhwng tair a saith mlwydd oed nawr yn gallu profi ein

our purpose-built early years curriculum. This innovative flagship education policy has been fully embraced by practitioners in the maintained and non-maintained sectors, by parents across Wales, and crucially, by children and pupils in schools and different settings. The foundation phase provides the opportunities for all children to flourish and to create new horizons, and to learn in practical and exciting ways that engage their attention, imagination and interests. Early research findings have shown that children are more motivated to learn, better prepared for learning, possess the skills to learn, and are more confident and self-assured in the learning environment.

cwricwlwm blynyddoedd cynnar pwrpasol. Mae'r polisi addysg arloesol a blaenllaw hwn wedi cael ei groesawu gan weithwyr mewn ysgolion a gynhelir ac mewn ysgolion nas cynhelir, gan rieni ledled Cymru ac, yn hollbwysig, gan blant a disgyblion mewn ysgolion a lleoliadau gwahanol. Mae'r cyfnod sylfaen yn darparu cyfleoedd i bob plentyn ffynnu a chreu gorwelion newydd, ac i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a chyffrous sy'n denu eu sylw ac yn defnyddio'u dychymyg a'u diddordebau. Mae canfyddiadau cynnar gwaith ymchwil wedi dangos bod plant yn fwy brwdfrydig am eu haddysg, wedi'u paratoi'n well ar gyfer dysgu, yn meddu ar y sgiliau i ddysgu, ac yn fwy hyderus a hunansicr yn yr amgylchedd dysgu.

The foundation phase is proving to be a significant success with boys, who are now much more engaged with their learning, and in particular the development of good communication and literacy skills. The foundation phase is making a real difference to the life chances of all our young learners. Some Members have referred to the child development assessment profile and, of course, I have listened to what the profession has had to say—both the positive comments and the criticisms—and have put in place a review of the CDAP that will ensure we have arrangements that meet the needs of pupils, practitioners, parents and us as a Government.

Mae'r cyfnod sylfaen yn profi'n llwyddiant mawr gyda bechgyn, sydd nawr yn rhoi llawer mwy o sylw i'w haddysg, yn enwedig o ran datblygu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd da. Mae'r cyfnod sylfaen yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd ein holl ddysgwyr ifanc. Mae rhai aelodau wedi cyfeirio at y proffil asesu datblygiad plant ac, wrth gwrs, rwyf wedi gwrando ar yr hyn y mae'r proffesiwn wedi ei ddweud—y sylwadau cadarnhaol a'r rhai beirniadol—ac rwyf wedi sefydlu adolygiad o'r proffil a fydd yn sicrhau bod gennym drefniadau sy'n cwrdd ag anghenion disgyblion, ymarferwyr, rhieni a'r Llywodraeth.

The budgets that we announced before Christmas demonstrate in hard cash and not just warm words the commitment we have to the foundation phase— £300 million will be invested over the next three years. This brings to more than £0.5 billion the money we have put into the foundation phase. Around 90% of this is channelled directly into front-line services with the employment of classroom assistants. Over 5,600 additional posts have been created and funded since the foundation phase started to roll out in 2008. The remaining 10% of funding is spent on staff training and development, with just over £2.5 million per year supporting local authority training programmes. Those training programmes and the supporting material are developing a workforce that has a clear understanding of

Mae'r gyllideb a gyhoeddwyd gennym cyn y Nadolig yn dangos mewn ffigurau caled, ac nid mewn geiriau yn unig, ein hymrwymiad i'r cyfnod sylfaen—bydd £300 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf. Daw hyn a'r arian rydym wedi ei fuddsoddi yn y cyfnod sylfaen i fwy na £0.5 biliwn. Mae tua 90% o'r arian hwn yn cael ei sianelu yn uniongyrchol i wasanaethau rheng flaen drwy gyflogi cynorthwywyr dosbarth. Mae dros 5,600 o swyddi ychwanegol wedi cael eu creu a'u hariannu ers dechrau cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn 2008. Mae'r 10% sy'n weddill yn cael ei wario ar hyfforddi a datblygu staff, gydag ychydig dros £2.5 miliwn y flwyddyn yn cefnogi rhaglenni hyfforddi awdurdodau lleol. Mae'r rhaglenni hyfforddi a'r deunydd ategol hynny yn datblygu gweithlu sydd â dealltwriaeth glir o

child development and early years teaching methods. I dispute the idea that literacy and numeracy cannot be taught within, and alongside, the foundation phase. In the best schools, it is.

ddatblygiad plant a dulliau addysgu ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Rwy'n anghytuno â'r syniad na ellir dysgu llythrennedd a rhifedd o fewn y cyfnod sylfaen ac ochr yn ochr ag ef. Yn yr ysgolion gorau, mae hynny'n digwydd.

**Angela Burns:** I do not dispute that either. However, the concern I have is that if we are not careful, the drive for every school to ensure that they reach—particularly in the primary sector when banding comes in—a good standard will create tensions within that school and drive people to concentrate far more on the formal learning, leaving behind some of the ethos of the entire foundation phase programme.

**Angela Burns:** Nid wyf i'n anghytuno â hynny chwaith. Fodd bynnag, rwy'n pryderu, os nad ydym yn ofalus, y bydd yr ymgyrch i sicrhau bod pob ysgol yn cyrraedd safon da—yn enwedig yn y sector cynradd pan fydd y system fandio yn cael ei chyflwyno—yn creu tensiynau o fewn yr ysgol ac yn golygu y bydd pobl yn canolbwyntio mwy ar ddysgu ffurfiol, gan adael peth o ethos y cyfnod sylfaen ar ôl.

**Leighton Andrews:** I think there are inconsistencies in what the Member says and inconsistencies between what she says and what some of her colleagues have said in this debate. I am very clear that what we are seeing in the best primary schools in Wales is the professionals' ability to teach literacy and numeracy in creative ways within the ethos and spirit of the foundation phase. That is how it should be.

**Leighton Andrews:** Credaf fod anghysondebau yn yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud ac anghysondebau rhwng yr hyn y mae'n ei ddweud a'r hyn y mae rhai o'i chyd-Aelodau wedi'i ddweud yn y ddadl hon. Rwy'n glir mai'r hyn rydym yn ei weld yn yr ysgolion cynradd gorau yng Nghymru yw gallu'r gweithwyr proffesiynol i ddysgu llythrennedd a rhifedd mewn ffyrdd creadigol o fewn ethos ac ysbryd y cyfnod sylfaen. Dyna sut y dylai fod.

Members have referred to Estyn's report of May 2010, which found that there is room for improvement in local authority training programmes to ensure that all practitioners working in the foundation phase are appropriately trained and have a clear understanding of child development. However, as my colleague the Member for Cardiff North mentioned, the report also confirmed that, in most cases, the training has been well organised by local authorities and the training programmes are impacting positively on practice and the learning environment. Since that report, we think that local authorities have sharpened up their training and support for the workforce.

Mae Aelodau wedi cyfeirio at adroddiad Estyn ym mis Mai 2010, a ganfu bod lle i wella o ran rhaglenni hyfforddi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl weithwyr sy'n gweithio yn y cyfnod sylfaen yn cael eu hyfforddi'n briodol a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddatblygiad plant. Fodd bynnag, fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, mae'r adroddiad hefyd yn cadarnhau bod yr hyfforddiant, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi'i drefnu'n dda gan awdurdodau lleol a bod y rhaglenni hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar arferion ac ar yr amgylchedd dysgu. Ers yr adroddiad hwnnw, rydym yn credu bod awdurdodau lleol wedi mireinio eu hyfforddiant a'u cefnogaeth ar gyfer y gweithlu.

**The Presiding Officer:** Will you wind up, please?

**Y Llywydd:** A wnewch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Leighton Andrews:** Over the next few years, the foundation phase will be the subject of a full evaluation, which will look at staffing, ratios, training, funding and, of course, the

**Leighton Andrews:** Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y cyfnod sylfaen yn cael ei werthuso'n llawn. Bydd y gwerthusiad yn ystyried staffio, cymarebau staff,

impact on children's learning and development. We have a world-class suite of programmes that is dedicated to providing the best possible start for the children of Wales.

hyfforddiant, cyllid ac, wrth gwrs, yr effaith ar ddysgu a datblygiad plant. Mae gennym gyfres o raglenni o'r radd flaenaf sydd wedi'u hymrwymo i ddarparu'r dechrau gorau posibl i blant Cymru.

**The Presiding Officer:** I call on Mark Isherwood to wind up in the two and a half minutes that has been left to him by Angela Burns.

**Llywydd:** Galwaf ar Mark Isherwood i gloi'r ddadl yn y ddau funud a hanner a adawyd iddo gan Angela Burns.

**Mark Isherwood:** I will do my best. I thank everybody for their contributions. As Angela said, we must aim to place children in Wales in the best position to succeed. Flying Start and the foundation phase must be continually reviewed and evaluated by the Welsh Government to ensure resources are well targeted. Early intervention for two to three-year-olds in the most disadvantaged areas, with geographical targets, has generated partial successes, but as the evaluation released last month said, sadly, Flying Start is having least success in reaching socioeconomically disadvantaged families. It referred to the lack of parental awareness of schemes and problems in the recruitment and retention of health visitors in Flying Start areas and said that the Welsh Government is moving too quickly in seeking to expand Flying Start without addressing the evaluation's findings.

**Mark Isherwood:** Gwnaf fy ngorau. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Fel y dywedodd Angela, rhaid inni anelu at roi plant Cymru yn y sefyllfa orau i lwyddo. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu a gwerthuso Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen yn barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol. Mae ymyrraeth gynnar ar gyfer plant dwy neu dair blwydd oed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda thargedau daearyddol, wedi llwyddo'n rhannol, ond fel y nodwyd yn y gwerthusiad a gyhoeddwyd fis diwethaf, yn anffodus, o ran cyrraedd teuluoedd difreintiedig o safbwynt economaidd-gymdeithasol y mae Dechrau'n Deg yn lleiaf llwyddiannus. Roedd yn cyfeirio at ddiffyg ymwybyddiaeth rhieni o gynlluniau a phroblemau o ran recriwtio a chadw ymwelwyr iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn symud yn rhy gyflym wrth geisio ehangu Dechrau'n Deg, heb fynd i'r afael â chanfyddiadau'r gwerthusiad.

4.00 p.m.

With regard to the foundation phase, offering children aged three to seven a solid foundation for future learning, an Estyn report identified concerns about children not reaching their full potential in the foundation phase, children not being challenged enough, gaps in teacher training, and children in up to 40% of schools that administer the foundation phase not learning as much as they should.

O ran y cyfnod sylfaen, sy'n cynnig sylfaen gadarn i blant tair i saith oed er mwyn dysgu yn y dyfodol, mae adroddiad Estyn yn nodi pryderon am blant yn methu â chyrraedd eu potensial llawn yn y cyfnod sylfaen, plant nad ydynt yn cael eu herio'n ddigonol, bylchau mewn hyfforddiant athrawon, a phlant yn methu â dysgu cymaint ag y dylent mewn hyd at 40% o ysgolion sy'n gweinyddu'r cyfnod sylfaen.

Aled Roberts said that the sharing of best practice was not undertaken forcibly enough. Simon Thomas said that we must concentrate on the Flying Start scheme as a whole, on pupil assessments and on continuous professional development for teachers. Suzy Davies noted that the families in greatest

Dywedodd Aled Roberts nad yw'r gwaith o rannu arferion gorau yn cael ei wneud mewn ffordd ddigon effeithiol. Dywedodd Simon Thomas fod yn rhaid inni ganolbwyntio ar y cynllun Dechrau'n Deg yn ei gyfanrwydd, ar asesiadau disgyblion ac ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon. Nododd

need benefited most from the language and play elements of Flying Start. How sad therefore, she said, that take-up among them is so low. Julie Morgan put an emphasis on the enthusiasm of teachers and pupils, which is vital. Antoinette Sandbach spoke about the core skills of literacy and numeracy and issues in rural areas. Lindsay Whittle put an emphasis on new teaching approaches to develop children's learning. Russell George spoke about child poverty levels and the need to break the cycle. Jenny Rathbone said that, to achieve child poverty targets, we need to celebrate what works well and identify what needs to be done differently.

Suzy Davies mai'r teuluoedd sydd â'r anghenion mwyaf yw'r rhai sy'n cael y budd mwyaf o'r agweddau ar Dechrau'n Deg sy'n ymwneud ag iaith a chwarae. Mae'n drist, felly, fod y niferoedd yn eu plith sy'n manteisio arnynt mor isel. Pwysleisiodd Julie Morgan frwdfrydedd yr athrawon a'r disgyblion, sy'n hanfodol. Siaradodd Antoinette Sandbach am sgiliau craidd llythrennedd a rhifedd a phroblemau mewn ardaloedd gwledig. Pwysleisiodd Lindsay Whittle ddulliau addysgu newydd i ddatblygu addysg plant. Siaradodd George Russell am lefelau tlodi plant a'r angen i dorri'r cylch hwnnw. Dywedodd Jenny Rathbone, er mwyn cyrraedd targedau tlodi plant, fod angen inni ddathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda a nodi'r hyn sydd angen ei wneud mewn ffordd wahanol.

We need to look at the evidence from the Joseph Rowntree Foundation that more than half of children in poverty live outside Flying Start areas and embrace the call by the National Childminding Association for it to have a greater role in the roll-out of Flying Start. We welcome the fact that the Minister says that he will learn from the review and evaluation of the scheme, but I regret that, as usual, he chose to score party-political points. Our manifesto clearly said that our proposed cut was 12%, not 20%—yours was 8%—and we had that covered with other imaginative proposals that were offered to the people of Wales. We may not have won the election, but we improved our representation, and we are here to challenge and scrutinise you accordingly.

Mae angen inni edrych ar dystiolaeth Sefydliad Joseph Rowntree fod mwy na hanner y plant sydd mewn tlodi yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg a chroesawu'r y galw gan Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant i'r sefydliad chwarae mwy o ran yn y broses o gyflwyno Dechrau'n Deg. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn dweud y bydd yn dysgu yn sgîl yr adolygiad a'r gwerthusiad o'r cynllun, ond rwyf yn gresynu ei fod, fel arfer, wedi dewis sgorio pwyntiau pleidiol-wleidyddol. Roedd ein maniffesto yn dweud yn glir ein bod yn cynnig toriad o 12%, nid 20%—8% oedd gennych chi—ac roedd gennym gynigion eraill a oedd yn llawn dychymyg i bobl Cymru. Efallai na wnaethom ennill yr etholiad, ond gwnaethom wella ein cynrychiolaeth, ac rydym yma i'ch herio a chraffu arnoch yn unol â hynny.

**The Presiding Officer:** That was an example of how to wind up a debate.

**Y Llywydd:** Dyna enghraifft o sut i ddirwyn dadl i ben.

The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, the motion, unamended, is agreed.

Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff y cynnig ei dderbyn heb ei ddiwygio.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Pwynt o Drefn
## Point of Order

**Leighton Andrews:** Llywydd, as you will be aware, I was not a Member in the first Assembly, so I was not present when you were the Minister responsible for education who started off the early years work. Therefore, I have to apologise and grovel humbly for failing to mention you in my speech earlier as one of those who started off the early years programme.

**Leighton Andrews:** Lywydd, fel y byddwch yn gwybod, nid oeddwn yn Aelod yn y Cynulliad cyntaf, felly nid oeddwn yn bresennol pan oeddech chi'n Weinidog a chyfrifoldeb dros addysg a ddechreuodd y gwaith ar y blynyddoedd cynnar. Felly, rhaid imi ymddiheuro a syrthio ar fy mai am fethu â sôn amdanoch yn fy araith yn gynharach fel un o'r rhai a ddechreuodd raglen y blynyddoedd cynnar.

**The Presiding Officer:** That is not a point of order, but it is gratefully accepted. Thank you very much. [*Laughter*.]

**Y Llywydd:** Nid pwynt o drefn yw hynny, ond fe'i derbynnir yn ddiolchgar. Diolch yn fawr iawn. [*Chwerthin*.]

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.03 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.03 p.m.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Byrddau Iechyd Lleol
### Local Health Boards

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Peter Black, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Peter Black, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 3 a 4 yn enw William Graham.

*Cynnig NDM4893 Jocelyn Davies*

*Motion NDM4893 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros GIG Cymru a'r ddarpariaeth o dros £5 biliwn i Fyrddau Iechyd Lleol i gyflenwi gwasanaethau iechyd;*

*1. Acknowledges the Welsh Government's responsibility for the Welsh NHS and its provision of over £5 billion to Local Health Boards to deliver health services;*

*2. Yn gresynu wrth ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd y Byrddau Iechyd Lleol wrth wneud penderfyniadau ac ym maes rheoli ariannol hyd yma.*

*2. Regrets the Local Health Boards' lack of transparency and accountability in decision-making and financial management to date.*

**Elin Jones:** Cynigiaf y cynnig.

**Elin Jones:** I move the motion.

Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw gan fod eleni yn debygol o fod yn flwyddyn o her a newid o fewn y gwasanaeth

Plaid Cymru has tabled this motion today because this year is likely to be a year of challenges and changes in the health service.

iechyd. Mae hynny'n digwydd am gyfuniad o resymau, gan gynnwys diffyg arian—a'i oblygiadau i lefelau staffio a gwasanaeth—a'r dyhead gan rai i ailstrwythuro a chanoli gwasanaethau. Mae Plaid Cymru yn cyflwyno'r ddadl heddiw er mwyn i bawb sydd â diddordeb yn yr NHS fod yn glir ynglŷn â lle mae'r cyfrifoldeb am yr NHS, a'r penderfyniadau a'r atebolrwydd democrataidd, yn gorwedd.

That is happening for a number of reasons, including a shortage of funding—which has implications for staffing and service levels—and the aspiration of some to restructure and centralise services. Plaid Cymru has tabled today's motion so that everyone with an interest in the NHS can be clear about where responsibility for the NHS, decision making and democratic accountability lie.

Fy marn i a barn Plaid Cymru yw bod y cyfrifoldeb am yr NHS yn gorwedd gyda'r Gweinidog iechyd a Llywodraeth Lafur Cymru. Pan oedd Plaid Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru'n Un, roedd yna arweiniad clir o du'r Llywodraeth i'r byrddau iechyd ar bolisi a strwythur y gwasanaeth iechyd ar hyd a lled Cymru, ac ymrwymiad pendant o fewn Llywodraeth Cymru'n Un i gefnogi rhwydwaith o ysbytai cyffredinol. Nid wyf am dreulio gormod o amser yn siarad am y *good old days* o 'Cymru'n Un', gan fod gennym Lywodraeth ag agwedd cwbl wahanol yn awr. Mae'r Gweinidog wedi datgan yn glir ei bod yn barod i ganiatáu i fyrddau iechyd wneud pa bynnag newid y maent yn dymuno, waeth pa mor ddadleuol ac amhoblogaidd yw'r newid. Felly, i bob pwrpas, mae gan y byrddau iechyd rwydd hynt; maent wedi cael y golau gwyrdd gan y Gweinidog.

My opinion and that of Plaid Cymru is that responsibility for the NHS lies with the Minister for health and the Welsh Labour Government. When Plaid Cymru was in Government as part of the One Wales Government there was clear leadership from the Government to health boards on the policy and structure of the NHS across Wales and a clear commitment to supporting the network of general hospitals. I do not want to spend too much time harking back to the good old days of 'One Wales', as we now have a Government that has a completely different attitude. The Minister has clearly stated that she will allow health boards to make whatever changes they want to make, regardless of how controversial and unpopular they may be. Therefore, to all extents and purposes, health boards have a free rein; they have been given the green light by the Minister.

Mae'r Gweinidog yn ymddangos fel pe bai'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r byrddau iechyd, ond mae'n bwysig i staff yr NHS, pobl Cymru yn fwy cyffredinol, ac ambell Aelod Cynulliad, gofio bod y ddeddfwriaeth a sefydlodd y byrddau iechyd yn nodi bod atebolrwydd terfynol dros newidiadau sylweddol i wasanaethau'r NHS yn gorwedd gyda'r Gweinidog, nid gyda'r byrddau iechyd.

The Minister appears to be transferring responsibility to the health boards, but it is important that NHS staff, the people of Wales more generally, and some Assembly Members, bear in mind that the legislation that established the health boards stated that ultimate responsibility for significant changes to NHS services lies with the Minister, and not with the health boards.

O ran y newidiadau a'r cynlluniau i ganoli gwasanaethau ysbytai sy'n dechrau ymddangos, mae'n siŵr y bydd y byrddau iechyd a'r Gweinidog yn dweud bod rhesymau clinigol cryf dros wneud rhai o'r newidiadau hynny. Mewn rhai achosion, gall hynny fod yn wir, a bydd Plaid Cymru a phobl leol yn siŵr o fod yn barod i dderbyn y dadleuon hynny. Mewn enghreifftiau eraill, bydd rhai clinigwyr a llawer o reolwyr yn dadlau dros ganoli gwasanaethau. Fodd

In terms of the changes and the plans to centralise hospital services that are beginning to emerge, the health boards and the Minister are sure to say that there are strong clinical reasons for making some of those changes. In some cases, that could be true, and I am sure that Plaid Cymru and local people will be willing to accept those arguments. In other cases, some clinicians and many managers will argue for the centralisation of services. However, other clinicians will oppose the

bynnag, bydd clinigwyr eraill yn gwrthwynebu'r canoli. Er enghraifft, wrth i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda hanner cyflwyno ei gynlluniau ar gyfer yr hen Ddyfed, mae barn feddygol gref yn corddi ym Mronglais y bydd y canoli yn anfanteisiol i les cleifion, yn hytrach nag yn fanteisiol.

centralisation. For example, as Hywel Dda Local Health Board half-heartedly introduces its plans for the former county of Dyfed, a strong medical opinion is brewing in Bronglais that centralisation will be disadvantageous for patient welfare, rather than advantageous.

Wrth sefydlu ei fforwm clinigol cenedlaethol, mae'r Gweinidog wedi gobeithio mai un farn glinigol fydd i gefnogi newidiadau ond, heb amheuaeth, bydd amrywiaeth barn glinigol ar nifer o'r cynigion i ganoli.

In establishing her national clinical forum, the Minister hopes that there will be one clinical view, in support of the changes, but, without doubt, there will be a variety of clinical views on many of the centralisation proposals.

Mae'r Gweinidog, felly, wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r byrddau iechyd i gynllunio gwasanaethau gyda'r gobaith, efallai, y byddant yn ymgynghori'n helaeth, gan gymryd barn pobl leol ar flaenoriaethau. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog yn naïf, ond os mai ei gobaith yw y bydd y byrddau iechyd yn agored ac yn atebol yn lleol, nid dyna sy'n digwydd ar lawr gwlad. Rwyf wedi sôn yn y Siambr o'r blaen am Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn torri 40% o welyau yn Ysbyty Tregaron dros nos ac yna'n gwrthod anfon cynrychiolydd i gyfarfod cyhoeddus yn Nhregaron i egluro a bod yn atebol am y penderfyniad, gan anfon llythyr yn lle hynny. Nid yw atebolrwydd drwy lythyr yn dderbyniol.

The Minister, therefore, has transferred responsibility for service planning to the health boards, in the hope, perhaps, that they would consult widely, seeking the views of local people on prioritisation. I do not believe that the Minister is naive, but if it was her hope that health boards would be open and accountable at a local level, that is not what is happening on the ground. I have spoken in the Chamber before about the Hywel Dda Local Health Board cutting 40% of beds at Tregaron Hospital overnight, and then refusing to send a representative to a public meeting in Tregaron to explain and to be accountable for that decision; instead, it sent a letter. Accountability by letter is not acceptable.

Ar hyn o bryd, mae bwrdd Hywel Dda yn mynd drwy ryw fath o gyfnod cyn-ymgynghorol—nid wyf yn deall yn llwyr ddiben na statws y cyfnod penodol hwnnw. Felly, gan ei fod, fel bwrdd iechyd, yn yr ysbryd o wir ymgynghori, roedd grŵp cefnogi Bronglais yn awyddus i gwrdd â chadeirydd Hywel Dda. Mae'r grŵp hwn yn gymharol fawr ac yn cynnwys meddygon a nyrsys, cynghorwyr lleol, fi, fel Aelod Cynulliad, a hefyd yr Aelod Seneddol. Ein dymuniad oedd cael cyfarfod agored a gonest yn Aberystwyth. Yr hyn a gawsom yn ôl gan Hywel Dda oedd cynnig ar gyfer un dyddiad, yn Hwlffordd, gyda gorchymyn na ddylai mwy na phum aelod o'r grŵp fod yn bresennol i fynychu cyfarfod a oedd i gael ei drin yn gwbl breifat. Nid drwy weithredu fel hynny mae ennill ffydd y cyhoedd mewn unrhyw fwriad i gynnig newidiadau.

At present, Hywel Dda board is going through a pre-consultation phase—I do not quite understand the purpose or status of that phase. Therefore, given the health board's spirit of true consultation, the Bronglais support group was eager to meet with the chair of Hywel Dda. The group is quite large, made up of doctors and nurses, local councillors, me as the local Assembly member, and the local MP. Our wish was to hold an open and honest meeting in Aberystwyth. What we got back from Hywel Dda was one proposed date, in Haverfordwest, with an order that there should be no more than five people from the group present at what would be a private meeting. That is not the way to gain the public's confidence for any proposals for change.

Felly, unwaith eto, yn debyg i 2006, mae gennym grwpiau protest a chyfarfodydd cyhoeddus, gyda chynlluniau i gau, israddio a chanoli gwasanaethau'r NHS ym mhob rhan o Gymru, o Lanelli i Bwllheli, ac o Ruthun i'r Rhondda.

Therefore, once again, as in 2006, we have protest groups and public meetings, with plans to close, downgrade or centralise NHS services in all parts of Wales, from Llanelli to Pwllheli, and from Ruthin to the Rhondda.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aled Roberts ddoe ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, dywedodd y Prif Weinidog nad oedd gan gau unedau mân anafiadau a wardiau yn y gogledd ddim i'w wneud â diffyg cyllid, ac mai problemau recriwtio yn unig a oedd yn gyfrifol. Roedd yr ateb hwnnw'n gwbl anghredadwy ac anghyfrifol yn fy marn i. Wrth gwrs bod y penderfyniadau hyn sy'n digwydd ar hyd a lled gwlad i leihau gwasanaethau yn ymwneud â diffyg arian yn y gwasanaeth iechyd. Mae pob aelod o staff yr NHS yn gwybod hynny. Mae'r prinder arian a'r angen i beidio â gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn gorfodi byrddau iechyd i dorri'n ôl ar rai gwasanaethau ac i rewi ac arafu recriwtio. Mae pawb yn deall hynny, ac rwyf yn methu'n lân â deall pam bod y Prif Weinidog yn dewis gwadu ffaith mor amlwg.

In reply to a question yesterday from Aled Roberts on the Betsi Cadwaladr University Local Health Board, the First Minister said that the closure of minor injuries units and wards in north Wales had nothing to do with a shortage of funding, and that recruitment problems alone were to blame. That was, in my opinion, an unbelievable and irresponsible reply. These decisions in all parts of Wales to cut back on services are, of course, because of a lack of funds in the health service. Every member of staff in the NHS knows that. The shortage of funding and the requirement not to overspend before the end of the financial year is forcing health boards to cut back on some services and to freeze or slow down on recruitment. Everybody understands that, and I cannot for the life of me understand why the First Minister yesterday chose to deny such an obvious fact.

Felly, mae diffyg arweiniad cenedlaethol gan y Llywodraeth a diffyg atebolrwydd ac ymgynghori agored gan y byrddau iechyd. Fel na pe bai hynny'n ddigon ar hyn o bryd, mae rhagrith, os nad rhwyg, o fewn y Blaid Lafur ynghylch yr NHS, gydag Aelodau Cynulliad ar lawr gwlad yn ceisio ymddangos fel pe baent yn ymladd dros eu hysbytai lleol, tra bo'r grym i gadw'r union wasanaethau lleol hynny yn gorwedd yn gyfan gwbl yn nwylo Gweinidog Llafur yn y lle hwn. Hon hefyd yw'r blaid sy'n dweud, yn y Cynulliad hwn, ei bod yn erbyn defnyddio'r sector preifat yn y GIG, tra bod 23 Aelod Seneddol Llafur Cymru yn pleidleisio o blaid yr union beth hynny yn San Steffan.

Therefore, there is a lack of national leadership from the Government and a lack of accountability and open consultation from the health boards. As if that was not enough, there is hypocrisy, if not a split, within the Labour Party about the NHS, with Assembly Members on the ground trying to appear as if they were fighting for their local hospitals while the power to retain those very services lies in the hands of a Labour Minister in this place. This is also the party that says, in the Assembly, that it is against the use of the private sector in the NHS while 23 Welsh Labour Members of Parliament voted for exactly that in Westminster.

**Lynne Neagle:** Do you acknowledge that, certainly in relation to Torfaen, you have issued deliberately misleading press statements? The only comments that I have ever made have been in relation to the minor injuries unit, but you have issued statements calling into question the future of the county hospital. Are you deliberately trying to mislead people and frighten them about the

**Lynne Neagle:** A ydych yn cydnabod, yn sicr o ran Tor-faen, eich bod wedi cyhoeddi datganiadau i'r wasg sy'n fwriadol gamarweiniol? Mae'r unig sylwadau yr wyf erioed wedi'u gwneud yn ymwneud â'r uned mân anafiadau, ond rydych wedi cyhoeddi datganiadau sy'n cwestiynu dyfodol yr ysbyty sirol. A ydych yn ceisio camarwain pobl a chodi ofn arnynt am y GIG yn

NHS?

fwriadol?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Before you respond to that, Elin, it is appropriate that all Members should realise that I will permit accusations of inconsistency when they are made against political parties or local health boards in general. However, when your language could be taken to mean that individuals are being deliberately misleading, you must reflect carefully on that. That goes for both sides. I think that the 'you' that you mentioned was a collective you, Lynne, but please be careful and distinct when you make these remarks.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Cyn ichi ymateb i hynny, Elin, mae'n briodol bod yr holl Aelodau yn sylweddoli y byddaf yn caniatáu cyhuddiadau o anghysondeb pan fyddant yn cael eu gwneud yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu fyrddau iechyd lleol yn gyffredinol. Fodd bynnag, pan fo'n bosibl dehongli eich iaith i olygu bod unigolion yn camarwain yn fwriadol, mae'n rhaid ichi ystyried hynny'n ofalus. Mae hynny'n wir am y ddwy ochr. Rwy'n meddwl bod y 'chi' a ddefnyddiwyd gennych, Lynne, yn 'chi' torfol, ond byddwch yn ofalus ac yn eglur pan fyddwch yn gwneud sylwadau o'r fath.

**Elin Jones:** Derbyniaf yr arweiniad hwnnw oddi wrth y Dirprwy Lywydd. Gorffennaf drwy gyfeirio at y ffaith bod y Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn ychwanegol at hyn i gyd, wedi dweud yn blaen wrth bobl Cymru ychydig ddiwrnodau cyn yr etholiad y llynedd nad oedd gan y Blaid Lafur unrhyw gynlluniau i israddio ysbytai. Fodd bynnag, lai na blwyddyn yn ddiweddarach, mae'r cynlluniau hynny'n dod yn amlwg ac yn cael eu gwireddu mewn nifer o gymunedau yng Nghymru. I fod yn deg, cafodd y Blaid Lafur drwch y pleidleisiau yn yr etholiad y llynedd, ond bellach mae'r bobl a bleidleisiodd drosoch yn haeddu eich bod chi'n cadw at eich gair.

**Elin Jones:** I accept your guidance, Deputy Presiding Officer. I will conclude by referring to that fact that the First Minister, Carwyn Jones, on top of all this, clearly told the people of Wales a few days before last year's election that the Labour Party had no plans to downgrade hospitals. However, less than a year later, those plans are becoming apparent and are being implemented in many communities across Wales. To be fair, the Labour Party got more votes than any other party in last year's election, but people who voted for you deserve to see you being true to your word.

*Gwelliant 1 Peter Black*

*Amendment 1 Peter Black*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 1 'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddangos mwy o gyfrifoldeb dros berfformiad Byrddau Iechyd Lleol'.*

*Insert at end of point 1 'and calls on the Welsh government to demonstrate greater responsibility for the performance of LHBs'.*

**Kirsty Williams:** I move amendment 1 in the name of Peter Black.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Peter Black.

We as Welsh Liberal Democrats agree with the principles set out in the motion today. The management and delivery of health services are undoubtedly complex and challenging, as are the finances. However, that cannot be an excuse for those who are charged with the responsibility of providing them to the people of Wales to be anything but clear, open and transparent in how they make decisions that affect every citizen in Wales. That applies equally to the local

Rydym ni fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cytuno â'r egwyddorion a nodir yn y cynnig heddiw. Mae rheoli a darparu gwasanaethau iechyd heb os yn gymhleth ac yn heriol, ac mae hynny'n wir am y cyllid hefyd. Fodd bynnag, ni all hynny fod yn esgus i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd i bobl Cymru fod yn ddim byd ond clir, agored a thryloyw yn y modd y maent yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bob dinesydd yng Nghymru.

health boards, which are responsible for the day-to-day management of the NHS, and to the Minister here and the Welsh Government, which are also responsible, hence the Liberal Democrat amendment on the agenda today. Our amendment reinforces the fact, we believe, that it is the Minister and the political leadership in this Chamber that are ultimately responsible for the delivery of those services.

Mae hynny'r un mor berthnasol i'r byrddau iechyd lleol, sy'n gyfrifol am reoli'r GIG o ddydd i ddydd, ac i'r Gweinidog yma a Llywodraeth Cymru, sydd hefyd yn gyfrifol am hyn, a dyna pam y cynigiwyd gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol sydd ar yr agenda heddiw. Mae ein gwelliant yn atgyfnerthu'r ffaith, yn ein barn ni, mai'r Gweinidog a'r arweinyddiaeth wleidyddol yn y Siambr hon sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am ddarparu'r gwasanaethau hynny.

I have grave concerns that, too often, in response to questions and points of debate since May of last year, we have been told, 'That is a matter for the local health board'. The failure to recruit a maternal health specialist at Abergavenny hospital is a matter for the local health board, as is the provision of specialist nurses the length and breadth of Wales. Sometimes, when you read Government announcements, there are impressive lists of interventions and policy initiatives that the Government seeks to introduce. However, following closer scrutiny and questioning, it turns out that those things may happen, but that they are matters for the local health board. The most recent example of this was seen in the Health and Social Care Committee last week, when we were looking at community pharmacy services. The Government provided a long list of initiatives, but, following questioning, we were told that the flu jab regime being delivered at pharmacies next year, for example, will be a matter for individual health boards.

Mae gennyf bryderon difrifol ein bod wedi clywed yn rhy aml, mewn ymateb i gwestiynau a phwyntiau trafod ers mis Mai y llynedd, 'Mater i'r bwrdd iechyd lleol yw hynny'. Mater i'r bwrdd iechyd lleol yw'r methiant i recriwtio arbenigwr iechyd mamau yn ysbyty'r Fenni, a'r un modd y gwaith o ddarparu nyrsys arbenigol ar hyd a lled Cymru. Weithiau, pan fyddwch yn darllen cyhoeddiadau gan y Llywodraeth, mae rhestrau trawiadol o ymyriadau a mentrau polisi y mae'r Llywodraeth yn ceisioeu cyflwyno. Fodd bynnag, ar ôl craffu a chwestiynu ymhellach, y gwir yw y gall y pethau hynny ddigwydd, ond mai materion i'r bwrdd iechyd lleol ydynt. Gwelwyd yr enghraifft ddiweddaraf o hyn yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr wythnos diwethaf, pan oeddem yn edrych ar wasanaethau fferyllfeydd cymunedol. Darparodd y Llywodraeth restr hir o gynlluniau, ond, ar ôl holi, dywedwyd wrthym mai mater i fyrddau iechyd unigol fydd trefn y brechiad rhag y ffliw a fydd yn cael ei chyflwyno mewn fferyllfeydd y flwyddyn nesaf, er enghraifft.

4.15 p.m.

This perception of a Government that wants to duck ultimate responsibility was further reinforced by the Government's announcement about the clinical forum, which seemed to many, given the lack of detail that surrounded that announcement, to be just another block between the Minister and the undoubtedly difficult decisions facing the service at the moment. Of course, the Minister cannot be expected to micromanage the NHS, but, equally, when difficult decisions are to be made, we cannot expect the Minister to pass the buck to unaccountable and unelected local health

Mae'r canfyddiad hwn o Lywodraeth sydd am osgoi cyfrifoldeb yn y pen draw yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan gyhoeddiad y Llywodraeth am y fforwm clinigol, a oedd yn ymddangos i lawer, o ystyried y diffyg manylion o amgylch y cyhoeddiad hwnnw, fel rhwystr arall rhwng y Gweinidog a'r penderfyniadau diamheuol o anodd sy'n wynebu'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Wrth gwrs, ni ellir disgwyl i'r Gweinidog ficroreoli y GIG, ond, yn yr un modd, pan fydd penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud, ni allwn ddisgwyl i'r Gweinidog drosglwyddo'r baich i fyrddau iechyd lleol anatebol ac

boards. This Government has the responsibility to set the strategic direction for the NHS and will be ultimately responsible for whether it is delivered or not.

anetholedig. Cyfrifoldeb y Llywodraeth hon yw gosod cyfeiriad strategol y GIG a'r Llywodraeth sy'n gyfrifol yn y pen draw am ei gyflwyno ai peidio.

To move on to the issue of the local health boards and the second point of the motion before us, the rules, regulations and guidance surrounding the establishment of these local health boards, which could have set out the expectations of how they were to behave, were in the hands of Plaid Cymru when it was part of the One Wales Government. Obviously, it did not make the most of that opportunity, if it now believes that the LHBs are functioning in a way that is less than optimal in their transparency and openness. However, it was almost inevitable that such organisations would be viewed in the way that they are by ordinary citizens. They are such huge structures and cover such wide geographic areas that there should be no surprise that people feel a lack of ownership, trust and belonging, and have no confidence that those organisations, which are so far removed from them and so large, will make the right decisions for them as individuals.

I symud ymlaen at y byrddau iechyd lleol ac ail bwynt y cynnig ger ein bron, roedd y rheolau, y rheoliadau a'r canllawiau yn ymwneud â sefydlu'r byrddau iechyd lleol hyn, a allai fod wedi gosod allan y disgwyliadau am sut y dylent ymddwyn, yn nwylo Plaid Cymru pan oedd yn rhan o Lywodraeth Cymru'n Un. Yn amlwg, ni wnaeth y gorau o'r cyfle hwnnw, os yw'n credu bellach fod y byrddau iechyd yn gweithredu mewn ffordd sy'n llai na'r ffordd fwyaf delfrydol o ran tryloywder a bod yn agored. Fodd bynnag, roedd bron yn anochel y byddai dinasyddion cyffredin yn ystyried sefydliadau o'r fath yn y ffordd y maent. Maent yn sefydliadau mor anferth ac yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mor eang fel nad oes unrhyw syndod nad yw pobl yn teimlo perchnogaeth, ymddiriedaeth nac ymdeimlad o berthyn, ac nad oes ganddynt hyder y bydd y sefydliadau hynny, sydd mor bell oddi wrthynt ac mor fawr, yn gwneud y penderfyniadau cywir ar eu cyfer hwy fel unigolion.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am trying to follow your argument. Are you now arguing that we should return to having 22 local health bodies? Do you believe that the 22 local health bodies were functioning successfully?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n ceisio dilyn eich dadl. A ydych yn dadlau yn awr y dylem ddychwelyd at gael 22 corff iechyd lleol? A ydych yn credu fod y 22 corff iechyd lleol yn gweithredu'n llwyddiannus?

**Kirsty Williams:** What I am saying, Rhodri Glyn, is that as a result of the decision to move away from having 22 local health bodies—which were too many—to such large organisations that cover such large geographic areas, in which different types of communities are often covered by a single local health board, it was almost inevitable that there would be this feeling of a lack of ownership and engagement, and a lack of a feeling that that single organisation could equally look after the competing demands of the very different types of communities and health groups. That is the point; it was almost inevitable.

**Kirsty Williams:** Yr hyn rwy'n ei ddweud, Rhodri Glyn, yw, fel canlyniad i'r penderfyniad i symud i ffwrdd o gael 22 corff iechyd lleol—a oedd yn ormod—i sefydliadau mor fawr sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol mor fawr, lle mae gwahanol fathau o gymunedau yn aml yn cael eu cwmpasu o fewn un bwrdd iechyd lleol, roedd bron yn anochel y byddai'r teimlad hwn o ddiffyg perchenogaeth ac ymgysylltu, a diffyg teimlad y gallai'r un sefydliad hwnnw edrych ar ôl gofynion cystadleuol y mathau gwahanol iawn o gymunedau a grwpiau iechyd yn gyfartal. Dyna'r pwynt; roedd bron yn anochel.

There is real suspicion at the moment about motives and real anxiety about the way in which these organisations conduct

Mae amheuaeth wirioneddol ar hyn o bryd am gymhellion a phryder gwirioneddol am y ffordd y mae'r sefydliadau hyn yn eu cynnal

themselves. Change is inevitable, but it is not inevitable that it has to be carried out with the feeling of anxiety and distrust that is present at the moment, because of the LHBs.

eu hunain. Mae newid yn anochel, ond nid yw'n anochel bod yn rhaid iddo ddigwydd gyda'r pryder a'r diffyg ymddiriedaeth sydd ar led ar hyn o bryd, oherwydd y byrddau iechyd lleol.

*Gwelliant 2 Jane Hutt*

*Amendment 2 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move amendment 2 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf welliant 2 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu a diweddaru ei harweiniad i Fyrddau Iechyd Lleol ar gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau'r GIG.*

*Calls upon the Welsh Government to review and update its guidance to Local Health Boards on public involvement in the planning and delivery of NHS services.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu y bydd cyllideb ddiweddar Llywodraeth Cymru yn arwain at dorri 6.6% ar gyllideb y GIG mewn termau real.*

*Regrets that the Welsh Government's recent budget will result in real term cuts of 6.6% to the NHS budget.*

**Darren Millar:** I move amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

**Darren Millar:** Cynigiaf welliannau 3 a 4 yn enw William Graham.

I am pleased to be able to contribute to a timely debate on accountability for decision making in the Welsh NHS. We will oppose the motion as originally drafted, which is why we have tabled amendments to it. We think that it can be improved.

Rwy'n falch i allu cyfrannu at drafodaeth amserol ar atebolrwydd am wneud penderfyniadau yn GIG Cymru. Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, a dyna pam rydym wedi cyflwyno gwelliannau iddo. Rydym yn credu y gellir ei wella.

We support amendment 1 in the name of Peter Black. There is no doubt that the Welsh Government needs greater ownership and responsibility for LHB performance. There is a song, is there not, with lyrics about 'everybody shuffling'? The Minister does quite a bit of shuffling when it comes to trying to answer questions, or refusing to answer questions, about the performance of the Welsh NHS. She seeks praise for the things that seem to go right, but fails to

Rydym yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Peter Black. Nid oes amheuaeth nad oes angen i Lywodraeth Cymru gymryd mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros berfformiad byrddau iechyd lleol. Mae cân gyda geiriau am bawb yn llusgo'u traed, onid oes? Mae'r Gweinidog yn llusgo'i thraed gryn dipyn pan ddaw i geisio ateb cwestiynau, neu wrthod ateb cwestiynau, am berfformiad GIG Cymru. Mae hi'n chwilio am ganmoliaeth am y pethau sy'n ymddangos fel pe baent yn

accept responsibility for the failings that we are seeing in the Welsh NHS at the moment. Kirsty is quite right: the establishment of the national clinical forum underlined the attempts that the Minister is making to absolve herself of any responsibility for some of the negative decisions that, no doubt, will come forward over the next few months and years.

mynd yn iawn, ond mae'n methu â derbyn cyfrifoldeb am y methiannau a welwn yn GIG Cymru ar hyn o bryd. Mae Kirsty yn llygad ei lle: roedd sefydlu'r fforwm clinigol cenedlaethol yn pwysleisio ymdrechion y Gweinidog i'w rhyddhau ei hun o unrhyw gyfrifoldeb dros rai o'r penderfyniadau negyddol a fydd, yn ddiau, yn codi yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

We reject amendment 2 in the name of Jane Hutt. It never ceases to amaze me that the Welsh Government is in absolute denial about the shortcomings in transparency around decision making within Welsh local health boards. You only have to look at the decisions to temporarily close minor injuries units and wards to see that the decision-making process is completely flawed.

Rydym yn gwrthod gwelliant 2 yn enw Jane Hutt. Mae'n destun syndod parhaus i mi fod Llywodraeth Cymru yn gwrthod derbyn y diffygion mewn tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau ym myrddau iechyd lleol Cymru. Nid oes ond angen edrych ar y penderfyniadau i gau unedau mân anafiadau a wardiau dros dro i weld bod y broses o wneud penderfyniadau yn gwbl ddiffygiol.

Frankly, it was appalling that, prior to that information being shared with the media, there was no communication with the public, elected representatives or some of the other key stakeholders, including the local community health councils. If there is an organisation that those decisions ought to have been shared with, you would expect it to be the local community health council. That is why people were quite rightly outraged when the announcements were made.

A dweud y gwir, roedd yn warthus na fu unrhyw gyfathrebu gyda'r cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig na rhai o'r prif randdeiliaid eraill, gan gynnwys y cynghorau iechyd cymuned leol, cyn i'r wybodaeth honno gael ei rhannu gyda'r cyfryngau. Os oedd un sefydliad a ddylai fod wedi cael clywed am y penderfyniadau hynny, byddech yn disgwyl mai'r cyngor cymuned iechyd lleol fyddai hwnnw. Dyna pam roedd yn gwbl iawn bod pobl yn ddig pan wnaed y cyhoeddiadau.

Let us face it, the winter preparedness and the measures that were announced in December were in the planning stages for many months before they were determined, so there is no reason whatsoever for local Assembly Members, members of the public and other key stakeholders, such as community councils, not to have been involved in the decision-making process.

Gadewch inni wynebu'r gwir, roedd paratoi am y gaeaf a'r mesurau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr wedi bod yn y camau cynllunio am fisoedd lawer cyn iddynt gael eu penderfynu arnynt, felly nid oes unrhyw reswm bynnag dros beidio â sicrhau bod Aelodau Cynulliad lleol, aelodau o'r cyhoedd a'r prif randdeiliaid eraill, megis cynghorau cymuned, yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

**Simon Thomas:** On that point, perhaps Darren Millar shares with me the more cynical view that this is a deliberate process of cuts by 1,000 cuts, as it were, so that local people and local community health councils do not have much of a chance to arrange proper opposition. If they were done in a strategic way, they would become a large-scale effort that would motivate local people to oppose them.

**Simon Thomas:** Ar y pwynt hwnnw, efallai bod Darren Millar yn rhannu â mi y farn fwy sinigaidd bod hon yn broses fwriadol o dorri drwy wneud 1,000 o doriadau, fel petai, fel nad yw pobl leol a chynghorau cymuned iechyd lleol yn cael llawer o gyfle i drefnu gwrthwynebiad priodol. Pe byddai'r toriadau yn cael eu gwneud mewn ffordd strategol, byddent yn dod yn ymdrech ar raddfa fawr a fyddai'n cymell pobl leol i'w gwrthwynebu.

**Darren Millar:** I do not think that these are lots of small cuts; the cuts being imposed are massive. I recall that your party agreed with the cuts to the Welsh NHS budget before the Assembly election. In fact, ours is the only party that said that it wanted to invest more in the Welsh NHS, and we seek to remind people of that fact at every opportunity.

**Darren Millar:** Nid wyf yn credu mai llawer o doriadau bach yw'r rhain; mae'r toriadau sy'n cael eu gorfodi yn enfawr. Rwy'n cofio y cytunodd eich plaid i'r toriadau i gyllideb GIG Cymru cyn etholiad y Cynulliad. Yn wir, ni yw'r unig blaid a ddywedodd ei bod eisiau buddsoddi mwy yn GIG Cymru, a cheisiwn atgoffa pobl am y ffaith honno ar bob cyfle.

Turning to our amendments, amendment 3 is very clear: we want to see updated guidance on the involvement of the public. After all, they are the people who fund the Welsh NHS, and they ought to be included in the decision-making process. The Minister will recall that the previous Assembly's Health, Wellbeing and Local Government Committee undertook an inquiry into NHS reviews that were ongoing at that time. It was clear that the guidance was open to far too wide an interpretation about the way in which local health boards could go about involving stakeholders, members of the public and elected representatives in the decision-making process. That is why we are seeing stakeholders being cherry-picked because they agree with certain views during the consultation processes in order to get the result that the health board desires in terms of service changes.

Gan droi at ein gwelliannau, mae gwelliant 3 yn glir iawn: rydym am weld canllawiau wedi'u diweddaru ar ymwneud y cyhoedd. Wedi'r cyfan, nhw sy'n ariannu GIG Cymru, a dylent gael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd y Gweinidog yn cofio y cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad blaenorol ymchwiliad i'r adolygiadau GIG a oedd ar waith adeg honno. Roedd yn amlwg bod y canllawiau yn agored i gael eu dehongli mewn ffordd llawer rhy eang o ran y ffordd y gallai byrddau iechyd lleol fynd ati i gynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau. Dyna pam rydym yn gweld rhai rhanddeiliaid penodol yn cael eu dewis oherwydd eu bod yn cytuno â safbwyntiau penodol yn ystod y prosesau ymgynghori er mwyn cael y canlyniad mae'r bwrdd iechyd yn ei ddymuno o ran newidiadau yn y gwasanaeth.

On amendment 4, I have referred to the fact that there will be massive cuts to the Welsh NHS budget over the next few years. We know that waiting lists are spiralling out of control; we are seeing ambulances stacked up behind one another outside our hospitals; we are seeing people denied access to cancer drugs; and LHBs are forecasting that they will be £50 million in the red by the end of March. All of this is creating a perfect storm in the Welsh NHS that only the Minister can unplug and address. I call on the Welsh Government to look again at its budgets to make sure that the NHS gets the resources it needs.

Ar welliant 4, rwyf wedi cyfeirio at y ffaith y bydd toriadau enfawr i gyllideb GIG Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn gwybod bod rhestrau aros yn mynd allan o reolaeth, rydym yn gweld ambiwlansys lu y tu ôl i'w gilydd y tu allan i'n hysbytai, rydym yn gweld pobl yn cael eu hatal rhag cael cyffuriau canser, ac mae byrddau iechyd lleol yn rhagweld y byddant mewn dyled o £50 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth. Mae hyn oll yn creu storm berffaith yn GIG Cymru na all neb ond y Gweinidog ei gostegu a'i thrin. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i edrych eto ar ei chyllidebau i wneud yn siŵr bod y GIG yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arno.

In conclusion, I would just say that Betsi, Lesley and Plaid, too, are to blame for the problems of the Welsh NHS at the moment. Many of the plans coming to fruition now, along with many of the announcements of the

I gloi, rhaid dweud bod Betsi, Lesley a Plaid, hefyd, ar fai am broblemau GIG Cymru ar hyn o bryd. Roedd llawer o'r cynlluniau sy'n dwyn ffrwyth erbyn hyn, ynghyd â llawer o'r cyhoeddiadau ar yr adolygiadau, ar y gweill

reviews, were in train when the One Wales Government was in existence. So, you cannot absolve yourselves of responsibility for the problems in the Welsh NHS as they stand.

pan oedd Llywodraeth Cymru'n Un yn bodoli. Felly, ni allwch ryddhau eich hunain o gyfrifoldeb am y problemau presennol yn GIG Cymru.

**Simon Thomas:** The record will show, of course, that Plaid Cymru invested heavily in local health services, including those in Bronglais and throughout mid and west Wales, which is where I shall centre my contribution. There was investment in the Prince Philip Hospital, in Bronglais and in our district general hospitals. That shows the reality of Plaid Cymru in Government, rather than the posturing of the Conservatives, who are actually cutting the Welsh budget.

**Simon Thomas:** Bydd y cofnod yn dangos, wrth gwrs, y buddsoddodd Plaid Cymru lawer mewn gwasanaethau iechyd lleol, gan gynnwys y rhai ym Mronglais ac ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle byddaf yn canolbwyntio fy nghyfraniad. Buddsoddwyd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ym Mronglais ac yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Mae hynny'n dangos realiti Plaid Cymru mewn Llywodraeth, yn hytrach na rhyfyg y Ceidwadwyr, sydd mewn gwirionedd yn torri cyllideb Cymru.

However, what we are focusing on today is accountability—

Fodd bynnag, yr hyn rydym yn canolbwyntio arno heddiw yw atebolrwydd—

**Darren Millar:** You refer to our cutting the Welsh budget; do you accept that your posturing about independence for Wales would see a massive axe taken to the cash available for public services in the future?

**Darren Millar:** Gwnaethoch gyfeirio at y Ceidwadwyr yn torri cyllideb Cymru; a ydych yn derbyn y byddai eich rhyfyg chi am annibyniaeth i Gymru yn arwain at fwyell enfawr yn disgyn ar yr arian a fyddai ar gael i wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol?

**Simon Thomas:** Surprisingly enough, Darren, no, I do not. [*Laughter.*] What independence would bring to us, no doubt, is more accountability and, hopefully a Minister who would stand up for her responsibilities. I have to say that I find it deeply strange that the Labour Party is prepared to see £5 billion of public money spent without their Ministers, as elected politicians, deciding how it is spent. They are washing their hands of the Labour Party's greatest achievement—because there is no doubt that the national health service is Labour's greatest single achievement in Government. I do not quibble with that, and I do not quibble with Aneurin Bevan's role in that. However, I do quibble with a Labour Party that is now prepared to let unelected appointees from outside Wales decide what happens to the NHS in Wales, without taking the responsibility for the spending of that money. Aneurin Bevan famously said that he would get the NHS if he had to stuff the consultants' mouths with gold; that is what is happening in Hywel Dda Local Health Board at the moment, with the private consultants who are coming in to give advice without local people having a say. The

**Simon Thomas:** Yn rhyfedd ddigon, Darren, nag wyf. [*Chwerthin.*] Heb os, byddai annibynniaeth yn dwyn mwy o atebolrwydd a, gobeithio, Gweinidog a fyddai'n sefyll dros ei chyfrifoldebau. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn ei chael hi'n rhyfedd iawn bod y Blaid Lafur yn barod i weld £5 biliwn o arian cyhoeddus yn cael ei wario heb i'w Gweinidogion, fel gwleidyddion etholedig, benderfynu sut y caiff ei wario. Maent yn golchi eu dwylo o gyflawniad mwyaf y Blaid Lafur—oherwydd nid oes amheuaeth mai'r gwasanaeth iechyd gwladol yw cyflawniad unigol mwyaf y Blaid Lafur mewn Llywodraeth. Nid wyf yn dadlau â hynny, ac nid wyf yn dadlau am rôl Aneurin Bevan yn hynny. Fodd bynnag, rwy'n dadlau gyda Phlaid Lafur sy'n barod yn awr i adael i benodeion nad yw wedi'u hethol o'r tu allan i Gymru benderfynu beth fydd yn digwydd i'r GIG yng Nghymru, heb gymryd y cyfrifoldeb am wario'r arian hwnnw. Mewn dyfyniad enwog, dywedodd Aneurin Bevan y byddai'n sefydlu'r GIG hyd yn oed pe bai'n rhaid iddo lenwi cegau'r ymgynghorwyr ag aur; dyna sy'n digwydd ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar hyn o bryd, gydag

LHB paid £1,000 a day for Sir Jonathan Ashbridge, who is actually employed by Heywood, Middleton and Rochdale Primary Care Trust, to tell us in Hywel Dda, without any consultation with local people, how to run community care. The result was 20 medical beds cut overnight in Llanelli hospital. That is what happens when you pay consultants of that kind £1,000 a day and stuff their mouths with gold.

ymgynghorwyr preifat yn dod i mewn i roi cyngor heb adael i bobl leol ddweud eu dweud. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn talu £1,000 y dydd i Syr Jonathan Ashbridge—a gyflogir mewn gwirionedd gan Heywood, Middleton and Rochdale Primary Care Trust—ddweud wrthym, heb unrhyw ymgynghori â phobl leol, sut i redeg gofal yn y gymuned yn Hywel Dda. Y canlyniad oedd cael gwared ar 20 o welyau meddygol dros nos yn ysbyty Llanelli. Dyna beth sy'n digwydd pan fyddwch yn talu ymgynghorwyr o'r math hwnnw £1,000 y dydd a llenwi eu cegau ag aur.

What do the LHB's spokespeople say about this? None of them are named. You cannot get hold of any of them. None of them, as Elin Jones pointed out, are really prepared to engage with local representatives. Very few of them actually live in the Hywel Dda area, knowing that their older people will be subject to the issues in that area later in their lives.

Beth mae llefarwyr y byrddau iechyd yn ei ddweud am hyn? Nid enwir yr un ohonynt. Ni allwch gael gafael ar yr un ohonynt. Nid yw'r un ohonynt, fel y nododd Elin Jones, yn wirioneddol barod i ymgysylltu â chynrychiolwyr lleol. Ychydig iawn ohonynt sy'n byw yn ardal Hywel Dda, gan wybod y bydd eu pobl hŷn yn cael eu heffeithio gan y materion yn yr ardal honno yn ddiweddarach yn eu bywydau.

We are told that this is scaremongering. Back in September 2010 the then Minister for health said that this was pure scaremongering.

Dywedir wrthym mai codi bwganod yw hyn. Yn ôl ym mis Medi 2010, dywedodd y Gweinidog iechyd ar y pryd mai codi bwganod llwyr oedd hyn.

'It is pure scaremongering—I can absolutely say on the record that the service is safe—there will be no changes to the A&E unit in Llanelli'.

Codi bwganod llwyr yw hyn—gallaf ddweud ar gofnod bod y gwasanaeth yn ddiogel—ni fydd unrhyw newidiadau i'r uned ddamweiniau ac achosion brys yn Llanelli.

That is what she said. A year down the line, everyone here knows that there have been changes to the accident and emergency unit in Llanelli. There have also been changes to the minor injuries units in Tenby, Pwllheli and Pembroke Dock. We are told that those are temporary, but we are not told when that will come to an end. The Minister may recall that I wrote to her and pointed out the problems with ambulance services in the area. I asked how she could expect people to attend Withybush or Glangwili when their local minor injuries unit had been closed because of a problem with ambulance services. She wrote back saying that there was no problem with ambulance services; none whatsoever. So, Nia Griffiths MP is wrong when she talks about

Dyna ddywedodd hi. Flwyddyn yn hwyrach, mae pawb sydd yma yn gwybod y bu newidiadau yn yr uned ddamweiniau ac achosion brys yn Llanelli. Bu newidiadau hefyd i'r unedau mân anafiadau yn Ninbych-y-pysgod, Pwllheli a Doc Penfro. Dywedir wrthym mai newidiadau dros dro ydynt, ond ni wyddom pa bryd ddaw hynny i ben. Efallai y bydd y Gweinidog yn cofio y bu imi ysgrifennu ati a thynnu sylw at y problemau gyda gwasanaethau ambiwlans yn yr ardal. Gofynnais sut y gallai hi ddisgwyl i bobl fynd i Lwynhelyg neu Langwili pan oedd eu huned mân anafiadau lleol wedi cael ei chau oherwydd problem gyda'r gwasanaethau ambiwlans. Ysgrifennodd yn ôl gan ddweud nad oedd unrhyw broblem â'r gwasanaethau ambiwlans; dim o gwbl. Felly, mae Nia Griffiths AS yn anghywir pan mae'n siarad

am

'some very worrying examples of long waits for an ambulance'.

rhai enghreifftiau pryderus iawn o amseroedd aros hir am ambiwlans.

She is wrong when she says, just today in the *Llanelli Star,* that there is a knock-on effect in the time that people have to wait before an ambulance gets to them. The Minister says one thing, Labour MPs say another, and Labour AMs say another, and vote another way. Locally, people say something different again.

Mae hi'n anghywir pan mae'n dweud, dim ond heddiw yn y *Llanelli Star,* bod effeithiau canlyniadol yn yr amser y mae pobl yn gorfod aros cyn i ambiwlans eu cyrraedd. Mae'r Gweinidog yn dweud un peth, mae Aelodau Seneddol Llafur yn dweud peth arall, ac mae Aelodau Cynulliad Llafur yn dweud peth arall, a phleidleisio mewn ffordd arall. Yn lleol, mae pobl yn dweud rhywbeth gwahanol eto.

**Keith Davies** *rose—*

**Keith Davies** *a gododd—*

**Simon Thomas:** Keith, I welcome the opportunity for you to clarify your position on this.

**Simon Thomas:** Keith, rwy'n croesawu'r cyfle i chi egluro eich safbwynt ar hyn.

**Keith Davies:** I just want to quote Helen Mary Jones on 20 April:

**Keith Davies:** Hoffwn ddyfynnu Helen Mary Jones ar 20 Ebrill:

'We're not talking about freezing the services and keeping everything exactly the same. We know that some specialist services will need to be provided in one place and some in others'.

Nid ydym yn sôn am rewi'r gwasanaethau a chadw popeth yn union yr un fath. Rydym yn gwybod y bydd angen darparu rhai gwasanaethau arbenigol mewn un lle a rhai mewn eraill.

That is your party's position.

Dyna safbwynt eich plaid.

**Simon Thomas:** That refers to the breast cancer facilities that have come into Llanelli and been strengthened. That is a good thing. There is nothing wrong with specialist services being strengthened, but you are in charge now, and your Minister has to take responsibility for £5 billion. There is an accountability gap—there is no doubt that the leader of the Welsh Liberal Democrats was right to point that out. We do not necessarily need to go back to smaller areas, but we do need to look at what is happening in Scotland, where locally accountable politicians are going on to their health boards in order to ensure better accountability. The sum of £5 billion of public money demands a damn sight more scrutiny and accountability, from the Minister right down to the local health board.

**Simon Thomas:** Cyfeiria hynny at y cyfleusterau canser y fron sydd wedi dod i Lanelli ac wedi cael eu cryfhau. Mae hynny'n beth da. Does dim o'i le gyda chryfhau gwasanaethau arbenigol, ond chi sy'n gyfrifol nawr, ac mae eich Gweinidog yn gorfod cymryd cyfrifoldeb am £5 biliwn. Mae bwlch mewn atebolrwydd—nid oes amheuaeth nad oedd Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn iawn i sôn am hynny. Nid oes angen inni fynd yn ôl o reidrwydd i ardaloedd llai, ond mae angen inni edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, lle mae gwleidyddion sy'n atebol yn lleol yn mynd ar eu byrddau iechyd er mwyn sicrhau atebolrwydd gwell. Mae swm o £5 biliwn o arian cyhoeddus yn mynnu mwy o beth cythraul o graffu ac atebolrwydd, a hynny o'r Gweinidog i lawr at y bwrdd iechyd lleol.

**Joyce Watson:** Accountability and transparency are built into the structure of the

**Joyce Watson:** Mae atebolrwydd a thryloywder wedi cael eu hadeiladu i mewn i

Welsh NHS, and, indeed, the reforms that reduced the number of bodies and introduced the national advisory boards have strengthened that a good deal. However, a system is only accountable and transparent when people behave openly and honestly. The Minister has been clear that she expects LHBs to work closely with their communities. The current consultation on how and where health services are delivered is part of that process, and as elected Members we have a moral and contractual duty to represent the views of constituents in that process. That is only right. There have been occasions when the lines of communication between health boards and the public that they serve have failed, and that in itself leads to scepticism.

strwythur GIG Cymru, ac, yn wir, mae'r diwygiadau a leihaodd nifer y cyrff ac a gyflwynodd y byrddau cynghori cenedlaethol wedi cryfhau hynny gryn dipyn. Fodd bynnag, mae system yn atebol ac yn dryloyw ond pan fo pobl yn ymddwyn yn agored ac yn onest. Mae'r Gweinidog wedi bod yn glir ei bod yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol weithio'n agos gyda'u cymunedau. Mae'r ymgynghoriad presennol ar sut a ble mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu yn rhan o'r broses honno, ac fel Aelodau etholedig, mae gennym ddyletswydd foesol a chytundebol i gynrychioli barn etholwyr yn y broses honno. Mae hynny ond yn iawn. Bu achlysuron pan fethodd y llinellau cyfathrebu rhwng byrddau iechyd a'r cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu, ac mae hynny ynddo'i hun yn peri amheuaeth.

4.30 p.m.

In Pembrokeshire, before Christmas, it was announced that the minor injuries units at Pembroke Dock and Tenby would be shut as a temporary measure. The announcement that this would happen was the first that many people knew about the issue. Is that the definition of consultation—a means by which a sensitive decision can be announced without those affected being aware that it was even being thought about? At the public meeting that I attended in New Hedges in December, representatives from Hywel Dda Local Health Board defended the decision. That is fine; people understood the reasons, even if they disagreed. However, they were angry about the way in which it was handled. The situation at the MIUs had not come about overnight, so why did we not hear about it until after the event? People are not stupid. Money is finite and expectations change. We recognise that. We have to make decisions about what is important: what is more important and what is most important.

Yn Sir Benfro cyn y Nadolig, cyhoeddwyd y byddai'r unedau mân anafiadau yn Noc Penfro a Dinbych y Pysgod yn cau fel mesur dros dro. Dyna'r tro cyntaf i lawer o bobl glywed am y mater. Ai dyna ddiffiniad ymgynghoriad—ffordd o gyhoeddi penderfyniad sensitif heb i'r rheini yr effeithir arnynt wybod bod y mater hyd yn oed yn cael ei ystyried? Yn y cyfarfod cyhoeddus y bûm ynddo yn New Hedges ym mis Rhagfyr, bu cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn amddiffyn y penderfyniad. Roedd hynny'n ddigon teg; roedd pobl yn deall y rhesymau, hyd yn oed os oeddent yn anghytuno â hwy. Fodd bynnag, roeddent yn ddig am y ffordd y cafodd y mater ei drin. Nid oedd sefyllfa'r unedau mân anafiadau wedi codi dros nos; felly, pam na glywsom am y peth tan ar ôl y digwyddiad? Nid yw pobl yn dwp. Dim ond hyn a hyn o arian sydd ar gael ac mae disgwyliadau'n newid. Rydym yn cydnabod hynny. Mae'n rhaid inni wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n bwysig: yr hyn sy'n fwy pwysig a'r hyn sy'n bwysicaf oll.

Sometimes, the time and the place come into consideration. We all understand that from our private lives. However, the more we think that the wool is being pulled over our eyes, the more sceptical we become. In Pembrokeshire, it has led to a situation where

Weithiau, rhaid ystyried yr amser a'r lle. Rydym oll yn deall hynny o'n bywydau preifat. Fodd bynnag, po fwyaf y credwn fod y llwch yn cael ei daflu i'n llygaid, y mwyaf amheugar rydym yn dueddol o fod. Yn Sir Benfro, mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle y

the health board claims that the measure is temporary have been met with suspicion by some. It should not happen like that. When most of us were in school, certain mathematics teachers told us that, when working out an answer to a problem, we should show our workings clearly. That is the advice I would give to those who will be attending tomorrow's meeting on behalf of the Hywel Dda Local Health Board. When the local health board does not show the workings and communicate openly with the public, it creates a vacuum and, in that vacuum, people—and I look towards Plaid Cymru Members in saying this—can spread rumours and scaremonger for their own political purposes. That is irresponsible in the extreme, but there we have it; anyone would think that there is a leadership contest going on. It is for reasons like this that the people of Wales rejected Plaid as a responsible party of government in May. It seems that Plaid has retreated to its comfort zone of scaremongering at the fringes. That is fine, but people are not interested in that political point-scoring. They want a say in what happens to their local health services in an open and honest way. Plaid should credit the Welsh public as being intelligent enough to see through their parochial and mischievous politics.

mae honiadau'r bwrdd iechyd fod y mesur yn un dros dro yn cael eu hamau gan rai. Nid felly y dylai pethau ddigwydd. Pan oedd y rhan fwyaf ohonom yn yr ysgol, dywedodd rhai athrawon mathemateg wrthym y dylem ddangos ein gwaith yn glir wrth geisio datrys problem. Dyna'r cyngor y byddwn yn ei roi i'r rhai a fydd yn bresennol yn y cyfarfod yfory ar ran Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Pan nad yw'r bwrdd iechyd lleol yn dangos ei waith ac yn cyfathrebu'n agored â'r cyhoedd, mae'n creu gwactod ac, yn y gwactod hwnnw, gall pobl—rwyf yn edrych ar Aelodau Plaid Cymru wrth ddweud hyn—ledaenu sïon a chodi bwganod at eu dibenion gwleidyddol eu hunain. Mae hynny'n anghyfrifol iawn, ond dyna ni; byddai unrhyw un yn tybio bod cystadleuaeth i fod yn arweinydd y blaid yn cael ei chynnal. Rhesymau fel hyn a achosodd i bobl Cymru wrthod Plaid ym mis Mai fel plaid gyfrifol i lywodraethu. Mae'n ymddangos bod Plaid wedi cilio i'r tir lle y mae'n teimlo'n gysurus, gan godi bwganod ar y cyrion. Mae hynny'n iawn, ond nid oes gan bobl ddiddordeb mewn sgorio pwyntiau gwleidyddol yn y modd hwnnw. Maent am gael dweud eu dweud mewn ffordd agored a gonest ar yr hyn sy'n digwydd i'w gwasanaethau iechyd lleol. Dylai Plaid gydnabod bod cyhoedd Cymru'n ddigon deallus i weld drwy ei gwleidyddiaeth blwyfol a direidus.

**Alun Ffred Jones:** Diolch yn fawr iawn am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon. Dylwn ddweud yn gyntaf fod gennyf berthynas ddigon iach ac agored gyda phrif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rwyf yn ymwybodol iawn fod heriau mawr, penderfyniadau anodd a newidiadau yn wynebu'r gwasanaeth. Nid oes gennyf broblem gyda hynny. Cefais ddau gyfarfod cyn y Nadolig gyda'r prif weithredwr a bu inni drafod amryw o'r datblygiadau a thrafodaethau sy'n digwydd o fewn y bwrdd. Yn anffodus, er ein bod ni wedi cael y trafodaethau diddorol ac agored hynny, ni chlywais unrhyw awgrym o gwbl yn y cyfarfodydd hynny o'r cyhoeddiadau syfrdanol a wnaethpwyd ychydig cyn y Nadolig ynglŷn â chau unedau damweiniau yn y gogledd a chau wardiau, yn benodol yn Ysbyty Bryn Beryl, a hynny'n gwbl ddirybudd. Mae staff wedi cael eu symud oddi yno, wrth gwrs.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the opportunity to contribute to this debate. I should say at the outset that I have a healthy and open relationship with the chief executive of the Betsi Cadwaladr University Local Health Board. I am very aware of the major challenges, difficult decisions and changes faced by the service. I have no problem with that. I had two meetings before Christmas with the chief executive, and we discussed several of the ongoing developments and discussions taking place within the board. Unfortunately, although we had those interesting and open discussions, I heard no suggestion at all during those meetings of the staggering announcements that were to be made just before Christmas on the closure of accident and emergency units in north Wales, and on the closure of wards, specifically in Bryn Beryl Hospital. Those announcements were made without any warning, and staff were moved from the site.

Yn fwy diweddar, cefais gyfarfod gyda staff Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon—ysbyty sy'n gwneud gwaith ardderchog gyda'r henoed yn arbennig a phobl sydd wedi dioddef strôc. Mae gwaith yr ysbyty hwn yn caniatáu i gleifion adael y prif ysbyty yn ein hardal ni, sef Ysbyty Gwynedd, a hynny ar eu ffordd adref, gan fwyaf. Mae hefyd yn trin cleifion sy'n dioddef o gancr. Mae'n ysbyty sefydlog gyda staff profiadol sy'n nabod eu hardal ac yn nabod amryw o'r cleifion yn bersonol, wrth gwrs. Mae hynny yn rhoi hyder iddynt ac i'w teuluoedd. Fodd bynnag, ychydig ar ôl y Nadolig, cafodd y staff hynny rybudd y byddai'n rhaid iddynt fod yn barod i symud ar fyrder i lenwi bylchau yn Ysbyty Gwynedd gan fod bygythiad i gau wardiau yno.

More recently, I had a meeting with the staff of Ysbyty Eryri in Caernarfon—a hospital that does excellent work with the elderly and stroke patients. The services provided at this hospital allow patients to leave the main hospital in our area, namely Ysbyty Gwynedd, on their way home. The hospital also treats cancer patients. It is a stable hospital with experienced staff who know their area well and know many of the patients personally. That gives patients and their families confidence. However, just after Christmas, those staff were warned that they would have to be ready to move as a matter of urgency to fill gaps at Ysbyty Gwynedd, because wards there were under threat of closure.

Ni ddylid trin staff profiadol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i'r gymdeithas yn y ffordd honno. Nid ydynt yn cael eu trin gyda pharch, ac mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel byrddau iechyd eraill, i drin ei staff gyda pharch ac i fod yn agored gyda hwy a'r cyhoedd ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaethau. Fel y dywedwyd yn barod, cafodd rhai o'r newidiadau eu cyhoeddi fel rhai dros dro, ond ychydig o wybodaeth sydd gennym am adfer y gwasanaethau hynny a phryd fydd hynny'n digwydd, os o gwbl. Dyna yw craidd y ddadl hon, sef pa un a yw'r bwrdd iechyd yn bod yn agored gyda'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, achos nid oes dim yn waeth nag ofnau'n cael eu creu. Nid Plaid Cymru sy'n gwneud hynny; pe baech chi wedi bod mewn cyfarfod cyhoeddus yn y gogledd yn ddiweddar, byddech wedi clywed cannoedd o bobl yn lleisio'r un math o bryderon.

That is not how you treat experienced staff who have an important contribution to make to society. They are treated with a lack of respect, and it is a requirement of Betsi Cadwaladr University Local Health Board, as with other health boards, to treat their staff with respect and to be open with those staff and with the public in terms of changes to services. As has already been said, some of these changes were announced as being temporary but very little information is available as to when those services will be reinstated, if at all. That is the nub of the argument here: is the health board being open with the public whom it serves? There is nothing worse than fears being created. It is not Plaid Cymru that is doing that; had you been at the public meeting held in north Wales recently, you would have heard hundreds of people expressing the same kinds of concerns.

Byddwn hefyd yn dweud wrth y bwrdd iechyd yn y gogledd, gan fy mod yn ei drafod yn benodol, mai un o'r heriau mawr sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd yw diffyg arbenigwyr. Yr wyf wedi clywed y bydd ymgyrch recriwtio'n digwydd yn fuan. Os felly, popeth yn dda, ond yr ateb yn y gogledd ac yn y gorllewin yn gyffredinol yw sefydlu ysgol feddygol newydd lle gallai myfyrwyr ifanc o'r ardal a thu hwnt gael hyfforddiant. Wrth wneud hynny ar y cyd gyda'r brifysgol ym Mangor a phrifysgolion

I would also tell the health board in north Wales, as I am discussing that health board in particular, that one of the major challenges facing the health service in north Wales is the shortage of specialists. I have heard that there will soon be a recruitment campaign. If that is the case, all well and good, but the solution in north Wales, and in west Wales more generally, would be to establish a new school of medicine at which young students from the area and beyond could be trained. In doing that, jointly with Bangor University and other

eraill y gogledd, gallem fod yn cyfrannu at wasanaethau sydd yn fwy cynaliadwy ac yn fwy abl o lawer i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd yn y blynyddoedd nesaf. Mae angen i hynny ddigwydd ar fyrder. Mae Prifysgol Bangor yn barod i wynebu'r her honno. Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda'i swyddogion, ac maent yn barod i sefydlu canolfan iechyd. Un o'r pethau y gallai'r Llywodraeth ei wneud yn syth—yr oedd y Gweinidog yn bresennol mewn cyfarfod diweddar ym Mangor—yw trosglwyddo hen adeilad CAST, sy'n cael ei alw yn Nhŷ Menai erbyn hyn, i'r brifysgol, neu ei werthu i'r brifysgol er mwyn iddi gael rhywfaint o arian yn ei choffrau. Byddai hynny'n galluogi'r brifysgol i symud ymlaen ar fyrder ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol i sefydlu canolfan feddygol, a ddaw maes o law, gobeithio, yn ysgol feddygol i'r gogledd. Hoffwn glywed y Gweinidog yn dweud ei bod yn barod i hyrwyddo'r symudiad hwnnw o fewn y Cabinet ar fyrder er mwyn inni geisio mynd i'r afael ag un o'r problemau sylfaenol sy'n wynebu'r gwasanaeth yn y gogledd.

universities in north Wales, we could be contributing to a service that is far more sustainable and that is far better able to tackle the challenges facing the health service over the coming years. That needs to happen as a matter of urgency. Bangor University is ready to face up to that challenge. I have had a number of discussions with university officials, and they are ready to set up a health centre. One of the things that the Government could do immediately—the Minister was present at a recent meeting in Bangor—would be to transfer Tŷ Menai as it is now known, or the old CAST building, to the university, or to sell it to the university, thereby generating some funds. That would enable the university to move forward as a matter of urgency along with the health board to establish a centre of medical expertise that would become a school of medicine for north Wales. I would like to hear the Minister saying that she is willing to promote such a move within the Cabinet as a matter of urgency so that we can start to get to grips with one of the fundamental problems facing the service in north Wales.

**Paul Davies:** Yr wyf yn falch o'r cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon. Yr wyf yn ddiolchgar i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig pwysig hwn, oherwydd mae'r mater hwn yn bwysig i fy etholaeth ac yn briodol o ystyried fod cynlluniau ar y gweill i newid gwasanaethau iechyd yn y dyfodol agos.

**Paul Davies:** I am pleased to have the opportunity to participate in this debate. I am grateful to Plaid Cymru for bringing forward this important motion, because it is an important issue for my constituency and is appropriate given that there are plans in hand to change health services in the near future.

Hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar fy mwrdd iechyd lleol a phwysigrwydd gwasanaethau iechyd i'r cymunedau cyfagos. Yr wyf yn derbyn bod darparu gwasanaethau iechyd mewn ardal wledig yn heriol a bod gwaith aruthrol gan fyrddau iechyd lleol i'w wneud i ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Dyna pam mae'n rhaid i fyrddau iechyd lleol ymgynghori'n llawn gyda phobl a chymunedau, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn yr ardaloedd hynny yn diwallu anghenion y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae unrhyw beth llai yn annerbyniol.

I would like to focus my comments on my local health board and the importance of health services to the nearby communities. I accept that providing health services in rural areas is challenging and that local health boards have to do a substantial amount of work to meet the needs of people living in those areas. That is why local health boards must consult people and communities fully to ensure that the health service in those areas meets the needs of the people that it serves. Anything less is unacceptable.

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth sylweddoli nad yw'r dull un-maint-i-bawb yn addas i bob ardal, oherwydd, yn naturiol, mae cymunedau gwledig yn ddi-os yn wahanol i ardaloedd trefol. Dyna pam mae'n hollbwysig fod y

The Government must realise that the one-size-fits-all approach is not appropriate for all areas, because, naturally, rural areas are different from urban areas. That is why it is vital that the Government should provide

Llywodraeth yn darparu canllawiau hyblyg i fyrddau iechyd lleol er mwyn iddynt allu datblygu modelau sy'n berthnasol i'r ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod byrddau iechyd yn ymgynghori gyda phobl yn eu hardaloedd, a bod unrhyw gynigion newydd yn y gwasanaeth iechyd yn agored, yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl mae'n eu gwasanaethu. Dylai unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg ac ysbytai eraill fod yn destun ymgynghori nid yn unig gyda rhanddeiliaid allweddol, ond gyda'r boblogaeth gyffredinol yn sir Benfro ac mewn ardaloedd eraill. Rhaid i bobl a chymunedau fod yn rhan o bob proses ymgynghori, gan y byddai cynnal ymgynghoriadau cyfyngedig gyda rhanddeiliaid allweddol yn unig yn annerbyniol.

flexible guidelines for local health boards so that they can develop models that are relevant to the areas that they serve. However, it is vital that health boards consult with the people in their areas, and that any new proposals in the health service are open, transparent and accountable to the people that they serve. Any changes to services in Withybush hospital and other hospitals should be subject to consultation not only with key stakeholders, but with the population in Pembrokeshire and other areas in general. People and communities must be part of any consultation process, because holding limited consultation with key stakeholders only is unacceptable.

Yn anffodus, rydym ni yn sir Benfro wedi dioddef o ddiffyg tryloywder yn y gwasanaeth iechyd yn y gorffennol. Rwy'n siŵr eich bod i gyd yn ymwybodol o ddogfen a gafodd ei rhyddhau yn 2010, sef, 'Strategaeth Gwasanaethau Iechyd: Cynllun Gwario i Arbed', a luniwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sy'n amlwg yn sôn am ganoli gwasanaethau oddi wrth Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ac Ysbyty De Sir Benfro. Rwy'n derbyn y cafodd y ddogfen ei thynnu yn ôl yn syth ar ôl iddi gael ei rhyddhau i'r wasg, ond nid yw pethau fel hyn yn magu hyder pobl leol, yn enwedig o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'n debyg i'r ddogfen ynghylch cyflenwi gwasanaethau acíwt yn ysbytai canolbarth a gorllewin Cymru a luniwyd chwe blynedd yn ôl, ac a wrthodwyd gan fwyafrif llethol pobl sir Benfro. Dyna pam mae'n hanfodol bod unrhyw gynlluniau i newid gwasanaethau iechyd yn cynnwys y gymuned.

Unfortunately, we in Pembrokeshire have suffered from a lack of transparency in the health service in the past. I am sure that you will all be aware of a document that was released in 2010, 'Health Services Strategy: Spend to Save Plan', drawn up by Hywel Dda Local Health Board, which, obviously, talks about the centralisation of services away from Withybush General Hospital and Pembrokeshire Hospital. I accept that the document was withdrawn immediately after it was released to the press, but things such as this do not instil confidence in local people, especially given what has happened in the past. It is similar to the document about the provision of acute services in hospitals in mid and west Wales that was drawn up six years ago and rejected by the vast majority of the people of Pembrokeshire. That is why it is vital that any plans to change health services include the community.

Rwy'n derbyn bod y bwrdd iechyd yn fy ardal i wedi dechrau ar y broses cyn ymgynghori, yn ddiweddar, gan ofyn i bobl am eu sylwadau. Yn debyg i'r Aelod Cynulliad dros Geredigion, nid wyf yn hollol siŵr beth yw'r prif bwrpas. Mae'r canllawiau presennol gan Lywodraeth Cymru ar y modd y dylai byrddau iechyd ymwneud â mudiadau a'r cyhoedd yn dweud nad yw'n orfodol ymgynghori ar bob newid sylweddol. Mae'r

I accept that the health board in my area has begun a pre-consultation process recently, asking people for comments. Like the Assembly Member for Ceredigion, I am not entirely sure what its main aim is. The current guidelines from the Welsh Government on the way that health boards should deal with organisations and the public say that it is not obligatory to consult on all substantial changes. The guidelines also say

canllawiau hefyd yn dweud bod yn rhaid datblygu gwybodaeth gyhoeddus gref sy'n seiliedig ar dryloywder, tystiolaeth ac arweinyddiaeth gadarnhaol. Rwy'n derbyn bod y Gweinidog wedi ei gwneud hi'n glir yn y gorffennol fod yn rhaid i bobl gael dweud eu dweud os bydd newidiadau yn effeithio ar wasanaethau iechyd yn eu hardal. Nid wyf yn gwbl glir beth y mae hi'n golygu gan hyn, ac efallai y gall esbonio yn ei hymateb i'r ddadl hon.

that they must develop strong public knowledge based on transparency, evidence and positive leadership. I accept that the Minister has made it clear in the past that people must be able to have their say if there are changes that will affect health services in their area. I am not quite clear what she means by this, and perhaps she could explain that in her response to this debate.

Mae'n hollbwysig bod byrddau iechyd lleol yn gweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a phan nad yw byrddau iechyd yn cydymffurfio, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu gorfodi i wneud hynny. Mae'r Gweinidog wedi pwysleisio y bydd camau yn cael eu cymryd yn erbyn byrddau iechyd lleol nad ydynt yn bodloni eu rhwymedigaethau ariannol. Efallai gall y Gweinidog ddweud wrthym a fyddai hi'n barod i gymryd camau yn erbyn bwrdd pe na bai'r bwrdd hwnnw'n ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd yn yr ardal mae'n ei gwasanaethu.

It is vital that local health boards work the communities that they serve, and when LHBs do not conform, it is vital that they should be forced to do so. The Minister has stressed that steps will be taken against local health boards if they fail to meet their financial commitments. Perhaps the Minister could tell us whether she would be prepared to take steps against an LHB should it fail to consult fully with the public in the area that it serves.

Rhaid i'r Llywodraeth ddangos mwy o gyfrifoldeb dros weithrediadau byrddau iechyd lleol. Rhaid i ni beidio anghofio bod Llywodraethau'n cael eu hethol gan bobl, a'u bod yn atebol i bobl. Rwy'n gobeithio y bydd y ddadl hon yn arwain y Llywodraeth i sicrhau bod ein byrddau iechyd lleol yn fwy atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

The Government must demonstrate more responsibility for the actions of LHBs. We must not forget that Governments are elected by people and are accountable to people. I hope that this debate will lead the Government to ensure that our local health boards are more accountable to the people that they serve.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n falch o'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae'n ddadl eithriadol o bwysig gan ein bod yn sôn am wasanaethau sylfaenol, sef y gwasanaethau mwyaf sylfaenol i bobl yn eu cymunedau. Yr hyn sy'n datblygu'n thema yn y trafodaethau hyn, ym mhob cyfraniad gan bob plaid, yw'r ffaith bod diwylliant wedi datblygu yn y byrddau iechyd, diwylliant nad yw'n dryloyw ac nad yw'n dangos elfennau o atebolrwydd. Y cwestiynau y mae'n rhaid eu gofyn yw: sut yn union y mae'r diwylliant hwn wedi datblygu; pwy yn y pen draw sy'n gyfrifol am y diwylliant hwn; a sut y gallwn ddiwygio'r sefyllfa honno? Rhaid inni beidio sefyll yma'n cwyno bod byrddau iechyd yn dangos diffyg tryloywder. Yn hytrach, rhaid i ni greu elfen o dryloywder a sicrhau eu bod yn atebol.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am pleased to have an opportunity to contribute to this debate. It is an exceptionally important debate, because we are talking about fundamental services—the most fundamental services for people in their communities. What is developing as a theme throughout these discussions, and in all contributions across all parties, is the fact that a culture has developed within the health boards that is not transparent and that does not show elements of accountability. The questions that have to be asked are: how exactly has that culture taken hold; who is ultimately responsible for that culture; and how can we transform that situation? We should not just stand here complaining that health boards are not being transparent; we should create an element of transparency and ensure that they are accountable.

Yr ydym wedi clywed cyfeiriad at y sefyllfa ariannol, ac fe wnaeth Paul gyfeirio at hyn yn y cyfraniad diwethaf. Codwyd y cwestiwn am beth fydd yn digwydd pe bai byrddau iechyd yn gorwario. Mae'r Gweinidog yn dweud y byddai camau yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Weinidog, a gaf i awgrymu nad cymryd camau yn erbyn byrddau iechyd sydd wedi gorwario y dylid gwneud, ond sicrhau nad yw'r byrddau iechyd hynny yn gorwario ac yn wynebu dyledion enfawr ar ddiwedd blwyddyn ariannol? Nid ydym yn sôn am symiau bach, ond am ffigur rhwng £40 miliwn a £50 miliwn drwy Gymru gyfan ac rydym yn sôn am fyrddau iechyd sydd wedi gorwario degau o filiynau o bunnoedd. Nid ffigurau bach ydynt: mae'n amlwg bod y gyllideb allan o reolaeth. Pam mae hynny wedi digwydd? Pam maent wedi cael caniatâd i fynd i'r sefyllfa honno?

We have heard a number of references to the financial position; Paul referred to this in the last contribution. The question has been raised of what will happen if health boards overspend. The Minister has stated that steps will be taken against them. Minister, may I suggest that you should not be taking steps against health boards that have overspent, but that you should ensure that those health boards do not overspend and do not find themselves in a position of facing huge debts at the end of the financial year? We are not talking about small sums; we are talking about a figure of between £40 million and £50 million throughout Wales, and we are talking about health boards that have overspent by tens of millions of pounds. These are not small sums: it is obvious that the budget is out of control. Why has that happened? Why have they been allowed to find themselves in that situation?

4.45 p.m.

Yng nghyd-destun Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, mae'n rhaid mi ddweud, fel y dywedodd Alun Ffred, fod gennyf berthynas go dda gyda swyddogion y bwrdd iechyd. Rwyf yn dwyn materion i'w sylw ac yn eu trafod gyda nhw, ond eto rwyf yn ymwybodol, er bod y swyddogion yn barod i ymateb yn unigol i bwyntiau rwyf yn eu codi, bod yr elfen gyfrinachol hon yng nghyd-destun eu penderfyniadau. Codais ddau fater yr wythnos hon. Roedd y mater cyntaf yn ymwneud â'r ffaith bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, yn sydyn, wedi penderfynu gohebu â phobl fel fi yn uniaith Saesneg. Dywedwyd wrthyf os mai fy nymuniad yw derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, y bydd yn rhaid i mi gysylltu yn ôl â'r brif swyddfa a bod rhaid i mi ofyn yn benodol am ohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn torri polisi iaith sydd wedi ei sefydlu o dan gyfarwyddyd Llywodraethau yn y fan hon ers dechrau'r Cynulliad yn 1999. Pwy sydd wedi caniatáu i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wneud penderfyniad o'r fath. Rwy'n siŵr nad oedd ymgynghori â'r Gweinidog, oherwydd dywedodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ wrthym yn gynharach na fyddai hynny yn dderbyniol iddi hi a Llywodraeth Cymru.

In the context of the Hywel Dda Local Health Board, I have to say, as Alun Ffred also said, that I have a relatively good relationship with the health board's officials. I bring issues to their attention and discuss them with them, but I am aware that, although they are willing to discuss and respond to individual points that I raise, there is this element of confidentiality in terms of their decisions. I have raised two issues this week. The first related to the fact that, suddenly, the Hywel Dda Local Health Board has decided to correspond with people like me in English only. I was told that, if I wanted Welsh-medium correspondence, I had to contact the head office and request specifically that it should correspond with me through the medium of Welsh. That breaks the Welsh language policy established under the direction of Governments here since the inception of the Assembly in 1999. Who has allowed the Hywel Dda Local Health Board to make such a decision? I am sure that there was no consultation with the Minister, because the Minister for Finance and Leader of the House told us clearly earlier on this afternoon that that would not be acceptable to her and the Government.

Yn ail bwynt yr hoffwn ei godi yw'r ffaith

The second point that I want to raise is that the

bod y bwrdd iechyd, yn sydyn, wedi penderfynu wedi'r Nadolig—rydym yn deall nad oes triniaethau dewisol yn digwydd dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd, oherwydd bod llai o staff ar gael a gofynion ychwanegol ar staff—ei fod yn mynd i ymestyn y cyfnod hwn o beidio â chynnal triniaethau dewisol. Roedd yn ddigon agored i ddweud mai problemau cyllidol a oedd yn gyfrifol am hyn. Pwy adawodd i'r bwrdd iechyd wneud hyn? Os yw'r bwrdd iechyd yn newid y polisi o ran cynnig triniaethau i bobl, onid yw'n atebol i rywun? Onid oes yn rhaid iddo gael caniatâd rhywun?

health board suddenly decided, after Christmas—we understand that there are no elective treatments over Christmas and the new year, because there are fewer staff available and because of additional requirements on staff—that it was extending the period during which it would not carry out elective treatments. It was open enough to say that funding problems were responsible for that. Who allowed the health board to make that decision? If the health board changes the policy on treating people, is it not accountable to somebody? Does it not need somebody's permission?

Rwyf yn credu bod yn rhaid inni gael gwybod sut mae byrddau iechyd wedi cael y caniatâd i ddatblygu i'r sefyllfa gyfredol, a chreu'r diwylliant hwn sydd yn andwyol o ran ymddiriedaeth pobl yn y byrddau iechyd ac sydd hefyd yn creu ofn a dychryn na fydd y gwasanaethau iechyd sylfaenol ar gael i bobl ac na fyddant yn cael mynediad i'r gwasanaethau hyn. Byddwn yn falch iawn, Weinidog, pe baech yn gallu ein goleuo ynglŷn â'r broses honno a sut mae wedi digwydd.

I think that we need to know how the health boards have been given the permission to develop to such a situation, to create this culture that is detrimental in terms of people's trust in the health boards, and which creates a situation of fear, where people believe that basic health services will not be available to them, and that they will not be able to access those services. I would be very pleased, Minister, if you could enlighten us on that process and on how it has been allowed to happen.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I welcome this debate today. I do not recognise the world according to some Members, but it is good to reiterate that this Welsh Government, and more specifically, me, as Minister for Health and Social Services, are, ultimately, accountable for the running of the health service in Wales. However, as Kirsty Williams acknowledged, this accountability does not extend to micromanaging the NHS. It is also different from the statutory responsibility of local health boards.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Rwyf yn croesawu'r ddadl hon heddiw. Nid wyf yn adnabod darlun rhai Aelodau o'r byd, ond mae'n dda gennyf ailadrodd mai, yn y pen draw, Llywodraeth Cymru, ac yn fwy penodol, fi, fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n atebol am redeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y cydnabu Kirsty Williams, nid yw'r atebolrwydd hwn yn golygu microreoli'r GIG. Mae hefyd yn wahanol i gyfrifoldeb statudol byrddau iechyd lleol.

The NHS holds a special place in the hearts of everyone in Wales. Discussing its successes, failures and the future of it, often produces, as we have seen this afternoon, an impassioned debate, especially when they concern where hospitals are located and what services are going to be provided. A special responsibility rests, therefore, on the shoulders of all of us here, not just me as Minister. At this defining moment for the NHS in Wales, we need politicians to encourage non-partisan and rational debate over what needs to be done locally to

Mae gan y GIG le arbennig yng nghalonnau pawb yng Nghymru. Yn aml, mae trafod ei lwyddiannau, ei fethiannau a'i ddyfodol yn arwain at ddadlau angerddol, fel rydym wedi gweld y prynhawn yma, yn enwedig pan fyddwn yn trafod lle y caiff ysbytai eu lleoli a pha wasanaethau fydd yn cael eu darparu. Mae gan bob un ohonom yma, felly, gyfrifoldeb arbennig, ac nid fi fel Gweinidog yn unig. Ar yr adeg dyngedfennol hon i'r GIG yng Nghymru, mae angen i wleidyddion annog trafodaeth amhleidiol a rhesymegol ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud yn lleol i

modernise the NHS and put it on the pathway to a higher quality and sustainable future. Our Welsh vision for the NHS is different from that being pursued by the UK Government in England. Our aim is to stay true to the principles of Aneurin Bevan—an NHS that is free at the point of need and is there to support and treat when required.

foderneiddio'r GIG ac i'w roi ar y llwybr tuag at ddyfodol gwell a chynaliadwy. Mae ein gweledigaeth ar gyfer y GIG yng Nghymru yn wahanol i'r weledigaeth y mae Llywodraeth y DU yn ei rhoi ar waith yn Lloegr. Ein nod yw dal yn driw i egwyddorion Aneurin Bevan—GIG sydd am ddim pan fydd ei angen ac sydd yno i roi cymorth a thriniaeth pan fo angen.

While England is continuing to struggle with a costly reform programme, in Wales, the NHS has been radically reformed to create a simple, streamlined structure, in which the number of organisations was reduced from 32 to 10.

Tra bo Lloegr yn parhau i gael trafferth gyda rhaglen ddiwygio gostus, yng Nghymru, mae'r GIG wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol i greu strwythur symlach, lle y cafodd nifer y sefydliadau ei leihau o 32 i 10.

**Janet Finch-Saunders:** The auditor general has confirmed that the NHS in Wales is facing bigger cuts than the NHS in any other part of the United Kingdom. He estimates a funding gap of some £570 million. Do you feel that you ought to be looking to reverse the decision you made not to safeguard the health service by making the cuts you have made?

**Janet Finch-Saunders:** Mae'r archwilydd cyffredinol wedi cadarnhau bod y GIG yng Nghymru yn wynebu mwy o doriadau na'r GIG mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae'n amcangyfrif bod bwlch ariannu o tua £570 miliwn. A ydych yn teimlo y dylech ystyried gwyrdroi eich penderfyniad i beidio â diogelu'r gwasanaeth iechyd drwy wneud y toriadau a wnaethoch?

**Lesley Griffiths:** I reiterate that we did not cut the Welsh budget. I would like to see the Tory Government in London ensure that our budget is not cut by a further £860 million, which is what it has done for next year.

**Lesley Griffiths:** Dywedaf eto na wnaethom dorri cyllideb Cymru. Hoffwn weld y Llywodraeth Dorïaidd yn Llundain yn sicrhau na fydd £860 miliwn ychwanegol yn cael ei dorri oddi ar ein cyllideb, sef yr hyn y mae wedi'i wneud ar gyfer y flwyddyn nesaf.

As I was saying, the number of organisations was reduced from 32 to 10 and all the costs and complexities of a market system were cut out. Like Rhodri Glyn Thomas, I was a bit unsure as to whether Kirsty Williams was calling for further structural change in the NHS. Personally, I think that is the last thing that it needs.

Fel roeddwn yn ei ddweud, cafodd nifer y sefydliadau ei leihau o 32 i 10 a chafodd holl gostau a chymhlethdodau'r system farchnad eu dileu. Fel Rhodri Glyn Thomas, roeddwn ychydig yn ansicr ynghylch a oedd Kirsty Williams yn galw am ragor o newid strwythurol yn y GIG. Yn bersonol, credaf mai dyna'r peth olaf sydd ei angen.

**Kirsty Williams:** I do not think we need further structural change. We have the system that we have. I have problems with it, but we need to make it work better for our constituents. You have to acknowledge that there is a huge amount of anxiety with regard to how people view their relationship with local health boards. It does not have to be like that. If they take the time and trouble to do it properly, LHBs can persuade local people of the case for change, and I would cite Builth Wells as an example. However, they must be

**Kirsty Williams:** Nid wyf yn credu bod angen rhagor o newid strwythurol. Mae'r system fel y mae. Gwelaf broblemau ynddi, ond mae angen inni wneud iddi weithio'n well ar gyfer ein hetholwyr. Rhaid ichi gydnabod bod llawer iawn o bryder am sut y mae pobl yn gweld eu perthynas â'r byrddau iechyd lleol. Nid oes rhaid i bethau fod felly. Os yw byrddau iechyd lleol yn neilltuo'r amser ac yn ymdrechu i wneud pethau'n iawn, gallant ddarbwyllo pobl leol ynghylch yr achos dros newid, a byddwn yn nodi Llanfair ym Muallt

open, honest and transparent and do the legwork with constituents. There are changes going on in Wales at the moment that are simply not being handled in that way.

fel enghraifft o hynny. Fodd bynnag, rhaid iddynt fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw a rhaid iddynt wneud y gwaith caib a rhaw gyda'r etholwyr. Ar hyn o bryd, mae newidiadau yn digwydd yng Nghymru nad ydynt yn cael eu trin yn y modd hwnnw.

**Lesley Griffiths:** I agree that there needs to be much more consultation with communities, and I will come on to that later.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn cytuno bod angen llawer mwy o ymgynghori â chymunedau, a byddaf yn sôn am hynny yn nes ymlaen.

It will come as no surprise that we reject the opposition's suggestion that there is a lack of transparency and accountability with regard to how health boards operate, particularly in their financial management. Therefore, I will oppose amendment 1 in the name of Peter Black and have moved an amendment on behalf of the Government to delete point 2 of the motion. I will also be opposing amendment 3 in the name of William Graham.

Ni fydd yn syndod ichi ein bod yn gwrthod awgrym yr wrthblaid bod diffyg tryloywder ac atebolrwydd o ran sut y mae byrddau iechyd yn gweithredu, yn enwedig o safbwynt rheolaeth ariannol. Felly, byddaf yn gwrthwynebu gwelliant 1 yn enw Peter Black ac rwyf wedi cynnig gwelliant ar ran y Llywodraeth i ddileu pwynt 2 y cynnig. Byddaf hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 3 yn enw William Graham.

The Welsh NHS is built firmly on a foundation of accountability and transparency. The underpinning principles of the NHS structure and governance arrangements that we have are openness, transparency and accountability. Health boards' financial management is underpinned by robust governance and accountability arrangements. Board members exercise strong leadership and control in establishing and upholding their organisations' governance and accountability frameworks in carrying out their function as corporate decision-making bodies. There is also accountability and transparency through the internal and external auditing of accounts.

Mae GIG Cymru wedi'i seilio'n gadarn ar sylfaen o atebolrwydd a thryloywder. Yr egwyddorion sy'n sail i strwythur y GIG a'r trefniadau llywodraethu yw bod yn agored, tryloywder ac atebolrwydd. Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn yn sail i reolaeth ariannol y byrddau iechyd. Mae aelodau byrddau yn arfer arweinyddiaeth a rheolaeth gref wrth sefydlu a chynnal fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd eu sefydliadau wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth fel cyrff corfforaethol sy'n gwneud penderfyniadau. Ceir atebolrwydd a thryloywder hefyd drwy brosesau archwilio cyfrifon yn fewnol ac yn allanol.

The health boards and trusts also have greater accountability to their population by having board meetings in public, at which a full breakdown of expenditure and risks and plans on how to address those risks are available. Furthermore, the board papers are easily accessible—

Mae'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd hefyd yn fwy atebol i'r boblogaeth gan eu bod yn cynnal eu cyfarfodydd bwrdd yn gyhoeddus. Yn y cyfarfodydd hyn, mae dadansoddiad llawn o wariant a risgiau ar gael, ynghyd â chynlluniau ar sut i fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Ar ben hynny, mae'n hawdd cael gafael ar bapurau'r bwrdd—

**Darren Millar:** Will you take an intervention?

**Darren Millar:** A wnewch gymryd ymyriad?

**Lesley Griffiths:** No, I do not have time, sorry.

**Lesley Griffiths:** Na, mae'n ddrwg gennyf, nid oes gennyf amser.

The papers are easily accessible on LHB websites or by telephoning or writing to request a copy. Health boards are not shy about being transparent about the financial and other risks and challenges that they are facing and managing.

Mae'n hawdd cael gafael ar y papurau ar wefannau'r byrddau iechyd lleol neu drwy ffonio neu ysgrifennu i ofyn am gopi. Nid yw byrddau iechyd yn swil o ran bod yn dryloyw ynghylch y risgiau a'r heriau ariannol a'r risgiau a'r heriau eraill y maent yn eu hwynebu ac yn eu rheoli.

In October 2009, a new governance and accountability framework to underpin the NHS reforms was clearly set out, supported by a clear vision and set of values for the NHS in Wales. I have recently approved initial allocations to health boards for the next financial year of £5.2 billion. That is more than double the funding for the NHS when the National Assembly came into existence in 1999. This Government has taken decisive action to provide a stronger and stable financial foundation for health boards in the current and future financial years. We have provided additional funding of just under £150 million in the current financial year to help the NHS with current pressures in order to enable LHBs to make the changes necessary for them to be clinically and financially sustainable in future. We have also provided an additional £288 million over the next three years.

Ym mis Hydref 2009, cafodd fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd newydd ei amlinellu'n glir i fod yn sail i ddiwygiadau'r GIG, ac fe'i cefnogwyd gan weledigaeth glir a chasgliad o werthoedd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Yn ddiweddar, rwyf wedi cymeradwyo dyraniadau cychwynnol o £5.2 biliwn i fyrddau iechyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hynny'n fwy na dwbl y cyllid ar gyfer y GIG pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999. Mae'r Llywodraeth hon wedi cymryd camau pendant i ddarparu sylfaen ariannol gryfach a sefydlog ar gyfer byrddau iechyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Rydym wedi darparu ychydig yn llai na £150 miliwn o gyllid ychwanegol yn y flwyddyn ariannol gyfredol i helpu'r GIG gyda phwysau presennol, er mwyn galluogi byrddau iechyd lleol i wneud y newidiadau y mae eu hangen arnynt i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol, yn glinigol ac yn ariannol. Rydym hefyd wedi darparu £288 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

I will yet say again—I have just said it to Janet Finch-Saunders—we are not cutting the health budget. Therefore, we will oppose amendment 4. The NHS has to learn to live within its budget. Rhodri Glyn Thomas mentioned that before, and, as the Government, we have given it the best settlement that we are able to in the circumstances. Each day, and we have just heard it again this afternoon from Darren Millar, we hear the myth the Tories peddle that—

Dywedaf unwaith eto—rwyf newydd ddweud hyn wrth Janet Finch-Saunders—nad ydym yn torri'r gyllideb iechyd. Felly, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 4. Rhaid i'r GIG ddysgu byw o fewn ei gyllideb. Cafodd hynny ei grybwyll gan Rhodri Glyn Thomas, ac, fel Llywodraeth, rydym wedi rhoi'r setliad gorau y gallwn iddo yn yr amgylchiadau hyn. Bob dydd, ac rydym wedi clywed hyn eto'r prynhawn yma gan Darren Millar, rydym yn clywed y myth y mae'r Torïaid yn ei bedlera, sef—

**Rhodri Glyn Thomas:** Will you give way?

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnewch ildio?

**Lesley Griffiths:** I do not have time. We hear the myth that front-line NHS services in England will somehow remain magically untouched by the UK Government's austerity drive. A recent survey of its members carried out by doctors.net.uk reveals that four out of five GPs and hospital doctors report seeing

**Lesley Griffiths:** Nid oes gennyf amser. Rydym yn clywed y myth na fydd mesurau caledi Llywodraeth y DU yn cael effaith, rywsut, ar wasanaethau rheng flaen y GIG yn Lloegr. Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan doctors.net.uk ymysg ei aelodau, dywedodd pedwar o bob pum meddyg teulu a

cuts. You mentioned waiting times. Over in England, 17,873 more people a month are waiting longer than they were in May 2010. I could go on.

meddyg ysbyty eu bod wedi gweld toriadau'n cael eu gwneud. Soniasoch am amseroedd aros. Yn Lloegr, mae 17,873 yn rhagor o bobl bob mis yn aros yn hwy nag yr oeddent ym mis Mai 2010. Gallwn fynd ymlaen.

However, of course, I recognise that, despite the additional funding, the NHS will continue to face significant financial challenges in the coming year. A number of irresistible factors serve to drive up costs year on year. As well as the normal inflationary pressures that are being faced, the NHS must also respond to continued increases in demand for its services, arising from changing demography, unhealthy lifestyles and the continuous development of new drugs and technologies.

Fodd bynnag, wrth gwrs, rwyf yn cydnabod y bydd y GIG yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn y flwyddyn sydd i ddod, er gwaethaf y cyllid ychwanegol. Mae nifer o ffactorau anorchfygol yn codi costau o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal â'r pwysau arferol o ran chwyddiant a wynebir, rhaid i'r GIG hefyd ymateb i'r cynnydd parhaus yn y galw am ei wasanaethau, sy'n deillio o ddemograffeg sy'n newid, ffordd o fyw nad yw'n iach a datblygiad parhaus cyffuriau a thechnolegau newydd.

Turning to health boards and consultation, Paul Davies mentioned the pre-consultation by Hywel Dda. It is doing that to ensure that consultation proposals are developed with the communities. I told LHBs that I expect them to work with their partners and those who use their services in taking decisions on how to organise their care.

Gan droi at fyrddau iechyd ac ymgynghori, soniodd Paul Davies am broses cyn ymgynghori bwrdd iechyd Hywel Dda. Mae'n gwneud hynny i sicrhau bod cynigion ymgynghori yn cael eu datblygu gyda'r cymunedau. Rwyf wedi dweud wrth y byrddau iechyd lleol fy mod yn disgwyl iddynt weithio gyda'u partneriaid a'r rheini sy'n defnyddio'u gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau ar sut i drefnu eu gofal.

Rhodri Glyn mentioned finances and I have said—although listening to Paul Davies's question to the Minister for Finance this afternoon, I do not think that the Tories are listening to me—that any action that needs to be taken if LHBs do not come in on budget will be taken. I will have no option but to consider a change in the leadership arrangements in such organisations. However, I expect LHBs to come in on target, and I just do not recognise the numbers that I have heard from the party behind me today. The accountability of health boards to me, as Minister for Health and Social Services, is very clear and clearly in place.

Soniodd Rhodri Glyn am gyllid ac rwyf wedi dweud—er, ar ôl gwrando ar gwestiwn Paul Davies i'r Gweinidog Cyllid y prynhawn yma, credaf nad yw'r Torïaid yn gwrando arnaf—y byddwn yn cymryd unrhyw gamau sydd angen eu cymryd os na fydd byrddau iechyd lleol yn mantoli'r gyllideb. Ni fydd gennyf ddewis ar wahân i ystyried newid y trefniadau o ran arweinyddiaeth yn y sefydliadau hynny. Fodd bynnag, rwyf yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol fantoli'r gyllideb ac nid wyf yn adnabod y ffigurau rwyf wedi'u clywed gan y blaid y tu ôl imi heddiw. Mae atebolrwydd y byrddau iechyd i mi, fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn glir ac yn gadarn.

**Elin Jones:** Esboniaf farn Plaid Cymru ar y gwelliannau gan fy mod wedi anghofio gwneud hynny yn fy nghyfraniad cychwynnol. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 3. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2, gan y Llywodraeth. Mae'n drueni bod y Llywodraeth, drwy gyflwyno'r gwelliant, yn gwrthod derbyn nad yw'r

**Elin Jones:** I will explain Plaid Cymru's position on the amendments, as I forgot to do so in my opening remarks. We will support amendments 1 and 3. We will oppose the Government's amendment 2. It is a pity that the Government, in tabling this amendment, refuses to accept that the health boards are not currently operating in a transparent and

byrddau iechyd yn gweithredu mewn ffordd dryloyw ac atebol ar hyn o bryd. Tynnaf sylw pawb at gyfraniad Joyce Watson, a oedd yn ymwneud, bron yn gyfan gwbl, â diffyg tryloywder ac atebolrwydd y bwrdd iechyd lleol, er y bydd yn nes ymlaen y prynhawn yma yn pleidleisio mewn ffordd sy'n groes i hynny. Mae'n glir o'r sylwadau ar draws y pleidiau y prynhawn yma bod yn rhaid i'r byrddau iechyd fod yn fwy agored ac atebol yn lleol.

accountable way. I draw attention to Joyce Watson's contribution, which was nearly all about the lack of transparency and accountability of the local health board, even though she will be voting in the opposite way later on this afternoon. It is clear from the comments made by all parties this afternoon that the health boards need to be more open and accountable locally.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 4 gan y Torïaid. Mae pwysau ariannol difrifol ar gyllidebau iechyd—dywedais hynny yn fy nghyflwyniad ac rydym yn derbyn hynny—ond byddai cynnydd real o'r raddfa y mae'r Torïaid yn ei gynnig yn golygu toriadau difrifol iawn, fel y trafodwyd yn gynharach heddiw, yng nghyllidebau eraill y Llywodraeth megis ysgolion, yr economi a thrafnidiaeth.

We will also vote against the Tories' amendment 4. Health budgets are facing serious financial pressures—I said that in my introduction and we accept that—but real-terms increases of the scale proposed by the Tories would mean very serious cuts, as has already been mentioned today, in the Government's other budgets, such as those for schools, the economy and transport.

Roedd Kirsty Williams yn berffaith iawn o ran un peth a ddywedodd yn ei chyfraniad, sef bod llawer gormod o enghreifftiau yn y Cynulliad o naill ai'r Gweinidog neu'r Prif Weinidog yn osgoi cwestiynau ar yr NHS ac yn dweud mai materion i'r byrddau iechyd lleol ydynt. Mae'r byrddau iechyd yn dod o flaen ambell bwyllgor yn y Cynulliad, megis y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu'r Pwyllgor Cyllid, a chânt eu cynrychioli gan Gonffederasiwn GIG Cymru. Bob tro mae cwestiwn manwl ar wasanaethau neu sefyllfa ariannol bwrdd unigol, mae Conffederasiwn GIG Cymru hefyd yn defnyddio'r dacteg honno, gan ddweud nad yw'r ateb ganddo ond gan y bwrdd iechyd lleol. Ar ryw bwynt, mae'n rhaid i ni fel Cynulliad—nid mater i'r Llywodraeth yw—feddwl am sut rydym yn gwneud byrddau iechyd yn fwy atebol i ni, yn ychwanegol at atebolrwydd y Gweinidog.

Kirsty Williams was right in one thing that she said in her contribution, namely that there are far too many examples in the Assembly of the Minister or the First Minister avoiding questions on the NHS and saying that they are matters for local health boards. The health boards appear before some Assembly committees, such as the Health and Social Care Committee and the Finance Committee, and they are represented by the Welsh NHS Confederation. Every time there is a detailed question on the services of finances of an individual board, the Welsh NHS Confederation uses the same tactic, saying that it does not have the answer—it says that the local health board has the answer. At some point, we as an Assembly—it is not a matter for the Government—will have to think about how we make the health boards more accountable to us, in addition to the Minister's accountability.

Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi cadarnhau mai hi sy'n gyfrifol am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Fel yr awgrymais yn fy nghyfraniad agoriadol, dyna lle mae'r atebolrwydd a'r penderfyniadau terfynol yn gorwedd. Gobeithiaf yn fawr na fydd unrhyw Aelod Cynulliad Llafur nac Aelod o unrhyw blaid arall yn ceisio gwadu hynny bellach, ac y byddant yn dweud yn glir ar lawr gwlad mai nid gyda'r bwrdd iechyd

I am pleased that the Minister confirmed that responsibility for the health service in Wales lies with her. As I suggested in my opening remarks, that is ultimately where accountability and final decision-making powers lie. I sincerely hope that Assembly Members from the Labour Party, or from any other party, no longer try to deny that, and that they make it clear in their communities that decision-making powers do not lie with the

mae'r penderfyniadau yn gorwedd, ond gyda'r Gweinidog Llafur.

health board but with the Labour Minister.

Gan droi at y byrddau iechyd, dywedodd Rhodri Glyn Thomas yn glir bod diwylliant wedi datblygu yn rhai o'r byrddau lle mae diffyg tryloywder ac atebolrwydd, a bod tueddiad i guddio mewn pencadlys. Fel y dywedodd Kirsty Williams, mae rhai rheolwyr ac aelodau bwrdd sy'n gwrthod gwneud y *legwork* i fynd allan i gymunedau i drafod eu bwriadau a'u cynlluniau yn onest â chymunedau er mwyn ennill cefnogaeth y cymunedau hynny i unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Turning to the health boards, Rhodri Glyn Thomas made it clear that a culture has developed in some boards of a lack of transparency and accountability, and that there is a tendency to hide in head offices. As Kirsty Williams said, some managers and board members refuse to do the legwork of going out to communities to discuss their intentions and plans honestly with those communities in order to gain support in those communities for any changes required.

5.00 p.m.

Felly, nid oes dwywaith bod angen gwella perfformiad y byrddau iechyd lleol. Os nad ydynt yn gwella'u perfformiad yn hyn o beth, rhaid edrych ar syniadau radical. Yn wir, cyfeiriodd Simon Thomas at yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban ar hyn o bryd, lle cafwyd etholiadau yn 2010 ar gyfer dau fwrdd lleol, Fife a Dumfreys a Galloway, i ethol aelodau yn uniongyrchol i'r byrddau iechyd er mwyn cael atebolrwydd lleol. Nid wyf yn dweud bod angen gwneud hynny yng Nghymru yn awr—nid ydynt wedi penderfynu eto a fyddant yn gwneud hynny dros yr Alban gyfan—ond mae'r London School of Economics ar hyn o bryd yn gwneud asesiad o lwyddiant y ddau gynllun peilot a gafwyd yn yr Alban. Os nad ydyw'r byrddau iechyd yn ymateb i'r math o sylwadau sydd i'w clywed o amgylch y Siambr y prynhawn yma, bydd rhaid i'r Cynulliad hwn a'r Llywodraeth edrych ar ddulliau mwy radical, o bosibl, o gryfhau eu hatebolrwydd.

Therefore, there is no doubt that the performance of local health boards needs to be improved. If they do not improve their performance in this respect, radical solutions must be considered. Indeed, Simon Thomas referred to what is currently happening in Scotland, where elections were held in 2010 for directly elected representatives to serve on two health boards, in Fife and Dumfreys and Galloway, in order to provide local accountability. I am not saying that we need to do that in Wales now—they are yet to decide whether or not to roll that out over the whole of Scotland—but the London School of Economics is currently assessing the success of the two Scottish pilot schemes. If the health boards do not respond to the kinds of comments heard from around the Chamber this afternoon, this Assembly and the Government will have to look at what could be more radical solutions in order to strengthen their accountability.

Anelwyd sawl cyhuddiad at Blaid Cymru y prynhawn yma: dywedodd rhai ein bod yn camarwain, a cyhuddodd Joyce Watson ni fel plaid o fod yn *mischievous*—yn ddrygionus. Os mai ystyr bod yn ddrygionus yw cynrychioli pryderon pobl leol yn onest, craffu ar y Llywodraeth hon a datgelu pob rhagrith gwleidyddol, yna gallwch ddisgwyl i'r blaid benodol hon barhau i fod yn ddrygionus er lles pobl Cymru.

A number of accusations were directed at Plaid Cymru this afternoon: some said that we were being misleading, and Joyce Watson accused us as a party of being mischievous. If that means honestly representing the concerns of local people, scrutinising the Government and uncovering all political hypocrisy, then you can expect this party to carry on being mischievous for the good of the people of Wales.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A

amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
## Welsh Liberal Democrats Debate

### Band Eang
### Broadband

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 5 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2, 3 and 4 in the name of Jane Hutt, and amendment 6 in the name of William Graham. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 5 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 6 yn enw William Graham. Os yw gwelliant 1 yn cael ei gytuno, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os yw gwelliant 4 yn cael ei gytuno, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol.

*Cynnig NDM4894 Peter Black*

*Motion NDM4894 Peter Black*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn croesawu'r £56.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf a fydd o fudd i holl ardaloedd Cymru;*

*1. Welcomes the £56.9 million funding from the UK Government for next generation broadband which will benefit all areas of Wales;*

*2. Yn croesawu'r cyllid pellach ar gyfer band eang yng Nghaerdydd a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref y Canghellor; a*

*2. Welcomes the further funding for broadband in Cardiff announced in the Chancellor's Autumn Statement; and*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r arian hwn i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r mannau gwan ar gyfer derbyn band eang.*

*3. Calls on the Welsh Government to use this funding to tackle broadband 'not spots' as a matter of priority.*

**Eluned Parrott:** I move the motion.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf y cynnig.

It is a pleasure to move the Welsh Liberal Democrat motion on accessibility of broadband. In particular, I want to talk about the issue of not spots and their impact on individuals and businesses in Wales.

Mae'n bleser cyflwyno cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar hygyrchedd band eang. Yn benodol, rwyf am siarad am fannau gwan a'u heffaith ar unigolion a busnesau yng Nghymru.

The internet is a great enabler. It lets children learn, businesses engage with the world and citizens access a wealth of information and advice. However, as we become more reliant

Mae'r rhyngrwyd yn alluogwr gwych. Mae'n galluogi plant i ddysgu, busnesau i ymgysylltu â'r byd a dinasyddion i gael mynediad at gyfoeth o wybodaeth a chyngor.

on the internet for all of these things, we must recognise that, for those communities that lack access, it can seem that the world has left them behind. More and more services—public, private and third sector—seem to be making an assumption of access, and lead their services on the internet. You need only think of the flights and holidays that can only be booked online and books and newspapers that are increasingly moving towards digital publishing models. This afternoon, I took part in a panel debate for Consumer Focus Wales on fuel poverty and switching energy suppliers, and, even on that issue, the link between being able to access the internet and being able to find independent and good quality advice on energy suppliers was extremely clear. As society continues to embrace the internet, and as the sophistication of what is on offer through the internet increases year on year, it is clear to me that being unable to connect effectively with the internet means being unable to connect with society.

Fodd bynnag, wrth inni ddibynnu mwy ar y rhyngrwyd am yr holl bethau hyn, mae'n rhaid inni gydnabod ei bod yn gallu ymddangos i'r cymunedau hynny bod y byd wedi eu gadael ar eu holau. Mae nifer cynyddol o wasanaethau—yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector—yn ymddangos fel pe baent yn cymryd bod mynediad ar gael, ac yn canolbwyntio ar ddarparu eu gwasanaethau ar y rhyngrwyd. Nid oes ond angen meddwl am y teithiau a'r gwyliau y gellir eu harchebu ar-lein yn unig, a llyfrau a phapurau newydd sy'n symud fwyfwy tuag at fodelau cyhoeddi digidol. Y prynhawn yma, cymerais ran mewn trafodaeth banel ar gyfer Llais Defnyddwyr Cymru ar dlodi tanwydd a newid cyflenwyr ynni, a hyd yn oed ar y mater hwnnw roedd y cysylltiad rhwng mynediad at y rhyngrwyd a'r gallu i ddod o hyd i gyngor annibynnol o ansawdd da ar gyflenwyr yn glir iawn. Wrth i gymdeithas barhau i gofleidio'r rhyngrwyd, ac wrth i soffistigedigrwydd yr hyn sydd ar gael drwy gyfrwng y rhyngrwyd gynyddu'n flynyddol, mae'n amlwg i mi fod methu â chysylltu'n effeithiol â'r rhyngrwyd yn golygu colli cyfle i gysylltu â chymdeithas.

Not spots affect towns and cities across Wales. You will hear about some of the issues facing rural communities from my colleagues this afternoon, but it is worth reiterating the point that this is also an urban issue. My region, South Wales Central, is probably the most industrialised region in Wales, but I still have a significant amount of case work related to broadband not spots. Residents of Penylan in particular, who are not three miles from the centre of Cardiff, have suffered some of the worst internet speeds in Wales for many years and have been campaigning for many years, too. Looking at the impact on that community, it has stymied investment, thwarted their businesses and frustrated local people to the point of despair. For that reason, I was delighted to learn earlier this week from BT that the Penylan not spot will be tackled and that residents and businesses will now, after all these years, receive the service that they need and deserve.

Mae mannau gwan yn effeithio ar drefi a dinasoedd ledled Cymru. Byddwch yn clywed am rai o'r materion sy'n wynebu cymunedau gwledig gan fy nghyd-Aelodau y prynhawn yma, ond mae'n werth ailadrodd y pwynt mai problem drefol yw hon hefyd. Fy rhanbarth i, sef Canol De Cymru, yw'r rhanbarth mwyaf diwydiannol yng Nghymru, mae'n debyg, ond rwyf yn parhau i gael cryn dipyn o waith achos sy'n gysylltiedig â mannau gwan o ran band eang. Mae trigolion Pen-y-lan yn arbennig, er nad ydynt ond tair milltir o ganol Caerdydd, wedi dioddef cyflymderau rhyngrwyd sydd ymysg y gwaethaf yng Nghymru ers blynyddoedd maith, ac maent hefyd wedi bod yn ymgyrchu ers blynyddoedd lawer. Gan ystyried yr effaith ar y gymuned honno, mae hynny wedi rhwystro buddsoddiad ac wedi rhwystro'i busnesau, ac mae pobl leol yn teimlo'n rhwystredig ac yn anobeithiol. Am y rheswm hwnnw, roeddwn wrth fy modd o glywed yn gynharach yr wythnos hon gan BT y bydd yn mynd i'r afael â man gwan Pen-y-lan, ac y bydd trigolion a busnesau, ar ôl yr holl flynyddoedd hyn, yn awr yn cael y

gwasanaeth sydd ei angen arnynt a'r gwasanaeth y maent yn ei haeddu.

Our motion today welcomes the funding from the UK Government to tackle the issue of broadband access in Wales. What we now need to agree is the specific and strategic action that can be taken by the Welsh Government to ensure that broadband reaches every community in Wales. We would also welcome the additional money that the UK Government has made available for Cardiff to become a superconnected city. That will complement the financial services enterprise zone that is to be established in the city, but more broadly, it will be a real boost to the knowledge economy, to the universities and to other businesses in our capital.

Mae ein cynnig heddiw yn croesawu'r arian gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â mynediad at fand eang yng Nghymru. Yr hyn y mae angen inni gytuno arno yn awr yw'r camau penodol a strategol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod band eang yn cyrraedd pob cymuned yng Nghymru. Byddem hefyd yn croesawu'r arian ychwanegol y mae Llywodraeth y DU wedi'i neilltuo i Gaerdydd i fod yn ddinas sydd â band eang hynod gyflym. Bydd hynny'n cyd-fynd â'r ardal fenter gwasanaethau ariannol a fydd yn cael ei sefydlu yn y ddinas, ond yn ehangach na hynny, bydd yn hwb mawr i'r economi wybodaeth, i'r prifysgolion ac i fusnesau eraill ein prifddinas.

Turning to the amendments, we will not support amendment 1 from Plaid Cymru. You are the Party of Wales, but why would you not welcome extra money for Wales? I find that difficult to understand, to be perfectly frank. Likewise, the Government's 'me too' amendment 2. It is disappointing that, on an important issue such as broadband, the best amendment that you could think of plays with semantics. We will support amendment 3, simply because it is accurate, although, again, it strikes me that little thought has been given to making a real change to the motion or adding something to the debate there. We will not support amendment 4, on the basis that we believe that tackling not spots is the key to bringing Wales into the twenty-first century. We take this amendment by the Government as its way of saying that it does not believe that not spots are a priority for it. I have a lot of frustrated constituents who will not agree with that and will be disappointed to hear it.

Gan droi at y gwelliannau, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 Plaid Cymru. Chi yw Plaid Cymru, ond pam na fyddech yn croesawu arian ychwanegol i Gymru? Rwyf yn ei chael yn anodd deall hynny, a bod yn berffaith onest. Mae'r un peth yn wir am welliant 2 'ni hefyd' y Llywodraeth. Ar fater pwysig fel band eang, mae'n siomedig bod y gwelliant gorau y gallech feddwl amdano yn ymdrin â semanteg. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3, dim ond oherwydd ei fod yn gywir, er fy mod yn cael yr argraff unwaith eto na wnaed llawer o waith meddwl ynghylch gwneud newid gwirioneddol i'r cynnig neu ychwanegu rhywbeth at y ddadl. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 4, gan ein bod yn credu mai mynd i'r afael â mannau gwan yw'r cam allweddol i ddod â Chymru i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. Rydym yn ystyried y gwelliant hwn gan y Llywodraeth yn fodd iddi ddweud nad yw'n credu bod mannau gwan yn flaenoriaeth iddi. Mae gennyf lawer o etholwyr sy'n teimlo'n rhwystredig; ni fyddent yn cytuno â safbwynt y Llywodraeth, a byddant wedi'i siomi o'i herwydd.

As for amendment 5, we want this money to be used to tackle as many not spots as possible. If it is not this money that does it, it does not really matter. It does not matter whether it is Welsh Government money, private investment or UK Government investment, as long as the money is there, the investment is made and people receive the

O ran gwelliant 5, rydym am i'r arian hwn gael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chymaint o fannau gwan â phosibl. Os nad yr arian hwn sy'n gwneud hynny, nid yw hynny o bwys. Nid oes gwahaniaeth ai arian Llywodraeth Cymru, buddsoddiad preifat neu fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU sy'n cael ei wario, cyn belled ag y bo'r arian yno, y buddsoddiad yn

service that they require. What we need to see is real leadership from the Welsh Government to take these issues forward. This money from the UK Government offers the perfect opportunity to do that, and we need to recognise it. Finally, we will support amendment 6. It would be useful if the Government could update us on that issue as soon as possible.

cael ei wneud a phobl yn cael y gwasanaeth y mae arnynt ei angen. Mae angen inni weld arweinyddiaeth go iawn gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r materion hyn. Mae'r arian hwn gan Lywodraeth y DU yn cynnig cyfle perffaith i wneud hynny, ac mae angen inni gydnabod hynny. Yn olaf, byddwn yn cefnogi gwelliant 6. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Llywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y mater hwn cyn gynted â phosibl.

When broadband was first rolled out, there was a vision that it would change the way that we work and live and that it would enable businesses to trade from any location, absolutely anywhere in Wales—the top of a mountain or the middle of a city—because internet access would be universal. There was a vision that it would be a driver for flexible working, that it would allow staff to work from home and that it would allow people to achieve a better work-life balance. There was also the idea that it would help our children to access the best information in support of education, open the world to them, open their horizons and open their eyes. I want to keep that vision and to keep pushing it forward, allowing all of Wales to make the most of these new technologies as they develop. I look to the Welsh Government now to deliver that vision for Wales.

Pan gafodd band eang ei gyflwyno am y tro cyntaf, roedd gweledigaeth y byddai'n newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn byw ac y byddai'n galluogi busnesau i fasnachu o unrhyw leoliad, lle bynnag y bônt yng Nghymru—ar ben mynydd neu yng nghanol dinas—gan y byddai mynediad at y rhyngrwyd ar gael yn gyffredinol. Roedd gweledigaeth y byddai'n ysgogi gweithio'n hyblyg, yn caniatáu i staff weithio o'u cartrefi ac yn caniatáu i bobl gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Roedd hefyd teimlad y byddai'n helpu ein plant i gael mynediad at y wybodaeth orau i gefnogi eu haddysg, gan roi'r byd ar flaenau eu bysedd, ehangu eu gorwelion ac agor eu llygaid. Hoffwn gadw'r weledigaeth honno a pharhau i'w gwthio ymlaen, gan ganiatáu i Gymru gyfan fanteisio i'r eithaf ar y technolegau newydd wrth iddynt ddatblygu. Disgwyliaf yn awr i Lywodraeth Cymru gyflawni'r weledigaeth hon i Gymru.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Dileu pwyntiau 1 a 2 a rhoi pwynt 1 newydd yn eu lle:*

*Delete points 1 and 2 and replace with new point 1:*

*Yn nodi'r dyraniadau diweddar o gyllid cyhoeddus ar gyfer darparu band eang.*

*Notes recent allocations of public funding for the provision of broadband.*

*Gwelliant 5 Jocelyn Davies*

*Amendment 5 Jocelyn Davies*

*Ym mhwynt 3, dileu 'i ddefnyddio'r arian hwn'.*

*In point 3, delete 'to use this funding'.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliannau 1 a 5 yn enw Jocelyn Davies.

**Alun Ffred Jones:** I move amendments 1 and 5 in the name of Jocelyn Davies.

Yn anffodus, mae tôn y cynnig—er ein bod yn cytuno â phwysigrwydd yr angen i gael band eang cyflawn ac effeithiol—yn swnio fel pe bai disgwyl i ni yng Nghymru fynd ar

Unfortunately, the tone of the motion—although we agree on the importance of full and effective broadband services—seems to suggest that we in Wales should fall to our

ein gliniau a diolch i Lywodraeth Llundain am y briwsion sydd wedi syrthio oddi ar y bwrdd o San Steffan. Dyna pam mae ein gwelliant 1 yn awgrymu ein bod yn nodi'r dyraniadau diweddar. Yr unig beth mae Cymru yn ei dderbyn yn y sefyllfa hon yw ei chyfran o'r arian sy'n cael ei neilltuo yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn ôl fformiwla ddiffygiol Barnett—dim mwy, dim llai. Rydym yn hynod o falch o'i dderbyn, a bydd yn ddefnyddiol iawn i'r Llywodraeth wrth fynd i'r afael â diffyg sydd, fel mae Eluned Parrott wedi nodi, yn effeithio ar unigolion, ar deuluoedd ac ar gymunedau ledled Cymru. Mae angen canolbwyntio'n hymdrechion ar fynd i'r afael â'r diffygion hyn, cynyddu defnydd yn arbennig a chryfhau rhwydweithiau.

knees and thank the Government in London for the crumbs that have fallen off the Westminster table. That is why our amendment 1 suggests that we note recent allocations. In this regard, Wales is only receiving its share of the funding that is allocated in the rest of the United Kingdom according to the deficient Barnett formula—no more, no less. We are very pleased to receive it, and it will be very useful to the Government as it gets to grips with the deficiencies that, as Eluned Parrott has noted, have had an impact on individuals, families and communities all over Wales. We need to concentrate our efforts on getting to grips with these deficiencies, increasing usage in particular and strengthening networks.

Mae sefyllfa Cymru yn bryderus. Mae cyhoeddiad gan Ofcom y llynedd yn dangos bod ardaloedd yng Nghymru lle mae'r gwasanaeth band eang yn llusgo ymhell y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig, gyda map yn dangos bod 12 o ardaloedd cynghorau sir Cymru, y rhan fwyaf yn y Gymru wledig ond hefyd yn y Cymoedd, yn cael y sgôr isaf am ddarpariaeth band eang. Mae'r rhain yn cynnwys Tor-faen a Rhondda Cynon Taf, fel y byddech yn ei ddisgwyl, yn ogystal â chynghorau sir y gorllewin.

Wales's situation is a cause for concern. An Ofcom publication issued last year shows that there are areas in Wales where broadband services are falling way behind the rest of the UK, with a map demonstrating that there were 12 local authority areas in Wales, mostly in rural Wales but also in the Valleys, with the lowest score for broadband provision. These include Torfaen and Rhondda Cynon Taf, as you would expect, but also local authority areas in west Wales.

Felly, mae'n her enfawr, ond mae'n gyfle cyffrous. Mae'n werth nodi eto, fel y dywedodd Eluned Parrott, fod ardaloedd ym mhob man yn dioddef y mannau gwan hyn. Yn Arfon—ardal gymharol boblog yng nghyd-destun Cymru—mae pentrefi sylweddol ac ardaloedd ar ffiniau Bangor, hyd yn oed, lle mae'r gwasanaeth yn oriog ac yn araf, ac weithiau'n diflannu'n gyfan gwbl. Mae hyn yn effeithio nid yn unig ar barodrwydd busnesau i symud i'r ardal, ond hefyd ar deuluoedd ac unigolion o ran eu haddysg.

Therefore, the challenge is immense, but the opportunity is an exciting one. It is worth noting again, as Eluned Parrott said, that there are areas in all parts of Wales that suffer from these not spots. In Arfon—a relatively highly populated area, in a Welsh context—there are substantial villages and areas even on the outskirts of Bangor where the service is erratic and slow, and sometimes disappears completely. This has an impact not only on the willingness of businesses to move to the area, but also on families and individuals in the context of their education.

Obviously, Plaid Cymru would like to see major developments as soon as possible. We also believe that we need to pioneer major improvements in mobile phone, 3G, 4G and Wi-Fi coverage by using publicly owned land and assets. We would ensure that Wales becomes the first next-generation broadband nation in the UK, with high-speed links to all businesses by 2015 and to all homes by 2020.

Yn amlwg, hoffai Plaid Cymru weld datblygiadau mawr cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn credu bod angen inni fod ar flaen y gad wrth ddatblygu gwelliannau mawr yng ngwasanaethau ffôn symudol, 3G, 4G a Wi-Fi drwy ddefnyddio tir ac asedau cyhoeddus. Byddem yn sicrhau mai Cymru yw gwlad gyntaf y DU sydd â band eang y genhedlaeth nesaf, gyda chysylltiadau cyflym

We would also pioneer Wi-Fi Wales—a plan to enable free wireless connectivity in publicly owned buildings in Wales.

ar gael i bob busnes erbyn 2015 ac i bob cartref erbyn 2020. Byddem hefyd yn arloesi o ran cynllun Wi-Fi Cymru—cynllun i alluogi cysylltedd diwifr rhad ac am ddim mewn adeiladau sy'n eiddo cyhoeddus yng Nghymru.

**Simon Thomas:** On the point of the possibilities of 4G coverage, Alun Ffred may be aware that Ofcom is consulting at the moment on several different coverage models for the whole of the United Kingdom. One of those models, with the assistance of the Welsh Government, and also the UK Government, could deliver over 98% coverage, even in Wales's rural areas. Will he join me in urging the Government to examine that option with Ofcom, thereby urging Ofcom to choose that as the best way forward, not just for Wales, but for the whole of the United Kingdom?

**Simon Thomas:** O ran y posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth 4G, efallai y bydd Alun Ffred yn gwybod bod Ofcom yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch nifer o fodelau gwahanol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth i'r Deyrnas Unedig i gyd. Gallai un o'r modelau hynny, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU hefyd, ddarparu gwasanaeth i dros 98% o'r wlad, hyd yn oed yn ardaloedd gwledig Cymru. A fydd yn ymuno â mi wrth annog y Llywodraeth i ymchwilio i'r opsiwn hwnnw gydag Ofcom, a thrwy hynny annog Ofcom i ddewis yr opsiwn hwnnw fel y ffordd orau i symud ymlaen, nid yn unig i Gymru, ond i'r Deyrnas Unedig i gyd?

**Alun Ffred Jones:** I am sure that the Minister will be able to respond to that request when she makes her contribution. It is vital that we in Wales are seen to be at the forefront of these new developments, for reasons that are clear to everybody.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn gallu ymateb i'r cais hwnnw pan fydd hi'n gwneud ei chyfraniad. Mae'n hanfodol ein bod ni yng Nghymru yn cael ein gweld i fod ar flaen y gad o ran y datblygiadau newydd hyn, am resymau sy'n glir i bawb.

Ieuan Wyn Jones recognised the importance of broadband infrastructure when he was a Minister, making it an integral element of the economic renewal programme and securing funding for the development of next-generation broadband throughout Wales. Also, Nerys Evans fought very hard for communities that were trapped in not spots, winning a campaigner of the year award for that work.

Pan oedd yn Weinidog, cydnabu Ieuan Wyn Jones bwysigrwydd seilwaith band eang, gan ei wneud yn rhan annatod o raglen adnewyddu'r economi a chan sicrhau cyllid i ddatblygu band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru. Hefyd, bu Nerys Evans yn brwydro'n galed iawn ar ran cymunedau a oedd yn parhau i fod mewn mannau gwan, gan ennill gwobr ymgyrchydd y flwyddyn am y gwaith hwnnw.

What we need is a timely announcement on the Government's plans to inform the people of Wales of what will be done and when it will happen.

Mae angen cyhoeddiad amserol ynghylch cynlluniau'r Llywodraeth i roi gwybod i bobl Cymru am yr hyn a fydd yn cael ei wneud a phryd y bydd yn digwydd.

*Gwelliant 2 Jane Hutt*

*Amendment 2 Jane Hutt*

*Ym mhwynt 1, dileu 'band eang y genhedlaeth nesaf' a rhoi yn ei le 'prosiect band eang y genhedlaeth nesaf Llywodraeth Cymru'.*

*In point 1, delete 'next generation broadband' and replace with 'the Welsh Government's next generation broadband project'.*

*Gwelliant 3 Jane Hutt*

*Ym mhwynt 2, ar ôl 'Canghellor' mewnosod 'er mwyn creu hyd at ddeg o "ddinasoedd uwch-gysylltiedig" ar draws y DU'.*

*Gwelliant 4 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 3.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move amendments 2, 3 and 4 in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 6 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad am ei thrafodaethau gyda BT Openworld ar gyfer cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru.*

**Nick Ramsay:** I move amendment 6 in the name of William Graham.

I concur with many of the comments that Eluned Parrott made in her opening remarks about the importance of broadband in today's Wales and the need for us to do all we can to improve things. I also agree with the sentiments expressed by Alun Ffred Jones in his closing remarks on the need to deal with not spots. I thought that the Plaid amendment was a bit churlish, in that, rather than welcoming the money coming from Westminster—

**Alun Ffred Jones:** It is just the Barnett consequential.

**Nick Ramsay:** Even so, I think that not being able to welcome the fact that money will be available in that way is just pedantic, but there we are.

As has already been stated, the Westminster Government has provided over £66 million for next-generation broadband for Wales, and there is now the intention for Cardiff to become one of the UK's 10 superconnected cities. From what I have heard so far, this debate falls into two parts: the need to

*Amendment 3 Jane Hutt*

*In point 2, after 'statement' insert 'to create up to ten "super-connected cities" across the UK'.*

*Amendment 4 Jane Hutt*

*Delete point 3.*

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4 yn enw Jane Hutt.

*Amendment 6 William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to make a statement on its negotiations with BT Openworld for a Wales-wide roll-out of next generation broadband.*

**Nick Ramsay:** Cynigiaf welliant 6 yn enw William Graham.

Rwyf yn cytuno â nifer o'r sylwadau a wnaed gan Eluned Parrott yn ei sylwadau agoriadol am bwysigrwydd band eang yng Nghymru heddiw a'r angen inni wneud popeth y gallwn ei wneud i wella'r sefyllfa. Rwyf hefyd yn cytuno â'r teimladau a fynegwyd gan Alun Ffred Jones yn ei sylwadau terfynol ar yr angen i ymdrin â mannau gwan. Roeddwn yn meddwl bod gwelliant Plaid Cymru ychydig yn daeogaidd, oherwydd yn hytrach na chroesawu'r arian sy'n dod o San Steffan—

**Alun Ffred Jones:** Dim ond y swm canlyniadol o fformiwla Barnett yw hynny.

**Nick Ramsay:** Serch hynny, rwyf yn credu bod methu â chroesawu'r ffaith y bydd arian ar gael yn y modd hwnnw yn beth pedantig i'w wneud, ond dyna ni.

Fel y nodwyd eisoes, mae Llywodraeth San Steffan wedi darparu dros £66 miliwn i Gymru ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf, ac erbyn hyn y bwriad yw y bydd Caerdydd yn un o 10 dinas yn y DU sydd â band eang hynod gyflym. O'r hyn yr wyf wedi ei glywed hyd yn hyn, gellir rhannu'r

improve broadband in urban areas and in rural areas. In the rural areas, there is a need to deal with not spots and to get a basic level of service, whereas in Cardiff and cities like it, there are opportunities for universities to really progress things and put Wales on the map in developing a proper broadband network.

ddadl hon yn ddwy ran: yr angen i wella band eang mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd gwledig. Yn yr ardaloedd gwledig, mae angen ymdrin â mannau gwan a chael lefel sylfaenol o wasanaeth, ond yng Nghaerdydd a dinasoedd tebyg, mae cyfleoedd i brifysgolion fod ar flaen y gad a rhoi Cymru ar y map o ran datblygu rhwydwaith band eang addas.

Many people rely on the internet—in fact, the vast majority of people rely on it to run everyday aspects of their lives and their businesses. They use it to complement their marketing, their advertising and sales campaigns. It is vital that we get this roll out right and ensure that the investment that has been made available is put to best use. I would imagine that there probably is not an Assembly Member here who has not had a query from a constituent about broadband at some point since their election. I have certainly had many, and I am getting more as time goes by. It is interesting to see how issues in our postbags change over time, and broadband is one of them.

Mae llawer o bobl yn dibynnu ar y rhyngrwyd—mewn gwirionedd, mae'r mwyafrif llethol o bobl yn dibynnu arni i reoli agweddau ar eu bywydau a'u busnesau. Maent yn ei defnyddio i ategu eu marchnata, eu hysbysebu a'u hymgyrchoedd gwerthu. Mae'n hanfodol ein bod yn cyflwyno band eang yn gywir ac yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r buddsoddiad a neilltuwyd. Byddwn yn dychmygu nad oes yr un Aelod Cynulliad yma nad yw wedi cael ymholiad gan etholwr am fand eang ar ryw adeg ers cael ei ethol. Rwy'n sicr wedi cael llawer, ac rwy'n cael mwy wrth i amser fynd heibio. Mae'n ddiddorol gweld sut y mae'r materion sy'n dod i law yn newid dros amser, ac mae band eang yn un ohonynt.

5.15 p.m.

The amendment that we are putting forward calls on the Minister to make a statement on how the Government's negotiations with BT Openworld are progressing in relation to the Wales-wide roll-out of next-generation broadband. The written statement that the Minister made last autumn pledged to make an announcement on the awarding of a contract for the project by March, which is less than two months away. So, we have tabled our amendment in order to get some clarity on that. I agreed with Eluned Parrott's comments on the Government amendment; she said that it was semantic. I could see the Minister for the Environment and Sustainable Development looking amused by that, and probably many amendments that are tabled are semantic, but I agree that this one is particularly semantic. It is designed to be mischievous, I think, more than anything else.

Mae'r gwelliant rydym yn ei gynnig yn galw ar y Gweinidog i wneud datganiad am sut y mae trafodaethau'r Llywodraeth gyda BT Openworld yn mynd rhagddynt mewn perthynas â chyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru. Yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog yr hydref diwethaf, ymrwymodd i wneud cyhoeddiad am ddyfarnu contract ar gyfer y prosiect erbyn mis Mawrth, sy'n llai na dau fis i ffwrdd. Felly, rydym wedi cyflwyno ein gwelliant er mwyn cael rhywfaint o eglurder ar hynny. Rwy'n cytuno â sylwadau Eluned Parrott ar welliant y Llywodraeth; dywedodd ei fod yn semantig. Gallwn weld bod hynny'n difyrru Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ac mae'n debyg bod llawer o welliannau a gyflwynir yn semantig, ond rwy'n cytuno bod hwn yn arbennig o semantig. Mae wedi'i gynllunio i fod yn ddireidus, rwy'n credu, yn fwy na dim byd arall.

If you look at the comments of the Rural Development Sub-committee in its report, it

Os edrychwch ar sylwadau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ei adroddiad, roedd yn

was very concerned that the Welsh Government's broadband plans would actually put Wales at least two years behind Cornwall [*Interruption.*] I am willing to take an intervention from the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes if he feels that silence no longer becomes him. He does not like being reminded of that previous, mischievous era of his existence. He made some good comments and recommendations as Chair of that sub-committee, which I agree with, particularly in relation to broadband. I am sure that he knows that we owe it to the people of Wales to provide them with the tools to compete. We do not want Wales to be at a disadvantage to other regions of the United Kingdom, and we do not want the United Kingdom itself to be at a disadvantage to other parts of the world. The question that needs to be asked is whether the Welsh Government is doing enough to take this project forward, and whether it is doing it quickly enough. We certainly do not want the Welsh Government to take its eye off the ball on this project. Much progress has been made. I am always one to give credit where credit is due, and if you look at where we were some years back on the issue of broadband, then clearly progress has been made. However, you would expect that, would you not? At the end of the day, it is a vital tool for a modern, agile economy, and such tools develop naturally over time. This is an area where the Welsh Government can give things a kick in the right direction if it wishes to do so.

bryderus iawn y byddai cynlluniau band eang Llywodraeth Cymru yn golygu y byddai Cymru o leiaf dwy flynedd y tu ôl i Gernyw [*Torri ar draws*.] Rwy'n barod i adael i'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ymyrryd os nad yw'n teimlo bod tawelwch bellach yn gweddu iddo. Nid yw'n hoffi cael ei atgoffa o'r cyfnod direidus hwnnw o'i fodolaeth. Gwnaeth rhai sylwadau ac argymhellion da fel Cadeirydd yr is-bwyllgor hwnnw y cytunaf â hwy, yn enwedig mewn perthynas â band eang. Rwy'n siŵr ei fod yn gwybod bod dyletswydd arnom ni i roi'r offer i bobl Cymru allu cystadlu. Nid ydym am i Gymru fod o dan anfantais o'i chymharu â rhanbarthau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac nid ydym am i'r Deyrnas Unedig ei hun fod o dan anfantais o'i chymharu â rhannau eraill o'r byd. Y cwestiwn sydd angen ei ofyn yw a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i fynd ymlaen â'r prosiect, ac a yw'n ei wneud yn ddigon cyflym. Yn sicr, nid ydym am i Lywodraeth Cymru gymryd ei llygad oddi ar y bêl mewn perthynas â'r prosiect hwn. Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud. Rwyf bob amser yn un i roi clod lle bo'n ddyledus, ac os edrychwch ar ble roeddem rai blynyddoedd yn ôl ym maes band eang, mae'n amlwg bod cynnydd wedi'i wneud. Fodd bynnag, byddech yn disgwyl hynny, oni fyddech chi? Ar ddiwedd y dydd, mae'n offeryn hanfodol ar gyfer economi fodern, ystwyth, ac mae offerynnau o'r fath yn datblygu'n naturiol dros amser. Mae hwn yn faes lle y gall Llywodraeth Cymru roi cic i'r cyfeiriad cywir i bethau os yw'n dymuno gwneud hynny.

Ofcom reported last year that take-up of broadband in rural Wales is only 67%, the lowest of any of the UK's rural areas. That is clearly a cause for concern, particularly when you consider the not spots that were alluded to earlier by Alun Ffred Jones. The consequences of any delay will only result in rural Wales falling further behind the rest of the UK.

Nododd Ofcom y llynedd mai dim ond 67% sy'n manteisio ar fand eang yng nghefn gwlad Cymru, yr isaf o unrhyw un o ardaloedd gwledig y DU. Mae hynny'n amlwg yn peri pryder, yn enwedig pan fyddwch yn ystyried y mannau gwan y cyfeiriodd Alun Ffred Jones atynt yn gynharach. Bydd unrhyw oedi yn arwain at sefyllfa lle bydd Cymru wledig yn syrthio ymhellach y tu ôl i weddill y DU.

I am happy to support the motion. I liked the comments about opening horizons and eyes; I think that Eluned Parrott is getting more and more poetic in her contributions to debates. I hope that Members will support our

Rwy'n hapus i gefnogi'r cynnig. Roeddwn yn hoffi'r sylwadau am agor gorwelion a llygaid; rwy'n credu bod Eluned Parrott yn mynd yn fwy ac yn fwy barddonol yn ei chyfraniadau i drafodaethau. Gobeithiaf y

amendment because it gives a necessary focus to this debate. Let us move this issue on and get broadband on the footing that Wales wants and deserves.

bydd yr Aelodau yn cefnogi ein gwelliant oherwydd mae'n rhoi ffocws angenrheidiol i'r ddadl hon. Gadewch inni symud y mater hwn ymlaen a sicrhau bod gan Gymru'r band eang y mae'i eisiau ac y mae'n ei haeddu.

**Aled Roberts:** This motion is calling on the Welsh Government to optimise the moneys that it will receive as a consequential from the UK Government. Our efforts in that regard are mirrored in some of the experiences that we have had in north Wales, because there are concerns regarding the state of infrastructure in Wales. It is not a case, as we mentioned in earlier debates, of throwing money at schemes; I would remind the Minister that there was a £30 million investment in fibre speed in north Wales to connect 14 business parks, and yet part of that network remains dormant even today. It is a fact that the FibreSpeed network is owned by the Welsh Government, but it is supplied and operated by a private contractor on a 15-year contract. FibreSpeed is undoubtedly a success. It supplies broadband to over 160 businesses and 800 customers, but we need to ensure, when we decide how we are going to invest these additional moneys, that we actually get the most for our buck.

**Aled Roberts:** Mae'r cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y defnydd gorau o'r arian y bydd yn ei gael fel symiau canlyniadol gan Lywodraeth y DU. Mae ein hymdrechion yn y cyswllt hwnnw yn cael eu hadlewyrchu mewn rhai o'r profiadau a gawsom yng ngogledd Cymru, gan fod pryderon ynghylch cyflwr y seilwaith yng Nghymru. Nid yw'n achos, fel y gwnaethom sôn mewn dadleuon blaenorol, o daflu arian at gynlluniau; hoffwn atgoffa'r Gweinidog y cafwyd buddsoddiad o £30 miliwn mewn cyflymder ffeibr yn y gogledd i gysylltu 14 parc busnes, ac eto mae rhan o'r rhwydwaith yn parhau i fod yn segur heddiw hyd yn oed. Mae'n ffaith bod rhwydwaith FibreSpeed yn eiddo i Lywodraeth Cymru, ond caiff ei gyflenwi a'i weithredu gan gontractwr preifat ar gontract 15 mlynedd. Yn ddi-os, mae FibreSpeed yn llwyddiant. Mae'n cyflenwi band eang i dros 160 o fusnesau ac 800 o gwsmeriaid, ond mae angen inni sicrhau, pan fyddwn yn penderfynu sut y byddwn yn buddsoddi'r arian ychwanegol hwn, ein bod yn cael y gwerth gorau am ein harian.

Research by the *Daily Post* has shown that people in north Wales more often than not live in officially defined low-speed areas. I am sure that Sandy Mewies will be interested to learn that 49.2% of residents in Delyn suffer from low-speed broadband, and even in Wrexham, which has seen the introduction of FibreSpeed broadband in the town, more than 35% of residents in the county still suffer low speeds. Those of us who sit on the Children and Young People Committee heard from headmasters from Ceredigion this morning that, although the Minister for Education and Skills tells us that the transport grant for the 14-19 network will be cut and that he expects some of the slack to be taken up through digital learning, the broadband speeds in their particular schools were insufficient to be able to deliver digital learning in their classrooms. There is also the matter of businesses and residents located along the border. One of the difficulties that some regional Members face in their

Mae ymchwil gan y *Daily Post* wedi dangos bod pobl yng ngogledd Cymru yn fwy aml na pheidio yn byw mewn ardaloedd a ddiffinnir yn swyddogol fel ardaloedd cyflymder isel. Rwy'n siŵr y bydd gan Sandy Mewies ddiddordeb mewn dysgu bod 49.2% o drigolion Delyn yn dioddef o fand eang cyflymder isel, a hyd yn oed yn Wrecsam, lle cyflwynwyd band eang FibreSpeed yn y dref, mae mwy na 35% o drigolion yn y sir yn dal i ddioddef cyflymder isel. Clywodd y rheiny ohonom sy'n eistedd ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan benaethiaid o Geredigion y bore yma, er bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dweud wrthym y bydd y grant trafnidiaeth ar gyfer y rhwydwaith 14-19 yn cael ei dorri a'i fod yn disgwyl y bydd dysgu digidol yn helpu i wneud iawn am hynny, roedd y penaethiaid yn dweud fod y cyflymdra band eang yn eu hysgolion penodol hwy yn annigonol i'w galluogi i ddarparu dysgu digidol yn eu hystafelloedd dosbarth. Ceir hefyd y mater o fusnesau a

casework is that many of the exchanges in north-east Wales are served by English exchanges, so, regardless of the efforts that you are making to upgrade the system in north Wales, there is a need for discussions with BT in particular to establish the position with regard to those border exchanges.

thrigolion a leolir ar hyd y ffin. Un o'r anawsterau y mae rhai Aelodau rhanbarthol yn eu hwynebu yn eu gwaith achos yw bod llawer o'r cyfnewidfeydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn cael eu gwasanaethu gan gyfnewidfeydd yn Lloegr, felly, ni waeth pa ymdrechion rydych yn eu gwneud i uwchraddio'r system yng ngogledd Cymru, mae angen trafodaethau gyda BT yn arbennig i sefydlu safbwynt clir o ran y cyfnewidfeydd hynny ar y ffin.

I am sure that we all welcome the broadband support scheme, which is a valuable scheme. However, people need to be made more aware of how to apply for that scheme and what they can apply for. The irony is that it appears that you have to register for the scheme online. Therefore, to say that you are having a problem communicating online, you have to go on the computer to tell someone about it. Once again, from casework, I know that downloading the forms can be a long and arduous task. The reality is that many people give up before they have completed the process. However, the situation is not bleak. I have been told about a situation in Rhiwlas, in Alun Ffred Jones's constituency, where a community group worked alongside a local IT expert to successfully campaign for the installation of broadband in their village. They were helped by the broadband support scheme and the presence of FibreSpeed technology. The village is now connected and I am glad to say that the connection of Rhiwlas, at least, means that there is one fewer not spot in Wales.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu'r cynllun cefnogi band eang, sy'n gynllun gwerthfawr. Fodd bynnag, mae angen i bobl fod yn fwy ymwybodol o sut i wneud cais am y cynllun hwnnw a'r hyn y gallant ei wneud cais amdano. Yr eironi yw ei fod yn ymddangos bod yn rhaid ichi gofrestru ar gyfer y cynllun ar-lein. Felly, er mwyn dweud eich bod yn cael problemau o ran cyfathrebu ar-lein, rhaid ichi fynd ar gyfrifiadur i ddweud wrth rywun am y peth. Unwaith eto, yn seiliedig ar waith achos, rwy'n gwybod bod llwytho'r ffurflenni yn gallu bod yn dasg hir a chaled. Y realiti yw bod llawer o bobl yn rhoi'r gorau iddi cyn cwblhau'r broses. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa yn llwm. Rwyf wedi cael gwybod am sefyllfa yn Rhiwlas, yn etholaeth Alun Ffred Jones, lle gweithiodd grŵp cymunedol ochr yn ochr ag arbenigwr TG lleol i ymgyrchu yn llwyddiannus dros gyflwyno band eang yn eu pentref. Cawsant eu helpu gan y cynllun cymorth band eang a phresenoldeb technoleg FibreSpeed. Mae'r pentref wedi ei gysylltu yn awr ac rwy'n falch o ddweud bod cysylltiad Rhiwlas, o leiaf, yn golygu bod un man gwan yn llai yng Nghymru.

Tackling not spots can make a huge difference to a community, and not only to businesses within that community, but to ordinary residents, who are encouraged by the Assembly, the Welsh Government and their local authorities to make more use of broadband facilities in every aspect of their lives. It is not simply about making the internet as fast as possible, but about making an internet connection the vital tool in speeding up everyday tasks and making life a little easier for ordinary people.

Gall mynd i'r afael â mannau gwan wneud gwahaniaeth mawr i gymuned, ac nid yn unig i fusnesau o fewn y gymuned honno, ond i drigolion cyffredin, sy'n cael eu hannog gan y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a'u hawdurdodau lleol i wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau band eang ym mhob agwedd ar eu bywydau. Nid yw'n gwestiwn syml o wneud y rhyngrwyd mor gyflym ag y bo modd, mae'n fater o wneud cysylltiad rhyngrwyd yn offeryn hanfodol o ran hwyluso tasgau bob dydd a gwneud bywyd ychydig yn haws i bobl gyffredin.

**Jenny Rathbone:** People have already

**Jenny Rathbone:** Mae pobl eisoes wedi

briefly alluded to the Penylan not spot, which is only three miles from the city centre. The reason why there is a not spot, which affects around 850 households, is because they are connected to the wrong exchange. They are connected to the exchange in Westgate Street next to the Millennium Stadium instead of being connected to the Llanedeyrn exchange, which is near to where they live. It is a really good example of how the competition between IT and telephony providers has not resolved the problem. There is a business opportunity going begging here, but none of the providers have taken it up, despite the 850 households affected by the not spot—where you cannot get more than 0.5 Mbps. I am not technical, but I have been told that you cannot really do anything unless you have 2 Mbps. I have not been able to get any of the providers to do anything about it. We have to ensure that this is sorted out before we seek superfast broadband provision for Cardiff.

cyfeirio yn fras at y man gwan ym Mhen-y-lan, sydd ond tair milltir o ganol y ddinas. Y rheswm pam mae man gwan yno, sy'n effeithio ar tua 850 o gartrefi, yw eu bod wedi'u cysylltu â'r gyfnewidfa anghywir. Maent wedi'u cysylltu â'r gyfnewidfa yn Heol y Porth, sydd wrth ochr Stadiwm y Mileniwm, yn hytrach na'u cysylltu â chyfnewidfa Llanedern, sy'n agos i ble maent yn byw. Mae'n enghraifft dda iawn o sut y mae'r gystadleuaeth rhwng darparwyr TG a theleffoni wedi methu â datrys y broblem. Mae yna gyfle busnes ar gael yma, ond nid oes yr un o'r darparwyr wedi manteisio arno, er bod y man gwan—lle na allwch gael mwy na 0.5 Mbps—yn effeithio ar 850 o gartrefi. Nid wyf yn dechnegol, ond rwyf wedi clywed na allwch wneud unrhyw beth mewn gwirionedd oni bai fod gennych 2 Mbps. Nid wyf wedi gallu cael unrhyw un o'r darparwyr i wneud unrhyw beth amdano. Mae'n rhaid inni sicrhau bod hyn yn cael ei ddatrys cyn inni geisio darpariaeth band eang hynod o gyflym ar gyfer Caerdydd.

These households are hugely disadvantaged by the fact that they cannot run their businesses online if they have a small business, and people are being forced to move as they are unable to conduct what most of us would regard as normal business online.

Mae'r cartrefi hyn o dan anfantais fawr o ganlyniad i'r ffaith na allant redeg eu busnesau ar-lein os oes ganddynt fusnes bach, ac mae pobl yn cael eu gorfodi i symud oherwydd nad ydynt yn gallu cynnal yr hyn y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei ystyried yn fusnes arferol ar-lein.

**Eluned Parrott:** It is my understanding that there are some specific technical issues, as you have alluded, with the Penylan not spot, but would you say that you do not welcome the roll-out of superfast broadband to Cardiff? Obviously, the residents in the rest of Cardiff will probably be disappointed to know that you would hold them back until such a time that that technical issue has been resolved.

**Eluned Parrott:** Fy nealltwriaeth i yw bod yna faterion technegol penodol, fel yr ydych wedi cyfeirio atynt, mewn perthynas â man gwan Pen-y-lan, ond a fyddech yn dweud nad ydych yn croesawu'r broses o gyflwyno band eang hynod o gyflym yng Nghaerdydd? Yn amlwg, bydd trigolion gweddill Caerdydd fwy na thebyg yn siomedig i wybod y byddech yn eu dal yn ôl hyd nes y bydd y mater technegol wedi'i ddatrys.

**Jenny Rathbone:** No, of course I am not saying that, but before we offer superfast broadband we need to resolve this bread-and-butter issue so that everyone has broadband access. As we heard in the Children and Young People's Committee this morning, Ceredigion cannot roll out digital learning for all its 14-19 learners because it simply does not have the technological systems to support it.

**Jenny Rathbone:** Na, wrth gwrs nad wyf yn dweud hynny, ond cyn inni gynnig band eang hynod o gyflym mae angen inni ddatrys y mater bara-a-menyn hwn fel bod pawb yn cael mynediad band eang. Fel y gwnaethom glywed yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y bore yma, ni all Ceredigion gyflwyno dysgu digidol ar gyfer ei holl ddysgwyr 14-19 oed gan nad oes ganddo'r systemau technolegol i'w gefnogi.

So, this is a fantastically big issue for people in the city and in rural areas, and I very much welcome the commitment by the Welsh Government to ensure that every household in Wales has access to broadband, because that is key to ensuring that we have an economy that is fit for the twenty-first century.

Felly, mae hwn yn fater hynod o fawr i bobl yn y ddinas ac mewn ardaloedd gwledig, ac rwy'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cartref yng Nghymru yn cael mynediad at fand eang, oherwydd bod hynny'n allweddol i sicrhau bod gennym economi sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Of course, I welcome the introduction of a superfast broadband system because that will provide other benefits to the economy of our capital, but we have to sort out the basics as well and not ignore them in favour of the headline services.

Wrth gwrs, rwy'n croesawu cyflwyno system band eang hynod o gyflym oherwydd y bydd yn darparu manteision eraill i economi ein prif ddinas, ond mae'n rhaid inni ddatrys y pethau sylfaenol hefyd ac nid eu hanwybyddu er budd y prif wasanaethau.

**William Powell:** As we have heard already, this issue affects urban and rural areas. Only yesterday, Bethan Jenkins and I received a petition on behalf of the Petitions Committee from the residents of Penylan on the issue that was the subject of the previous exchange.

**William Powell:** Fel rydym wedi clywed eisoes, mae'r mater hwn yn effeithio ar ardaloedd trefol a gwledig. Dim ond ddoe, derbyniodd Bethan Jenkins a minnau ddeiseb ar ran y Pwyllgor Deisebau gan drigolion Pen-y-lan ar y mater a oedd yn destun y drafodaeth flaenorol.

The technological issues faced by rural regions such as mine are more than simply access to broadband. Mobile phone signal is also patchy, as we know. As internet speeds get faster and faster in many other areas of Wales, rural Wales is being increasingly left behind. That is why I am disappointed that the Welsh Government has decided to table an amendment that would delete the direct reference to tackling the scourge of not spots across Wales. That is a cause for real disappointment.

Mae'r materion technolegol sy'n wynebu ardaloedd gwledig fel fy un i yn fwy na dim ond mynediad i fand eang. Mae signal ffôn symudol hefyd yn dameidiog, fel y gwyddom. Wrth i'r rhyngrwyd ddod yn gyflymach ac yn gyflymach mewn ardaloedd eraill o Gymru, mae cefn gwlad Cymru yn cael ei adael ar ôl fwyfwy. Dyna pam rwy'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno gwelliant a fyddai'n dileu'r cyfeiriad uniongyrchol at fynd i'r afael â'r pla o fannau gwan ar gyfer band eang ledled Cymru. Mae hynny'n peri siom go iawn.

While we see the Government and local government increasingly asking residents across Wales to use the internet to access services, we have yet to see the investment that is required to deliver this access across the nation with a genuine sense of equity. This is a point that makes the £56.9 million received from the UK Government particularly welcome. Until these additional funds were forthcoming, it has remained a disappointment that the Welsh Government has done relatively little while companies such as BT have been left to do the running on this issue.

Er ein bod yn gweld y Llywodraeth a llywodraeth leol yn gofyn i drigolion ledled Cymru ddefnyddio'r rhyngrwyd fwy a mwy i gael mynediad at wasanaethau, nid ydym eto wedi gweld y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r mynediad hwn ar draws y wlad gydag ymdeimlad gwirioneddol o gydraddoldeb. Mae hwn yn bwynt sy'n gwneud y £56.9 miliwn a gafwyd gan Lywodraeth y DU yn swm i'w groesawu. Hyd nes y neilltuwyd y cronfeydd ychwanegol hyn, mae wedi parhau i fod yn siom bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyn lleied, tra bod cwmnïau fel BT wedi eu gadael i wneud y gwaith ar y mater hwn.

In rural regions of Wales, residents are continually being encouraged to use the internet, as I said earlier. The Deputy Minister will be aware of his demands and those of his officials regarding Glastir. Those of you who are associated with businesses will know that VAT returns for all businesses will need to be provided online from later this year. Applying for blue badges and student finance will be subject to preferential treatment for online applicants. This means that more and more people are getting left behind, with those with internet access getting the best deals, while those without receive a second-class service. It is a sad fact that the best tickets for the forthcoming memorial match for Gary Speed on 29 February will probably be denied to some residents across Powys, Ceredigion and other not spots across Wales. I am told that there are still some tickets available, but that all the best tickets have gone. This means that more and more people are getting left behind, and we need to deal with this.

Yn ardaloedd gwledig Cymru, mae trigolion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhyngrwyd drwy'r amser, fel y dywedais yn gynharach. Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o'i ofynion ef a'i swyddogion mewn perthynas â Glastir. Bydd y rhai ohonoch sydd yn gysylltiedig â busnesau yn gwybod y bydd angen darparu'r ffurflenni TAW i bob busnes ar-lein yn ddiweddarach eleni. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fathodynnau glas a chyllid myfyrwyr yn cael eu trin yn fwy ffafriol wrth wneud cais ar-lein. Mae hyn yn golygu bod mwy a mwy o bobl yn cael gadael ar ôl: mae'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngrwyd yn cael y fargen orau, tra bod y rhai nad oes ganddynt fynediad yn cael gwasanaeth ail ddosbarth. Mae'n drist meddwl na fydd y tocynnau gorau ar gyfer y gêm i gofio Gary Speed ar 29 Chwefror ar gael i rai trigolion ar draws Powys, Ceredigion a mannau gwan eraill ledled Cymru. Rwy'n gwybod bod yna rai tocynnau ar ôl, ond mae'r holl docynnau gorau wedi mynd. Mae hyn yn golygu bod mwy a mwy o bobl yn cael eu gadael ar ôl, ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

Technology moves at a fast pace, and the Welsh Government needs to use the money that has been allocated to invest in the infrastructure to make Wales grow. Broadband opens up a wide range of goods and services, from domestic customers who simply want to get a better deal to businesses that are ambitious to grow and flourish outside of their physical boundaries. We have already heard Members argue this afternoon that such services are essential for rural business to compete in the global market. We must not leave these calls unanswered.

Mae technoleg yn symud yn gyflym, ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r arian sydd wedi cael ei ddyrannu i fuddsoddi mewn seilwaith i wneud i Gymru dyfu. Mae band eang yn agor y drws i amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau—o gwsmeriaid domestig sydd, yn syml, am gael bargen well i fusnesau sy'n uchelgeisiol o ran tyfu a ffynnu y tu allan i'w ffiniau corfforol. Rydym eisoes wedi clywed Aelodau'n dadlau y prynhawn yma fod gwasanaethau o'r fath yn hanfodol i alluogi busnesau gwledig i gystadlu yn y farchnad fyd-eang. Rhaid inni beidio â gadael i'r galwadau hyn fynd heb eu hateb.

5.30 p.m.

Internet and broadband services remain essential in the rural heartlands of Wales. For instance, reporting cattle movements to the British Cattle Movement Service within three calendar days presents a significant challenge to some farmers who do not have sufficient connectivity. Failure to report such movements could directly endanger their single farm payment, and so this really matters to farmers and growers across Wales.

Mae gwasanaethau rhyngrwyd a band eang yn parhau i fod yn hanfodol yng nghadarnleoedd gwledig Cymru. Er enghraifft, mae adrodd symudiadau gwartheg i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain o fewn tri diwrnod calendr yn her sylweddol i rai ffermwyr nad oes ganddynt ddigon o gysylltedd. Gallai methu â hysbysu am symudiadau o'r fath beryglu eu taliad sengl, ac felly mae hyn o bwys gwirioneddol i

In 2010, the Wales Rural Observatory found that only 65% of farms currently use computers for their farming businesses. I contend that this figure needs to be higher and this money has the potential to act as a driver for further improvement. Furthermore, there is to be a roll-out of online completion of the single application form from 2014, with full implementation from 2016.

ffermwyr a thyfwyr yng Nghymru. Yn 2010, canfu Arsyllfa Wledig Cymru mai 65% yn unig o ffermydd ar hyn o bryd sy'n defnyddio cyfrifiaduron ar gyfer eu busnesau ffermio. Cynigiaf y dylai'r ffigur hwn fod yn uwch a bod gan yr arian hwn y potensial i sbarduno gwelliant pellach. Hefyd, bydd llenwi'r ffurflen cais sengl ar-lein yn cael ei gyflwyno o 2014, gan fod ar waith yn llawn o 2016 ymlaen.

Let us also not forget our town and community councils, which are so often required to participate in consultations on local development plans and such matters. Often, they are denied the tools to do the job of representing their communities. That is also a matter of real concern. Put simply, these matters need to be addressed, and quickly. Ofcom has stated more than once that Wales suffers from the worst broadband provision in the United Kingdom. The Welsh Government must act now and take this matter seriously.

Gadewch i ni beidio ag anghofio, hefyd, ein cynghorau tref a chymuned, y gofynnir yn aml iddynt gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ynghylch cynlluniau datblygu lleol a materion o'r fath. Yn aml, gwrthodir iddynt yr offer at y gwaith o gynrychioli eu cymunedau. Mae hynny hefyd yn destun pryder go iawn. Yn syml, rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn, a hynny'n gyflym. Mae Ofcom wedi datgan fwy nag unwaith fod Cymru yn dioddef y ddarpariaeth band eang waethaf yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu yn awr a chymryd y mater hwn o ddifrif.

**Janet Finch-Saunders:** I am pleased to take part in this debate and to support my colleague Nick Ramsay in supporting amendment 6, tabled by William Graham on behalf of the Welsh Conservatives, which

**Janet Finch-Saunders:** Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon a chefnogi fy nghyd-Aelod Nick Ramsay wrth gefnogi gwelliant 6, a gyflwynwyd gan William Graham ar ran Ceidwadwyr Cymru, sydd

'Calls on the Welsh Government to make a statement on its negotiations with BT Openworld for a Wales-wide roll-out of next generation broadband.'

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad am ei thrafodaethau gyda BT Openworld ar gyfer cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru.'

The target set by the Welsh Government is that all business and residential premises in Wales will have access to next-generation broadband by 2015. Yet, BT has estimated that, by 2014, only some 40% of premises in Wales will have access to its next-generation broadband. I am interested to know how confident the Welsh Government is that this target will be achieved. We shall be looking forward to the results of the forthcoming national survey for Wales to hold it to account in this regard.

Y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw i bob safle busnes ac eiddo preswyl yng Nghymru gael mynediad at y genhedlaeth nesaf o fand eang erbyn 2015. Er hynny, mae BT wedi amcangyfrif mai tua 40% o'r lleoedd hyn a fydd â mynediad i'w fand eang cenhedlaeth nesaf yng Nghymru erbyn 2014. Byddai'n ddiddorol gwybod pa mor hyderus yw Llywodraeth Cymru y cyrhaeddir y targed hwn. Byddwn yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r arolwg cenedlaethol sydd ar y gweill ar gyfer Cymru i'w dal i gyfrif yn hyn o beth.

'Delivering Digital Inclusion: A Strategic Framework for Wales' estimated that 785,000 adults, nearly a third of adults in Wales, are digitally excluded, and listed a

Roedd 'Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru' yn amcangyfrif bod 785,000 o oedolion—bron draean o'r oedolion yng Nghymru—yn cael

lack of broadband provision as a barrier to digital inclusion. However, BT has estimated that the expected coverage as a result of its investment in Wales will be nearer 40% than 66%, due to the nature of the Welsh economy. Therefore, we need to consider economic growth and broadband provision as inter-related partners. Three of the top six reasons for using the internet in Wales are for business-related communication, purchases and banking. William Powell, you made some good cases in relation to the distinct need for everyone to have access to broadband. However, internet usage by small and medium sized enterprises in Wales lags behind that in the rest of the UK at around 88%, compared to a UK average of 96%. The full availability of next-generation broadband would enable many businesses across Wales to have access to the vast amounts of information, resources and communication systems available through the internet. It would also give those businesses the opportunity to expand abroad by advertising online, establishing contacts in other countries, and connecting with relevant business networks.

eu hallgau'n ddigidol, ac mae'n rhestru diffyg darpariaeth band eang fel rhwystr i gynhwysiant digidol. Fodd bynnag, mae BT wedi amcangyfrif y bydd y cwmpas a ddisgwylir yn sgîl ei fuddsoddiad yng Nghymru yn nes at 40% na 66%, oherwydd natur economi Cymru. Felly, mae angen ystyried twf economaidd a darparu band eang fel partneriaid cydgysylltiedig. O'r chwe rheswm pennaf dros ddefnyddio'r rhyngrwyd yng Nghymru, bancio, prynu a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â busnes yw tri ohonynt. William Powell, gwnaethoch gynnig rhai dadleuon da ynghylch yr angen clir i bawb gael mynediad at fand eang. Er hynny, mae defnydd mentrau bach a chanolig o'r rhyngrwyd yng Nghymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU, sef tua 88% o gymharu â chyfartaledd o 96% yn y DU. Byddai argaeledd llawn band eang cenhedlaeth nesaf yn galluogi llawer o fusnesau ledled Cymru i gael mynediad at wybodaeth, adnoddau a systemau cyfathrebu mawr iawn sydd ar gael drwy gyfrwng y rhyngrwyd. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i'r busnesau hynny ehangu dramor drwy hysbysebu ar-lein, sefydlu cysylltiadau mewn gwledydd eraill, a chysylltu â rhwydweithiau busnes perthnasol.

How close is the Welsh Government to awarding the contract for the mid Wales connection project by its target of March this year? A more transparent procurement process would reassure the public that funding for broadband from the UK Government is being spent effectively. Finally, I highlight the importance of reliable broadband networks for Welsh tourism. The Wales Tourism Alliance has said that tech-savvy visitors expect to be able to make bookings online and to stay connected to the internet during their stay in Wales. A lack of broadband provision is putting tourism businesses, and the many rural not spots of Wales, at a significant disadvantage. My constituency of Aberconwy is a prime example. The Wales committee of the British Hospitality Association has said that Wales should have good broadband in order to be able to compete with other destinations. We are falling behind. Almost a quarter of visitors to Wales—23%—rely on the internet for information about their visit. It is time that the Welsh Government acknowledged this and gave tourism partners in our more

Pa mor agos yw Llywodraeth Cymru at ddyfarnu'r contract ar gyfer prosiect cysylltu canolbarth Cymru erbyn ei tharged o fis Mawrth eleni? Byddai proses gaffael fwy tryloyw yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod arian ar gyfer band eang oddi wrth Lywodraeth y DU yn cael ei wario'n effeithiol. Yn olaf, yr wyf yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhwydweithiau band eang dibynadwy ar gyfer twristiaeth Cymru. Mae Cynghrair Twristiaeth Cymru wedi dweud bod ymwelwyr â chrebwyll am dechnoleg yn disgwyl gallu gwneud archebion ar-lein a chadw'r cysylltiad â'r rhyngrwyd tra bônt yng Nghymru. Mae diffyg darpariaeth band eang yn rhoi busnesau twristiaeth, a'r llawer o fannau gwan yn y Gymru wledig, o dan anfantais sylweddol. Mae fy etholaeth, Aberconwy, yn enghraifft wych. Mae pwyllgor Cymru o Gymdeithas Lletygarwch Prydain wedi dweud y dylai Cymru gael band eang da fel y gall gystadlu â chyrchfannau eraill. Rydym yn cael ein gadael ar ôl. Mae bron i chwarter yr ymwelwyr â Chymru—23%—yn dibynnu ar y rhyngrwyd am wybodaeth am eu hymweliad. Mae'n bryd i

rural communities the opportunity to promote themselves to potential customers abroad in an economic and sustainable way: 2015 is soon, but not soon enough, and we should be using this funding from the UK Government to establish Wales-wide broadband provision as a priority for the future of the Welsh economy.

Lywodraeth Cymru gydnabod hyn a rhoi cyfle i bartneriaid twristiaeth yn ein cymunedau mwy gwledig hyrwyddo eu hunain i gwsmeriaid tramor posibl mewn ffordd economaidd a chynaliadwy: bydd yn 2015 arnom yn fuan, ond nid digon buan, a dylem fod yn defnyddio'r arian hwn gan Lywodraeth y DU i sefydlu darpariaeth band eang i Gymru gyfan fel blaenoriaeth i ddyfodol yr economi.

**Kirsty Williams:** As you can imagine, in Brecon and Radnorshire, the largest single rural constituency in Wales, issues around connectivity continue to dominate the debate. The fact that you live in Brecon and Radnorshire will not be deemed a reasonable excuse if you are not able to file your VAT online. If you fail to upload your cattle passport application, saying that you live in Radnorshire is not deemed an excuse, and it is not taken into account in relation to penalties being applied to your single farm payment. I dare say that the Deputy Minister will not be sympathetic to farmers who are unable to upload their single farm payment application forms when they are required to do that online.

**Kirsty Williams:** Fel y gallwch ddychmygu, ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, yr etholaeth wledig fwyaf yng Nghymru, materion cysylltedd sy'n parhau i yrru'r drafodaeth. Ni fydd y ffaith eich bod yn byw ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn cael ei ystyried yn esgus rhesymol os nad ydych yn gallu cyflwyno eich ffurflen TAW ar-lein. Os ydych yn methu â llwytho eich cais am basbort gwartheg, ni fydd dweud eich bod yn byw yn Sir Faesyfed yn cael ei weld yn esgus, ac nid yw'n cael ei ystyried mewn perthynas â chosbau a osodir ar eich taliad sengl. Rwy'n siŵr na fydd y Dirprwy Weinidog yn cydymdeimlo â ffermwyr na allant lwytho eu ffurflenni cais am daliadau sengl pan ofynnir iddynt wneud hynny ar-lein.

Of course, farming is not the only thing that we do brilliantly well in Brecon and Radnorshire. We also do tourism particularly well. However, as Janet Finch-Saunders has already mentioned, the Wales Tourism Alliance sees the lack of proper connectivity in rural areas as a real barrier to improving the economic output of tourism in rural Wales, and it is one of the key ways in which we can raise the standard of living and develop the economy in rural parts of our country. People expect to be able to make a booking online. They expect to be able to use their electronic devices while they stay in that hotel or bed-and-breakfast accommodation. They expect to be able to search out good places to eat and fantastic places to visit online, while sitting in their hotel room. Telling them that they have to go to the local library or local tourist information centre—if there is one left—simply is not a good enough offer any more.

Wrth gwrs, nid ffermio yw'r unig beth yr ydym yn ei wneud yn ardderchog ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Rydym hefyd yn gwneud twristiaeth yn arbennig o dda. Fodd bynnag, fel y mae Janet Finch-Saunders eisoes wedi ei nodi, mae Cynghrair Twristiaeth Cymru yn gweld diffyg y cysylltedd addas mewn ardaloedd gwledig yn rhwystr gwirioneddol rhag gwella allbwn economaidd twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru, ac mae'n un o'r ffyrdd allweddol y gallwn godi safon byw a datblygu'r economi yn ardaloedd gwledig ein gwlad. Mae pobl yn disgwyl gallu archebu ar-lein. Maent yn disgwyl gallu defnyddio eu dyfeisiau electronig yn y gwesty neu'r llety gwely a brecwast maent yn aros ynddo. Maent yn disgwyl gallu chwilio ar-lein am leoedd da i fwyta a lleoedd gwych i ymweld â hwy o'u hystafell yn y gwesty. Yn syml, nid yw dweud wrthynt fod yn rhaid iddynt fynd i'r llyfrgell leol neu'r ganolfan groeso leol—os oes un ar ôl—yn ddigon da rhagor.

We also have some excellent, thriving high

Mae hefyd stryd fawr wych a ffyniannus yn

streets in our market towns. However, we all know that the retail sector is under particular pressure, and, because of low levels of footfall in those market towns, successful retailers have to have an online presence if they are to improve their profitability. You do not have to go very far from one of our market towns to find yourself in an area without any connectivity. There has been an absolute market failure when it comes to providing services in my constituency. The only time that BT gets really interested in Brecon and Radnorshire is if there is a hint or sniff that the competitor is interested and will provide a service. That is simply not good enough. It is not good enough for the businesses in my constituency, and it is not good enough for the individuals who see having a decent broadband connection as an essential tool to allow them to be an equal citizen in today's modern society. It allows the teenager to do at home the homework that requires them to find information off the internet, and the grandparent who wants to be able to Skype with their grandchildren who live further afield to do so. It is not good enough for people who want to enjoy this simple use of IT that so many of us take for granted in our everyday lives—

rhai o'n trefi marchnad. Fodd bynnag, rydym i gyd yn gwybod bod y sector manwerthu o dan bwysau penodol ac, oherwydd niferoedd isel yr ymwelwyr â'r trefi marchnad, rhaid i fanwerthwyr llwyddiannus gael presenoldeb ar-lein os ydynt am wella eu proffidioldeb. Ni raid i chi fynd yn bell iawn o'n trefi marchnad cyn eich bod mewn ardal heb ddim cysylltedd. Cafwyd diffyg llwyr yn y farchnad lle bo darparu gwasanaethau yn fy etholaeth yn y cwestiwn. Yr unig dro i BT ddangos gwir ddiddordeb ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yw os oes si neu sôn bod gan gystadleuydd ddiddordeb a bydd yn darparu gwasanaeth. Nid yw hynny'n ddigon da. Nid yw'n ddigon da i'r busnesau yn fy etholaeth, ac nid yw'n ddigon da i'r unigolion sy'n gweld cysylltiad band eang da fel arf hanfodol i'w galluogi i fod yn ddinasyddion cydradd yn y gymdeithas fodern sydd ohoni. Mae'n galluogi pobl ifanc i wneud gwaith cartref yn eu cartrefi eu hunain pan mae gofyn iddynt ddod o hyd i wybodaeth ar y rhyngrwyd, a'r fam-gu neu'r tad-cu sydd am siarad ar y Skype â'u hwyrion sy'n byw yn bell i wneud hynny. Nid yw'n ddigon da bod pobl sydd am fwynhau'r defnydd syml hwn o dechnoleg gwybodaeth y mae cynifer ohonom yn ei chymryd yn ganiataol yn ein bywydau bob dydd—

**Nick Ramsay:** Not in this Chamber.

**Nick Ramsay:** Nid yn y Siambr hon.

**Kirsty Williams:** Not today anyway, Mr Ramsay. The issue is that a decade ago, those of us who lived in rural areas—although I accept that this is not an issue that is confined to rural areas—thought that electronic connectivity would be the answer to the logistical disadvantages that we faced living in a rural community. The reality has been that lack of connectivity has created an even bigger logistical disadvantage. Of course, that goes beyond broadband and moves into other areas such as mobile telephony, which Alun Ffred Jones mentioned earlier. I believe that it is the fundamental right of everyone in Wales, wherever they live, whether in Brecon or in the beautiful hills of Radnorshire, to have the right to a decent level of service. They do not want the latest whizbang can-do-everything system, but to be able to carry out the very basic transactions that, as I said, most of us take for granted in order to run their businesses, to do their shopping, to find

**Kirsty Williams:** Nid heddiw beth bynnag, Mr Ramsay. Y mater yw hyn: ddegawd yn ôl, roedd y rhai ohonom oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig—er fy mod yn derbyn nad mater i ardaloedd gwledig yn unig ydyw—yn meddwl y byddai cysylltedd electronig yn ateb i'r anfanteision logistaidd oedd yn ein hwynebu oherwydd byw mewn cymuned wledig. Y gwir yw bod y diffyg cysylltedd wedi creu anfantais logistaidd fwy byth. Wrth gwrs, aiff hynny y tu hwnt i fand eang ac i feysydd eraill fel teleffoni symudol, a nodwyd gan Alun Ffred Jones yn gynharach. Credaf mai hawl sylfaenol pob un yng Nghymru, lle bynnag y maent yn byw, boed yn Aberhonddu neu ym mryniau hardd Sir Faesyfed, yw gwasanaeth derbyniol. Nid ydynt am gael y system ddiweddaraf; dim ond am wneud y tasgau sylfaenol iawn y mae'r rhan fwyaf ohonom, fel y dywedais, yn eu cymryd yn ganiataol, i redeg eu busnesau, i siopa, i ddod o hyd i wybodaeth ac i

information and to communicate with their relatives. I do not think that that is too much to ask, and I look forward to hearing from the Minister how she intends to take the crumbs from this particular table to ensure that those citizens have this. To be honest, I am grateful for crumbs, because, up to now, we have had nothing.

gyfathrebu â'u perthnasau. Nid wyf yn credu bod hynny'n gofyn gormod, ac edrychaf ymlaen at glywed gan y Gweinidog sut y mae'n bwriadu mynd â'r briwsion o'r ford benodol hon i sicrhau bod gan y dinasyddion y ddarpariaeth hon. A bod yn onest, rwyf yn ddiolchgar am friwsion, oherwydd, hyd yn hyn, ni chawsom ddim.

**Joyce Watson:** I am not going to go over everything that has already been said, but I am quite happy to welcome any money that is legal and that assists us in getting those things that we all require. One thing that business people across Mid and West Wales have told me that they require—and I ask the Minister to pay due regard to this—is good upload speeds. We hear a great deal made of download speeds, but, as businesses move forward and their requirements change, upload speeds are equally important to them, as well as to people who want to use the new technologies in relation to social media and the like.

**Joyce Watson:** Nid af dros bopeth sydd eisoes wedi cael ei ddweud, ond rwy'n ddigon hapus i groesawu unrhyw arian cyfreithlon sy'n ein cynorthwyo i gael y pethau hynny y mae eu hangen arnom. Un peth y mae pobl fusnes ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ei ddweud wrthyf yw bod arnynt angen—a gofynnaf i'r Gweinidog roi'r sylw priodol i hyn—yw cyflymderau llwytho da. Rydym yn clywed siarad mawr am gyflymderau llwytho, ond wrth i fusnesau symud ymlaen a'u gofynion newid, daw cyflymder llwytho i fod yr un mor bwysig iddynt, yn ogystal ag i bobl sydd am ddefnyddio'r technolegau newydd yn y cyfryngau cymdeithasol ac ati.

**The Deputy Presiding Officer:** That was a wonderfully succinct contribution.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dyna gyfraniad hyfryd o gryno.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I am very pleased to debate this subject today, and I have been very pleased by the contributions to the debate. We have had an excellent debate about the issues affecting our constituents across Wales, and it is important that the Welsh public see us air what are very practical issues for individuals to do with equity, access and what is required. It is not just about a focus on business, but on individuals, how they need to run their lives these days, and how they need technology to assist them. I was very interested in the comments about our amendment and how people feel about it.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rwyf yn falch iawn o drafod y pwnc hwn heddiw, ac rwyf wedi bod yn falch iawn o'r cyfraniadau at y drafodaeth. Rydym wedi cael trafodaeth ardderchog am y materion sy'n effeithio ar ein hetholwyr ar draws Cymru, ac mae'n bwysig bod y cyhoedd yng Nghymru yn ein gweld yn gwyntyllu materion ymarferol iawn i unigolion o ran cyfiawnder, mynediad a'r hyn sydd ei angen. Nid ffocws ar fusnes yn unig yw hyn, ond ar unigolion, sut maent am redeg eu bywydau y dyddiau hyn, a'r dechnoleg y mae ei angen arnynt i'w cynorthwyo. Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn y sylwadau am ein gwelliant a sut mae pobl yn teimlo amdano.

We will be supporting the Plaid Cymru amendments. Turning first to amendment 4, we have been successful in tackling broadband not spots across Wales, including in Cardiff. To date, the scheme has assisted 2,300 applicants, around 10% of which were businesses. Recent private sector announcements suggest that broadband not

Byddwn yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru. Gan droi yn gyntaf at welliant 4, rydym wedi bod yn llwyddiannus ar draws Cymru wrth fynd i'r afael â mannau gwan ar gyfer derbyn band eang, gan gynnwys yng Nghaerdydd. Hyd yma, mae'r cynllun wedi cynorthwyo 2,300 o ymgeiswyr, gyda tua 10% ohonynt yn fusnesau. Mae

spots in Cardiff may quickly become a thing of the past, because of the way that the market is adapting. I very much take on board the points made by Aled Roberts about how we are perhaps not publicising the scheme, how people access the scheme and how we are dealing with it. I will take that up with my officials because I am reviewing the success of the current scheme and whether it should continue. That was a very valuable point to make, but I am telling people about it and then asking them to go online to find out the details. So, I think that there are issues around that in particular.

cyhoeddiadau diweddar gan y sector preifat yn awgrymu y gall mannau gwan ar gyfer derbyn band eang yng Nghaerdydd berthyn i'r gorffennol cyn hir, oherwydd y ffordd y mae'r farchnad yn addasu. Rwy'n derbyn pwyntiau Aled Roberts am y ffordd nad ydym o bosibl yn hysbysebu'r cynllun, y modd y mae pobl yn cael gafael arno a'r modd rydym yn ymdrin ag ef. Byddaf yn codi'r mater gyda fy swyddogion am fy mod yn adolygu llwyddiant y cynllun cyfredol ac a ddylai barhau. Roedd hwnnw'n bwynt gwerthfawr iawn i'w wneud, ond rwyf yn dweud wrth bobl am y peth ac yna'n gofyn iddynt fynd ar-lein i ddysgu am y manylion. Felly, rwy'n credu bod materion yn gysylltiedig â hynny yn benodol.

As I have mentioned Aled Roberts in the context of this debate, FibreSpeed is a relevant issue for you in north Wales, as is the requirement for the linkages, as well as the fact that it has not covered the areas that we anticipated that it would when it originally went in to all the centres. There are certain specific issues in that context. There are also the issues that have been raised more broadly about the border exchanges, which are quite important with regard to how these matters can be dealt with all along the border. I will pick up those points with officials to see whether any further work can be done in those areas.

Gan fy mod i wedi cyfeirio at Aled Roberts yng nghyd-destun y ddadl hon, mae FibreSpeed yn fater perthnasol i chi yn y gogledd, fel y mae'r gofyniad am y cysylltiadau, yn ogystal â'r ffaith nad yw wedi cynnwys yr ardaloedd a ragwelwyd y byddai pan aeth i'r canolfannau i gyd yn wreiddiol. Mae rhai materion penodol mewn perthynas â hynny. Mae hefyd y materion a godwyd yn fwy cyffredinol am y cyfnewidfeydd ar y ffin, sy'n eithaf pwysig o ran y modd y gellir ymdrin â'r materion hyn ar hyd y ffin. Byddaf yn codi'r pwyntiau hynny gyda swyddogion i weld a ellir gwneud gwaith pellach yn yr ardaloedd hynny.

We are committed to ensuring that all residential premises and all businesses in Wales have access to next-generation broadband by 2015. That programme for government commitment ensures that we are ahead of the game and goes beyond the UK Government's aim of delivering superfast broadband to 90% of the UK population. I was particularly pleased with the remarks of Minister Vaizey when he attended the Welsh Affairs Committee before Christmas. In response to a question about the difficult issues in Wales, he said:

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff holl eiddo preswyl a holl fusnesau Cymru fynediad at fand eang cenhedlaeth nesaf erbyn 2015. Mae'r ymrwymiad hwnnw yn y rhaglen lywodraethu'n sicrhau ein bod ar y blaen ac mae hynny'n rhagori ar nod Llywodraeth y DU ddarparu band eang cyflym iawn i 90% o boblogaeth y DU. Roeddwn yn falch iawn o sylwadau Gweinidog Vaizey pan fugerbron y Pwyllgor Materion Cymreig cyn y Nadolig. Wrth ymateb i gwestiwn am y materion anodd yng Nghymru, dywedodd:

'Wales is well ahead of the game. It is ahead of Scotland. If you could compare and contrast, England has a range of different local authorities involved in getting broadband roll-out, whereas Wales has the Welsh Assembly driving it forward for the

Mae Cymru ymhell ar y blaen. Mae o flaen yr Alban. Pe gallech gymharu a chyferbynnu, mae gan Loegr ystod o awdurdodau lleol gwahanol sy'n rhan o'r gwaith o gyflwyno band eang, tra bo Cynulliad Cymru yn ei yrru ymlaen ar ran Cymru gyfan, a'r Llywodraeth

whole of Wales, and Scotland has its Government driving it forward. Wales is well ahead of Scotland and most of England in those terms. In that sense, there is a very attractive agenda there for Wales to market inward investment round the world.'

yn ei yrru ymlaen yn yr Alban. Mae Cymru ymhell ar y blaen ar yr Alban a'r rhan fwyaf o Loegr yn hynny o beth. Felly, mae agenda deniadol iawn i Gymru i farchnata am fuddsoddiad mewnol o amgylch y byd.

Coming from the UK Government, that was indeed a compliment on how we are delivering the project in Wales. Delivery will ensure that at least 50% of businesses and premises in Wales have access to ultra-fast broadband and that Wales has the best broadband in the UK. We will use the £56.9 million allocated to us by the UK Government as part of the broad funding package for next-generation broadband, which will include Welsh Government funding, European funding and significant private sector investment. We are talking to suppliers, and are on track to identify the winning bidder in March.

A hynny'n dod o Lywodraeth y DU, dyna yw canmoliaeth yn wir am sut rydym yn darparu'r prosiect yng Nghymru. Bydd ei gyflawni yn sicrhau bod gan o leiaf 50% o fusnesau ac adeiladau Cymru fynediad at fand eang hynod o gyflym, a bod gan Gymru y band eang gorau yn y DU. Byddwn yn defnyddio'r £56.9 miliwn a ddyrannwyd inni gan Lywodraeth y DU fel rhan o'r pecyn cyllido cyffredinol ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf, a fydd yn cynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru, cyllid Ewropeaidd a buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat. Rydym yn siarad â chyflenwyr, ac rydym ar y trywydd iawn i enwi'r cynigydd llwyddiannus ym mis Mawrth.

5.45 p.m.

I find William Graham's amendment 6 interesting, coming from the party that defines itself as the so-called party of Government—that I should discuss with the world and its husband my negotiations with multi bidders. Janet Finch-Saunders talked about a transparent procurement process; at the end of the day, we have to negotiate under the terms of this process. With regard to the adverts that we have taken, it was a transparent process, but I am sure that all Members appreciate that there are sensitive issues around how you negotiate the final detail. So, obviously, we will oppose William Graham's amendment.

Credaf fod gwelliant 6 William Graham yn ddiddorol, a hynny'n dod o'r blaid sy'n diffinio ei hun fel plaid honedig y Llywodraeth—sef y dylwn drafod gyda'r byd a'r betws fy nhrafodaethau ag aml-gynigwyr. Soniodd Janet Finch-Saunders am broses gaffael dryloyw; ar ddiwedd y dydd, rhaid inni drafod o dan delerau'r broses hon. O ran yr hysbysebion rydym wedi'u cymryd, roedd yn broses dryloyw, ond rwyf yn siŵr bod pob Aelod yn gwerthfawrogi bod yna faterion sensitif ynghylch sut rydych yn trafod y manylion terfynol. Felly, yn amlwg, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant William Graham.

We are also improving broadband availability in Wales through the broadband support scheme. We provide a grant of up to £1,000 to residents and businesses, which has been very good. As I indicated earlier, we have done quite a lot in that area.

Rydym hefyd yn gwella argaeledd band eang yng Nghymru drwy gefnogaeth y cynllun cymorth band eang. Rydym yn darparu grant o hyd at £1,000 i drigolion a busnesau, sydd wedi bod yn dda iawn. Fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi gwneud cryn dipyn yn y maes hwnnw.

**Nick Ramsay:** I know that it is getting late in the afternoon, but I am sure that you did not mean to be quite so harsh on our amendment. [*Laughter.*] Ultimately, our amendment simply calls for you to be transparent. I know

**Nick Ramsay:** Gwn ei bod yn hwyrhau, ond rwy'n siŵr nad oeddech yn bwriadu bod mor llym ynghylch ein gwelliant. [*Chwerthin.*] Yn y pen draw, nid yw'n gwelliant yn gwneud dim mwy na galw arnoch i fod yn dryloyw.

that you like transparency, so I am sure that you will reconsider your lack of support for a humble amendment.

Gwn eich bod yn hoffi tryloywder, felly rwy’n siŵr y byddwch yn ailystyried eich diffyg cefnogaeth i’n gwelliant gostyngedig.

**Edwina Hart:** I did mean to be that harsh in respect of the amendment, because it is not particularly useful, given the excellent discussion that we have had on the issues that affect our constituents.

**Edwina Hart:** Roeddwn yn bwriadu bod yn llym o safbwynt y gwelliant, oherwydd nid yw’n arbennig o ddefnyddiol, o ystyried y drafodaeth ragorol inni ei chael ar y materion sy’n effeithio ar ein hetholwyr.

It is also important that we recognise the contribution of money that we have had from the UK Government. It had announced that Belfast, Cardiff, Edinburgh and London would each receive support from the new £100 million urban broadband fund over the next three years. These cities will be joined by six other cities drawn from a short list of 10 published in December. All participating cities, including Cardiff, will be required to produce strong proposals to secure the funding, following the UK Government’s published guidelines. Proposals are required to demonstrate how each city will maximise the availability of the ultra-fast broadband, drive up the take-up of digital services and focus on SMEs and strategic employment zones to support economic growth. Cardiff Council is taking the lead on that, although we are in close contact and working with it at official level.

Mae hefyd yn bwysig inni gydnabod y cyfraniad ariannol a gawsom gan Lywodraeth y DU. Roedd wedi cyhoeddi y byddai Belfast, Caerdydd, Caeredin a Llundain i gyd yn derbyn cefnogaeth gan y gronfa band eang trefol newydd sydd werth £100 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Bydd y dinasoedd hyn yn ymuno â chwe dinas arall a dynnwyd oddi ar restr fer o 10 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. Bydd yn ofynnol i’r holl ddinasoedd sy’n cymryd rhan, gan gynnwys Caerdydd, lunio cynigion cryf i sicrhau’r cyllid, gan ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Mae’r cynigion yn ofynnol i ddangos sut y bydd pob dinas yn sicrhau bod y band eang tra chyflym ar gael yn eang, yn cynyddu’r nifer sy’n manteisio ar wasanaethau digidol ac yn canolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig ac ardaloedd cyflogaeth strategol i gefnogi twf economaidd. Mae Cyngor Caerdydd yn cymryd yr awenau ar hynny, er ein bod mewn cysylltiad agos ac yn gweithio gyda’r cyngor ar lefel swyddogol.

The inclusion of Cardiff for the additional resource is welcome in terms of how we approach issues across Wales. The additional funding must add value to what is already going on, because there cannot be replacement for funding; it must add value to ensure that Cardiff stands out as a key global broadband leader. Emphasis should not be on coverage and reach; it should focus on economic return. That was the intention of the UK Government when it looked at the scheme.

Mae cynnwys Caerdydd ar gyfer yr adnodd ychwanegol yn cael ei groesawu o ran sut rydym yn ymdrin â materion ar draws Cymru. Rhaid i’r cyllid ychwanegol ychwanegu gwerth at yr hyn sy’n digwydd eisoes, gan na all unrhyw beth gymryd lle cyllid; rhaid iddo ychwanegu gwerth i sicrhau bod Caerdydd yn sefyll allan fel arweinydd allweddol band eang yn fyd-eang. Ni ddylai’r pwyslais fod ar ehangder y ddarpariaeth nac ar ei gyrhaeddiad; dylai ganolbwyntio ar y budd economaidd. Dyna oedd bwriad Llywodraeth y DU pan edrychodd ar y cynllun.

This funding allocation has the potential to contribute positively to Cardiff’s economic growth agenda and to help boost the Welsh economy. We will work with Cardiff Council on its proposals. Given that we now have the business district and the enterprise zone in

Mae gan y dyraniad cyllid hwn y potensial i gyfrannu’n gadarnhaol at agenda twf economaidd Caerdydd ac i helpu i hybu economi Cymru. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd ar ei gynigion. O gofio bod gennym bellach ardal fusnes a’r ardal

Cardiff, with the potential to attract more financial and professional services, it will be useful in terms of what the economy of Cardiff and Wales requires.

fenter yng Nghaerdydd, gyda'r potensial i ddenu mwy o wasanaethau ariannol a phroffesiynol, bydd yn ddefnyddiol o ran yr hyn sydd ei angen ar economi Caerdydd a Chymru.

I appreciate the level of feeling on issues about not spots. I represent Gower, and I constantly receive letters about not spots and the difficulties. You sometimes have people suggesting that we should have satellites, but we must also consider the fact that we are in an area of outstanding natural beauty. It is also important to recognise that, in tourism terms, we sometimes have the ludicrous position of people who are staying in country house hotels walking right to its boundary and waving their mobile phones in the air, to see whether they can get reception. When people come for short breaks and other opportunities in Wales, they want to be able to conduct their business.

Rwy'n gwerthfawrogi lefel yr ymdeimlad ar faterion yn ymwneud â mannau gwan. Rwy'n cynrychioli'r Gŵyr, ac rwy'n derbyn llythyrau'n gyson ynghylch mannau gwan a'r anawsterau o ran hynny. Bydd pobl weithiau'n awgrymu y dylem gael lloerennau, ond rhaid inni hefyd ystyried y ffaith ein bod mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod, o ran twristiaeth, ein bod weithiau'n dod ar draws sefyllfa chwerthinllyd lle bydd pobl sy'n aros mewn gwestai gwledig mawr yn cerdded hyd at eu terfyn ac yn chwifio'u ffonau symudol yn yr aer, er mwyn gweld os allant gael signal. Pan fydd pobl yn dod i Gymru am wyliau byr a chyfleoedd eraill,  maent am allu cynnal eu busnes.

Alun Ffred Jones made a good point on the mobile phone issue. We are working with Ofcom and the mobile industry to identify mobile coverage gaps and the barriers there. It is important that we secure our fair share of the UK Government's recent allocation of £150 million to improve mobile coverage. Thank you for the opportunity to respond to the debate.

Gwnaeth Alun Ffred Jones bwynt da ynghylch ffonau symudol. Rydym yn gweithio gydag Ofcom a'r diwydiant ffonau symudol i nodi bylchau mewn darpariaeth ffonau symudol a'r rhwystrau yn hynny o beth. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau cyfran deg o ddyraniad diweddar Llywodraeth y DU o £150 miliwn i wella signal ffonau symudol. Diolch am y cyfle i ymateb i'r ddadl.

**Peter Black:** I thank all those who have taken part in this debate; it has been a good and constructive discussion, which highlights the importance of broadband with regard to Wales's economic prosperity and also to how people's daily lives can be affected by having good access or not having any access at all. That is underlined by some surveys. One in particular found that 73% of its respondents in Wales stated that they had made savings through activities such as buying something online rather than in shops. In fact, 71% compared prices online and 58% booked their travel online. Users in Wales are as likely as those in the UK as a whole to have experience of saving money through any of the online activities that were asked about and are more likely to have saved by buying goods online or by booking travel online. Therefore, with regard to people's daily lives

**Peter Black:** Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon; mae wedi bod yn drafodaeth dda ac adeiladol, sy'n amlygu pwysigrwydd band eang o ran ffyniant economaidd Cymru a hefyd sut yr effeithir ar fywydau beunyddiol pobl drwy gael mynediad band eang da neu drwy beidio â chael unrhyw fynediad o gwbl. Tanlinellir hynny gan rai arolygon. Nododd un yn arbennig fod 73% o'i ymatebwyr yng Nghymru wedi datgan eu bod wedi gwneud arbedion drwy weithgareddau fel prynu rhywbeth ar-lein yn hytrach nag mewn siopau. Yn wir, roedd 71% yn cymharu prisiau ar-lein a 58% yn gwneud eu trefniadau teithio ar-lein. Mae defnyddwyr yng Nghymru yr un mor debygol â'r rhai yn y DU yn gyffredinol i gael profiad o arbed arian drwy unrhyw un o'r gweithgareddau ar-lein a ofynnwyd amdanynt ac yn fwy tebygol

and the transactions that they undertake—for example those for their daily shop, their holidays and, as has been pointed out, those regarding fuel tariffs—purchasing things online is crucial in getting value for money and in ensuring that people's stretched budgets can meet the demands that are made upon them.

o fod wedi arbed arian drwy brynu nwyddau ar-lein neu drwy archebu teithiau ar-lein. Felly, mewn perthynas â bywydau beunyddiol pobl a'u gweithrediadau ariannol—er enghraifft o ran eu siopa dyddiol, eu gwyliau ac, fel y nodwyd, o ran prisiau tanwydd—mae prynu pethau ar-lein yn hanfodol i bobl er mwyn iddynt gael gwerth am arian ac o ran sicrhau y gall eu cyllidebau, sydd eisoes o dan bwysau, gwrdd â'r galw.

Eluned Parrott made the point that, for many people, the only way that they can change their fuel tariff is online. William Powell also referred to the Gary Speed memorial match, for which you must be online to be able to get tickets. There is a whole range of other examples that have been mentioned during this debate that underline that point. Not spots are an economic hindrance for businesses. If they cannot compete online, then they simply cannot compete. Broadband access for business is therefore the key to economic prosperity. As Nick Ramsay said, we are becoming more dependent on the internet, so it is important that we get the roll-out right.

Gwnaeth Eluned Parrott y pwynt mai drwy'r we yn unig y gall lawer o bobl newid eu tariff tanwydd. Cyfeiriodd William Powell hefyd at y ffaith bod yn rhaid ichi fod ar-lein er mwyn gallu cael tocynnau ar gyfer gêm goffa Gary Speed. Mae ystod eang o enghreifftiau eraill a grybwyllwyd yn ystod y ddadl hon yn tanlinellu'r pwynt hwnnw. Mae mannau gwan yn rhwystr economaidd ar gyfer busnesau. Os na allant gystadlu ar-lein, yna, yn syml, ni allant gystadlu. Mynediad band eang ar gyfer busnes, felly, yw'r allwedd i ffyniant economaidd. Fel y dywedodd Nick Ramsay, rydym yn dod yn fwy dibynnol ar y rhyngrwyd, felly mae'n bwysig ein bod yn ei gyflwyno yn iawn.

Broadband take-up in Wales currently stands at 64% compared with a UK average of 71%. Broadband take-up in rural areas is higher, at 69%, than in urban areas, where it is 62%. That is despite the fact that people in rural Wales are less likely to have a choice of supplier, 3G signal or superfast connections. Those statistics underline the importance of this debate.

Mae'r gyfran sy'n manteisio ar wasanaethau band eang yng Nghymru ar hyn o bryd yn 64% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 71%. Mae'r gyfran sy'n manteisio ar fand eang mewn ardaloedd gwledig yn uwch, ar 69%, nag mewn ardaloedd trefol, lle mae'n 62%. Mae hynny, er gwaethaf y ffaith fod pobl yn y Gymru wledig yn llai tebygol o gael dewis o gyflenwr, signal 3G neu gysylltiadau band eang cyflym iawn. Mae'r ystadegau hynny' tanlinellu pwysigrwydd y ddadl hon.

I want to respond to a couple of points that were made during the debate. Alun Ffred Jones, in responding to the motion, said that all that Wales is getting is the crumbs off the UK table. As with Labour's amendment 2, at least the UK Government is investing in broadband. It may be a Welsh Government scheme now, but without the UK Government, there would not be a scheme. If Plaid Cymru, the Welsh national party, had its way, there would not only be no crumbs, but no table at all. I am astonished that such an important debate has been reduced to such

Rwyf am ymateb i un neu ddau o bwyntiau a wnaethpwyd yn ystod y ddadl. Wrth ymateb i'r cynnig, dywedodd Alun Ffred Jones mai briwsion yn unig oddi ar fwrdd y DU y mae Cymru'n ei gael. Fel gyda gwelliant 2 Llafur, o leiaf mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn band eang. Efallai mai cynllun Llywodraeth Cymru ydyw yn awr, ond heb Lywodraeth y DU, ni fyddai unrhyw gynllun. Pe bai Plaid Cymru, plaid genedlaethol Cymru, yn cael ei ffordd, ni fyddai unrhyw friwsion, heb sôn am fwrdd. Yr wyf yn synnu fod y fath ddadl bwysig wedi diweddu mewn

pettiness. However, it is worth noting that the £56.9 million that we have received from Westminster is nearly three times as much as Wales would have got if the Barnett formula had been applied. This is not, in fact, a Barnettised contribution; it is actually more than you would have got if it had been applied. Therefore, these are not crumbs by any stretch of the imagination.

bychander o'r fath. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y £56.9 miliwn a gawsom gan San Steffan bron dair gwaith cymaint ag y byddai Cymru wedi'i gael petai fformiwla Barnett wedi'i ddefnyddio. Nid yw hyn, mewn gwirionedd, yn gyfraniad ar sail fformiwla Barnett; y mae, mewn gwirionedd, yn fwy nag y byddech wedi'i gael petai wedi'i ddefnyddio. Felly, nid yw'r rhain yn friwsion mewn unrhyw fodd.

Kirsty makes a strong case regarding market failure in providing broadband and mobile services in her constituency. A good example of this is, of course, in Hay-on-Wye, where, once a year, half of middle England and a huge chunk of Welsh society decamp for the Hay festival, only to find that they cannot connect to mobile services. Never mind 4G, you cannot get 1G there. That is a clear market failure, which undermines the festival and people's willingness to return, which is something that I would hope that the market picks up and deals with.

Mae Kirsty yn cyflwyno achos cryf ynghylch methiant yn y farchnad wrth ddarparu gwasanaethau band eang a symudol yn ei hetholaeth. Mae enghraifft dda o hyn, wrth gwrs, yn y Gelli Gandryll, lle, unwaith y flwyddyn, y daw hanner canol Lloegr a darn mawr o gymdeithas Gymreig ar gyfer gŵyl y Gelli, dim ond i ddod i ddeall na allant gysylltu â gwasanaethau symudol. Bid a fo am 4G, ni allwch gael 1G yno. Mae hynny'n fethiant clir yn y farchnad, sy'n tanseilio'r ŵyl a pharodrwydd pobl i ddychwelyd, ac rwy'n gobeithio y bydd y farchnad yn cael gafael arno ac yn gwneud rhywbeth amdano.

The Minister says that the Government has been successful in tackling broadband not spots and, because of that, she wants to delete the third point of this motion. That point is not a criticism of the work that the Government has done so far, but it is recognition that, as illustrated by this debate, not spots still exist and that there is a lot of work still to be done. That is why I find it sad that the Government wants to delete that point. The Minister is right that Wales is ahead of the game, but there is much more to do, and I am pleased that money is available from the UK Government to build on that work in partnership. We need to celebrate what we have achieved, but we must also plough on and work to plug the gaps where they exist. Wales's prosperity depends on it.

Dywed y Gweinidog fod y Llywodraeth wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â mannau gwan band eang ac, oherwydd hynny, mae hi am gael dileu trydydd pwynt y cynnig hwn. Nid yw'r pwynt hwnnw'n feirniadaeth o'r gwaith y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud hyd yma, ond fel y dangosir gan y ddadl hon, mae'n gydnabyddiaeth bod mannau gwan yn dal i fodoli a bod llawer o waith eto i'w wneud. Dyna pam yr wyf yn tristáu bod y Llywodraeth yn awyddus i ddileu'r pwynt hwnnw. Mae'r Gweinidog yn iawn fod Cymru ar y blaen, ond mae llawer mwy i'w wneud, ac rwyf yn falch bod arian ar gael gan Lywodraeth y DU i adeiladu ar y gwaith hwnnw mewn partneriaeth. Rhaid inni ddathlu'r hyn rydym wedi'i gyflawni, ond rhaid inni hefyd fwrw ati a gweithio i gau'r bylchau lle maent yn bodoli. Mae ffyniant Cymru yn dibynnu ar hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time, which will now follow. Before we proceed, do three Members wish for the bell to be rung? I see that they do not, so we will proceed

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sydd i ddilyn. Cyn inni symud ymlaen, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes neb yn dymuno hynny, felly

immediately to the votes.

symudwn yn syth at y pleidleisiau.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4893: O blaid 10, Ymatal 0, Yn erbyn 45.*
*Motion NDM4893: For 10, Abstain 0, Against 45.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4893: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 28.*
*Amendment 1 to NDM4893: For 28, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4893: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 2 to NDM4893: For 29, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark

Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4893: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 29.*
*Amendment 3 to NDM4893: For 27, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4893: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 39.*
*Amendment 4 to NDM4893: For 17, Abstain 0, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4893 fel y'i diwygiwyd:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros GIG Cymru a'r ddarpariaeth o dros £5 biliwn i Fyrddau Iechyd Lleol i gyflenwi gwasanaethau iechyd.*

*Motion NDM4893 as amended:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Acknowledges the Welsh Government's responsibility for the Welsh NHS and its provision of over £5 billion to Local Health Boards to deliver health services.*

*Cynnig NDM4893 fel y'i diwygiwyd: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Motion NDM4893 as amended: For 29, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Jocelyn

Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4893 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4893 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4894: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 51.*
*Motion NDM4894: For 5, Abstain 0, Against 51.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann

Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4894: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 17.*
*Amendment 1 to NDM4894: For 39, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*
*Amendments 2 and 3 deselected.*

*Gwelliant 4 i NDM4894: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 4 to NDM4894: For 29, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol.*
*Amendment 5 deselected.*

*Gwelliant 6 i NDM4894: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 29.*
*Amendment 6 to NDM4894: For 27, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Jocelyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun

Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4894 fel y'i diwygiwyd:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi'r dyraniadau diweddar o gyllid cyhoeddus ar gyfer darparu band eang.*

*Motion NDM4894 as amended:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes recent allocations of public funding for the provision of broadband.*

6.00 p.m.

*Cynnig NDM4894 fel y'i diwygiwyd: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 12.*
*Motion NDM4894 as amended: For 44, Abstain 0, Against 12.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM4894 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4894 as amended agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Mae gan Bobl Hŷn Hawliau Hefyd
### Older People Have Rights Too

**The Deputy Presiding Officer:** Will those Members who are leaving please do so quickly and quietly?

**Y Dirprwy Lywydd:** A wna'r Aelodau sy'n gadael wneud hynny'n gyflym ac yn dawel, os gwelwch yn dda?

**Darren Millar:** In opening this debate, I have agreed to give Mark Isherwood, Mike Hedges, Rebecca Evans, Mohammad Asghar and William Powell a minute each of my time.

**Darren Millar:** Wrth agor y ddadl hon, rwyf wedi cytuno i roi munud bob un o fy amser i Mark Isherwood, Mike Hedges, Rebecca Evans, Mohammad Asghar a William Powell.

As a nation, we should be proud that many of us are living longer and that more of us are healthier in our old age than ever before. Wales has the highest proportion of older people in the United Kingdom, with almost one in four people aged over 60. Age Alliance Wales has predicted that, within the next 25 years, the number of people over 65 in Wales will increase by a staggering 33%. This considerable change in our demographic cannot go unnoticed; the diversity in a growing older population means that there will be greater variation than ever before in their needs and requirements.

Fel cenedl, dylem fod yn falch bod llawer ohonom yn byw'n hirach a bod mwy ohonom yn iachach yn ein henaint nag erioed o'r blaen. Cymru sydd â'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y Deyrnas Unedig, ac mae bron un o bob pedwar o bobl yng Nghymru dros 60 oed. Mae Cynghrair Henoed Cymru wedi rhagweld y bydd nifer y bobl dros 65 oed yng Nghymru yn cynyddu o swm anhygoel o 33% o fewn y 25 mlynedd nesaf. Ni ellir peidio â chydnabod y newid sylweddol hwn yn ein cyfansoddiad demograffig; mae'r amrywiaeth mewn poblogaeth gynyddol hŷn yn golygu y bydd mwy o amrywiaeth nag erioed o'r blaen yn eu hanghenion a'u

gofynion.

While some have complained that such an increase in the number of older people will increase the pressure on services such as healthcare and social care, one must not underestimate the enormous contribution that people over the age of 65 make to our country. The WRVS has estimated that people over the age of 65 made a massive net contribution in excess of £1 billion to the Welsh economy in 2010. Furthermore, it is estimated that the value of the childcare provided by grandparents in Wales is £259 million, and the value of the volunteer work done by older people is put at £469 million. It is therefore clear that older people's contribution to society is huge, in economic terms and through family support or volunteering.

Er bod rhai wedi cwyno y bydd cynnydd o'r fath yn nifer y bobl hŷn yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau megis gofal iechyd a gofal cymdeithasol, ni ddylid tanamcangyfrif y cyfraniad enfawr y mae pobl dros 65 oed yn ei wneud i'n gwlad. Mae Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched wedi amcangyfrif bod pobl dros 65 oed wedi gwneud cyfraniad net anferth o fwy na £1 biliwn i economi Cymru yn 2010. Yn ogystal, amcangyfrifir mai gwerth y gofal plant a ddarperir gan deidiau a neiniau yng Nghymru yw £259 miliwn, a thybir mai gwerth y gwaith gwirfoddol a wneir gan bobl hŷn yw £469 miliwn. Felly, mae'n amlwg bod cyfraniad pobl hŷn i'r gymdeithas yn enfawr, mewn termau economaidd a thrwy gymorth i deuluoedd neu wirfoddoli.

However, there will also be people in this demographic who need support themselves. For example, to you or me, using the internet to find a telephone number or to buy something may be straightforward, but at a time when an increasing number of public services can be accessed online, 57% of people over the age of 65 have never used the internet. That may seem like a light-hearted, throwaway statistic in a debate about the rights of older people, but it is a real issue if you are on a fixed income and unable to access the cheaper goods and services that are available online. Older people can become excluded and unable to access those services that you or I might take for granted.

Fodd bynnag, bydd pobl yn y grŵp demograffig hwn sydd angen cynnal eu hunain. Er enghraifft, i chi neu fi, gall defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i rif ffôn neu brynu rhywbeth fod yn dasg syml, ond ar adeg pan ellir defnyddio nifer cynyddol o wasanaethau cyhoeddus ar-lein, nid yw 57% o bobl dros 65 oed erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd. Efallai fod hynny'n swnio fel ystadegyn ysgafn a di-daro mewn dadl am hawliau pobl hŷn, ond mae'n fater go iawn os ydych ar incwm sefydlog ac yn methu â chael mynediad i'r nwyddau rhatach a'r gwasanaethau sydd ar gael ar-lein. Gall pobl hŷn gael eu heithrio ac efallai na fyddant yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hynny y gallech chi neu fi eu cymryd yn ganiataol.

There are a number of areas in which older people may need extra support or assistance compared with the rest of the population. They are frequent users of public services, they can be more dependent on the care of others, and they may be subject to age discrimination. Older people are often disproportionately affected by the closure of local facilities, such as public conveniences, banks, libraries, post offices and hospitals, or by the withdrawal of important public transport services, such as bus routes. All of these situations can make older people vulnerable and put them at greater risk of having their rights violated.

Mae nifer o feysydd lle y gallai fod angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol ar bobl hŷn o'u cymharu â gweddill y boblogaeth. Maent yn ddefnyddwyr rheolaidd o wasanaethau cyhoeddus, gallant fod yn fwy dibynnol ar ofal pobl eraill, ac efallai eu bod yn destun gwahaniaethu ar sail oed. Yn aml, ceir effaith anghymesur ar bobl hŷn pan fydd cyfleusterau lleol yn cau, gan gynnwys cyfleustodau cyhoeddus, banciau, llyfrgelloedd, swyddfeydd post ac ysbytai, neu pan fydd gwasanaethau cludiant cyhoeddus pwysig, megis llwybrau bysiau, yn cael eu dileu. Gall pob un o'r sefyllfaoedd hyn beri i bobl hŷn fod yn agored i niwed a gwaethygu'r perygl y bydd eu hawliau'n cael

eu sathru arnynt.

The levels of long-term illness and disability, for example, are higher in Wales than they are in the rest of Britain. Some 50% of people between 65 and 85, and 80% of people over the age of 85, have a long-term, limiting illness. Many people will be caring for a spouse or a relative, such as a sibling. According to Age Alliance Wales, compared with the rest of the UK, we have a higher number of older carers who are often in poor health themselves.

Mae lefelau salwch tymor hir ac anabledd, er enghraifft, yn uwch yng Nghymru nag ydynt yng ngweddill Prydain. Mae tua 50% o bobl rhwng 65 a 85, a 80% o bobl dros 85 oed, â salwch tymor hir, cyfyngus. Bydd llawer o bobl yn gofalu am briod neu berthynas, fel brawd neu chwaer. Yn ôl Cynghrair Henoed Cymru, o gymharu â gweddill y DU, mae gennym nifer uwch o ofalwyr hŷn sydd yn aml ag iechyd gwael eu hunain.

Living with a long-term illness or disability can be challenging and extremely difficult, even more so when one’s carer is also in poor health. There are often extreme levels of emotional stress, physical difficulties and other pressures that a large section of the population is now having to deal with. However, many older people do not have anybody else close by. A third of those over the age of 65 and half of those over the age of 85 live alone. It is easy to see a lonely and difficult situation emerging in which a person becomes very vulnerable and at risk of having their rights violated. Were we not all appalled at the older people’s commissioner’s report on dignity in care? In addition to that, research indicates that Wales has the highest prevalence of elder abuse, with a rate of 6% compared with 4.3% in Scotland, 3.9% in England, and just 3% in Northern Ireland—half the rate in Wales. Six per cent equates to 39,000 older people in Wales who are abused in their own homes, and that does not take into account those in hospitals or care homes. However, the total number of adult abuse referrals in 2009-10 was just 4,913, despite an estimated 39,000 cases. That leaves 35,000 or thereabouts who have not been reported. The system is not identifying abuse cases, and victims do not feel empowered to tell people about their situation.

Gall byw gyda salwch tymor hir neu anabledd fod yn heriol ac yn anodd iawn, hyd yn oed yn fwy felly pan fydd y gofalwr hefyd ag iechyd gwael. Yn aml, mae lefelau eithafol o straen emosiynol, anawsterau corfforol a phwysau eraill y mae rhan helaeth o’r boblogaeth bellach yn gorfod delio â hwy. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o bobl hŷn neb arall gerllaw. Mae traean o’r rheini sydd dros 65 oed, a hanner y rheini dros 85 oed, yn byw eu hunain. Mae’n hawdd dychmygu sefyllfa unig ac anodd yn dod i’r amlwg lle y mae person yn dod yn agored iawn i niwed ac mewn perygl o gael eu hawliau wedi’u sathru arnynt. Onid oeddem i gyd wedi ein brawychu gan adroddiad y comisiynydd pobl hŷn ar urddas mewn gofal? Yn ogystal â hynny, mae ymchwil yn dangos bod gan Gymru’r nifer uchaf o achosion o gam-drin yr henoed, gyda chyfradd o 6% o gymharu â 4.3% yn yr Alban, 3.9% yn Lloegr a dim ond 3% yng Ngogledd Iwerddon—hanner y gyfradd yng Nghymru. Mae 6% yn cyfateb i 39,000 o bobl hŷn yng Nghymru sy’n cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain, ac nid yw hynny’n cynnwys y rheini sydd mewn ysbytai neu gartrefi gofal. Fodd bynnag, dim ond 4,913 oedd cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau ynghylch cam-drin oedolion yn 2009-10, er gwaethaf amcangyfrif o 39,000 achos. Mae hynny’n gadael tua 35,000 nad ydynt wedi cael eu hadrodd. Nid yw’r system yn nodi achosion o gam-drin, ac nid yw dioddefwyr yn teimlo wedi’u grymuso i ddweud wrth bobl am eu sefyllfa.

Despite the sobering statistics, I must emphasise that not all older people will face situations that make them vulnerable. We cannot ignore situations in which vulnerabilities arise. It is clear from these

Er gwaethaf yr ystadegau sobreiddiol, rhaid imi bwysleisio na fydd pob person hŷn yn wynebu sefyllfaoedd sy’n eu gwneud yn agored i niwed. Ni allwn anwybyddu sefyllfaoedd sy’n codi lle y mae pobl yn

statistics alone that more can and must be done to protect older people at risk in Wales by raising awareness and by strengthening protection. After giving an overview of how and why older people may find themselves in situations where they are vulnerable, I want to look now at the fundamental issue in this debate: rights. Rights carry underpinning principles of fairness, respect, equality, dignity and autonomy. These basic human rights principles should be mainstreamed in policy development and in the practical delivery of services. In this context, that means services to older people. There is no reason why an older person should be any less able to access these principles when compared with any other section of Welsh society.

agored i niwed. Mae'n amlwg o'r ystadegau hyn yn unig y gellir gwneud mwy a bod yn rhaid gwneud hynny i amddiffyn pobl hŷn sydd mewn perygl yng Nghymru drwy godi ymwybyddiaeth a thrwy gryfhau'r modd y'u diogelir. Ar ôl bwrw golwg ar sut a pham y gall pobl hŷn eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd lle y maent yn agored i niwed, rwyf am edrych yn awr ar y mater sylfaenol yn y ddadl hon: hawliau. Mae hawliau'n cynnwys egwyddorion sylfaenol tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth. Dylai'r egwyddorion hawliau dynol sylfaenol hyn gael eu prif-ffrydio wrth ddatblygu polisi ac wrth ddarparu gwasanaethau yn ymarferol. Yn y cyd-destun hwn, mae hynny'n golygu gwasanaethau i bobl hŷn. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai person hŷn fod yn llai abl i fod yn destun i'r egwyddorion hyn o gymharu ag unrhyw ran arall o gymdeithas Cymru.

I know that, across this Chamber, we all want to work towards that very same outcome, of removing the risk of any inhuman or degrading treatment that an older person may experience—for example, when denied the right to use a toilet in a hospital ward, or the abuse that they may experience when a relative or carer is abusing their position to steal money. However, in this discussion about rights, we must be aware of the potential difficulty in their practical implementation in relation to older people. As Professor John Williams from Aberystwyth University has explained, there is a delicate balance between upholding a person's rights against abuse and in respecting their autonomy. This should always be at the forefront of our minds when adult protection measures are devised or implemented. We have a situation in Wales that cannot and must not be ignored, and we have some difficulties in providing these rights alongside their effective implementation while allowing people to maintain a degree of autonomy. However, the main sticking point when it comes to an older person's protection at the moment comes down to the existence, or lack thereof, of measures in the first place. At present, there is no single legislative framework to safeguard older people in Wales. There is nothing that sets out clear responsibilities, or powers, for the various agencies that exist.

Rwyf yn gwybod ein bod, ar draws y Siambr, yn awyddus i weithio tuag at yr un canlyniad, sef cael gwared ar y risg o unrhyw driniaeth annynol neu ddiraddiol y gall person hŷn ei brofi—er enghraifft, pan wrthodir yr hawl i ddefnyddio'r toiled mewn ward ysbyty iddynt, neu pan gânt eu cam-drin efallai pan fydd perthynas neu ofalwr yn camddefnyddio'u safle i ddwyn arian. Fodd bynnag, yn y drafodaeth hon am hawliau, rhaid inni fod yn ymwybodol o'r anhawster posibl wrth eu gweithredu'n ymarferol mewn perthynas â phobl hŷn. Fel yr esboniodd yr Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth, mae cydbwysedd gofalus i'w daro rhwng cynnal hawliau person yn erbyn cam-drin a pharchu eu hymreolaeth. Dylai hyn bob amser fod ar flaen ein meddyliau pan fydd mesurau i amddiffyn oedolion yn cael eu llunio neu eu gweithredu. Mae gennym sefyllfa yng Nghymru na ddylid ei hanwybyddu, ac mae gennym rai anawsterau o ran darparu'r hawliau hyn ochr yn ochr â'u gweithredu'n effeithiol a chaniatáu i bobl gadw rhywfaint o'u hannibyniaeth. Fodd bynnag, y prif anhawster o ran diogelu pobl hŷn ar hyn o bryd yw diffyg mesurau yn y lle cyntaf. Ar hyn o bryd, nid oes un fframwaith deddfu i ddiogelu pobl hŷn yng Nghymru. Nid oes dim sy'n nodi cyfrifoldebau na phwerau clir ar gyfer y gwahanol asiantaethau. Mae gan ddeddfwriaeth y gallu i nodi dyletswyddau a phwerau er mwyn

Legislation has the ability to set out duties and powers in order to provide protection for vulnerable older people in Wales. There are various laws that can be used to protect adults at risk, but the powers lie in lots of different pieces of legislation. For example, Age Cymru's Rule Out Abuse charter highlights the fact that there is no clear statutory duty on local authorities to investigate cases of abuse or potential abuse. It also highlights the clear need for greater multi-agency co-operation to ensure that no-one falls through the net. I have to say that it is an excellent charter, and I encourage every Assembly Member to subscribe to it and to give it their support.

diogelu'r bobl hŷn sy'n agored i niwed yng Nghymru. Mae amryw o gyfreithiau y gellir eu defnyddio i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl, ond mae'r pwerau yn gorwedd mewn llawer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae siarter Diwedd Ar Gam-Drin Age Cymru yn tynnu sylw at y ffaith nad oes dyletswydd statudol glir ar awdurdodau lleol i ymchwilio i achosion o gam-drin neu gam-drin posibl. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen clir am fwy o gydweithio amlasiantaethol i sicrhau nad oes neb yn disgyn drwy'r rhwyd. Mae'n rhaid imi ddweud ei bod yn siarter ardderchog, ac rwyf yn annog pob Aelod Cynulliad i'w harddel a'i chefnogi.

Service users, or their companions, at present have to navigate their way through various laws and sometimes difficult processes, and it makes it awkward for those at risk, or even those who are supposed to be providing the protection, to understand what is available and what is required of them. Last year, the Assembly passed legislation forcing Ministers to pay due regard to the UN convention on the rights of the child, through the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which of course was subscribed to and supported on all sides of the Assembly. It was a groundbreaking piece of legislation, and something that we were all proud to support, but the development of the protection of children through legislation has made me acutely aware of the black hole that exists in terms of similar protection for older people, where we have no such legislation, and nor is any legislation in the pipeline. It was that champion of older people in Wales, Ruth Marks, the Older People's Commissioner for Wales, who said

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth, neu eu cymdeithion, lywio eu ffordd drwy amryw o gyfreithiau a phrosesau sy'n gallu bod yn anodd, ac mae'n ei gwneud yn lletchwith i'r rhai sydd mewn perygl, neu hyd yn oed y rhai sydd i fod i ddiogelu, ddeall yr hyn sydd ar gael a'r hyn sy'n ofynnol arnynt. Y llynedd, cymeradwyodd y Cynulliad ddeddfwriaeth a oedd yn gorfodi Gweinidogion i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yr oedd pob plaid yn y Cynulliad yn ei arddel ac yn ei gefnogi. Roedd yn ddarn o ddeddfwriaeth arloesol, ac yn rhywbeth yr ydym i gyd yn falch o'i gefnogi, ond mae datblygiad y gwaith o ddiogelu plant drwy ddeddfwriaeth wedi amlygu i mi'r twll du sy'n bodoli o ran diogelwch tebyg ar gyfer pobl hŷn. Nid oes gennym ddeddfwriaeth o'r fath yn y maes hwnnw, ac nid oes unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath ar y gweill. Hyrwyddwr dros bobl hŷn yng Nghymru, sef Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a ddywedodd

'there are real opportunities for the Welsh Government to use its newly acquired law-making powers to give adult protection proper recognition.'

'bod yna gyfleoeodd gwirioneddol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau i ddeddfu y maen nhw newydd eu sicrhau i roi cydnabyddiaeth iawn i amddiffyn oedolion'.

That is why I want to use this debate today to call on the Welsh Government to bring forward legislation on the rights of older people. Such legislation ought to be a priority. The commissioner has said that there is strong support for a legal framework to tackle elder abuse more effectively. We need

Dyna pam rwyf am ddefnyddio'r ddadl hon heddiw i alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar hawliau pobl hŷn. Dylai deddfwriaeth o'r fath fod yn flaenoriaeth. Mae'r comisiynydd wedi dweud bod cefnogaeth gref i fframwaith cyfreithiol i fynd i'r afael â cham-drin yr henoed yn fwy

a clear, robust legal framework for Wales to ensure that all agencies that support and protect vulnerable adults clearly understand their duties and powers.

effeithiol. Mae angen fframwaith cyfreithiol clir a chadarn ar gyfer Cymru i sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n cefnogi ac yn diogelu oedolion sy'n agored i niwed yn deall yn glir eu dyletswyddau a'u pwerau.

We know that the forthcoming social services Bill will give us an opportunity to strengthen adult protection procedures, but I do not think that that goes far enough. Given that we have legislation on the statute book in respect of children and younger people, older people deserve their own piece of legislation to protect their rights, too. These duties should include a duty to investigate and co-operate. These elements should all be included within such legislation. The legislation should also clarify the rights of older people. It could, for example, be based on the UN principles for older persons. The decision should clarify who is responsible for protecting them and it should place a very clear duty on Welsh Ministers to pay regard to those rights when taking decisions.

Rydym yn gwybod y bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol sydd ar y gweill yn rhoi cyfle inni gryfhau gweithdrefnau i amddiffyn oedolion, ond nid wyf yn meddwl bod hynny'n mynd yn ddigon pell. O ystyried fod gennym ddeddfwriaeth ar y llyfr statud mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, mae pobl hŷn hefyd yn haeddu deddf i ddiogelu eu hawliau. Dylai'r dyletswyddau hyn gynnwys dyletswydd i ymchwilio a chydweithredu. Dylai'r rhain oll fod yn elfennau sy'n cael eu cynnwys o fewn deddfwriaeth o'r fath. Dylai'r ddeddfwriaeth hefyd egluro hawliau pobl hŷn. Er enghraifft, gallai fod yn seiliedig ar egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn. Dylai'r penderfyniad egluro pwy sy'n gyfrifol am eu diogelu a dylai roi dyletswydd glir iawn ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r hawliau hynny wrth wneud penderfyniadau.

I would like to close by encouraging you, Deputy Minister, to look sympathetically—and I know that you will—on this call for extra protection for the rights of older people in Wales. I look forward to hearing your response and the contributions of others to this important debate.

Hoffwn gloi drwy eich annog chi, Ddirprwy Weinidog, i edrych gyda chydymdeimlad—ac yr wyf yn gwybod y byddwch—ar y galw hwn am ddiogelwch ychwanegol i hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed eich ymateb a chyfraniadau eraill i'r ddadl bwysig hon.

**Mark Isherwood:** Last week, I chaired the first annual Age Alliance Wales event in the Senedd. The key message at that event was that life expectancy is increasing, but levels of long-term illness and disability are higher in Wales than in the rest of Britain and, although increasing numbers of services in Wales are accessed online, 57% of people in Wales over the age of 65 have never used the internet. There were three key messages: older people and carers must have access to intervention and preventive care services; older people must be able to access learning and training; and older people must have support, information and access to reablement services.

**Mark Isherwood:** Yr wythnos diwethaf, cadeiriais ddigwyddiad blynyddol cyntaf Cynghrair Henoed Cymru yn y Senedd. Y neges allweddol yn y digwyddiad hwnnw oedd bod disgwyliad oes yn cynyddu, ond bod lefelau uwch o salwch tymor hir ac anabledd yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain, ac er bod nifer cynyddol o wasanaethau yng Nghymru ar gael ar-lein, nid yw 57% o bobl yng Nghymru dros 65 oed erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd. Roedd tair neges allweddol: mae'n rhaid i bobl hŷn a gofalwyr gael mynediad at ymyriadau a gwasanaethau gofal ataliol; mae'n rhaid i bobl hŷn gael mynediad at ddysgu a hyfforddiant; ac mae'n rhaid i bobl hŷn gael cymorth, gwybodaeth a mynediad at wasanaethau ailalluogi.

Parallel to this, Age Cymru's Rule Out

Yn gyfochrog â hyn, mae'r ymgyrch Diwedd

Abuse campaign has produced a substantial body of evidence indicating that thousands of older people across Wales are victims of abusive treatment, pointing to the need to strengthen adult protection arrangements. The Welsh Institute for Health and Social Care has said that safeguarding adults at risk of abuse who cannot protect their own interests must have the same legislative status and priority as protecting children. As Darren Millar has stated, older people have rights, too.

Ar Gam-Drin gan Age Cymru wedi casglu tystiolaeth sylweddol sy'n dangos bod miloedd o bobl hŷn ledled Cymru yn dioddef camdriniaeth, gan dynnu sylw at yr angen i gryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu oedolion. Dywedodd Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru fod yn rhaid i ddiogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin nad ydynt yn gallu amddiffyn eu buddiannau eu hunain gael yr un statws a blaenoriaeth ddeddfwriaethol â diogelu plant. Fel y dywedodd Darren Millar, mae gan bobl hŷn hawliau hefyd.

**Mike Hedges:** In some cultures, older people are treated as elders to whom people turn to learn from their wisdom and they are treated with veneration because of what they have done previously. Unfortunately, ours is not such a society. I will talk about one simple matter. Many elderly people do not go out as much as they could, or perhaps go out very little, solely because of the lack of public toilets. The Welsh Senate of Older People is currently campaigning to improve public toilet provision with its P is for People campaign. There are elderly people who have to plan their journeys so that they follow a route that allows them to go where there are public toilets. I know that local authorities do not have to provide public toilets, but some are closed without warning. You can turn up one day and there will be a lock on the door and, two days later, it has been knocked down. There should be a duty placed by local authorities, if they are going to close public toilets, to advertise the fact so that people know that that is happening. I hope that the Deputy Minister will give some thought to that.

**Mike Hedges:** Mewn rhai diwylliannau, mae pobl hŷn yn cael eu trin fel henuriaid y mae pobl yn troi atynt i ddysgu o'u doethineb, ac maent yn cael eu trin â pharch mawr oherwydd yr hyn y maent wedi'i wneud o'r blaen. Yn anffodus, nid yw ein cymdeithas ni yn gymdeithas o'r fath. Byddaf yn siarad am un mater syml. Mae llawer o bobl oedrannus nad ydynt yn mynd allan cymaint ag y gallent, neu sydd efallai yn mynd allan yn anaml iawn, oherwydd diffyg toiledau cyhoeddus yn unig. Mae Senedd Pobl Hŷn Cymru yn ymgyrchu ar hyn o bryd i wella'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus gyda'i ymgyrch P is for People. Mae pobl oedrannus sy'n gorfod cynllunio'u teithiau fel eu bod yn dilyn llwybr sy'n eu galluogi i fynd i leoedd lle mae toiledau cyhoeddus. Rwyf yn gwybod nad oes gorfodaeth ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus, ond mae rhai yn cael eu cau yn ddirybudd. Gallwch fynd yno un diwrnod a bydd clo ar y drws; ddeuddydd yn ddiweddarach, byddant wedi'u dymchwel. Os yw awdurdodau lleol yn cau toiledau cyhoeddus, dylai fod yn ddyletswydd arnynt i hysbysebu'r ffaith fel bod pobl yn gwybod bod hynny'n digwydd. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn ystyried hynnyt.

**Rebecca Evans:** I would like to focus my contribution on one particular area of older people's rights, namely healthcare. Ageing is the biggest single risk factor for breast cancer. According to Cancer Research UK, 81% per cent of breast cancers are diagnosed in women aged 50 or over. Despite this, women over 70 are not automatically invited for breast cancer screening. Having a cut-off age of 70 for invitations to screening wrongly suggests that the risk diminishes at this point,

**Rebecca Evans:** Hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad ar un maes penodol o hawliau pobl hŷn, sef gofal iechyd. Heneiddio yw'r ffactor sy'n achosi'r risg mwyaf o gael canser y fron. Yn ôl Cancer Research UK, mae 81% o achosion o ganser y fron yn cael eu canfod mewn merched 50 oed neu drosodd. Er hynny, nid yw menywod dros 70 yn cael eu gwahodd yn awtomatig i gael eu sgrinio am ganser y fron. Mae pennu 70 oed yn oedran terfyn ar gyfer gwahodd menywod i gael eu

because it does not. Worryingly, Breakthrough Breast Cancer has found that there is an incorrect perception among women that the risk is lower in those over the age of 70. Deputy Minister, will you consider removing what appears to be an arbitrary upper age limit for invitations for breast screening in order to deliver equality for women over 70 in healthcare provision? That would be their right under the Equality Act 2010. Will you undertake an awareness-raising exercise aimed at those over 70, so that they know that the risk does not diminish?

sgrinio yn awgrymu'n anghywir bod y risg yn lleihau yr adeg honno, gan nad yw'n gwneud hynny. Mae'n destun pryder bod Breakthrough Breast Cancer wedi canfod bod canfyddiad anghywir ymysg merched bod y risg yn is ymysg y rheini sydd dros 70 oed. Ddirprwy Weinidog, a wnewch ystyried diddymu'r hyn sy'n ymddangos yn derfyn oedran uchaf mympwyol ar gyfer gwahoddiadau i sgrinio'r fron er mwyn sicrhau cydraddoldeb i fenywod dros 70 mewn darpariaeth gofal iechyd? Byddai hynny'n hawl ganddynt o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A wnewch ymgymryd ag ymarfer codi ymwybyddiaeth sy'n targedu'r rheini dros 70, fel eu bod yn gwybod nad yw'r risg yn lleihau?

6.15 p.m.

**Mohammad Asghar:** It is vital that we preserve the rights and dignity of the elderly community in Wales. The Welsh Assembly Government has a duty to fulfil older people's strong desire to have care services that provide individually tailored packages of support to help them maintain their health and wellbeing as they grow older. Having a one-care-package-fits-all system is utterly inappropriate and it is the Welsh Government's responsibility to ensure that it meets the needs of an ageing population and that the elderly are not faced with isolation and inequality in later life. I am sure you are doing a wonderful job, but look at Plaid Cymru, where there is no single person with responsibility for this, and, in your own party, there are two people, one of whom is very young. It is vital that the Welsh Government promotes a national campaign to raise awareness of these issues.

**Mohammad Asghar:** Mae'n hanfodol ein bod yn gwarchod hawliau ac urddas y gymuned hŷn yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i gyflawni dymuniad cryf pobl hŷn i gael gwasanaethau gofal sy'n darparu pecynnau pwrpasol o gymorth i'w helpu i gynnal eu hiechyd a'u lles wrth iddynt heneiddio. Mae cael un pecyn gofal i bawb yn gwbl anaddas, a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau ei bod yn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau nad yw'r henoed yn wynebu unigedd ac anghydraddoldeb yn ddiweddarach mewn bywyd. Rwyf yn siŵr eich bod yn gwneud gwaith ardderchog, ond edrychwch ar Plaid Cymru, lle nad oes yr un person yn gyfrifol am y mater hwn, tra bo dau o bobl yn eich plaid eich hun ac mae un ohonynt yn ifanc iawn. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ynghylch y materion hyn.

**William Powell:** One of the most important things to get right in our society is to guarantee that health services and social services departments treat our elderly with the care and dignity that they deserve. Last year, we were pleased to see the older people's commissioner use her legal powers to review how local health boards were treating the older people in their care. At the time, there was plenty of evidence to suggest that many were not being treated as they deserved: for example, some were not being

**William Powell:** Un o'r pethau pwysicaf i'w gael yn iawn yn ein cymdeithas yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn trin yr henoed â'r gofal a'r urddas y maent yn eu haeddu. Y llynedd, roeddem yn falch o weld y comisiynydd pobl hŷn yn defnyddio ei phwerau cyfreithiol i adolygu sut oedd y byrddau iechyd lleol yn trin y bobl hŷn yn eu gofal. Ar y pryd, roedd digon o dystiolaeth i awgrymu nad oedd llawer ohonynt yn cael eu trin yn y modd roeddent yn ei haeddu: er

helped to use the bathroom or were not having sufficient assistance at feeding time. Alarmingly, many old people have seriously low expectations of care and many instances go unreported simply because they do not expect any better. The older people's commissioner says that the Welsh Government should be able to hold LHBs to account when they fail to meet basic standards. Given that we are seeing only limited progress in this area, the Government must monitor more effectively exactly what LHBs are delivering to ensure dignity in this vital area of our society.

enghraifft, nid oedd rhai yn cael cymorth i ddefnyddio'r ystafell ymolchi neu pan oeddent yn cael bwyd. Yr hyn sy'n peri pryder yw bod gan lawer o bobl hŷn ddisgwyliadau gofal isel iawn ac nid ydynt yn tynnu sylw at lawer o achosion am nad ydynt yn disgwyl dim gwell. Mae'r comisiynydd pobl hŷn yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru allu dwyn byrddau iechyd lleol i gyfrif pan fyddant yn methu â bodloni safonau sylfaenol. O ystyried mai dim ond ychydig o gynnydd rydym yn ei weld yn y maes hwn, rhaid i'r Llywodraeth fonitro'n fwy effeithiol yn union yr hyn y mae byrddau iechyd lleol yn ei wneud i sicrhau urddas yn y maes hanfodol hwn o'n cymdeithas.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I very much thank the shadow Minister for health for giving the Assembly an opportunity to discuss this important matter, as we begin this European Year of Active Ageing and Solidarity between Generations. As you know, I attach great importance to the rights of older people and I will take on board the comments of Mark Isherwood, Mike Hedges, Rebecca Evans, Mohammad Asghar and William Powell.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Diolch yn fawr iawn i Weinidog iechyd yr wrthblaid am roi cyfle i'r Cynulliad drafod y mater pwysig hwn, wrth inni ddechrau Blwyddyn Ewropeaidd Heneiddio'n Egnïol a Phontio'r Cenedlaethau. Fel y gwyddoch, rwyf yn ystyried hawliau pobl hŷn i fod yn bwysig iawn, a byddaf yn ystyried sylwadau Mark Isherwood, Mike Hedges, Rebecca Evans, Mohammad Asghar a William Powell.

The United Nations principles and the Madrid convention are already well accepted in Wales, and we have done much to embrace and implement them through our strategy for older people. Indeed, the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006 was the first piece of primary legislation in the UK to have the UN principles embedded within it. Equality is at the heart of the Welsh Government. It is fundamental to building a fair and inclusive society. It is also in everyone's best interests to make sure that we benefit from the talents of all our citizens. Moving forward means putting an end to the old-fashioned stereotyping of people because of their age and recognising the valuable contribution older people make to society as workers, volunteers and, as you have said, grandparents. We have now had nine years of implementing our internationally-recognised strategy for older people. The Welsh Government has done much to tackle age discrimination and upheld the rights of older people in Wales through our strategy. Also,

Mae egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a chonfensiwn Madrid eisoes wedi'u derbyn yn eang yng Nghymru, ac rydym wedi gwneud llawer i'w cofleidio a'u gweithredu drwy ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Yn wir, Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y DU oedd ag egwyddorion y Cenhedloedd Unedig wedi'u hymgorffori ynddi. Mae cydraddoldeb yn greiddiol i Lywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol er mwyn adeiladu cymdeithas deg a chynhwysol. Mae hefyd o fudd i bawb ein bod yn sicrhau ein bod yn manteisio ar dalentau ein holl ddinasyddion. Mae symud ymlaen yn golygu rhoi diwedd ar yr ystrydebu hen ffasiwn o bobl oherwydd eu hoed a chydnabod y cyfraniad gwerthfawr sydd gan bobl hŷn i wneud i'r gymdeithas fel gweithwyr, gwirfoddolwyr ac, fel y dywedoch, teidiau a neiniau. Ers naw mlynedd bellach, rydym wedi bod yn gweithredu ein strategaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer pobl hŷn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer i

the creation of the post of commissioner for older people, the first of its type in the world, is significant in this respect.

fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran ac wedi cynnal hawliau pobl hŷn yng Nghymru trwy ein strategaeth. Mae creu swydd y comisiynydd pobl hŷn, y cyntaf o'i bath yn y byd, yn arwyddocaol yn hynny o beth.

An example of our policies that have helped safeguard the rights of older people is the Measure on fairer charging for non-residential care and the £50 maximum weekly charge that resulted from that. Our Dignity in Care programme over the last three years is another example. You are aware, as you have said, that I made an important announcement on 18 October about strengthening the law around protecting adults who are at risk, including older people. The forthcoming social services Bill will provide the vehicle to take forward these important, new protections in statute. You know that I am committed to setting up adult protection boards on the local health board footprints by 1 April 2014. Of course, we will consider in that the power of investigation and intervention, possibly. We have already legislated in Wales on the rights of carers. As we develop and consult on stage three of our strategy, we are keen to continue leading the way in championing the development of older people's rights and exploring how we might progress this agenda in a devolved context. There is already a wide-ranging debate under way about strengthening the protection of older people's rights and on whether a convention on the rights of older people should be created rather than us just having the United Nation's principles that we currently have.

Enghraifft o'n polisïau sydd wedi helpu diogelu hawliau pobl hŷn yw'r Mesur ynghylch codi tâl tecach ar gyfer gofal yn y cartref a'r uchafswm tâl wythnosol o £50 a ddaeth yn sgîl hynny. Mae ein rhaglen Urddas mewn Gofal dros y tair blynedd diwethaf yn enghraifft arall. Rydych yn ymwybodol, fel y dywedoch, fy mod wedi gwneud cyhoeddiad pwysig ar 18 Hydref ynghylch cryfhau'r gyfraith mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sydd mewn perygl, gan gynnwys pobl hŷn. Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol sydd ar y gweill yn fodd o symud ymlaen â'r amddiffyniadau statudol pwysig hyn. Rydych yn gwybod fy mod wedi ymrwymo i sefydlu byrddau amddiffyn oedolion yn olion traed y byrddau iechyd lleol erbyn 1 Ebrill 2014. Wrth gwrs, fel rhan o'r broses honno byddwn yn ystyried grymoedd ymchwilio ac ymyrryd, o bosibl. Rydym eisoes wedi deddfu yng Nghymru ar hawliau gofalwyr. Wrth inni ddatblygu ac ymgynghori ar gam tri ein strategaeth, rydym yn awyddus i barhau i arwain y ffordd wrth hyrwyddo datblygu hawliau pobl hŷn ac archwilio sut y gallwn symud ymlaen â'r agenda hwn mewn cyd-destun datganoledig. Mae trafodaeth eang eisoes ar y gweill ynghylch cryfhau amddiffyniadau hawliau pobl hŷn a'r cwestiwn a ddylai confensiwn ar hawliau pobl hŷn gael ei greu yn hytrach nag egwyddorion y Cenhedloedd Unedig sydd gennym ar hyn o bryd.

**Darren Millar:** I welcome what you have said in the debate so far. I am committed to wanting to see a UN convention on the rights of older people. However, I do not think that that precludes us from being able to incorporate the existing principles for older persons within Welsh law. I would be grateful to receive your comments on that.

**Darren Millar:** Croesawaf yr hyn rydych wedi'i ddweud yn y ddadl hyd yn hyn. Rwyf wedi ymrwymo i weld confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig ar hawliau i bobl hŷn. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod hynny'n ein hatal rhag gallu ymgorffori'r egwyddorion presennol ar gyfer pobl hŷn o fewn cyfraith Cymru. Byddwn yn ddiolchgar o glywed eich sylwadau ar hynny.

**Gwenda Thomas:** Indeed. I move now to a challenge for all of us in this Chamber, but I take the point about using the United Nations principles, which we have done, of course, in

**Gwenda Thomas:** Yn wir. Symudaf yn awr at her i bob un ohonom yn y Siambr hon, ond rwyf yn derbyn y pwynt ynghylch defnyddio egwyddorion y Cenhedloedd Unedig,

the appointment of the older people's commissioner and also in our thinking in 'Sustainable Social Services'. A convention is the subject of an ongoing United Nations working group and the subject of active debate in the age sector across the UK. I am keen that we should explore the opportunities that this would afford us and how our strategy for older people might embrace these important issues. As you have said, the benefits of a convention on older people's rights, as we already have for children and young people, are evident. However, the case has to be articulated and agreed on the basis of consensus and collaboration. Awareness and understanding of the need for a convention is an important first step.

rhywbeth rydym wedi'i wneud, wrth gwrs, wrth benodi'r comisiynydd pobl hŷn a hefyd yn y syniadau y tu ôl i'r 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'. Mae confensiwn yn destun gwaith parhaol gan grŵp gorchwyl y Cenhedloedd Unedig ac yn destun trafodaeth fywiog yn y sector oedran ar draws y DU. Rwy'n awyddus y dylem edrych ar y cyfleoedd y byddai hyn yn ei roi inni a sut y gallai ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn gynnwys y materion pwysig hyn. Fel y dywedoch, mae manteision confensiwn ar hawliau pobl hŷn, fel sydd gennym eisoes ar gyfer plant a phobl ifanc, yn amlwg. Fodd bynnag, rhaid mynegi a chytuno ar yr achos ar sail consensws a chydweithio. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch yr angen am gonfensiwn yn gam cyntaf pwysig.

There will also be other opportunities for us to examine older people's rights. For example, the social services Bill will provide, for the first time, a coherent Welsh legal framework for social services, ensuring a strong voice and real control for people, whatever their age. It will give us the legislation that we need to take forward our commitments made in 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' and there will, of course, be a wide-ranging public consultation on this.

Bydd hefyd cyfleoedd eraill inni ystyried hawliau pobl hŷn. Er enghraifft, bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn darparu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol cydlynol i Gymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau llais cryf a rheolaeth gwirioneddol i bobl, beth bynnag eu hoedran. Bydd yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen arnom i ddatblygu'r ymrwymiadau a wnaed yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' ac fe fydd, wrth gwrs, ymgynghoriad cyhoeddus eang ar hyn.

The Equality Act 2010, which came into effect on 6 April last year, places new specific duties on the public sector in Wales. Those include the elimination of discrimination, harassment and victimisation, the advancement of equality of opportunity, and the fostering of good relations between different groups. It also includes a ban on age discrimination in the provision of services, but there are some exceptions to that. I am sure that you would share my disappointment in any delay in, or change to, plans to implement the broader principles of the Act that impact on older people.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill y llynedd, yn rhoi dyletswyddau penodol newydd ar y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol. Mae hefyd yn cynnwys gwaharddiad ar wahaniaethu ar sail oedran wrth ddarparu gwasanaethau, ond mae rhai eithriadau i hynny. Rwyf yn siŵr y byddech yn rhannu fy siom oherwydd unrhyw oedi yn y cynlluniau i roi egwyddorion ehangach y Ddeddf sy'n effeithio ar bobl hŷn ar waith, neu unrhyw newidiadau a wneir i'r cynlluniau hyn.

Of course, the United Nations principles and any convention that may follow would cover a wider range of non-devolved issues as well. As any United Nations convention can only be formally adopted at UK level, I would be

Wrth gwrs, byddai egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, ac unrhyw gonfensiwn a allai ddilyn, yn cwmpasu ystod ehangach o faterion sydd heb eu datganoli. O ystyried mai dim ond ar lefel y Du y gellir

very keen to discuss with the Conservatives—and all political parties here—the scope for influencing the coalition Government in Westminster to support movement towards a convention on older people's rights. I would welcome your comments as to whether you feel inclined to support me in that.

mabwysiadu unrhyw gonfensiwn yn ffurfiol, byddwn yn awyddus iawn i drafod â'r Ceidwadwyr—a phob plaid wleidyddol yma—y cwmpas ar gyfer dylanwadu ar y Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan i gefnogi symudiad tuag at gonfensiwn ar hawliau pobl hŷn. Byddwn yn croesawu eich sylwadau o ran a ydych yn teimlo y gallwch fy nghefnogi yn hynny o beth.

Demographic changes in Wales will mean an unprecedented increase in both the number of older people and the proportion of older people in the population over the next 15 years. That must not be seen negatively, but should be celebrated and embraced. Older people should have the same rights as everyone else; I agree with Darren Millar on that. The creation of a United Nations convention could, therefore, play an important role in protecting and enhancing the rights of older people. I therefore welcome this debate and would be pleased if we could arrange a dialogue about the way forward.

Bydd newidiadau demograffig yng Nghymru yn golygu cynnydd digynsail yn niferoedd y bobl hŷn ac yn y gyfran o bobl hŷn yn y boblogaeth dros y 15 mlynedd nesaf. Ni ddylid gweld y cynnydd hwnnw fel peth negyddol, ond rhywbeth i'w ddathlu a'i groesawu. Dylai pobl hŷn gael yr un hawliau â phawb arall; rwyf yn cytuno â Darren Millar ar hynny. Gallai creu confensiwn y Cenhedloedd Unedig, felly, chwarae rhan bwysig o ran diogelu a gwella hawliau pobl hŷn. Rwyf felly'n croesawu'r drafodaeth hon a buaswn yn falch pe gallem drefnu trafodaeth am y ffordd ymlaen.

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's proceedings.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 p.m.*
*The meeting ended at 6.25 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)

Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank